

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

14/01/2015

Cynnwys Contents

[Cwestiynau I'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)
[Questions to the Minister for Education and Skills](#)

[Cwestiynau I Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)
[Questions to the Minister for Economy, Science and Transport](#)

[Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau](#)
[Motion to Elect Members to Committees](#)

[Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyflogau Uwch-reolwyr](#)
[Debate on the Public Accounts Committee Report on Senior Management Pay](#)

[Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Menywod](#)
[Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): Women](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Busnesau](#)
[Welsh Conservatives Debate: Businesses](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Pris Glo—Effaith Glo Brig yn Farteg a'r Goblygiadau I Gymunedau y tu hwnt I'r Ardal](#)
[Short Debate: The Price of Coal—The Impact of Opencast in Varteg and the Implications for Communities Beyond](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **Cwestiynau I'r Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Questions to the Minister for Education and Skills

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first item this afternoon is questions to the Minister for Education and Skills.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Diogelu Lles Athrawon

The Welfare of Teachers

13:30 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gefnogaeth sydd ar gael i helpu i ddiogelu lles athrawon yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0509(ESK)

1. Will the Minister outline what support is in place to help safeguard the welfare of teachers in North Wales? OAQ(4)0509(ESK)

13:30 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

I thank the Member for north Wales. Employers have a general duty of care to ensure the health and safety and welfare of their employees. The schoolteachers pay and conditions document also makes provision for teachers' work-life balance. I understand that local authorities also provide a health and counselling service, which is available to teachers.

Diolch i'r Aelod dros ogledd Cymru. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gofal gyffredinol i sicrhau iechyd a diogelwch a lles eu gweithwyr. Mae dogfen cyflog ac amodau athrawon ysgol hefyd yn darparu ar gyfer cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith athrawon. Rwy'n deall bod awdurdodau lleol hefyd yn darparu gwasanaeth iechyd a chwrsela, sydd ar gael i athrawon.

13:31 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful for that, Minister. The figures released through the use of the Freedom of Information Act 2000 have shown that councils in north Wales, particularly in Gwynedd and Conwy, have seen a huge increase in attacks on teachers at school, in particular with primary school-age children accounting for more of the incidents than those in secondary school. Between 2011-12 and 2013-14, in Gwynedd alone, five pupils were excluded for a total of 382 days for such attacks. Will you join me in condemning attacks on teachers, and will you also join me in looking at what action can be taken where parents join in on those attacks, because some of these incidents have included parents, who are obviously adults, rather than primary children, who may be below the age of criminal responsibility, to see what more can be done to prevent this alarming increase?

Diolch am hynny, Weinidog. Mae'r ffigurau a ryddhawyd drwy ddefnyddio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wedi dangos bod cynghorau yn y gogledd, yn enwedig yng Ngwynedd a Chonwy, wedi gweld cynnydd aruthrol mewn ymosodiadau ar athrawon yn yr ysgol, yn enwedig gyda phlant oedran ysgol gynradd yn gyfrifol am fwy o'r digwyddiadau na phlant ysgol uwchradd. Rhwng 2011-12 a 2013-14, yng Ngwynedd yn unig, gwaharddwyd pum disgybl am gyfanswm o 382 diwrnod am ymosodiadau o'r fath. A wnewch chi ymuno â mi i gondemnio ymosodiadau ar athrawon, ac a wnewch chi hefyd ymuno â mi i edrych ar ba gamau y gellir eu cymryd pan fo rhieni yn ymuno yn yr ymosodiadau hynny, gan fod rhai o'r digwyddiadau hyn wedi cynnwys rhieni, sy'n amlwg yn oedolion, yn hytrach na phlant cynradd, a allai fod o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, i weld beth yn fwy y gellir ei wneud i atal y cynnydd brawychus hwn?

13:32 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course I will join with the Member in terms of condemnation of any such behaviour that threatens the safety of our teaching professionals. I am not aware of the specific statistics or reports that she mentions. I would ask if she could supply me with those statistics and details and I will undertake to take a specific look at whether we have a specific problem in north Wales in this regard.

Wrth gwrs fy mod yn ymuno â'r Aelod o ran condemnio unrhyw ymddygiad sy'n bygwth diogelwch ein gweithwyr addysg proffesiynol. Nid wyf yn ymwybodol o'r ystadegau na'r adroddiadau penodol y mae'n eu crybwyll. Hoffwn ofyn a fyddai modd iddi roi'r ystadegau a'r manylion hynny i mi a byddaf yn edrych yn benodol i weld a oes gennym broblem benodol yng ngogledd Cymru yn hyn o beth.

Dysgu fel Gyrfa

Teaching as a Career

13:32 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo dysgu fel gyrfa? OAQ(4)0516(ESK)

2. What steps is the Welsh Government taking to promote teaching as a career? OAQ(4)0516(ESK)

13:32 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for Islwyn. We continue to encourage the very best people, with the right qualifications, skills and personal qualities, to consider teaching as a career. On the seventh of this month, I announced a package of financial incentives aimed at attracting graduates with the highest levels of subject specialism onto postgraduate teacher training courses in 2015-16.

Diolch i'r Aelod dros Islwyn. Rydym yn parhau i annog y bobl orau un, sydd â'r cymwysterau, y sgiliau a'r rhinweddau personol cywir, i ystyried addysgu fel gyrfa. Ar y seithfed o'r mis hwn, cyhoeddais becyn o gymelliadau ariannol gyda'r nod o ddenu graddedigion â'r lefelau uchaf o arbenigedd pwnc i fynd ar gyrsiau hyfforddi athrawon ôl-raddedig yn 2015-16.

13:33 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. Research consistently shows that the single most important school-based factor to determine how well children achieve is the quality of the teaching. We need to attract good teachers into the profession and must ensure there's access to high-quality professional development so that we can raise the standards in education and improve learning for all. What action is the Welsh Government taking to support a culture of continuous professional development in our schools and colleges?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Mae ymchwil yn dangos yn gyson mai'r ffactor pwysicaf mewn ysgolion i bennu pa mor dda y mae plant yn cyflawni yw ansawdd yr addysgu. Mae angen inni ddenu athrawon da i'r proffesiwn ac mae'n rhaid inni sicrhau bod datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel ar gael er mwyn inni godi safonau addysg a gwella dysgu i bawb. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn ein hysgolion a'n colegau?

13:33

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, Presiding Officer, Gwyn Price is quite right to emphasise the importance of these points. As I say, we have incentivised entry into teacher training, but we will be going much further. Members will be aware that next month the results of John Furlong's review into our teacher training facilities will become public. That, I anticipate, will signal considerable change in terms of how we train our teachers at the beginning of their careers, but, of course, many teachers are already mid-career, and that is where the new deal for the education workforce will come in, which will be co-constructed with the workforce and will underscore an entitlement to quality continuing professional development, working with the education workforce council and the trade unions, and move away from the one-off training days that we are used to, so that we have structured professional development throughout a teacher's career.

Wel, wrth gwrs, Lywydd, mae Gwyn Price yn hollol iawn i bwysleisio pa mor bwysig yw'r pwyntiau hyn. Fel rwy'n ei ddweud, rydym wedi creu cymelliadau i ddenu pobl i ddilyn hyfforddiant athrawon, ond byddwn yn mynd yn llawer pellach. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol y bydd canlyniadau adolygiad John Furlong o'n cyfleusterau hyfforddi athrawon yn dod yn gyhoeddus fis nesaf. Rwy'n rhagweld y bydd hynny'n golygu newid sylweddol o ran sut rydym yn hyfforddi ein hathrawon ar ddechrau eu gyrfaedd, ond wrth gwrs, mae llawer o athrawon eisoes ar ganol eu gyrfaedd, a dyna lle y daw'r fargen newydd ar gyfer y gweithlu addysg yn weithredol. Caiff ei llunio ar y cyd gyda'r gweithlu a bydd yn tanlinellu hawl i ddatblygiad proffesiynol parhaus o safon, gan weithio gyda chyingor y gweithlu addysg a'r undebau llafur. Bydd yn symud i ffwrdd oddi wrth y diwrnodau hyfforddi unigol rydym wedi arfer â hwy, i ni gael datblygiad proffesiynol strwythuredig drwy gydol gyrfa athro.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, improving working conditions is vital if we are to attract people to the teaching profession. The Conservative-led Government in Westminster has launched the workload challenge to give teachers a chance to have their say on how to reduce unnecessary and unproductive workloads in England. What is the Minister doing to consult teachers in Wales on ways to reduce their workload?

Weinidog, mae gwella amodau gwaith yn hanfodol os ydym am ddenu pobl i'r proffesiwn addysgu. Mae'r Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan wedi lansio'r her llwyth gwaith i roi cyfle i athrawon ddweud eu dweud ar sut i leihau llwythi gwaith diangen ac anghynhyrchiol yn Lloegr. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i ymgynghori ag athrawon yng Nghymru ynglŷn â ffyrdd o leihau eu llwyth gwaith?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, the bulk of these issues, Presiding Officer, are non-devolved. Should pay and conditions of teachers become devolved, then I would be in a better position to answer the Member's question.

Wel, wrth gwrs, nid yw'r rhan fwyaf o'r materion hyn wedi eu datganoli, Lywydd. Pe bai cyflog ac amodau athrawon yn cael eu datganoli, yna byddwn mewn sefyllfa well i ateb cwestiwn yr Aelod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn dilyn ymlaen o'r cwestiwn cyntaf, mewn difri, rydym yn gwybod am y broblem o ddiffyg athrawon sy'n arbenigo mewn rhai pynciau. Rwy'n meddwl, er enghraifft, mai dim ond 51% o athrawon ffiseg sydd â gradd yn y pwnc. Rydych yn dweud eich bod chi eisiau helpu athrawon i ddatblygu eu gyrfaedd, er mwyn cadw athrawon da presennol, yn ogystal â denu rhai newydd, ond pa fesurau yn benodol ydych chi am eu cymryd er mwyn sicrhau bod yna ddilyniant gyrfa i'r athrawon hynny sy'n arbenigo yn y meysydd sy'n flaenoriaeth, a lle mae yna brinder mawr?

Following on from the initial question, if truth be told, we are aware of the problem of a shortage of teachers who specialise in certain subjects. I think, for example, only 51% of physics teachers have a degree in that subject. You do say that you want to assist teachers to develop their careers so that good teachers can be retained and we can attract new teachers, but what specific measures are you going to put in place to ensure that there is continuity of career for those teachers who specialise in those areas that are a priority and where there is a great shortage?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as I have mentioned, we do incentivise entry into the profession for those shortage subjects, which are well known. I think, since the statistics the Member mentions—which I don't dispute—we are seeing a shift, I believe, in terms of, not just the numbers, but the quality of entrants, in terms of their degree achievements. In 2014-15, in maths, chemistry and physics, we have seen now an entry where near to a third of students on post-graduate teacher training don't just hold a specialist degree, but hold a first-class specialist degree, in those subjects.

Wel, fel y crybwyllais, rydym yn cymhell pobl i'r proffesiwn ar gyfer y pynciau â phrinder, sy'n dra chyfarwydd. Ers yr ystadegau y mae'r Aelod yn eu crybwyll-nad wyf yn anghytuno yn eu cylchryw'n credu ein bod yn gweld newid nid yn unig o ran y rhifau, ond o ran ansawdd yr ymgeiswyr, o ran eu cyflawniadau gradd. Yn 2014-15, mewn mathemateg, cemeg a ffiseg, rydym bellach wedi gweld bod bron i draean y myfyrwyr a gafodd eu derbyn i hyfforddiant athrawon ôl-raddedig yn meddu nid yn unig ar radd arbenigol, ond ar radd arbenigol ddosbarth cyntaf yn y pynciau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae yna gyfrifoldeb o dan y model cenedlaethol ar gyfer consortia rhanbarthol iddyn nhw arwain ar hyfforddiant arweinwyr o fewn y proffesiwn. Gan ystyried rhai o'r feiriadaeth sydd wedi bod ar y consortia, a ydych chi'n ymwybodol bod pob consortia erbyn hyn wedi cynllunio ar gyfer yr hyfforddiant arweinwyr yma, a hefyd eu bod nhw'n darparu cefnogaeth mentora ar gyfer penaethiaid newydd yn y proffesiwn?

Minister, there is a responsibility under the national model for regional consortia for them to lead on leaders' training within the profession. Considering some of the criticism of the consortia, are you certain that every consortium has now actually planned for this leadership training, and that they also provide mentoring support for new heads within the profession?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am content that things are greatly improved, yes. I have met face to face with each one—with each leadership team of each of the four consortia, and I am satisfied that the issues are recognised by them, and that they are working conscientiously to ameliorate the position. There are issues, though, structural issues, which have been with us for quite some time, I think. We have a clear path through the National Professional Qualification for Headship—at least we all understand what that is—but there is an issue, I believe, that we will need to move to correct in terms of middle leadership within schools, particularly the jump from classroom teacher to middle leader, and then on to headship. I think those leaps are too great at the moment, and there are not enough people with enough support and confidence to be able to make that move. So, that will form part of the new deal negotiations with the workforce, in terms of making sure we have better structures around that progression.

Rwy'n fodlon fod pethau wedi gwella'n fawr, ydw. Rwyf wedi cyfarfod wyneb yn wyneb â phob un—gyda thimau arwain pob un o'r pedwar consortiwm, ac rwy'n fodlon eu bod yn cydnabod y materion, a'u bod yn gweithio'n gydwybodol i liniaru'r sefyllfa. Mae yna broblemau, fodd bynnag, materion strwythurol sydd wedi bod gyda ni ers peth amser, rwy'n meddwl. Mae gennym lwybr clir drwy'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth—o leiaf rydym i gyd yn deall beth yw hwnnw—ond rwy'n credu fod problem y bydd angen i ni geisio'i chywiro o ran arweinyddiaeth ganol mewn ysgolion, yn enwedig y naid o fod yn athro dosbarth i arweinyddiaeth ganol, ac yna ymlaen i brifathrawiaeth. Rwy'n credu bod y neidiau hynny'n rhy fawr ar hyn o bryd, ac nad oes digon o bobl â digon o gefnogaeth a hyder i allu gwneud y naid. Felly, bydd hynny'n rhan o drafodaethau'r fargen newydd gyda'r gweithlu, o ran sicrhau bod gennym strwythurau gwell yn gysylltiedig â'r dilyniant hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:38

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party spokespeople. First this afternoon is the Welsh Conservative spokesman, Angela Burns.

Rydym bellach yn symud ymlaen at y cwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae llyfarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Angela Burns.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Presiding Officer. Good afternoon, Minister. As you'll be aware, there's been a cut in the 2015-16 education and skills budget, and, because of that, the budget allocated to further education has decreased by some 6.14%, 50% of which is derived from part-time training provision. The reality is that a college such as Pembrokeshire College will see its budget cut by some £800,000, or 7.8%. This will affect its ability to provide part-time courses for employed people who wish to develop skills, to adapt and flourish in what we hope to be a dynamic work environment. Minister, will you please explain to me why, given how crucial this is to helping us drive our economy forward, you think that part-time provision should be cut to this extent, given the overwhelming benefit, and the effect it would have on the college?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Prynhawn da, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae toriad wedi bod yng nghyllideb addysg a sgiliau 2015-16, ac oherwydd hynny, mae'r gyllideb a ddyrannwyd i addysg bellach wedi gostwng tua 6.14%, gyda 50% o hynny'n deillio o'r ddarpariaeth hyfforddiant rhan-amser. Y realiti yw y bydd coleg megis Coleg Sir Benfro yn colli £800,000 o'i gyllideb, neu 7.8%. Bydd hyn yn effeithio ar ei allu i ddarparu cyrsiau rhan-amser ar gyfer pobl gyflogedig sy'n dymuno datblygu sgiliau, i addasu ac i ffynnu yn yr hyn y gobeithiwn y bydd yn amgylchedd gwaith deinamig. Os gwelwch yn dda, Weinidog, o ystyried pa mor hanfodol yw hyn i'n helpu i ysgogi ein heconomi, a wnewch chi esbonio i mi pam rydych yn meddwl y dylai'r ddarpariaeth ran-amser gael ei thorri i'r graddau hyn, o ystyried y budd eithriadol, a'r effaith y byddai'n ei chael ar y coleg?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:39 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well of course it shouldn't be cut, Presiding Officer—it should not be cut, but this is the reality of the situation handed to us by Angela Burns's Conservative party. Even given those cuts, it is true to say—and these are UK Government figures—that spending per head in education in Wales remains 8% above the spend in England. We are still managing to protect—
- Wel, wrth gwrs, ni ddylid ei thorri, Lywydd—ni ddylid ei thorri, ond dyma realiti'r sefyllfa a roddwyd i ni gan blaid Geidwadol Angela Burns. Hyd yn oed o ystyried y toriadau hynny, mae'n wir dweud—a ffigurau Llywodraeth y DU yw'r rhain—fod gwariant y pen mewn addysg yng Nghymru yn parhau i fod 8% yn uwch na'r gwariant yn Lloegr. Rydym yn dal i lwyddo i ddiogelu—
- 13:39 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rubbish.
- Sothach.
- 13:39 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- These are your Government's figures, your Government's figures—8% per head above those figures in England. There is bound to be harm done and I appeal to those people who care about Pembrokeshire College to care very deeply about what they vote for in the election in May. You can vote for more austerity if you want to, but these are the results of those decisions.
- Ffigurau eich Llywodraeth chi yw'r rhain, ffigurau eich Llywodraeth chi—8% y pen yn uwch na ffigurau Lloegr. Mae'n sicr y bydd niwed yn cael ei wneud ac rwy'n apelio ar y bobl sy'n malio am Goleg Sir Benfro i falio'n fawr iawn am yr hyn y byddant yn pleidleisio drosto yn yr etholiad ym mis Mai. Gallwch bleidleisio am fwy o galedi os dymunwch, ond dyma yw canlyniadau'r penderfyniadau hynny.
- 13:40 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is such a relief, I can assure you, Minister, that the people of Pembrokeshire have the ability to add up and they understand that, over the past decades of the Labour Government, the money was squandered here in Wales, because the sums involved are actually very small, and we're talking about trying to turn our economy around and make it grow, and education has got to be an absolutely key part of that, and a further key part of that is the sector's priority fund. Now this college and other colleges in Wales have got to make these plans, going forward. Yes, they are having funds cut and yet the Welsh Government is not telling them what moneys they are going to have, so they cannot do their forward planning. This affects job retention and job planning as well as course planning. Minister, when are you going to let colleges throughout Wales know exactly what sums of money they will be having in September 2015?
- Mae'n gymaint o ryddhad, gallaf eich sicrhau, Weinidog, fod gan bobl Sir Benfro'r gallu i roi dau a dau at ei gilydd ac yn deall bod yr arian, dros ddegawdau diwethaf y Llywodraeth Lafur, wedi ei wastraffu yma yng Nghymru, oherwydd mae'r symiau dan sylw mewn gwirionedd yn fach iawn. Rydym yn sôn am geisio gwyrddroi ein heconomi a gwneud iddi dyfu, ac mae'n rhaid i addysg fod yn rhan gwbl allweddol o hynny, a rhan allweddol arall o hynny yw cronfa blaenoriaeth y sector. Yn awr, mae'n rhaid i'r coleg hwn a cholegau eraill yng Nghymru wneud y cynlluniau hyn ar gyfer y dyfodol. Ydy, mae eu cyllid yn cael ei dorri ac eto nid yw Llywodraeth Cymru yn dweud wrthynt pa arian y maent yn mynd i'w gael, sy'n golygu na allant flaengynllunio. Mae hyn yn effeithio ar gadw swyddi a chynllunio swyddi, yn ogystal â chynllunio cyrsiau. Weinidog, pryd ydych chi am adael i golegau ledled Cymru wybod yn union pa symiau o arian y byddant yn eu cael ym mis Medi 2015?
- 13:41 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, Presiding Officer, I work very closely with Colleges Wales as well as the teaching unions within the FE sector and we keep in close contact, recognising the pressures that the UK Government has transferred over to us and, in turn, has transferred over to the FE sector here in Wales. I am working hard to ameliorate these pressures as best I can, but it remains the case that given the stupendous budget cuts that have been handed to us by the UK Government in Westminster, these pressures are very real.
- Wel, wrth gwrs, Lywydd, rwy'n gweithio'n agos iawn gyda Colegau Cymru yn ogystal ag undebau'r athrawon yn y sector addysg bellach ac rydym yn cadw mewn cysylltiad agos, gan gydnabod y pwysau y mae Llywodraeth y DU wedi ei drosglwyddo i ni ac yn ei dro, wedi ei drosglwyddo i'r sector addysg bellach yma yng Nghymru. Rwy'n gweithio'n galed i liniaru'r pwysau gystal ag y gallaf, ond o ystyried y toriadau enfawr yn y gyllideb a roddwyd i ni gan Lywodraeth y DU yn San Steffan, mae'r pwysau'n parhau i fod yn real iawn.
- 13:41 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, Minister, may I suggest—
- Wel, Weinidog, a gaf i awgrymu—
- 13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A third concise question.
- Trydydd cwestiwn cryno.

13:41	Angela Burns Bywgraffiad Biography	Yes.	le.	Senedd.tv Fideo Video
13:41	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Thank you.	Diolch yn fawr.	Senedd.tv Fideo Video
13:41	Angela Burns Bywgraffiad Biography	Minister, may I suggest to you that rather than whingeing about these budget cuts, why don't you do something about the £60 million-worth of reserves languishing in school accounts and local authority accounts? This has been allowed to build up over years. These are your figures, not mine, produced by the Welsh Government; £60 million into education today would make a vast difference. Why don't you do something about gripping that problem so that we can have money back into education?	Weinidog, a gaf i awgrymu, yn hytrach na swnian am y toriadau hyn yn y gyllideb, pam na wnewch chi rywbeth ynglŷn â'r £60 miliwn o arian wrth gefn sy'n pesgi yng nghyfrifon ysgolion a chyfrifon awdurdodau lleol? Mae hwn wedi cael llonydd i Gronni dros y blynyddoedd. Eich ffigurau chi yw'r rhain, nid fy rhai i, wedi eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru; byddai rhoi £60 miliwn i mewn i addysg heddiw yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Pam na wnewch chi rywbeth i gael gafael ar y broblem honno fel y gallwn gael arian yn ôl mewn i addysg?	Senedd.tv Fideo Video
13:42	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Well, of course, Angela Burns knows full well that I do not manage individual school budgets and I have sent signals through the system that, if ever there was a rainy-day fund being held by a school, well, the rainy day has arrived and it is being delivered courtesy of the coalition Government at Westminster.	Wel, wrth gwrs, mae Angela Burns yn gwybod yn iawn nad wyf yn rheoli cyllidebau ysgolion unigol ac rwyf wedi anfon arwyddion drwy'r system yn dweud os yw ysgol yn cadw cronfa ddiwrnod glawog, wel, mae'r diwrnod glawog wedi cyrraedd ac mae'n cael ei ddarparu drwy garedigrwydd y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan.	Senedd.tv Fideo Video
13:42	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.	Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.	Senedd.tv Fideo Video
13:42	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Diolch, Lywydd. Weinidog, un o amcanion y cyfnod sylfaen oedd cau'r bwlch rhwng y disgyblion lleiaf a mwyaf difreintiedig. Serch hynny, mae'r gwerthusiad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn datgan nad yw'r anghyfartaledd hwn wedi gostwng o gwbl yn sgil cyflwyno'r cyfnod sylfaen. Pam felly?	Minister, one of the objectives of the foundation phase was to close that gap between the least and most deprived pupils. However, the evaluation published last week states that that inequality has not reduced at all in light of the introduction of the foundation phase. Why?	Senedd.tv Fideo Video
13:43	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Well, I personally don't see that claims, whenever they were made, about the foundation phase in and of itself closing an inequality gap were necessarily grounded on evidence. The foundation phase is, of course, a way of working that is very different. The report that you mentioned does mention very positive aspects: attendance is up through the foundation phase, achievement of boys is rising—boys particularly seem to thrive with the foundation phase—and we know that those very young children with special educational needs seem to do better under the foundation phase regime. This does not lessen my determination to close that inequality gap between the least well-off and their peers and the Member will be well aware of the efforts the Welsh Government is making in that regard.	Wel, yn bersonol nid wyf yn gweld bod honiadau, pryd bynnag y cawsant eu gwneud, am y cyfnod sylfaen ynddo'i hun yn cau bwlch anghydraddoldeb o reidrydd yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r cyfnod sylfaen, wrth gwrs, yn ffordd wahanol iawn o weithio. Mae'r adroddiad a grybwyllwyd gennych yn sôn am agweddau cadarnhaol iawn: mae presenoldeb yn uwch drwy'r cyfnod sylfaen, mae cyflawniad bechgyn yn codi-mae'n ymddangos bod bechgyn yn arbennig yn ffynnu gyda'r cyfnod sylfaena gwyddom fod plant ifanc iawn ag anghenion addysgol arbennig i'w gweld yn gwneud yn well o dan drefn y cyfnod sylfaen. Nid yw hyn yn lleihau fy mhenderfyniad i gau'r bwlch anghydraddoldeb rhwng y tlotaf a'u cyfoedion a bydd yr Aelod yn ymwybodol iawn o ymdrechion Llywodraeth Cymru yn hynny o beth.	Senedd.tv Fideo Video

13:44

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, gan fod cau'r bwllch yn un o'ch tair prif flaenoriaeth ar gyfer y gyfundrefn addysg yng Nghymru, os na ddechreuwn ni yn ystod y cyfnod sylfaen, pryd a wnawn ni ddechrau, Weinidog? Yn ôl y gwerthusiad, mae'n ddigon bosib fod effaith y cyfnod sylfaen yn cael ei lastwreiddio gan yr amrywiaeth yn y dosbarth ei hunan, ac, yn yr un modd, canfyddiad adroddiad Estyn ddoe ar y fframwaith rhifedd a llythrennedd oedd nad oedd gwelliant yn y targedau hynny ers 2012. Un o'r rhesymau eraill eto a rhoddwyd am hynny oedd bod gweithredu'r fframwaith yn her i ysgolion. Felly, rwy'n gofyn eto: pa wersi sydd gennych i ddysgu o'r adroddiadau hyn sy'n dangos nad yw gweithredu eich prif amcanion addysgol ac ysgolion yn gweithredu?

Well, since closing that gap is one of your three main priorities for the education system in Wales, if we do not start at the foundation phase, when will we start, Minister? According to the evaluation, it's possible that the impact of the foundation phase is being diluted by the variations within classrooms themselves, and, in the same way, the conclusion of the Estyn report yesterday on the literacy and numeracy framework was that there had been no improvements in those targets since 2012. One of the other reasons again given for that was that the implementation of the framework was a challenge for schools. So, I ask you once again: what lessons can you learn from these reports, which demonstrate that the implementation of your main educational and schools objectives are not working?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, the issues here apply to children throughout their school careers, and the issues surrounding our efforts in terms of closing the inequality gap—the Member's quite right—apply to the very youngest children as they would apply to teenagers too, and that's why we've extended the pupil deprivation grant, for instance, to younger age groups. That's why I'm working closely with the expanding Flying Start programme, overseen by my colleague, the Deputy Minister, to ensure good transition between Flying Start and the foundation phase, and that's why we are introducing and now consolidating our literacy and numeracy framework, and emphasising the needs of those more deprived young people over and above everything else, other than literacy and numeracy themselves.

Wel, wrth gwrs, mae'r materion hyn yn berthnasol i blant drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, ac mae'r materion sy'n ymwneud â'n hymdrechion o ran cau'r bwllch anghydraddoldeb—mae'r Aelod yn hollol iawn—yr un mor wir yn achos y plant ieuengaf oll ag y maent yn achos plant yn eu harddegau, a dyna pam ein bod wedi ymestyn y grant amddifadedd disgyblion, er enghraifft, i grwpiau oedran iau. Dyna pam rwy'n gweithio'n agos gyda rhaglen ehangol Dechrau'n Deg, a oruchwylir gan fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog, i sicrhau bod pontio da yn digwydd rhwng Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen, a dyna pam ein bod yn cyflwyno a bellach yn atgyfnerthu ein fframwaith llythrennedd a rhifedd, ac yn pwysleisio anghenion bobl ifanc mwy difreintiedig uwchlaw popeth arall, ac eithrio llythrennedd a rhifedd eu hunain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, there really is a pattern emerging here. Plaid Cymru supports the principles of the foundation phase, and we support putting measures in place to improve literacy and numeracy in schools, but your own Schools Challenge champion, Professor Mel Ainscow, yesterday told your conference for your school offer that some pupils are still being left behind here in Wales. Now, you have failed to deliver on your promises, and the simple question that the parents and people of Wales facing the new year must be asking is: haven't you had long enough now to show actual delivery?

Wel, Weinidog, mae patrwm yn dod i'r amlwg yma yn sicr. Mae Plaid Cymru yn cefnogi egwyddorion y cyfnod sylfaen, ac rydym yn cefnogi rhoi mesurau ar waith i wella llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion, ond dywedodd eich hyrwyddwr Her Ysgolion eich hun, yr Athro Mel Ainscow, wrth eich cynhadledd ar gyfer eich cynnig i ysgolion ddoe fod rhai disgyblion yn dal i gael eu gadael ar ôl yma yng Nghymru. Yn awr, rydych wedi methu â chyflawni eich addewidion, ac mae'n rhaid bod rhieni a phobl Cymru sy'n wynebu'r flwyddyn newydd yn gofyn y cwestiwn syml: onid ydych wedi cael digon o amser bellach i ddangos cyflawniad go iawn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course not, no, and the Member knows that he's being 'mischievous', let's say, in terms of the scale of the issue here. You don't take a decades-old issue problem like this and turn it around in 18 months. It's simply not feasible. I am confident, however, that working with experts like Professor Mel Ainscow—and it's Pupil Offer, by the way, the name of the programme—as well, of course, as Schools Challenge, we will see, in the very near future, a distinct closing of that gap as we head towards the summer.

Wel, wrth gwrs nad ydwyf, na, ac mae'r Aelod yn gwybod ei fod yn bod yn 'bryfoclyd', ddywedwn ni, o ran maint y broblem yn y fan hon. Nid ydych yn cymryd problem sy'n ddegawdau oed fel hon a'i datrys yn llwyr mewn 18 mis. Yn syml, nid yw'n bosibl. Rwy'n ffyddiog, fodd bynnag, drwy weithio gydag arbenigwyr fel yr Athro Mel Ainscow—a'r Cynnig i Ddisgyblion yw enw'r rhaglen, gyda llaw—yn ogystal â Her Ysgolion, wrth gwrs, y byddwn yn gweld, yn y dyfodol agos iawn, y bwllch hwnnw'n bendant yn cau wrth i ni anelu tuag at yr haf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Aled Roberts.

Yn olaf, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Minister, Estyn in 2012 recognised that literacy and numeracy was a major challenge, and, in fact, carried out a baseline study with regard to literacy in key stage 3. Were you surprised, therefore, with their report published yesterday that suggested that the quality and extent of the support for schools to develop pupils' literacy has been variable and has had limited impact?

Diolch, Lywydd. Weinidog, fe gydnabu Estyn yn 2012 fod llythrennedd a rhifedd yn her fawr, ac mewn gwirionedd, fe gynhalion nhw astudiaeth llinell sylfaen o llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3. A gawsoch eich synnu, felly, gan eu hadroddiad a gyhoeddwyd ddoe a awgrymai fod ansawdd a maint y gefnogaeth i ysgolion ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion wedi bod yn amrywiol ac ond wedi cael effaith gyfyngedig?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, no, I wasn't surprised, because, of course, if you have a thorough understanding of what Estyn was looking at and when, their conclusions were not surprising. Now, I don't take issue with Estyn. I think they are an extraordinarily valuable tool for all of us who care about Welsh education, but the fact of the matter was that they are reporting on a snapshot taken in schools last spring, which was just about exactly the point when the support programme phase of delivery of support for teachers themselves was actually just beginning. So, that national support programme was a phased programme, it was heading towards phase 2 last spring, when Estyn was taking a look at the system, and it had barely begun. I know from my experience of talking to headteachers and others around the country that we have moved a considerable distance since that Estyn snapshot.

Wel, na, ni chefais fy synnu, oherwydd, wrth gwrs, pe bai gennych ddealltwriaeth drylwyr o'r hyn roedd Estyn yn edrych arno a phryd, nid oedd eu casgliadau'n peri syndod. Yn awr, nid wyf yn anghytuno gydag Estyn. Rwy'n credu eu bod yn arf hynod o werthfawr i bob un ohonom sy'n malio am addysg Cymru, ond y gwir amdani oedd eu bod yn adrodd ar giplun a gymerwyd mewn ysgolion y gwanwyn diwethaf, sef fwy neu lai'r union adeg pan oedd cyfnod y rhaglen gymorth o ddarparu cefnogaeth i athrawon eu hunain yn dechrau mewn gwirionedd. Felly, roedd y rhaglen gymorth genedlaethol honno'n rhaglen a gâi ei darparu fesul cam, ac roedd yn anelu tuag at gam 2 y gwanwyn diwethaf pan oedd Estyn yn edrych ar y system, a phrin ei bod wedi dechrau. Rwy'n gwybod o fy mhrofiad o siarad â phenaethiaid ac eraill o gwmpas y wlad ein bod wedi symud cryn bellter ers y ciplun hwnnw gan Estyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We've moved a considerable distance, but can I also refer you to page 16 of the Estyn report? Given that the national model for regional working, published 12 months ago, placed the responsibility for ensuring the effective delivery of literacy and numeracy frameworks by co-ordinating and quality-assuring training and developments on the regional consortia, the report goes on to say:

'This has not happened and the responsibility for doing so has become unclear since the introduction of consortia and the implementation of the NSP. In a majority of the surveyed schools, there has been little meaningful impact from the consortia or practical support from challenge advisers. As a result, schools have been slow in understanding and implementing what is required by the LNF.'

A rather damning comment.

Rydym wedi symud cryn bellter, ond a gaf fi eich cyfeirio hefyd at dudalen 16 yn adroddiad Estyn? O ystyried bod y model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol a gyhoeddwyd 12 mis yn ôl wedi gosod y cyfrifoldeb dros sicrhau bod y fframweithiau llythrennedd a rhifedd yn cael eu cyflwyno'n effeithiol drwy gydlynw a sicrhau ansawdd hyfforddiant a datblygiadau yn y consortia rhanbarthol, â'r adroddiad ymlaen i ddweud:

'Nid yw hyn wedi digwydd ac mae'r cyfrifoldeb am wneud hyn wedi mynd yn aneglur ers cyflwyno consortia a rhoi'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol ar waith. Mewn mwyafrif o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, prin fu'r effaith ystyrlon gan y consortia neu gymorth ymarferol gan ymgynghorwyr her. O ganlyniad, mae ysgolion wedi bod yn araf yn deall a gweithredu'r hyn sy'n ofynnol gan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.'

Sylw eithaf damniol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, not if you put it in context, Presiding Officer, because, of course, the consortia had barely found their feet at the time that Estyn undertook this work, so, it is not surprising to find that the consolidated coherent working around the programme hadn't quite come together in the spring of 2014. The picture out there at the moment—and I'd encourage the Member to speak to the leadership of the consortia themselves—is now very different indeed.

Wel, nid o'i roi yn ei gyd-destun, Lywydd, oherwydd, wrth gwrs, prin oedd y consortia wedi cael cyfle i gael eu traed oddi tanynt pan oedd Estyn yn gwneud y gwaith hwn, felly, nid yw'n syndod canfod nad oedd y rhaglen wedi cael cyfle i ddod i'w lle'n gwbl gydlynol a chyfnerthedig yng ngwanwyn 2014. Mae'r darlun ar hyn o bryda byddwn yn annog yr Aelod i siarad ag arweinwyr y consortia eu hunain-yn awr yn wahanol iawn yn wir.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Well, that message is not one that I'm hearing from headteachers on the ground, Minister. I also refer you to the letter addressed to the Chair of the Children, Young People and Education Committee last week, which we received this week, which refers to Schools Challenge Cymru. It makes clear that £11.5 million is to be given to Schools Challenge Cymru advisers to work with the schools. The allocation of funding of £11.5 million is to those schools, but that includes the SCCAs' time. The consortia then have been given around £3.7 million to carry out their work to fund building capacity at the regional level. How long do the children of Wales have for these various consortia and authorities, all under the auspices of the Welsh Government, to build their capacity?

Wel, nid y neges honno yw'r un a glywaf gan benaethiaid ar lawr gwlad, Weinidog. Fe'ch cyfeiriaf hefyd at y llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yr wythnos diwethaf, a ddaeth i law yr wythnos hon, sy'n cyfeirio at Her Ysgolion Cymru. Mae'n gwneud yn glir y bod £11.5 miliwn i gael ei roi i gynghorwyr Her Ysgolion Cymru weithio gyda'r ysgolion. Mae'r dyraniad cyllid o £11.5 miliwn ar gyfer yr ysgolion hynny, ond mae hynny'n cynnwys amser cynghorwyr Her Ysgolion Cymru. Mae'r consortia felly, wedi cael tua £3.7 miliwn i gyflawni eu gwaith o ariannu meithrin gallu ar y lefel ranbarthol. Faint o amser sydd gan blant Cymru i gael eu gallu wedi'i feithrin gan y gwahanol gonsortia ac awdurdodau hyn, bob un ohonynt o dan nawdd Llywodraeth Cymru?

13:51 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Well, of course, Presiding Officer, the consortia need to be involved here. Their business is school improvement. The business of the consortia is to pool the efforts of the local authorities in their particular part of Wales, on the school improvement agenda. As the Member is aware, in terms of timescales, I laid out at the very beginning of Schools Challenge Cymru that we were anticipating a two-year window—we're now about eight months, I believe, into the programme—to show real and substantial improvement in those 40 challenged schools. I am convinced and I am confident that we are going to see that.

Wel, wrth gwrs, Lywydd, mae angen i'r consortia fod yn rhan o hyn. Eu gwaith yw gwella ysgolion. Gwaith y consortia yw cyfuno ymdrechion yr awdurdodau lleol yn eu rhan benodol hwy o Gymru, ar yr agenda gwella ysgolion. Fel y gŵyr yr Aelod, o ran amserlenni, amlinellais ar gychwyn Her Ysgolion Cymru ein bod yn rhagweld cyfnod o ddwy flynedd—rydym bellach oddeutu wyth mis, rwy'n credu, i mewn i'r rhaglen—i ddangos gwelliant sylweddol a gwirioneddol yn y 40 ysgol a oedd yn wynebu heriau. Rwy'n argyhoeddedig ac yn hyderus ein bod am weld hynny.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

We now move back to the questions on the paper. Question 3 is from William Graham.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur. Dyma gwestiwn 3 gan William Graham.

Addysg Feddygol

13:52 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. *A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cydlynu'r ddarpariaeth o addysg feddygol?*
OAQ(4)0519(ESK)

13:52 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I beg your pardon, Presiding Officer.

Medical education is delivered through higher education institutions, the postgraduate deanery, NHS trusts, local health boards, GP practices and health centres. They work together to ensure Wales has the best medical training possible and produces highly trained and skilled individuals to meet the demands of the NHS in Wales.

13:52 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for your answer, Minister. The purpose of my question, you will be aware, is that, certainly in the Aneurin Bevan Local Health Board, they've had to rely time and again on private sector ambulances because of a shortage of trained staff. This excuse now is wearing rather thin. If the education is not provided, how can we provide these jobs?

Medical Education

3. *Will the Minister outline how the Welsh Government co-ordinates the provision of medical education?*
OAQ(4)0519(ESK)

Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd.

Mae addysg feddygol yn cael ei darparu drwy sefydliadau addysg uwch, deoniaeth yr ôl-raddedigion, ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau iechyd lleol, practisau meddygon teulu a chanolfannau iechyd. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan Gymru yr hyfforddiant meddygol gorau posibl a'i bod yn cynhyrchu unigolion medrus wedi eu hyfforddi i safon uchel i gwrdd â gofynion y GIG yng Nghymru.

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Fe fyddwch yn gwybod mai pwrpas fy nghwestiwn yw eu bod, yn sicr ym Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, wedi gorfod dibynnu dro ar ôl tro ar ambiwlansys o'r sector preifat oherwydd prinder staff hyfforddedig. Mae'r esgus hwn braidd yn denau bellach. Os nad yw'r addysg yn cael ei darparu, sut y gallwn ddarparu'r swyddi hyn?

- 13:52 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Well, Presiding Officer, I'm a little confused by the Member's question, really. The supply of paramedics and ambulance staff is not a ministerial matter for me, but if he does have questions relating to my brief in terms of medical education in that regard, then I'd be happy to correspond with him on the subject.
- Wel, Lywydd, rwyf wedi fy nrysu braidd gan gwestiwn yr Aelod, mewn gwirionedd. Nid yw'r cyflenwad o barafeddygon a staff ambiwlans yn fater gweinidogol i mi, ond os oes ganddo gwestiynau sy'n ymwneud â fy mfriff o ran addysg feddygol yn hynny o beth, yna byddwn yn hapus i ohebu ag ef ar y pwnc.
- 13:53 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, many of the students who attend Cardiff Medical School are often sent on what they call their 'placements' to north Wales, which they never get the full value of, given that they're so far away from the higher education establishment and from the medical school itself. Therefore, I think we miss an opportunity to make sure that those graduates do stay within the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area. What more can you do, working with the health Minister, to ensure that the higher education institutions across north Wales look towards the north-west and the medical schools of the north-west to be able to ask undergraduates and graduates to come and do their placements in north Wales, with the hopes then of attracting them to stay to do their employment later?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae llawer o'r myfyrwyr sy'n mynychu Ysgol Feddygol Caerdydd yn aml yn cael eu hanfon ar yr hyn y maent yn eu galw'n 'lleoliadau' i ogledd Cymru, ac nid ydynt yn elwa amynt yn llawn o gofio eu bod mor bell i fwrdd o'r sefydliad addysg uwch ac o'r ysgol feddygol ei hun. Felly, credaf ein bod yn colli cyfle i sicrhau bod y graddedigion hynny'n aros yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Beth arall allwch chi ei wneud, gan weithio gyda'r Gweinidog iechyd, i sicrhau bod y sefydliadau addysg uwch yng ngogledd Cymru yn edrych tua'r gogledd-orllewin ac ysgolion meddygol y gogledd-orllewin i allu gofyn i israddedigion a graddedigion ddod ar leoliad i ogledd Cymru, gyda'r gobaith o'u denu i aros a chael gwaith yn nes ymlaen?
- 13:54 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Well, there are issues to be pondered here and acted upon. There are already, Presiding Officer, some good arrangements in place to support medical education in north Wales. Universities, hospitals and health boards in the region should work together to see how these can be strengthened. Now, of course, we are awaiting the report of the medical education in north Wales task and finish group, which will be reporting to my colleague, the Minister for Health and Social Services. Its final meeting, I understand, is in March, and I look forward to working together with my colleague, the Minister for health, on their proposals and their findings.
- Wel, mae materion i'w hystyried a'u gweithredu yn hyn o beth. Mae rhai trefniadau da eisoes ar waith, Lywydd, i gefnogi addysg feddygol yng ngogledd Cymru. Dylai prifysgolion, ysbytai a byrddau iechyd yn y rhanbarth weithio gyda'i gilydd i weld sut y gellid cryfhau'r rhain. Yn awr, wrth gwrs, rydym yn aros i adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar addysg feddygol yng ngogledd Cymru gael ei gyflwyno i fy nghydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Deallaf fod eu cyfarfod olaf ym mis Mawrth, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog iechyd, ar eu cynigion a'u canfyddiadau.
- 13:54 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rwyf newydd fod mewn cyflwyniad amser cinio yma gan Goleg Brenhinol Meddygon Teulu yn y Cynlluniad. Fe glywon ni yn y cyflwyniad hwnnw am y broblem gynyddol i recriwtio a hyfforddi meddygon teulu. Rydych chi wedi sôn y prynhawn yma, yn eich atebion blaenorol, am gymelliadau ariannol ar gyfer athrawon, lle mae prinder yn dysgu yn y pynciau hynny. A ydych chi'n credu ei bod yn bryd i chi nawr i weithio gyda'r Gweinidog iechyd i ystyried model tebyg ar gyfer rhoi cymelliadau ariannol i ddenu myfyrwyr i hyfforddi i fod yn feddygon teulu ac i weithio o fewn NHS Cymru?
- Minister, I attended a presentation by the Royal College of General Practitioners at lunchtime, here in the Assembly. We heard in that presentation about the increasing problem of recruiting and training general practitioners. You have already mentioned this afternoon in your previous answers some of the financial incentives for teachers, where there is a shortage working in those areas. Do you think it is time that you now, working with the health Minister, considered a similar model to give financial incentives to attract students to train as GPs and to work within the Welsh NHS?
- 13:55 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I have to say there have been no discussions particularly along that line, because, primarily, the responsibility for that kind of incentive, I believe I'm right in saying, would lie with my colleague, the Minister for health. I'd be very happy to explore any good ideas that the Member might put forward for consideration in that regard, or, indeed, in terms of medical education as a whole.
- Mae'n rhaid i mi ddweud na fu unrhyw drafodaethau, yn enwedig ynglŷn â hynny, oherwydd, yn bennaf, rwy'n credu fy mod yn iawn i ddweud mai fy nghydweithiwr, y Gweinidog iechyd, a fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gymhelliad o'r fath. Byddwn yn hapus iawn i archwilio unrhyw syniadau da y gallai'r Aelod eu cyflwyno i'w hystyried yn hynny o beth, neu'n wir, o ran addysg feddygol yn ei chyfanrwydd.

13:56	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i></p> <p>Minister, one of the potential solutions to the recruitment crisis within medical professions in Wales is to grow more of our own doctors here in Wales. What programmes is the Welsh Government investing in to encourage Welsh schoolchildren to pursue careers in medicine, especially children from non-traditional backgrounds, for whom a career in medicine is not something they have considered previously as something they could aspire to?</p>	<p>Weinidog, un o'r atebion posibl i'r argyfwng recriwtio yn y proffesiynau meddygol yng Nghymru yw datblygu mwy o'n meddygon ein hunain yma yng Nghymru. Pa raglenni y mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ynddynt i annog plant ysgol Cymru i ddilyn gyrfaedd mewn meddygaeth, yn enwedig plant o gefndiroedd nad ydynt yn rhai traddodiadol, lle nad yw gyrfa mewn meddygaeth yn rhywbeth y maent wedi ei ystyried o'r blaen yn rhywbeth y gallent anelu tuag ato?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:56	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, Presiding Officer, the Member will be aware of the number of programmes that are currently out there at the moment, working to raise the aspirations of our young people, most particularly those people coming from deprived backgrounds. Schools Challenge Cymru and the Pupil Offer working together, for instance, will bring youngsters face to face with possibilities for their future that they may never have experienced before. We will work with all partner organisations, including our medical schools and our universities, to ensure that there's a structured programme for every child in Wales over time, to ensure that they proceed through school with ambition, aiming high.</p>	<p>Wel, Lywydd, bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r nifer o raglenni sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer codi dyheadau ein pobl ifanc, yn enwedig pobl o gefndiroedd difreintiedig. Wrth weithio gyda'i gilydd, bydd Her Ysgolion Cymru a'r Cynnig i Ddisgyblion, er enghraifft, yn dod â phobl ifanc wyneb yn wyneb â phosibiliadau ar gyfer eu dyfodol nad ydynt erioed wedi eu profi o'r blaen o bosibl. Byddwn yn gweithio gyda phob sefydliad partner, gan gynnwys ein hysgolion meddygol a'n prifysgolion, i sicrhau rhaglen strwythuredig ar gyfer pob plentyn yng Nghymru dros amser, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn camu ymlaen drwy'r ysgol gydag uchelgais, ac yn anelu'n uchel.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd		Primary School Attendance	
13:57	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography <i>4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion i wella presenoldeb mewn ysgolion cynradd? OAQ(4)0521(ESK)</i></p>	<p><i>4. Will the Minister provide an update on efforts to improve primary school attendance? OAQ(4)0521(ESK)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:57	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for Neath.</p> <p>A focus on school improvement, raising awareness of the benefits of early intervention, greater use of data analysis, alongside Welsh Government funding to support consortia to work with their authorities and schools to develop and embed effective practices to secure long-term improvements—all these things have contributed to improved attendance.</p>	<p>Diolch i'r Aelod dros Gastell-nedd.</p> <p>Ffocws ar wella ysgolion, codi ymwybyddiaeth o fanteision ymyrraeth gynnar, mwy o ddefnydd o ddatblygiadau data, ochr yn ochr â chyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi consortia i weithio gyda'u hawdurdodau a'u hysgolion i ddatblygu a sefydlu arferion effeithiol ar gyfer sicrhau gwelliannau hirdymor—mae'r holl bethau hyn wedi cyfrannu at wella presenoldeb.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that, Minister. I'm very happy to report that, in Neath Port Talbot, the percentage of half days lost to absence has been reduced by almost a third since 2010. Over the last two years, the Welsh Government has invested £800,000 in improving school attendance. That was clearly money well spent and there are lessons to be learned from that success. Minister, which strategies have been most effective in reducing absences and how can these policies be adapted and applied to other areas of educational improvement?</p>	<p>Diolch am hynny, Weinidog. Rwy'n hapus iawn i adrodd bod canran yr hanner diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi gostwng bron i draean ers 2010. Dros y ddwy flynedd ddiweddaraf, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £800,000 ar gyfer gwella presenoldeb ysgolion. Roedd yn amlwg yn arian a wariwyd yn dda ac mae gwersi i'w dysgu o'r llwyddiant hwnnw. Weinidog, pa strategaethau a fu'n fwyaf effeithiol o ran lleihau absenoldebau a sut y gellir addasu'r polisiâu hyn a'u cymhwysu ar gyfer meysydd eraill o wella addysg?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:58

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, the Member for Neath points to what is an unsung success, really, in terms of joint working between the Welsh Government, local authorities and others, in terms of driving down these absence figures to historic lows across the country. It's not just a question of cash, although that, of course, can help, but I believe our attendance analysis framework, which sets out a standardised and robust approach to using the data around absence and making sure that local authorities and schools understand their responsibilities in that regard, has led us to a place where we are better in terms of school attendance than we have ever been before. But there is still work to do.

le, mae'r Aelod dros Gastell-nedd yn cyfeirio at lwyddiant di-glod, mewn gwirionedd, o ran y modd y mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac eraill wedi cydweithio i ostwng y ffigurau absenoldeb yn is nag y buont erioed ledled y wlad. Nid yw'n fater o arian yn unig, er bod hynny, wrth gwrs, yn gallu helpu, ond rwy'n credu bod ein fframwaith dadansoddi presenoldeb, sy'n nodi dull safonol a chadarn o ddefnyddio'r data absenoldeb a sicrhau bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau yn hynny o beth, wedi ein harwain i fan lle rydym yn well o ran presenoldeb ysgolion nag y buom erioed o'r blaen. Ond mae gwaith i'w wneud o hyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister for his written statement on 11 December regarding absence during term time? I raised your statement with my own local authority and the response I got on the council's position is the same as that of the ERW consortium, which is to strongly advise schools not to authorise absence in term time. So, there is a clear disconnect that exists, to the extent that pressure is being brought to bear on school heads, from local education authorities, by the education consortia and by Estyn, and that will undoubtedly mean that unauthorised absence will rarely be granted. Is it not the case, Minister, that local authorities are advising school heads against exercising their statutory powers under the Education (Pupil Registration) (Wales) Regulations 2010 whilst paying lip service to the Welsh Government's guidance regarding the individual assessment of circumstance?

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad ysgrifenedig ar 11 Rhagfyr ynghylch absenoldeb yn ystod y tymor? Trafodais eich datganiad gyda fy awdurdod lleol ac roedd yr ymateb a gefais ar safbwynt y cyngor yr un fath â chonsortium ERW, sef argymhell yn gryf i ysgolion beidio ag awdurdodi absenoldeb yn ystod y tymor. Felly, mae diffyg cysylltiad clir yno, i'r graddau fod pwysau'n cael ei roi ar benaethiaid ysgolion, gan awdurdodau addysg lleol, gan y consortia addysg a chan Estyn, a bydd hynny'n ddi-os yn golygu mai prin y bydd absenoldeb heb awdurdod yn cael ei ganiatáu. Onid yw'n wir, Weinidog, fod awdurdodau lleol yn cyngori penaethiaid ysgolion yn erbyn defnyddio'u pwerau statudol o dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 gan roi sylw arwynebol i ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch asesu amgylchiadau'n unigol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I would be concerned if that is the Member's experience in terms of the local authorities that he has been in contact with. I'd be very happy to take a look at the circumstance as a specific issue. But it is the case that I have made Welsh Government policy here very clear. It is also the case that I think that we do need the discretion of headteachers to be taking the lead here in terms of the decision making around absence. It isn't necessarily an automatic right that parents should book a holiday in term time. We don't want this becoming a general way of working between schools and families. Children's time in school is far too valuable for that, but, as I say, there is discretion for headteachers to work with families on exceptions to that general sentiment if they mutually decide that that's in the best interests of the child.

Wel, byddwn yn pryderu os mai dyna yw profiad yr Aelod o ran yr awdurdodau lleol y mae wedi bod mewn cysylltiad â hwy. Byddwn yn hapus iawn i edrych ar yr amgylchiad fel mater penodol. Ond mae'n wir fy mod wedi gwneud polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn yn glir iawn. Mae hefyd yn wir fy mod yn meddwl y dylem roi'r lle blaenaf i ddisgresiwn penaethiaid yn hyn o beth o ran gwneud penderfyniadau ynghylch absenoldeb. Nid oes hawl awtomatig gan rieni o reidrwydd i drefnu gwyliau yn ystod y tymor. Nid ydym am i hyn ddod yn ffordd gyffredinol o weithio rhwng ysgolion a theuluoedd. Mae amser plant yn yr ysgol yn llawer rhy werthfawr i hynny, ond fel y dywedais, mae disgresiwn gan benaethiaid i weithio gyda theuluoedd ar eithriadau i'r farn gyffredinol honno os yw'r ddwy ochr yn penderfynu bod hynny er lles gorau'r plentyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, while the overall rate of primary school absence has dropped, it remains persistently higher, on average, in the south-east. You will know that Merthyr Tydfil is the highest in Wales, but Newport, Caerphilly and Blaenau Gwent are also above the average. I wonder if you have a view on why this is the case, and how does the Welsh Government plan to target areas in the south-east where absenteeism continues to be an issue?

Weinidog, er bod cyfradd absenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gostwng yn gyffredinol, mae'n parhau i fod yn uwch, ar gyfartaledd, yn y de-ddwyrain. Fe fyddwch yn gwybod mai Merthyr Tudful sydd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru, ond mae Casnewydd, Caerffili a Blaenau Gwent hefyd yn uwch na'r cyfartaledd. Tybed a oes gennych farn ynglŷn â'r rhesymau pam, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu targedu ardaloedd yn y de-ddwyrain lle y mae absenoldeb yn parhau i fod yn problem?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is quite right—I wouldn't like to speculate too much in terms of why we see particular patterns. My understanding is that, not just in south-east Wales, there are pockets of higher absenteeism, if you like, in other parts of Wales, too—Cardiff being one example of this. I think there is a combination of three things here: first of all, how far advanced our programmes of combating non-attendance are in each particular part of Wales—some local authorities are more advanced than others; secondly, I do believe there is a socioeconomic link here; and thirdly, I think there is a connection, frankly, to the quality of the educational experience that young people are exposed to in the classroom—in other words, those young people who know they are doing well because they are exposed to quality teaching are probably more likely to show up for the lesson. All those three issues are issues being tackled by this Welsh Labour Government.

Mae'r Aelod yn gwbl gywir—ni hoffwn ddyfalu'n ormodol ynglŷn â pham ein bod yn gweld patrymau penodol. Fy nealltwriaeth i yw bod pocedi o lefelau absenoldeb uwch, os mynnwch, mewn rhannau eraill o Gymru hefyd, nid yn y de-ddwyrain yn unig—mae Caerdydd yn un enghraifft o hyn. Rwy'n meddwl bod cyfuniad o dri pheth yma: yn gyntaf oll, pa mor bell ar y blaen yw ein rhaglenni ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldeb ym mhob rhan benodol o Gymru—mae rhai awdurdodau lleol ymhellach ar y blaen nag eraill; yn ail, rwy'n credu bod cysylltiad economaidd-gymdeithasol yma; ac yn drydydd, rwy'n meddwl bod cysylltiad, a dweud y gwir, ag ansawdd y profiad addysgol y mae pobl ifanc yn ei gael yn yr ystafell ddosbarth—mewn geiriau eraill, mae'r bobl ifanc sy'n gwybod eu bod yn gwneud yn dda oherwydd eu bod yn cael addysg o ansawdd yn ôl pob tebyg yn fwy tebygol o ddod i'r wers. Mae'r tri pheth hynny yn faterion y mae Llywodraeth Lafur Cymru yn mynd i'r afael â hwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Addysg Ôl-16 yn Nhorfaen

Post-16 Education in Torfaen

14:03

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i gyflwyno darpariaeth deg o addysg ôl-16 yn Nhorfaen? OAQ(4)0517(ESK)

5. Will the Minister provide a progress update on plans to deliver equitable provision of post-16 education in Torfaen? OAQ(4)0517(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology

I thank Lynne Neagle for that question, and pay tribute to her for doggedly keeping this issue alive and on the agenda. I was delighted to be able to meet with you just before Christmas on this issue, and we are about to meet again next week, so I can absolutely assure you that we're determined to take the agenda forward.

Diolch i Lynne Neagle am y cwestiwn a thalaf deyrnged iddi am fynnu cadw'r mater hwn yn fyw ac ar yr agenda. Roeddwn yn falch iawn o allu cwrdd â chi i drafod y mater ychydig cyn y Nadolig, ac rydym ar fin cyfarfod eto'r wythnos nesaf, felly gallaf eich sicrhau ein bod yn benderfynol o symud yr agenda yn ei blaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister, and thank you for your time before Christmas. Since then, I have had updates both from Coleg Gwent and from Torfaen County Borough Council, and I understand that there has been progress in terms of the joint effort to develop post-16 provision, particularly when it comes to ensuring that sufficient capital is in place for the project. As you said, I am due to meet with you again next week alongside the Minister for Economy, Science and Transport. Can you take this opportunity to give me your assurance this afternoon that you will do everything in your power to ensure that this exciting project has the political backing it needs to come to fruition?

Diolch, Ddirprwy Weinidog, a diolch ichi am eich amser cyn y Nadolig. Ers hynny, rwyf wedi cael diweddariadau gan Goleg Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a deallaf fod cynnydd wedi bod o ran yr ymdrech ar y cyd i ddatblygu darpariaeth ôl-16, yn enwedig o ran sicrhau bod digon o gyfalaf yn ei le ar gyfer y prosiect. Fel y dywedoch, byddaf yn cyfarfod â chi eto yr wythnos nesaf gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. A wnewch chi fanteisio ar y cyfle y prynhawn yma i roi eich sicrwydd i mi y byddwch yn gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau bod gan y prosiect cyffrous hwn y gefnogaeth wleidyddol sydd ei hangen arno i ddwyn ffrwyth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very, very happy to give you that assurance. The meeting next week will, we hope, assemble all of the interest parties in this debate together in one place so that we can establish the exact basis for the project and determine a proper working plan to take it forward, which I am determined to do during my time in office.

Rwy'n hapus iawn, iawn i roi'r sicrwydd hwnnw i chi. Bydd cyfarfod yr wythnos nesaf, gobeithiwn, yn dod â phawb sydd â diddordeb yn y ddatl hon ynghyd mewn un man i ni allu sefydlu sylfaen bendant ar gyfer y prosiect a phenderfynu ar gynllun gwaith priodol i'w ddatblygu, ac rwy'n benderfynol o wneud hynny yn ystod fy amser yn y swydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:04 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Deputy Minister will know that a generation of pupils have experienced the inequality of provision in post-16 education in Torfaen. In January of last year, a joint letter by the county borough council and Coleg Gwent highlighted that Torfaen has been less than well served in terms of Welsh Government capital investment in post-16 education than other parts of the region. Minister, I've heard what you've said, and your assurances are perfectly welcome, but could I ask that you issue a statement where you actually come to a conclusion for the various parties?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol fod cenhedaeth o ddisgyblion wedi profi anghydraddoldeb y ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Nhorfaen. Ym mis Ionawr y llynedd, amlygodd llythyr ar y cyd rhwng y cyngor bwrdeistref sirol a Choleg Gwent na chafodd Torfaen ei gwasanaethu cystal â rhannau eraill o'r rhanbarth o ran buddsoddiadau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru mewn addysg ôl-16. Weinidog, rwyf wedi clywed yr hyn rydych wedi'i ddweud, ac rwy'n croesawu eich datganiadau o sicrwydd, ond a gaf i ofyn i chi gyhoeddi datganiad lle y dowch i gasgliad gwirioneddol ar gyfer y gwahanol bartïon?

14:04 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm more than happy to issue an update statement as we go along. I disagree that Torfaen has been particularly discriminated against. There have been a number of difficult practical issues around the getting together of this project. A lot of people have worked very hard on it already, and we're working very hard indeed to get a complete set of the issues together so that we can address them properly with a project plan, and I am very hopeful that we'll be doing that in the next few weeks.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n fwy na hapus i gyhoeddi datganiad diweddar wrth i ni fynd yn ein blaenau. Rwy'n anghytuno bod Torfaen yn benodol wedi dioddef gwahaniaethu. Cododd nifer o broblemau ymarferol anodd wrth geisio dod â'r prosiect hwn at ei gilydd. Mae llawer o bobl wedi gweithio'n galed iawn arno eisoes, ac rydym yn gweithio'n galed iawn yn wir i ddod â set gyflawn o'r problemau at ei gilydd fel y gallwn fynd i'r afael â hwy'n briodol drwy gynllun prosiect. Rwy'n obeithiol iawn y byddwn yn gwneud hynny yn ystod yr wythnosau nesaf.

14:05 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, how have you worked to improve access to post-16 Welsh-medium education services in Torfaen, and, indeed, across the rest of Wales, and do you accept that, when it comes to students being able to continue their education via the Welsh language, there are few to no options at all available for many students?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ddirprwy Weinidog, sut ydych chi wedi gweithio i wella mynediad i wasanaethau addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen, ac yng ngweddill Cymru yn wir, ac a ydych yn derbyn nad oes llawer o opsiynau ar gael, os o gwbl, i lawer o fyfyrwyr o ran gallu parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg?

14:05 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the issues in Torfaen is the issue about surplus school places—the way that they are working and the way that post-16 education is working, and that is in both English and Welsh-medium education. So, this project that we're looking at here is across the piece, actually, to look at the whole of post-16 education provision and to address some of the surplus places issues as well. There is a large capital investment needed, but there are also logistical issues around that that are part of the difficulty that the project had over the years that people have been trying to get it together. I assure the Member that that's not for want of political commitment or, indeed, practical commitment from the people on the ground; it is, actually, just a very complex thing to do, but we do seem to be getting there, and that will be for both the English and Welsh medium.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Un o'r problemau yn Nhorfaen yw problem lleoedd gwag mewn ysgolion—y ffordd y maent yn gweithio a'r ffordd y mae addysg ôl-16 yn gweithio, a hynny mewn addysg cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Felly, mewn gwirionedd mae'r prosiect rydym yn edrych arno yma'n edrych ar ddarpariaeth addysg ôl-16 yn gyffredinol ac ar fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n ymwneud â lleoedd gwag yn ogystal. Mae angen buddsoddiad cyfalaf mawr, ond mae problemau logistaidd ynghlwm wrth hynny sy'n rhan o'r anhawster y mae'r prosiect wedi ei wynebu dros y blynyddoedd y bu pobl yn ceisio'i gael at ei gilydd. Gallaf sicrhau'r Aelod nad yw hynny oherwydd diffyg ymrwymiad gwleidyddol, na diffyg ymrwymiad ymarferol, yn wir, gan bobl ar lawr gwlad; mewn gwirionedd, yn syml, mae'n beth cymhleth iawn i'w wneud, ond rydym i weld ar y trywydd iawn, a hynny o ran addysg cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

Gwasanaethau Addysg Cerdd

Music Education Services

14:06 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. *A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau addysg cerdd yng Nghymru?*
OAQ(4)0510(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. *Will the Minister make a statement on the provision of music education services in Wales?* OAQ(4)0510(ESK)

14:06

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will: the Welsh Government fully recognises the importance of music in the curriculum and opportunities for young people to participate. The provision and funding of music services is the responsibility of local authorities. Welsh Government funding is supplied through the revenue settlement grant, and authorities make decisions based on their local priorities.

Gwnaf: mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod pwysigrwydd cerddoriaeth yn y cwricwlwm a'r cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu ac ariannu gwasanaethau cerdd. Darperir cyllid Llywodraeth Cymru drwy grant y setliad refeniw, ac mae awdurdodau yn gwneud penderfyniadau ar sail eu blaenoriaethau lleol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that statement, Minister. You'll be aware of the threat to music services across Wales, but particularly in Rhondda Cynon Taf in my own region. I know that you agree with the very great value that music education can provide to individuals, particularly in raising aspirations and providing them with an outlet. There's also good evidence that pupils who learn an instrument experience improved performance in core skills such as literacy and numeracy as well. So, the value is clearly there, but we urgently need guidance for those local authorities to help them maintain their music services and ensure that there is fair access to pupils on the basis of their ability to play, not just their ability to pay for their lessons. Will you bring forward a strategy for music education, and will you work with those who are delivering music services at the moment to make sure that what we have can be protected?

Diolch am y datganiad hwnnw, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol o'r bygythiad i wasanaethau cerdd ledled Cymru, ond yn enwedig yn Rhondda Cynon Taf yn fy ardal i. Gwn eich bod yn cytuno â'r budd mawr y gall addysg cerdd ei gynig i unigolion, yn enwedig o ran gwella uchelgais a rhoi ffordd o fynegi eu hunain iddynt. Mae tystiolaeth dda hefyd fod disgyblion sy'n dysgu chwarae offeryn cerddorol hefyd yn cyflawni'n well mewn sgiliau craidd megis llythrennedd a rhifedd. Felly, mae'r budd yno'n amlwg, ond mae angen canllawiau ar frys i helpu'r awdurdodau lleol hynny allu cynnal eu gwasanaethau cerdd a sicrhau mynediad teg i ddisgyblion ar sail eu gallu i chwarae, ac nid yn unig eu gallu i dalu am eu gwersi. A wnewch chi gyflwyno strategaeth ar gyfer addysg cerdd, ac a wnewch chi weithio gyda'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cerdd ar hyn o bryd i sicrhau bod modd diogelu'r hyn sydd gennym?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the Member is quite right, Presiding Officer, about the value of music education and the benefits to young people, and I share the concerns regarding the proposals that have been put forward by some of our local authorities to reduce spending on their music services. I have asked my officials to set up a working group, including representatives from local authorities and those with responsibility for music services. The purpose of the group will be to consider alternative methods of service delivery and partnership working, which I hope will provide some sustainable solutions that can be embraced by our local authorities across Wales. I have asked that group to report back to me by the end of April. But, Presiding Officer, the Welsh Liberal Democrats cannot have it both ways. They cannot support austerity cuts in Westminster that put these pressures on our local authorities and then bemoan the results here in Wales.

Wel, mae'r Aelod yn hollol iawn, Lywydd, am werth addysg cerdd a'r budd i bobl ifanc, a rhannaf y pryderon ynghylch yr argymhellion a gyflwynodd rhai o'n hawdurdodau lleol i leihau gwariant ar eu gwasanaethau cerdd. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion sefydlu gweithgor, yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros wasanaethau cerdd. Pwrpas y grŵp fydd ystyried dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth, a gobeithiaf y bydd yn darparu rhai atebion cynaliadwy y gellir eu croesawu gan ein hawdurdodau lleol ledled Cymru. Rwyf wedi gofyn i'r grŵp adrodd yn ôl i mi erbyn diwedd mis Ebrill. Ond Lywydd, ni all Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ei chael hi bob ffordd. Ni allant gefnogi toriadau caledi yn San Steffan sy'n rhoi pwysau o'r fath ar ein hawdurdodau lleol a chwyno wedyn am y canlyniadau yma yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, following on on a similar theme, and as a member of the Musicians' Union, the importance of music is recognised, and also recognised by many of the participants within places like RCT are the actual challenges facing local authorities because of the funding cuts. I think that the point that has been made is an important one—that is, there is a role for Welsh Government to ensure that there is consistency of provision of music and evaluation of the value of the importance of music within education across Wales and within constituencies. In the circumstances we're in, there's a very important role for central Government to now play, and I think that that's what we're asking you to consider taking on board.

Weinidog, yn dilyn ar thema debyg, ac fel aelod o Undeb y Cerddorion, mae pwysigrwydd cerdd yn cael ei gydnabod, a'r hyn sy'n cael ei gydnabod hefyd gan lawer o gyfranogwyr mewn llefydd fel Rhondda Cynon Taf yw'r heriau gwirioneddol sy'n wynebu awdurdodau lleol oherwydd y toriadau ariannol. Credaf fod y pwynt sydd wedi'i wneud yn un pwysig—hynny yw, fod rôl i Lywodraeth Cymru sicrhau cysondeb o ran darparu cerdd a gwerthuso budd pwysigrwydd cerdd yn y byd addysg ledled Cymru ac yn yr etholaethau. Mae rôl bwysig iawn i Lywodraeth ganolog ei chwarae yn awr o dan yr amgylchiadau presennol, a chredaf mai dyna rydym yn gofyn i chi ei ystyried ei hysgwyyddo.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As, indeed, I am. Consistency is an issue, and we do need to work towards it. I think that we need to start thinking about how we describe minimum standards in terms of what we expect here in Wales in terms of music provision. We do need to explore new ways of working with all potential partners, and I think that there some partners, potentially, out there that we have not traditionally worked alongside and that we should begin doing that. So, as I said, there will be more to follow from the group that I have set to work, and I hope to be making announcements about the way forward sometime in mid April.

A dyna'n wir rwy'n ei wneud. Mae cysondeb yn broblem, ac mae angen i ni weithio tuag at ei sicrhau. Credaf fod angen i ni ddechrau meddwl ynglŷn â sut rydym yn disgrifio safonau gofynnol o ran yr hyn rydym yn ei ddisgwyl yma yng Nghymru o ran y ddarpariaeth gerddoriaeth. Mae angen i ni archwilio ffyrdd newydd o weithio gyda'r holl bartneriaid posibl, a chredaf fod rhai partneriaid, o bosibl, nad ydym wedi cydweithio â nhw yn draddodiadol a dylem ddechrau gwneud hynny. Felly, fel y dywedais, bydd mwy i ddilyn gan y grŵp rwyf wedi'i roi ar waith, ac rwy'n gobeithio y byddaf yn gwneud cyhoeddiadau am y ffordd ymlaen rywbryd yng nghanol mis Ebrill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rydych chi wedi dweud bod gan y celfyddydau botensial pwerau i fod yn asiant newid cymdeithasol ac, yn sicr, mae pob un ohonom yn ymateb i gerddoriaeth o ryw fath. Mae'n drueni, felly, fod llwybr hygyrch iawn i mewn i diriogaeth Dai Smith a'r Farwnes Andrews yn cael ei weld fel targed hawdd am doriadau, er gwaethaf yr amddiffyniad ymddangosiadol o gyllidebau ysgolion yn benodol. Gyda pha fath o bartneriaid fydd Llywodraeth Cymru—ac nid dim ond yr awdurdodau lleol—yn gweithio i sicrhau nad yw plant mewn ardaloedd difreintiedig yn gyffredinol, sef ffocws y Farwnes Andrews, yn dioddef yn anghymesur?

Minister, you have said that the arts have a powerful potential to be an agent for social change and, certainly, each of us responds to music in some way. It's a shame, therefore, that the accessible path into the territory of Dai Smith and Baroness Andrews is seen as an easy target for cuts, despite the apparent safeguarding of school budgets specifically. With what kinds of partners will the Welsh Government—and not just local authorities—be working to ensure that children in our deprived areas generally, which is the focus of Baroness Andrews, are not disproportionately hit?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the Member will be aware that, just this week, I launched the pupil offer, which is aimed specifically at those schools in our most deprived—largely—communities and drawing them face to face with potential partners, like the Arts Council of Wales, for instance, in terms of what can be delivered directly into schools through good partnership working. In addition to that, and specifically surrounding the Arts Council of Wales, I will be taking forward in partnership with them and with consortia a major programme in terms of positive interventions in schools. I am setting aside £10 million over the next five years to match a similar sum—an exactly similar sum—from the Arts Council of Wales's lottery funding, in addition to the protection around the generality of schools' budgets.

Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol fy mod wedi lansio'r cynnig i ddisgyblion yr wythnos hon, sydd wedi ei anelu'n benodol at yr ysgolion mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau—yn bennaf—a'u gosod wyneb yn wyneb â phartneriaid posibl, fel Cyngor Celfyddydau Cymru, er enghraifft, o ran yr hyn y gellir ei ddarparu'n uniongyrchol i ysgolion drwy weithio'n dda mewn partneriaeth. Yn ogystal â hynny, ac mewn perthynas â Chyngor Celfyddydau Cymru yn benodol, byddaf yn bwrw ymlaen mewn partneriaeth â hwy a'r consortia i weithio ar raglen bwysig o ymyriadau cadarnhaol mewn ysgolion. Rwy'n neilltuo £10 miliwn dros y pum mlynedd nesaf i gyfateb i swm tebyg—yr un swm yn union—o arian loteri Cyngor Celfyddydau Cymru, yn ogystal â mesurau diogelwch o ran cyffredinolrwydd cyllidebau ysgolion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, if we talk about austerity, however, you will know that your Labour colleagues yesterday voted for £30 billion of austerity cuts. So, if we want to talk about it in context, I think you should realise that.

As a person who plays the violin and viola and had that education from the age of seven, I would not have reached national Welsh standards had I not had that peripatetic structure in my school. So, what will you do as a Government to make sure that these councils are not, in the here and now, delivering on those cuts, because they will not be able to have music as part of their core education in the future?

Weinidog, os ydym yn sôn am galedi, fodd bynnag, fe fyddwch yn ymwybodol fod eich cydweithwyr yn y Blaid Lafur wedi pleidleisio ddoe dros £30 biliwn o doriadau caledi. Felly, os ydym am drafod y peth yn ei gyd-destun, credaf y dylech sylweddoli hynny.

Fel rhywun sy'n chwarae'r ffidil a'r fiola ac wedi cael yr addysg honno er pan oeddwn yn saith oed, ni fyddwn wedi cyrraedd safonau cenedlaethol Cymru pe na bai'r strwythur peripatetig hwnnw ar waith yn fy ysgol. Felly, beth fyddwch chi'n ei wneud fel Llywodraeth i sicrhau nad yw'r cynghorau yn cyflawni'r toriadau hyn yn awr, gan na fyddant yn gallu cael cerdd yn rhan o'u haddysg graidd yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the Member is quite right to point to the problem and the Member is quite right to be passionate about the issue, but the Member's solution—well, I am a little bewildered as to what it is. [Interruption.] Yes; quite so. Plaid Cymru doesn't have any solutions here that would convince any reasonably intelligent voter that they have a solution to this. Their solution simply is non-implementation. Well, you know, the Welsh Government could refuse to implement its budget, for instance. That is the logical conclusion of what Plaid Cymru are suggesting, I suppose, and we would be delivered back into the tender arms of the Secretary of State for Wales and devolution would fall flat on its face; the tender embrace—that was what I meant to say—of the Secretary of State for Wales. If that is what Plaid Cymru's policy is, they should make it plain. If they have some positive ideas about how we can ameliorate the cuts, aside from this rhetoric, then I would be very happy to listen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth gwrs, mae'r Aelod yn hollol iawn i dynnu sylw at y broblem ac mae'r Aelod yn hollol iawn i fod yn angerddol ynglŷn â'r mater, ond mae ateb yr Aelod i'r broblem—wel, rwyf ychydig yn ddryslyd ynghylch beth ydyw. [Torri ar draws.] Ydw; yn bendant. Nid oes gan Plaid Cymru unrhyw atebion a fyddai'n argyhoeddi unrhyw bleidleisiwr rhesymol a deallus fod ganddynt ateb i hyn. Eu hateb nhw, yn syml, yw peidio â gweithredu. Wel, wyddoch chi, gallai Llywodraeth Cymru wrthod gweithredu ei chyllideb, er enghraifft. Dyna ganlyniad rhesymegol yr hyn y mae Plaid Cymru yn ei awgrymu, am wn i, a byddem yn cael ein gyrru yn ôl i freichiau tyner Ysgrifennydd Gwladol Cymru a byddai datganoli'n disgyn yn fflat ar ei wyneb; coflaid dyner—dyna roeddwn yn bwriadu ei ddweud—Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Os mai dyna yw polisi Plaid Cymru, dylent wneud hynny'n glir. Os oes ganddynt unrhyw syniadau cadarnhaol ynglŷn â sut y gallwn liniaru'r toriadau, ar wahân i'r rhethreg hon, yna byddwn yn hapus iawn i wrando.

Canlyniadau Addysgol

Educational Outcomes

14:14

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau i wella canlyniadau addysgol yn 2015 ar gyfer disgyblion yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0518(ESK)

7. Will the Minister outline plans to improve educational outcomes in 2015 for pupils in South Wales Central? OAQ(4)0518(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are implementing a range of actions to improve educational standards and the learning experience across Wales. Through the Central South Wales Challenge, led by Professor Mel Ainscow, the region is making good progress towards a self-improving school system, which is a key feature of the national model for regional working.

Mae gennym amryw o gamau gweithredu ar waith i wella safonau addysgol a'r profiad dysgu ledled Cymru. Drwy Her Canol De Cymru, dan arweiniad yr Athro Mel Ainscow, mae'r rhanbarth yn gwneud cynnydd da tuag at system hunan-wella i ysgolion, sy'n un o nodweddion allweddol y model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
Thank you, Minister, for your answer. Yesterday, obviously, Estyn brought forward their assessment of the literacy and numeracy framework. At best, they said it was making modest progress and the majority of schools only rated it as 'adequate'. Your response to that, Minister, was to say 'Well, this was a snapshot in time, some 12 months ago', but if you look at the Association of Teachers and Lecturers's survey, which was very recent, two-thirds of teachers said that they thought the scheme was not fit for purpose. Indeed, under half of teachers did not believe their pupils had access to the scheme. Now, we support the principles of the literacy and numeracy framework, but ultimately it does look as if the roll-out of this framework has been poor. Ultimately, how can pupils in South Wales Central and teachers benefit from the principles contained in the document by you improving the roll-out of this important uplift in standards?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Ddoe, yn amlwg, cyflwynodd Estyn eu hasesiad o'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Ar y gorau, fe ddywedon nhw ei fod yn gwneud cynnydd cymedrol a bod y mwyafrif o ysgolion wedi ei raddio yn 'ddigonol' yn unig. Eich ymateb i hynny, Weinidog, oedd dweud 'Wel, ciplun a dynnwyd tua 12 mis yn ôl oedd hwn', ond os edrychwch ar arolwg diweddar iawn y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr, dywedodd dwy ran o dair o athrawon eu bod o'r farn nad oedd y cynllun yn addas at y diben. Yn wir, credai ychydig o dan hanner yr athrawon nad oedd y cynllun ar gael ar gyfer eu disgyblion. Yn awr, rydym yn cefnogi egwyddorion y fframwaith llythrennedd a rhifedd, ond yn y pen draw mae'n edrych fel pe bai'r broses o gyflwyno'r fframwaith wedi bod yn wael. Yn y pen draw, sut y gall disgyblion yng Nghanol De Cymru ac athrawon elwa o'r egwyddorion a geir yn y ddogfen drwy eich bod yn gwella'r broses o gyflwyno'r hwb pwysig hwn i godi safonau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Presiding Officer, I simply don't recognise the picture that the Member paints of the roll-out of the literacy and numeracy framework. It does mark a fundamental shift in the way that schools work—every teacher becoming a teacher of literacy and not just concentrating on their own subject area. I have seen with my own eyes the evidence of that transformative step in school after school after school. But the Welsh Conservatives again attempt to have it both ways; this is the same party, Presiding Officer, that continually talks about a welter of reform that is overloading the system, and then in the next breath asks for faster change. They can't have it both ways, and their perception is flawed.

Wel, Lywydd, yn syml, nid wyf yn adnabod y darlun y mae'r Aelod yn ei greu o'r broses o gyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae'n nodi newid sylfaenol yn y ffordd y mae ysgolion yn gweithio—gyda phob athro yn dod yn athro llythrennedd yn hytrach na chanolbwyntio ar eu maes pwnc eu hunain. Rwyf wedi gweld tystiolaeth â'm llygaid fy hun o'r cam trawsnewidiol hwnnw mewn ysgol ar ôl yr ysgol ar ôl ysgol. Ond mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ceisio'i chael hi bob ffordd unwaith eto; hon yw'r un blaid, Lywydd, sy'n sôn o hyd am anrhefn diwygio yn gorlwytho'r system, ac yn yr anadl nesaf yn gofyn am newid cyflymach. Ni allant ei chael hi'r ddwy ffordd, ac mae eu canfyddiad yn ddiffygiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Minister, one of the more disappointing aspects of this week's Estyn report on literacy in key stage 3 was the finding that a majority of schools have not accessed all of the Welsh Government and national support resource materials. Now, while some of the Welsh Government's ideas may seem good on paper, bringing them to fruition does seem to be a recurring problem, not least in your department. I've listened to the answers that you've given here this afternoon, Minister, and there does seem to be a running theme around responsibility—you do seem to take the attitude 'These problems are nothing to do with me, guv'. Minister, when can we expect to see you take some responsibility for the historic problems in the Welsh education system, given that there has been a Labour Minister in charge of education here in Wales since devolution was established in 1999?

Weinidog, un o agweddau mwy siomedig adroddiad Estyn yr wythnos hon ar lythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 oedd y canfyddiad nad yw mwyafrif yr ysgolion wedi cael holl ddeunydd adnoddau cymorth Llywodraeth Cymru ac adnoddau cenedlaethol. Yn awr, er y gall rhai o syniadau Llywodraeth Cymru edrych yn dda ar bapur, ymddengys bod eu rhoi ar waith yn broblem dro ar ôl tro, yn enwedig yn eich adran chi. Rwyf wedi gwrandao ar yr atebion rydych wedi eu rhoi y prynhawn yma, Weinidog, ac mae'n ymddangos bod thema gyffredin yn codi ynghylch cyfrifoldeb—mae'n ymddangos bod gennych agwedd 'Nid yw'r problemau hyn yn ddim i'w wneud â mi'. Weinidog, pryd y gallwn ddisgwyl eich gweld yn ysgwyddo peth o'r cyfrifoldeb am y problemau hanesyddol yn y system addysg yng Nghymru, o gofio mai Gweinidog Llafur a fu'n gyfrifol am addysg yma yng Nghymru ers datganoli yn 1999?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, well, the Member does conveniently forget her party's role in Government over the life of devolution, which has now been terminated, thankfully. But if we want to get historic about the issues, well I'll leave that to the historians. She mentions resource material; of course, Estyn was looking at this issue when the resource materials had only just been made available—they had barely come out the door of the Welsh Government, and were just being made available to teachers. So it is no surprise that a number of teachers did not actually access them at that point. But I'll undertake to write with the actual figures of resource take-up and training, and so on, which is now reaching every part of the school system, and I will get the data to the Member so that she can update her knowledge on the programme.

Ie, wel, mae'r Aelod yn anghofio'n gyfleus rôl ei phlaid yn y Llywodraeth dros oes datganoli, sydd bellach wedi dod i ben, diolch byth. Ond os ydym am edrych ar hanes y materion hyn, wel fe adawaf hynny i'r haneswyr. Mae hi'n sôn am adnoddau; wrth gwrs, roedd Estyn yn edrych ar y mater pan nad oedd yr adnoddau ond newydd ddod ar gael—prin eu bod wedi dod allan drwy ddrws Llywodraeth Cymru, a newydd ddod ar gael i athrawon. Felly, nid yw'n syndod nad oedd nifer o athrawon yn eu defnyddio ar y pwynt hwnnw mewn gwirionedd. Ond byddaf yn ysgrifennu gyda ffigurau gwirioneddol y niferoedd sy'n gwneud defnydd o adnoddau a hyfforddiant, ac yn y blaen, sydd bellach yn cyrraedd pob rhan o'r system ysgolion, a byddaf yn anfon y data at yr Aelod er mwyn iddi allu cael y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Cwestiynau I Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Economy, Science and Transport. Question 1 is from John Griffiths.

Busnesau yng Nghasnewydd

14:18 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i Gasnewydd ar gyfer twf busnesau yng nghanol y ddinas yn ystod y blynyddoedd diwethaf? OAQ(4)0513(EST)

14:18 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Our actions to support businesses are wide-ranging, and, as Minister with responsibility for business rates policy, I have taken a number of steps to use the rates regime to support businesses in high streets and city centres across Wales.

14:19 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think there has been a strong partnership in Newport, with Welsh Government working closely with Newport city centre and, indeed, local businesses, which are now taking forward a business improvement district proposal that will add to recent development. Minister, in view of that partnership and the fact that there is strong development under way at the moment with city-centre shopping and associated leisure, re-use of city-centre buildings, major events having being held at the Celtic Manor Resort in recent times and a conference centre planned, can you assure me that Welsh Government will continue to build this partnership to ensure that Newport fulfils its full potential as a driver of economic growth and jobs and prosperity for Newport and the wider region?

14:19 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, certainly. As a Government, of course, we supported the Newport business development project. Several issues that came out of that report have now been taken forward particularly when you look at what we've done with the purchase of 11 Devon Place in Newport—which satisfies suitable space for ICT and digital businesses. We're particularly, as well, keen with the work that we've undertaken with the local authority. The BID was very good in terms of what they were doing themselves within the area and we will certainly continue to support developments within Newport.

Questions to the Minister for Economy, Science and Transport
Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Daw cwestiwn 1 gan John Griffiths.

Newport Businesses

1. Will the Minister make a statement on the support that the Welsh Government has given to Newport for the growth of businesses in the city centre in recent years? OAQ(4)0513(EST)

Mae ein camau gweithredu i gefnogi busnesau yn eang, ac fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am bolisi ardrethi busnes, rwyf wedi rhoi nifer o gamau ar y gweill i ddefnyddio'r drefn ardrethi i gefnogi busnesau ar y stryd fawr ac yng nghanol dinas oedd ledled Cymru.

Yn wir, rwy'n meddwl fod partneriaeth gref yng Nghasnewydd, gyda Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chanol dinas Casnewydd a busnesau lleol yn wir, sydd bellach yn bwrw ymlaen ag argymhelliad ynghylch ardal gwella busnes a fydd yn ychwanegu at y datblygiadau diweddar. Weinidog, o ystyried y bartneriaeth a'r ffaith fod datblygu cadarn ar y gweill ar hyn o bryd o ran siopa canol y ddinas a gweithgareddau hamdden cysylltiedig, ail-ddefnyddio adeiladau canol y ddinas, cynnal digwyddiadau mawr yn y Celtic Manor yn ddiweddar a chynlluniau ar gyfer canolfan gynadledda, a allwch fy sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'r bartneriaeth hon er mwyn sicrhau bod Casnewydd yn cyflawni ei photensial llawn fel ysgogydd twf economaidd a swyddi a ffyniant ar gyfer Casnewydd a'r ardal ehangach?

Gwnaf, yn bendant. Fel Llywodraeth, wrth gwrs, rydym wedi cefnogi prosiect datblygu busnes Casnewydd. Mae nifer o faterion a ddeilliodd o'r adroddiad hwnnw bellach wedi cael eu datblygu yn enwedig os edrychwch ar yr hyn rydym wedi ei wneud ar bryntu 11 Devon Place yng Nghasnewydd—sy'n bodloni'r gofynion o ran gofod addas ar gyfer TGCh a busnesau digidol. Yn ogystal, rydym yn arbennig o awyddus o ran y gwaith rydym wedi ei wneud gyda'r awdurdod lleol. Roedd yr Ardal Gwella Busnes yn dda iawn o ran yr hyn roeddent yn ei wneud eu hunain yn yr ardal a byddwn yn sicr yn parhau i gefnogi datblygiadau yng Nghasnewydd.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:20 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm grateful for your answer, Minister, to John Griffiths's question. Could I ask, though—? You will know that there have been various reports on various aspects of the improvement of Newport, as with so many cities and towns in Wales over the years—you've co-ordinated many of these. Could I ask you and your officials to look once again at these and see that those that were agreed to be implemented have actually taken place?
- Rwy'n ddiolchgar am eich ateb i gwestiwn John Griffiths, Weinidog. Ond a gaf fi ofyn—? Byddwch yn gwybod bod gwahanol adroddiadau wedi'u llunio ar wahanol agweddau o welliant Casnewydd, fel yn achos cynifer o ddinasoedd a threfi yng Nghymru dros blynnyddoedd—rydych wedi cydlynu llawer o'r rhain. A gaf fi ofyn i chi a'ch swyddogion edrych unwaith eto ar y rhain i sicrhau bod y rhai y cytunwyd i'w gweithredu wedi digwydd mewn gwirionedd?
- 14:20 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that William makes a very good point. In terms of Newport, I know what's been done there, whether it's the software academy, whether it's the Newport investment brochure, the fact that we helped with the demolition of the bus station to get Friars Walk. But you are quite right; I think it will be useful for me to look back at some of the initiatives I've undertaken since I've been Minister in this area, to see what has actually been delivered by our partners and see where we've got some lessons to learn, perhaps.
- Credaf fod William yn gwneud pwynt da iawn. O ran Casnewydd, rwy'n gwybod beth sy'n cael ei wneud yno, boed yn academi feddalwedd, yn llawlyfr buddsoddi Casnewydd, neu'r ffaith ein bod wedi helpu gyda dymchwel yr orsaf fysiau i gael Friars Walk. Ond rydych yn llygad eich lle; rwy'n meddwl y bydd yn ddefnyddiol i mi edrych yn ôl ar rai o'r mentrau rwyf wedi eu cyflawni ers i mi fod yn Weinidog yn y maes hwn, i weld beth sydd wedi ei ddarparu gan ein partneriaid mewn gwirionedd a gweld lle y mae gennym wersi i'w dysgu, efallai.
- 14:21 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, what impact will the new M4 have on the effort to regenerate Newport city centre? And as the black route will bypass a number of industrial estates and other facilities, is there a danger that it may undermine the regeneration of Newport? Whatever route is finally constructed, how will you ensure that this massive investment brings employment benefits to the local area?
- Weinidog, pa effaith fydd yr M4 newydd yn ei chael ar yr ymdrech i adfywio canol dinas Casnewydd? Ac am y bydd y llwybr du yn osgoi nifer o ystadau diwydiannol a chyfleusterau eraill, a oes perygl y gallai danseilio adfywiad Casnewydd? Pa lwybr bynnag a gaiff ei adeiladu yn y diwedd, sut y byddwch yn sicrhau bod y buddsoddiad enfawr hwn yn creu manteision cyflogaeth i'r ardal leol?
- 14:21 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, obviously, there are issues ongoing in terms of the route and the discussions. There's obviously an environmental impact assessment, and then we will have to look at the issues around the public inquiry. The opinion within Newport is mixed itself, I would say. There are people who are heavily supportive of the route and think it will be good for the city, others fear otherwise. Obviously, in due course, I'm sure I'll have more representations about whether it will be of benefit or not. My view is that it will be of benefit.
- Wel, yn amlwg, mae materion ar y gweill o ran y llwybr a'r trafodaethau. Yn amlwg, bydd asesiad o'r effaith amgylcheddol yn cael ei gynnal, yna bydd yn rhaid i ni edrych ar y materion sy'n ymwneud â'r ymchwiliad cyhoeddus. Byddwn yn dweud fod y farn yng Nghasnewydd yn gymysg. Mae yna bobl sy'n gefnogol iawn i'r llwybr ac yn meddwl y bydd yn dda i'r ddinas, mae eraill yn ofni fel arall. Yn amlwg, maes o law, rwy'n siŵr y bydd gen i fwy o sylwadau ynghylch a fydd yn fanteisiol ai peidio. Fy marn i yw y bydd yn fanteisiol.
- 14:22 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will be aware that Newport has one of the highest business vacancy rates in Wales. Business rates can be of significant value to new businesses opening up and for existing ones to grow. What plans do you have to review the system of business rates after powers are fully devolved to the Welsh Government, to encourage businesses to grow in Newport?
- Weinidog, byddwch yn ymwybodol fod gan Gasnewydd un o'r cyfraddau gwacter busnes uchaf yng Nghymru. Gall ardrethi busnes fod o werth sylweddol i fusnesau newydd sy'n cychwyn ac i rai sy'n bodoli eisoes i dyfu. Pa gynlluniau sydd gennych i adolygu'r system ardrethi busnes wedi i'r pwerau gael eu datganoli'n llawn i Lywodraeth Cymru, i annog busnesau i dyfu yng Nghasnewydd?

14:22

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say that this is a much wider problem than Newport in terms of the business rates issue? As you know, we've got a report that's now going through the issues of when business rates are devolved, what is required, and I'll be reporting on that in due course. I think what we did in terms of extending small business rate relief was correct, we've got the Wales retail relief and local needs schemes, which I think was good. So all these, I think, do help the situation, but I think it is important that we have a further look when the devolution of business rates comes. I'll be welcoming, of course, the opportunity for Members to discuss this in due course, Presiding Officer.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A gaf fi ddweud bod hon yn broblem lawer ehangach na Chasnewydd o ran mater ardrethi busnes? Fel y gwyrddoch, mae gennym adroddiad sydd wrthi'n edrych drwy'r cwestiynau sy'n codi pan gaiff ardrethi busnes eu datganoli, beth sydd ei angen, a byddaf yn adrodd ar hynny maes o law. Rwy'n credu bod yr hyn a wnaethom o ran ymestyn rhyddhad ardrethi busnesau bach yn gywir, mae gennym gynlluniau rhyddhad manwerthu Cymru a chynlluniau anghenion lleol sy'n dda yn fy marn i. Felly rwy'n credu bod y rhain i gyd yn helpu'r sefyllfa, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni edrych ymhellach pan gaiff ardrethi busnes eu datganoli. Wrth gwrs, byddaf yn croesawu'r cyfle i Aelodau drafod hyn maes o law, Lywydd.

Buddsoddiad Network Rail

Network Rail Investment

14:23

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Pa gynigion sydd dan sylw gan y Gweinidog ar gyfer cyfnod rheoli chwech o fuddsoddiad Network Rail ym masnachfaint Cymru a'r Gororau? OAQ(4)0500(EST)

2. What submissions is the Minister considering for control period six of the Network Rail investment in the Wales and Borders franchise? OAQ(4)0500(EST)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:23

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, we have actually identified our priorities and objectives for the rail network across Wales in our Network Rail's Wales route study, which identifies infrastructure schemes to be developed for consideration for funding by the UK Government during control period six.

Ie, mewn gwirionedd rydym wedi nodi ein blaenoriaethau a'n hamcanion ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd ledled Cymru yn ein hastudiaeth llwybr Network Rail Cymru, sy'n nodi cynlluniau seilwaith i'w datblygu ar gyfer eu hystyried i'w cyllido gan Lywodraeth y DU yn ystod cyfnod rheoli chwech.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:23

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am hynny, Weinidog. Mae gen i olygon tymor hir ynglŷn â datblygu'r rheilffordd yng Nghymru, ac yn arbennig rwy'n edrych ar sut fedrwn ni gau'r bwch rhwng llyfydd fel Caerfyrddin ac Aberystwyth a rhwng Afon-wen a Bangor, er mwyn gwneud y cylch wyth yna o gwmpas Cymru. Nawr, rwy'n derbyn bod hyn yn fuddsoddiad tymor hir—nid wyf yn disgwyl ateb gan y Llywodraeth heddiw ynglŷn â chefnogi'r fath broject ai peidio—ond mae'n amlwg bod yn rhaid dechrau trafod â Network Rail ddegawd ymlaen llaw er mwyn cael y fath yna o ystyriaeth i fuddsoddiad fel hyn, yn sgil HS2 ac ati, a datblygiadau eraill posib fydd yn dod â buddsoddiad i Gymru hefyd. Felly, pa drafodaethau fyddwch chi'n eu cael, Weinidog, gyda Network Rail, gydag ymgyrchwyr Traws Link Cymru, sydd eisiau gwneud gwaith fel hyn, i weld pa mor bosib yw ystyried datblygiadau fel hyn fel rhan o fuddsoddiad Network Rail yng Nghymru?

Thank you for that, Minister. I have long-term visions for the development of the railway in Wales, and I am looking specifically at how we can close the gap between places like Carmarthen and Aberystwyth and Afon-wen and Bangor, in order to make that figure of eight around Wales. Now, I accept that this is long-term investment—I do not expect a response from Government today on supporting such a project or not—but it is apparent that we have to start to discuss these issues with Network Rail a decade in advance in order to have that sort of consideration for investment of this kind, in light of HS2 and other possible developments that will bring investment to Wales too. So, what discussions will you have, Minister, with Network Rail, with the Traws Link Cymru campaign, which wants to do work like this, to see how possible it is to consider such developments as part of Network Rail's investment in Wales?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:24

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I and my officials are having regular discussions with Network Rail, but I am concerned, when I look at the history of our engagement with Network Rail, that Wales has not been a beneficiary in the full financial sense to any developments that have gone on across the UK. So I'm very mindful of that point. I'll be more than happy, when I give evidence to committee on some of the rail issues, to explore some of these matters further, because I do think we have to be up to the mark to understand what Network Rail is now, how it's likely to be in the future, how it hasn't delivered within time and cost and budgets on lots of projects currently, and what is our share of the cake. But I do have a very positive relationship with the UK Government about these particular issues on rail.

le, rwyf i a fy swyddogion yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Network Rail, ond rwy'n pryderu, wrth edrych ar hanes ein hymgysylltiad â Network Rail, nad yw Cymru wedi cael budd yn yr ystyr ariannol llawn o unrhyw ddatblygiadau a ddigwyddodd ar draws y DU. Felly, rwy'n ymwybodol iawn o'r pwynt hwnnw. Pan fyddaf yn rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor ar rai o'r materion yn ymwneud â'r rheilffyrdd, byddaf yn hapus iawn i archwilio rhai o'r materion hyn ymhellach, gan fy mod yn meddwl bod yn rhaid i ni allu cwrdd â'r gofynion o ran deall beth yw Network Rail yn awr, sut y mae'n debygol o fod yn y dyfodol, sut nad yw wedi darparu ar amser ac o fewn y gost a'r cyllidebau ar lawer o brosiectau ar hyn o bryd, a beth yw ein cyfran o'r gacen. Ond mae gennyf berthynas gadarnhaol iawn gyda Llywodraeth y DU ynghylch y materion penodol hyn o ran y rheilffyrdd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I make no apologies for once again raising in the Chamber the need to have a Swansea parkway to service South Wales West and west Wales—[Laughter.]—to deliver better train services and integrated transport for the region. As I've said before, if we are to gain full advantage of electrification, I think it needs to be felt west of Swansea as well. You committed last time to raise this with the Swansea bay city region, but can I ask you specifically what work you've undertaken to explore the potential of a Swansea parkway for control period 6 and, if you haven't, whether you would, please, commit to it?

Weinidog, nid wyf am ymddiheuro am fynegi unwaith eto yn y Siambr yr angen i gael parcffordd Abertawe i wasanaethu Gorllewin De Cymru a gorllewin Cymru—[Chwerthin.]—i ddarparu gwasanaethau trên gwell a thrafnidiaeth integredig ar gyfer y rhanbarth. Fel rwyf wedi ei ddweud o'r blaen, os ydym am fanteisio'n llawn ar drydaneiddio, rwy'n meddwl bod angen iddo gael ei deimlo i'r gorllewin o Abertawe yn ogystal. Fe wnaethoch ymrwymo y tro diwethaf i godi hyn gyda dinas-ranbarth Bae Abertawe, ond a gaf fi ofyn i chi'n benodol pa waith rydych wedi ei wneud i archwilio potensial parcffordd Abertawe ar gyfer cyfnod rheoli 6 ac os nad ydych wedi gwneud hynny, a fydddech yn ymrwymo i wneud hynny os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Sir Terry Matthews chaired his first city region meeting before Christmas. I will have the opportunity of meeting Sir Terry to discuss some outstanding issues around this, and this will certainly be a subject of further discussion.

Wel, cadeiriodd Syr Terry Matthews ei gyfarfod dinas-ranbarth cyntaf cyn y Nadolig. Byddaf yn cael cyfle i gyfarfod â Syr Terry i drafod materion sy'n dal i'w hystyried mewn perthynas â hyn, a bydd yn sicr o gael ei drafod ymhellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, electrification projects are going to be critical in terms of the development of the railway in the future. What staffing resources have you seconded to look at the business case and develop a really robust business case for electrification of the north Wales line? And is there an aspiration in the long term as well to look at the business case for electrification of the line between Cardiff and Manchester?

Yn amlwg, mae prosiectau trydaneiddio yn mynd i fod yn allweddol o safbwynt datblygu'r rheilffordd yn y dyfodol. Pa adnoddau staffio rydych chi wedi eu seondio i edrych ar yr achos busnes, ac i ddatblygu achos busnes gwirioneddol gadarn dros drydaneiddio rheilffordd gogledd Cymru? Ac a oes dyhead yn y tymor hir yn ogystal i edrych ar yr achos busnes dros drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd a Manceinion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of north Wales, we've obvious had the taskforce report from Lesley Griffiths, which I am currently considering. There are further meetings, I know, going on through the Secretary of State's office, I am aware, within north Wales about the case for north Wales electrification. Certainly, we will look for what resource is required to help to make that case, and I will certainly look at the issues you raise with me around Manchester.

O ran gogledd Cymru, rydym wedi cael yr adroddiad tasglu gan Lesley Griffiths wrth gwrs, ac rwy'n ei ystyried ar hyn o bryd. Gwn fod cyfarfodydd pellach yn digwydd drwy swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol, rwy'n ymwybodol, yng ngogledd Cymru ynglŷn â'r achos dros drydaneiddio yn y gogledd. Yn sicr, byddwn yn edrych i weld pa adnoddau sydd eu hangen i helpu i wneud yr achos hwnnw, a byddaf yn sicr yn edrych ar y materion rydych yn ei dwyn i fy sylw ynglŷn â Manceinion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party spokespeople. First this afternoon is Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.
- Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Y cyntaf y prynhawn yma yw llefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.
- 14:26 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Now, after a long and, if I may say, rather needless battle between the Government and the Information Commissioner, you have finally been forced to release performance indicators for the individual enterprise zones. I've said on numerous occasions during the battle that I wasn't looking for political ammunition as such; I was simply looking for the tools to do my job as an opposition AM and a shadow of yours to scrutinise the Government and to scrutinise you as a Minister, and I give you that assurance again today, as I assured the chairman of Anglesey's enterprise zone when I met him earlier this week. But now that we have the figures, do you— [Interruption.] Now that we have the figures, do you believe that they do show that the public is getting value for money when it comes to the enterprise zones?
- Diolch, Lywydd. Yn awr, ar ôl brwydr hir a braidd yn ddiangen, os caf fi ddweud, rhwng y Llywodraeth a'r Comisiynydd Gwybodaeth, rydych wedi cael eich gorfodi o'r diwedd i ryddhau dangosyddion perfformiad ar gyfer yr ardaloedd menter unigol. Rwyf wedi dweud ar sawl achlysur yn ystod y frwydr nad oeddwn yn ceisio sgorio pwyntiau gwleidyddol fel y cyfryw; yn syml, roeddwn yn chwilio am yr offer i wneud fy swydd fel AC yr wrthblaid a'ch cysgod i graffu ar y Llywodraeth a chraffu arnoch chi fel Gweinidog, ac rwy'n rhoi'r sicrwydd hwnnw i chi eto heddiw, fel y rhoddais sicrwydd i gadeirydd ardal fenter Ynys Môn pan gyfarfûm ag ef yn gynharach yr wythnos hon. Ond yn awr bod gennym y ffigurau, a ydych chi— [Torri ar draws.] Yn awr bod gennym y ffigurau, a ydych chi credu eu bod yn dangos bod y cyhoedd yn cael gwerth am arian o ran yr ardaloedd menter?
- 14:27 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I was very disappointed at the Information Commissioner's decision. Zone-by-zone comparisons are unhelpful and misrepresent economic priorities and actions unique to each zone in their delivery plan. As you know, that is the view of my enterprise zone chairs, and my views haven't changed.
- Roeddwn yn siomedig iawn ynghylch penderfyniad y Comisiynydd Gwybodaeth. Nid yw cymariaethau rhwng un ardal a'r llall yn ddefnyddiol ac maent yn camliwio blaenoriaethau economaidd a chymau gweithredu sy'n unigryw i bob ardal yn eu cynllun cyflawni. Fel y gwyddoch, dyna yw barn fy nghadeiryddion ardaloedd menter, ac nid yw fy safbwyntiau i wedi newid.
- 14:27 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We have separate figures for jobs created and jobs safeguarded for each of the seven enterprise zones now. Some of them are doing better than others. We had always expected that and we must ensure that we, of course, compare only like with like. I will look if I can, though, at the Cardiff zone—465 jobs safeguarded or created at a cost of £22.9 million, a cost per job of some £44,000. That is significantly higher, of course, than the £10,000 to £12,000 that your department's director general suggested should be the figure we're aiming for. I welcome, of course, all jobs created, but with that high figure, can you give us an indication of how enterprise zones are contributing to our economy in ways other than job creation and safeguarding? Are they leading to higher GVA figures, long term, for example?
- Mae gennym ffigurau ar wahân ar gyfer swyddi a grëwyd a swyddi wedi eu diogelu ar gyfer pob un o'r saith ardal fenter yn awr. Mae rhai ohonynt yn gwneud yn well nag eraill. Roeddem bob amser wedi disgwyl hynny a rhaid i ni sicrhau mai cymharu tebyg at ei debyg yn unig a wnawn, wrth gwrs. Fe edrychaf, os caf fi, ar ardal Caerdydd—465 o swyddi wedi eu diogelu neu eu creu ar gost o £22.9 miliwn, cost o tua £44,000 y swydd. Mae hynny'n sylweddol uwch, wrth gwrs, na'r £10,000 i £12,000 yr awgrymodd cyfarwyddwr cyffredinol eich adran y dylem anelu tuag ato. Wrth gwrs, rwy'n croesawu pob swydd a grëwyd, ond gyda ffigur uchel o'r fath, a allwch roi syniad i ni sut y mae ardaloedd menter yn cyfrannu at ein heconomi mewn ffyrdd ar wahân i greu a diogelu swyddi? A ydynt yn arwain at ffigurau GVA uwch yn hirdymor, er enghraifft?

- 14:28 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am very content with the contribution that enterprise zones are making to the economy. I'm content with the job numbers that are coming to enterprise zones. I'm content with the pipeline of jobs, and I think they are proving good value for money. Also as well, the marketing issues are quite important in terms of how we market the areas from a much wider perspective. The danger of league tables and information like this is that it leads to the type of questions you're asking today.
- Rwy'n fodlon iawn â chyfraniad yr ardaloedd menter i'r economi. Rwy'n fodlon ar nifer y swyddi sy'n dod i ardaloedd menter. Rwy'n fodlon ar y cyflenwad swyddi, ac rwy'n meddwl eu bod yn cynnig gwerth da am arian. Hefyd, mae'r materion marchnata yn eithaf pwysig o ran sut rydym yn marchnata'r ardaloedd o bersbectif llawer ehangach. Perygl tablau cynghrair a gwybodaeth fel hon yw eu bod yn arwain at y math o gwestiynau rydych yn eu gofyn heddiw.
- 14:29 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- But these are important questions, and there is agreement across much of this Chamber that we need these figures in order to see whether public money is being spent wisely. Plaid Cymru wants the enterprise zones to succeed, but we of course need to measure how they're succeeding. What targets have you set yourself for job creation or other measures? And will those targets be published regularly along with updated performance indicators, as you will have to give us now, like it or not, or will we need to use the Freedom of Information Act 2000 every time we want to measure your progress?
- Ond mae'r rhain yn gwestiynau pwysig ac mae cytundeb ar draws llawer o'r Siambr hon fod arnom angen y ffigurau hyn er mwyn gweld a yw arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth. Mae Plaid Cymru eisiau i'r ardaloedd menter lwyddo, ond wrth gwrs, mae angen i ni i fesur sut y maent yn llwyddo. Pa dargedau rydych wedi eu gosod ar gyfer creu swyddi neu fesurau eraill? Ac a fydd y targedau hynny'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd gyda dangosyddion perfformiad wedi'u diweddarau, fel y bydd yn rhaid i chi eu rhoi i ni yn awr, pa un a ydych yn hoffi hynny ai peidio, neu a fydd angen i ni ddefnyddio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 bob tro rydym am fesur eich cynnydd?
- 14:29 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- At the end of the day, all the information that is required, I believe, is in the public domain. I go for scrutiny to the committee at various opportunities. You've asked me questions today. I'm content with the way that we're reporting matters on enterprise zones. Interestingly enough, my chairs, who are all from the private sector, and their boards that are from the private sector, actually agree with me on these matters.
- Yn y pen draw, rwy'n credu bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn gyhoeddus. Rwy'n manteisio ar wahanol gyfleoedd i fynd at y pwyllgor ar gyfer craffu. Rydych chi wedi gofyn cwestiynau i mi heddiw. Rwy'n fodlon ar y ffordd rydym yn adrodd ar faterion yn ymwneud â'r ardaloedd menter. Yn ddiddorol ddigon, mae fy nghadeiryddion, sydd i gyd yn dod o'r sector preifat, a'u byrddau sy'n dod o'r sector preifat, mewn gwirionedd yn cytuno â mi ar y materion hyn.
- 14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Conservative spokesperson, Byron Davies.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Byron Davies.
- 14:30 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, I am sure that foremost in your mind for your to-do list for 2015 will be organising the £2.5 million Wales and borders franchise from 2018. Can you outline your current thinking on this, please?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, ar flaen eich meddwl ar gyfer eich rhestr o bethau i'w gwneud yn 2015, rwy'n siŵr, fydd trefnu masnachfaint Cymru a'r gororau o 2018 ymlaen sy'n werth £2.5 miliwn. A wnewch chi amlinellu eich syniadau cyfredol ar hyn, os gwelwch yn dda?
- 14:30 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I think there is an opportunity for us to scope this very well and have a lot of discussions, which I will be inviting opposition Members in the Chamber to participate in, to see what we really want from the new franchise arrangements. This is going to be a difficult area, but I do think that we have to take it forward with an element of consensus on how we look at the future franchise. I'd be delighted for any comments that are coming from party spokespersons and parties, and I will be opening this up. In fact, I will have the opportunity of raising this matter shortly with the chair of the committee, because I think it might be very useful for the committee to be involved in this discussion early on.
- Gwnaf. Rwy'n credu bod cyfle i ni gwmpasu hyn yn dda iawn a chael llawer o drafodaethau, a byddaf yn gwahodd Aelodau'r gwrthbleidiau yn y Siambr i gymryd rhan ynddynt er mwyn gweld beth yn union rydym ei eisiau o'r trefniadau masnachfaint newydd. Mae hyn yn mynd i fod yn faes anodd, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fwrw ymlaen â'r mater gydag elfen o gonsensws ynglŷn â sut rydym yn edrych ar y fasnachfaint yn y dyfodol. Byddwn wrth fy modd yn cael sylwadau gan lefarwyr y pleidiau a phartion, a byddaf yn agor y drafodaeth. Yn wir, caf gyfle i godi'r mater cyn bo hir gyda chadeirydd y pwyllgor, oherwydd credaf y gallai fod yn ddefnyddiol iawn pe bai'r pwyllgor yn cymryd rhan yn y drafodaeth yn gynnar.

14:31

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I think you've gone some way to answering the next part that I was going to ask you, which is that, as Members, I think we need clarity on the operating basis, whether a not-for-dividend directly owned company, a not-for-dividend management contract or a conventional franchise, and what the implications and financial risks for Welsh taxpayers are. Can you outline then when we can expect detailed analysis of these models and what the risks are for Government, and how the capital for infrastructure improvements will be organised, and indeed, most importantly, the impact and liabilities for the Welsh taxpayer and paying travellers of each of these models?

Diolch yn fawr. Rwy'n credu eich bod wedi mynd beth o'r ffordd i ateb y rhan nesaf roeddwn i'n mynd i ofyn i chi, sef ein bod ni, fel Aelodau, angen eglurder ar y sail weithredol, rwy'n credu, naill ai cwmni di-ddifidend sy'n eiddo uniongyrchol, contract rheoli di-ddifidend neu fasnachfrait gonfensiynol, a beth yw'r goblygiadau a'r risgiau ariannol i drethdalwyr Cymru. A wnewch chi amlinellu wedyn pryd y gallwn ddisgwyl dadansoddiad manwl o'r modelau hyn a beth yw'r risgiau i'r Llywodraeth, sut y bydd y cyfalaf ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith yn cael eu trefnu, ac yn wir, yn bwysicaf oll, yr effaith a'r rhwymedigaethau i drethdalwyr Cymru a theithwyr sy'n talu ym mhob un o'r modelau hyn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Exactly. I think it's very important that we do look at the models, but we are much wedded to the not-for-dividend and not-for-profit to look at. But that isn't as simple as it seems. There are various models of that. We are currently exploring, both at ministerial and official level, what models we will look at. We intend to have a wide range of partners engaged, who are experts in the industry on this, because you've only got to look at the way Mersey Rail has operated and how only a percentage of profits could be kept and the rest went into another model. You've got Chiltern that actually built its own railway lines, so there's a lot of issues in this that we are now still unpicking, but I will certainly, at the first opportunity, come to the committee when we've done further deliberations on that and share it with you, because I think we are duty bound to get the best value for taxpayers in Wales, but also have something that taxpayers understand. They really do not like the idea, I think, of profits just going into some of these rail companies and no improvements to the services.

Yn union. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni edrych ar y modelau, ond rydym yn ymrwymedig iawn i edrych ar y cynllun di-ddifidend a dielw. Ond nid yw hynny mor syml ag y mae'n ymddangos. Mae gwahanol fodolau o hynny. Ar hyn o bryd rydym yn archwilio, ar lefel weinidogol a swyddogol, pa fodolau y byddwn yn edrych arnynt. Rydym yn bwriadu ymgysylltu ag ystod eang o bartneriaid sy'n arbenigwyr ar hyn yn y diwydiant, gan nad oes ond angen i chi edrych ar y ffordd y gweithredodd Mersey Rail a sut na ellid ond cadw canran o'r elw, gyda'r gweddill yn mynd i mewn i fodel arall. Dyna Chiltern, sydd wedi adeiladu ei reilffyrdd ei hun yn wir, felly mae llawer o faterion ynghlwm wrth hyn sy'n dal i gael eu harchwilio gennym yn awr, ond yn bendant, byddaf yn dod at y pwyllgor ar y cyfle cynntaf pan fyddwn wedi cynnal trafodaethau pellach ar hynny ac yn eu rhannu gyda chi, oherwydd credaf ei bod yn ddyletswydd arnom i gael y gwerth gorau i drethdalwyr Cymru, a chael rhywbeth y mae'r trethdalwyr yn ei ddeall hefyd. Rwy'n credu eu bod yn bendant yn gwrthwynebu'r syniad o elw'n mynd i mewn i rai o'r cwmnïau rheilffyrdd hyn heb unrhyw welliannau i'r gwasanaethau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally then, Minister, I'm sure you don't need me to tell you that managing this franchise and any model shift will require a highly experienced team in place by the middle of this year probably, covering the track owned by Network Rail and also the specification of rolling stock. So, can you outline how you're organising and monitoring the department to deliver this project?

Yn olaf felly, Weinidog, rwy'n siŵr nad oes angen i mi ddweud wrthyf y bydd rheoli'r fasnachfrait hon ac unrhyw newid model yn galw am osod tîm profiadol iawn ar waith erbyn canol y flwyddyn hon yn ôl pob tebyg, i ymdrin â'r trac sy'n eiddo i Network Rail yn ogystal â manyleb ar gyfer cerbydau. Felly, a allwch amlinellu sut rydych chi'n trefnu ac yn monitro'r adran ar gyfer cyflawni'r prosiect hwn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:32	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Yes, my director general is currently looking at how we will manage the resources to undertake all this particular work, and what expertise we might have to have externally to advise us, which I think will be quite important. In terms of rolling stock, ever since we've been going to have the franchise, it's interesting how many people now come to want to talk to us about the issues around rolling stock, as you can imagine. And, of course, it's very interesting about Network Rail, because Network Rail poses some difficult issues for us in our relationship with Network Rail. We've only got to look at Windsor Road and bridges and various issues currently. I do intend to speak to the UK Government Minister concerned about my very real concerns about Network Rail and ongoing relationships, especially in light of the escalating costs across the whole of the UK.	Gallaf, mae fy nghyfarwyddwr cyffredinol ar hyn o bryd yn edrych i weld sut y byddwn yn rheoli'r adnoddau ar gyfer gwneud yr holl waith penodol hwn, a pha arbenigedd a allai fod yn rhaid i ni ei gael yn allanol i'n cyngori, a chredaf y bydd hynny'n eithaf pwysig. O ran cerbydau, ers i ni fod yn mynd i gael y fasnachfaint, mae'n ddiddorol faint o bobl sydd bellach am siarad â ni am faterion yn ymwneud â cherbydau, fel y gallwch ddychmygu. Ac wrth gwrs, mae'n ddiddorol iawn am Network Rail, gan fod Network Rail yn creu rhai problemau anodd i ni yn ein perthynas â hwy. Nid oes ond angen i ni edrych ar Windsor Road a phontydd a gwahanol faterion ar hyn o bryd. Rwy'n bwriadu siarad â'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU am fy mhryderon real iawn ynghylch Network Rail a'r berthynas rhyngom i'r dyfodol, yn enwedig yn wyneb y costau cynyddol ar draws y DU gyfan.	Senedd.tv Fideo Video
14:33	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography The Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.	Llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.	Senedd.tv Fideo Video
14:33	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography Diolch, Lywydd. Yesterday, the First Minister stated that he wished to see the devolution of the rail infrastructure, here on the record. How long has this been an aspiration of the Welsh Government?	Diolch, Lywydd. Ddoe, dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn dymuno gweld y seilwaith rheilffyrdd yn cael ei ddatganoli, yma ar y cofnod. Ers pa bryd y mae hyn wedi bod yn ddyhead gan Lywodraeth Cymru?	Senedd.tv Fideo Video
14:33	Edwina Hart Bywgraffiad Biography I think there's been a lot of discussion going on for a long time. I couldn't give you a definitive rate on this. You've raised the question of the devolution of rail, but there's actually quite a lot of other legislation and bits and pieces that we're actually going to deal with and we have started to do some work on this. For instance, I don't know whether Members are aware, but in terms of Network Rail, they are the judge and jury on matters. If I was to enter into contestability on various things, Network Rail could still say my scheme wasn't right. So, there are a lot of issues there about what's structured within rail legislation, which we are currently working through, and I would be happy to share more generally when we've undertaken it, because I'm sure it will actually be of quite some interest when you start to unpick some of this.	Rwy'n meddwl bod yna lawer o drafod wedi bod ar y gweill ers amser hir. Ni allwn roi amser pendant i chi. Rydych wedi codi'r cwestiwn ynghylch datganoli rheilffyrdd, ond mewn gwirionedd, mae cryn dipyn o ddeddfwriaeth a manion eraill y byddwn yn ymdrin â hwy ac rydym wedi dechrau gwneud rhywfaint o waith ar hyn. Er enghraifft, nid wyf yn gwybod a yw'r Aelodau'n ymwybodol o hynny, ond o ran Network Rail, hwy sydd â'r farn derfynol ar faterion. Pe bawn i'n mynd i gystadleuaeth ynghylch gwahanol bethau, gallai Network Rail ddal i ddweud nad yw fy nghynllun yn iawn. Felly, mae llawer o gwestiynau yma ynghylch beth sy'n strwythuredig yn y ddeddfwriaeth reilffyrdd rydym yn gweithio drwyddi ar hyn o bryd, a byddwn yn hapus i rannu'r rhain yn fwy cyffredinol pan fyddwn wedi gwneud hynny, gan fy mod yn siŵr y bydd o gryn ddiddordeb mewn gwirionedd pan ddechreuwch chi chwilio drwy beth o hyn.	Senedd.tv Fideo Video
14:34	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography I'm sure it will, Minister, because clearly Network Rail are legally responsible for the safety of the network and, for that reason, they must have the ultimate say on projects. But there's also the issue then of lead responsibility for cross-border routes if the infrastructure is devolved, and also the issue of the financial risk in taking on such a large piece of infrastructure.	Rwy'n siŵr y bydd, Weinidog, oherwydd mae'n amlwg fod Network Rail yn gyfrifol yn gyfreithiol am ddiogelwch y rhwydwaith ac oherwydd hynny, hwy ddylai gael y gair olaf ar brosiectau. Ond hefyd, mae mater cyfrifoldeb arweiniol am lwybrau trawsffiniol os caiff y seilwaith ei ddatganoli, a hefyd mater risg ariannol o ysgwyddo seilwaith mor fawr.	Senedd.tv Fideo Video
14:34	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Quite right.	Digon gwir.	Senedd.tv Fideo Video

- 14:34 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- What analysis has the Welsh Government undertaken specifically into that financial risk before announcing this policy yesterday?
- Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud yn benodol i'r risg ariannol cyn cyhoeddi'r polisi hwn ddoe?
- 14:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I think it's very important to note that we've done a lot of work looking at what the risk would be for us. If I can give an example of risk: if we were to go for a different model in Wales in terms of a rail company, currently we're engaged with someone like Arriva, who is running the franchise, and they obviously purchase their fuel for a vast group across Europe, in terms of prices. Well, of course, if we went, what would our relationship be to get issues around fuel and costs? So, there are risks in all of that, and these matters are currently being under discussion and investigation.
- Wel, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni nodi ein bod wedi gwneud llawer o waith yn edrych ar yr hyn fyddai'r risg i ni. Os caf fi roi enghraifft o risg: pe baem yn penderfynu ar fodel gwahanol yng Nghymru o ran cwmni rheilffordd, ar hyn o bryd rydym yn ymwneud â rhywun fel Arriva, sy'n rhedeg y fasnachfaint, ac o ran prisiau, maent yn amlwg yn prynu eu tanwydd ar gyfer grŵp helaeth ledled Ewrop. Wel, wrth gwrs, pe baem yn mynd, beth fyddai ein perthynas er mwyn ymdopi â materion fel tanwydd a chostau? Felly, mae risgiau yn hyn oll ac mae'r materion hyn yn cael eu trafod a'u hymchwilio ar hyn o bryd.
- 14:35 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, isn't it the truth, Minister, that, yesterday, the First Minister announced a policy position that he wishes to devolve the rail infrastructure without that risk analysis, either in terms of the legal risk, or in terms of the financial risk having been completed and published for scrutiny? Things like the damage caused by the flooding to the Cambrian coastline last year cost millions and millions of pounds to repair; how would that kind of risk be managed by the Welsh Government? Either we have a hugely irresponsible Welsh Government, calling for powers without actually having done the financial legwork behind it, or the First Minister is making up policy off the cuff, and Owen Smith is going to have kittens when he finds out. Which of those two things is it?
- Wel, onid yw'n wir, Weinidog, fod Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi safbwynt polisi ddoe ei fod yn dymuno datganoli'r seilwaith rheilffyrdd heb ddadansoddiad risg o'r fath, naill ai o ran y risg gyfreithiol neu o ran cwblhau a chyhoeddi'r risg ariannol ar gyfer craffu? Costiodd pethau fel y difrod a achoswyd gan lifogydd arfordir y Cambrian y llynedd filiynau ar filiynau o bunnoedd i'w hatgyweirio; sut y byddai Llywodraeth Cymru yn rheoli risg o'r fath? Naill ai mae gennym Lywodraeth Cymru hynod o anghyfrifol sy'n galw am bwerau heb wneud y gwaith caib a rhaw sylfaenol, neu mae'r Prif Weinidog yn llunio polisiâu o'r frest, ac mae Owen Smith yn mynd i gael cathod bach pan ddaw i wybod. Pa un o'r ddau sy'n wir?
- 14:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- At the end of the day, can we be quite clear? We've always been interested in getting the maximisations of powers to Wales for things that we need to control. There is work going on in the department all the time. The First Minister is well aware of the work and the discussions that are going on. You're a pro-devolution party, so be pleased that we are actually moving in the right direction of travel on some of these issues.
- Yn y pen draw, a gawn ni fod yn eithaf clir? Rydym bob amser wedi bod â diddordeb mewn uchafu pwerau i Gymru dros bethau sydd angen i ni eu rheoli. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn yr adran drwy'r amser. Mae'r Prif Weinidog yn ymwybodol iawn o'r gwaith a'r trafodaethau sydd ar y gweill. Rydych chi'n blaid sydd o blaid datganoli, felly byddwch yn falch ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn ar rai o'r materion hyn.
- 14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move back to questions on the paper.
- Symudwn yn ôl i'r cwestiynau ar y papur yn awr.
- Ffordd Osgoi y Drenewydd** **The Newtown Bypass**
- 14:36 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd tuag at y gwaith o gyflawni ffordd osgoi A483/A489 ger y Drenewydd? OAQ(4)0501(EST)
3. Will the Minister make a statement on progress towards the delivery of the A483/A489 Newtown bypass? OAQ(4)0501(EST)

- 14:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. Thank you. Draft orders have been published and, once all comments have been received, I'll make a decision on whether to hold a public inquiry.
- le. Diolch yn fawr. Mae'r gorchmynion drafft wedi cael eu cyhoeddi ac wedi i'r holl sylwadau ddod i law, byddaf yn gwneud penderfyniad ynglŷn ag a ddylid cynnal ymchwiliad cyhoeddus.
- 14:36 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that update, Minister. And, as you may know, there was a very well-attended public engagement event organised at the Elephant and Castle in Newtown just before Christmas. But, some concerns have been expressed to me, within the local community, about the fact that the premises that Alun Griffiths, the contractor, has taken, in Severn Street in Newtown, are not currently open on a regular basis, and I think there is an opportunity there for a more regular interface between members of the local community and the contractor, particularly given the great anticipation that there is with regard to that project. Also, Minister, would you be able to reassure the local community that there will be full opportunities for local employment flowing from that historic project?
- Diolch yn fawr iawn am y diweddariad, Weinidog. Ac fel y gwyddoch, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd gyda llawer o bobl yn bresennol yn yr Elephant and Castle yn y Drenewydd ychydig cyn y Nadolig. Ond mae rhai pryderon wedi cael eu dwyn i fy sylw yn y gymuned leol ynghylch y ffaith nad yw'r eiddo y mae Alun Griffiths, y contractwr, wedi ei gymryd yn Stryd Hafren yn y Drenewydd ar agor yn rheolaidd ar hyn o bryd, ac rwy'n credu bod cyfle yno i sicrhau rhyngwyneb mwy rheolaidd rhwng aelodau o'r gymuned leol a'r contractwr, yn enwedig o ystyried y disgwyliad mawr sydd yna mewn perthynas â'r cyfryw brosiect. Hefyd, Weinidog, a allwch sicrhau'r gymuned leol y bydd cyfleoedd gwaith llawn yn deillio'n leol o'r prosiect hanesyddol hwn?
- 14:37 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. Can I say, I will certainly take up the Alun Griffiths issue for the Member, because I do think it's important, because we've had such a lot of support for this project, it's very important that that continues? And, of course, some of the contractors who have contracts have got a good history in terms of employing local people, and I will certainly ensure that this is the same. And, also, we've done very good work on apprenticeships on some of these projects as well, which I think we've also got to enhance.
- Gallaf. A gaf fi ddweud y byddaf yn sicr yn edrych ar fater Alun Griffiths ar ran yr Aelod, gan fy mod yn credu ei fod yn bwysig. Rydym wedi cael cymaint o gefnogaeth i'r prosiect hwn, ac mae'n bwysig iawn fod hynny'n parhau. Ac wrth gwrs, mae rhai o'r contractwyr sydd â chontractau â hanes da o ran cyflogi pobl leol, a byddaf yn bendant yn sicrhau bod yr un fath yn digwydd yma. Hefyd, rydym wedi gwneud gwaith da iawn ar brentisiaethau yn rhan o rai o'r prosiectau hyn, ac rwy'n credu bod angen i ni wella hynny hefyd.
- 14:37 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It doesn't seem that long ago, Minister, since I was asking you about the start date of the bypass, and you told me that it would be the beginning of 2015. I remember asking you could that be 2 January 2015. But it now appears that the start date is now winter 2015, but I was pleased, when I was at the exhibition, that the contractor said that the end date would remain the same, even though there had been some slippage, and that would be the end of 2017. So, can you give me your assurance that that's also your understanding, and would you also be prepared to commit to my car being the first to drive on the bypass, in December 2017? [Laughter.]
- Nid yw'n ymddangos mor bell yn ôl â hynny, Weinidog, ers i mi ofyn i chi am ddyddiad cychwyn ar gyfer y ffordd osgoi a'ch ateb i mi oedd y byddai'n digwydd ar ddechrau 2015. Rwy'n cofio gofyn a allai hynny olygu 2 Ionawr 2015. Ond ymddengys yn awr mai gaeaf 2015 fydd y dyddiad cychwyn, ond roeddwn yn falch, pan oeddwn yn yr arddangosfa, fod y contractwr wedi dweud y byddai'r dyddiad gorffen yn aros yr un fath, er bod rhywfaint o lithriant wedi bod, ac y byddai hynny'n digwydd ar ddiwedd 2017. Felly, a allwch roi sicrwydd i mi mai dyna yw eich dealltwriaeth chi hefyd, ac a fydddech chi hefyd yn barod i ymrwymo mai fy nghar i fydd y cyntaf i yrru ar y ffordd osgoi, yn Rhagfyr 2017? [Chwerthin.]
- 14:38 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In view of weather and other circumstances, and the way contractors sometimes are, I won't give you any guarantee. The only thing I can say is that we'll try and press this forward to start as soon as possible and finish on time. But I can't guarantee about your car, either. [Laughter.]
- O ystyried y tywydd ac amgylchiadau eraill, a'r ffordd y mae contractwyr yn gallu bod weithiau, ni roddaf unrhyw warant i chi. Yr unig beth y gallaf ei ddweud yw y byddwn yn ceisio pwyso i ddechrau cyn gynted â phosibl ac i orffen ar amser. Ond ni allaf warantu dim ynglŷn â'ch car chi, ychwaith. [Chwerthin.]

14:38 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, this bypass is very much welcomed by the people of Newtown—they've been campaigning long for it—but there will be individual questions about how it's done, and individual pots of land, and so forth. But, looking at the bigger question of the Severn valley and transport in mid Wales, we have a series of bypasses, but we also have an increase in freight delivery along these roads, and a burden on local communities. What are you doing to look at mid Wales as a transport corridor, particularly if, for example, Aberystwyth becomes more of a growth region, within the framework of city regions in the south, and a different kind of approach in rural areas, and the balance between freight on road and rail, and getting the investment right, which I hark back to an earlier question of mine about rail investment as well? What are you doing, perhaps, to look at the long term in the Severn valley and mid Wales for transport infrastructure, Minister?

Yn amlwg, mae'r ffordd osgoi hon yn cael croeso mawr gan bobl y Drenewydd—maen nhw wedi bod yn ymgyrchu'n hir drosti—ond bydd cwestiynau unigol ynglŷn â sut y caiff ei wneud, a darnau unigol o dir ac yn y blaen. Ond o edrych ar gwestiwn mwy dyffryn Hafren a thrafnidiaeth yn y canolbarth, mae gennym gyfres o ffyrdd osgoi, ond mae gennym hefyd gynnydd yn y nwyddau sy'n cael eu cludo ar hyd y ffyrdd hyn, ac sy'n faich ar gymunedau lleol. Beth ydych chi'n ei wneud o ran edrych ar ganolbarth Cymru fel coridor trafniadaeth, yn enwedig os yw Aberystwyth, er enghraifft, yn dod yn fwy o ardal twf yn fframwaith y dinas-ranbarthau yn y de, a gwahanol fath o ddull o weithredu mewn ardaloedd gwledig, y cydbwysedd rhwng cludo nwyddau ar y ffyrdd ac ar y rheilffyrdd, a chael y buddsoddiad yn iawn, sy'n arwain yn ôl at gwestiwn a ofynnais yn gynharach ynglŷn â buddsoddi yn y rheilffyrdd hefyd? Beth ydych chi'n ei wneud, tybed, i edrych ar y tymor hir yn nyffryn Hafren a chanolbarth Cymru o ran seilwaith trafniadaeth, Weinidog?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm not sure that we've done the level of work that I could honestly answer you and say, 'Yeah, I am looking at it'. Obviously, we look at it in the round, in that we look at the national transport plan, which we are doing. We have looked, obviously, at freight before. So, if I may, I will take this away and come back to the Member in writing to indicate what further work we might do in that area.

Nid wyf yn siŵr ein bod wedi gwneud y lefel o waith a fyddai'n golygu y gallwn eich ateb yn onest a dweud, 'Ydw, rwy'n edrych arno'. Yn amlwg, rydym yn edrych arno yn ei gyfanrwydd, yn yr ystyr ein bod yn edrych ar y cynllun trafniadaeth cenedlaethol, ac rydym yn gwneud hynny. Yn amlwg, rydym wedi edrych ar gludo nwyddau o'r blaen. Felly, os caf fi, fe af â hyn gyda mi ac ateb yr Aelod yn ysgrifenedig i ddangos pa waith pellach y gallem ei wneud o ran hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Terfyn Yfed a Gyrru Cyfredol

The Drink-drive Limit

14:40 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y terfyn yfed a gyrru cyfredol yng Nghymru? OAQ(4)0509(EST)

4. What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the current drink-drive limit in Wales? OAQ(4)0509(EST)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The setting of drink-drive limits is not devolved, but I am very much in favour of the issue being devolved and I have consistently lobbied the UK Government to see powers devolved to Wales.

Nid yw gosod terfynau yfed a gyrru yn fater sydd wedi ei ddatganoli, ond rwy'n llwyr o blaid datganoli'r mater ac rwyf wedi lobio Llywodraeth y DU yn gyson i gael pwerau wedi'u datganoli i Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Great. Well, my next question really was to say that three in four motorists said that they would like to see a lower drink-drive legal limit in England and Wales, with 43% wanting the limit to fall to just 20 mg—effectively a zero-tolerance figure. Are discussions ongoing with the UK Government in that regard and what are your opinions on the matter?

Gwych. Wel, mewn gwirionedd roedd fy nghwestiwn nesaf yn mynd i ddweud bod tri o bob pedwar modurwr yn dweud yr hoffent weld trothwy cyfreithiol yfed a gyrru is yng Nghymru a Lloegr, gyda 43% eisiau i'r trothwy ddisgyn i 20 mg yn unig—ffigur dim goddefgarwch i bob pwrpas. A oes trafodaethau ar y gweill â Llywodraeth y DU yn hynny o beth, a beth yw eich barn ar y mater?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, well, of course, Silk 2 has recommended the devolution of speed limits and drink-drive limits. I think that I'm very much with the individuals who would like to see a reduction.

Ie, wel, wrth gwrs, mae Silk 2 wedi argymhell datganoli terfynau cyflymder a therfynau yfed a gyrru. Rwy'n meddwl fy mod yn bendant ar ochr y bobl a fyddai'n hoffi gweld gostyngiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cysylltiadau Trafnidiaeth

Transport Links

14:41 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiadau trafndiaeth rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr? OAQ(4)0496(EST)

5. Will the Minister make a statement on transport links between north Wales and the north west of England? OAQ(4)0496(EST)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:41 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I think that this is a particularly important area, can I say, in terms of transport links between it? I think that it is important for us to recognise that the national transport plan is currently out for consultation, which outlines a range of interventions and investments. The plan reflects the advice that I've had from Lesley Griffiths, who chaired the taskforce, and I think that it's important to recognise that all those economic, social, health and education links are very important.

A gaf fi ddweud fy mod yn credu fod hwn yn faes arbennig o bwysig o ran cysylltiadau trafndiaeth rhyngddynt? Credaf ei bod yn bwysig i ni gydnabod bod y cynllun trafndiaeth cenedlaethol, sy'n amlinellu ystod o ymyriadau a buddsoddiadau, yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r cyngor rwyf wedi'i gael gan Lesley Griffiths, a gadeiriodd y tasglu, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod bod yr holl gysylltiadau economaidd, cymdeithasol, iechyd ac addysg hynny yn bwysig iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:41 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that response, Minister. I'm very pleased to note that you recognise the important of these links and I'm very pleased also that the north-east Wales integrated transport task and finish group has undertaken some very important work on this very subject. I wonder if you could tell us what engagement your Government is having with the north of England taskforce, which has been established by the UK Government, and whether you think that that engagement has been sufficient. I was concerned to note that some of the operators, for example, that have indicated that they've got an interest in supporting the Government to deliver electrification into north Wales, have felt that there's been a lack of understanding on the importance of these links in the reverse direction. Is that something that you and your officials can pursue, please?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n falch iawn o nodi eich bod yn cydnabod pwysigrwydd y cysylltiadau hyn ac rwy'n falch iawn hefyd fod grŵp gorchwyl a gorffen integredig gogledd-ddwyrain Cymru wedi gwneud gwaith pwysig iawn ar yr union bwnc hwn. Tybed a allwch ddweud wrthym pa ymgysylltiad sydd ar waith rhwng eich Llywodraeth â thasglu gogledd Lloegr a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU, ac a ydych yn credu bod yr ymgysylltiad hwnnw wedi bod yn ddigonol. Roeddwn yn bryderus i nodi bod rhai o'r gweithredwyr, er enghraifft, sydd wedi nodi bod ganddynt ddiddordeb mewn cynorthwyo'r Llywodraeth i gyflwyno trydaneiddio i ogledd Cymru, yn teimlo bod diffyg dealltwriaeth wedi bod ynghylch pwysigrwydd y cysylltiadau i'r cyfeiriad arall. A yw hynny'n rhywbeth y gallwch chi a'ch swyddogion fynd ar ei ôl, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:42 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you very much for drawing that to my attention because we've had a lot of discussions about cross-border arrangements with the Department of Transport, on the possibility of extending the network between Wrexham and Chester and the cross-Pennine issues there. So, there are discussions going on, but I will certainly discuss with my senior officials about how perhaps those can be improved, because this is a very important economic corridor.

Diolch yn fawr iawn am dynnu fy sylw at hynny oherwydd rydym wedi cael llawer o drafodaethau am drefniadau trawsffiniol gyda'r Adran Drafndiaeth, ar y posibilrwydd o ymestyn y rhwydwaith rhwng Wrecsam a Chaer a'r materion traws-Pennine. Felly, mae trafodaethau yn digwydd, ond byddaf yn sicr yn trafod gyda fy uwch swyddogion ynglŷn â sut y gellid eu gwella, gan fod hwn yn goridor economaidd pwysig iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:42

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, my supplementary question to this actually is around where Darren Millar was leaving off, and it is about the ability to make the most of those links between the north-west and north Wales for the economy. I know that you're committed to improving the economy in north Wales and, again, thank you for buying the former old Hotpoint site, which is close to the A55, which is very integral to part of that transport. I want to press you about how we work together—the north-west, north-east Wales and north Wales—on getting the most for our constituents and also to stop people having to use their cars. Infrequent rail services to Liverpool mean that you cannot get there directly, so that encourages people to use private transport, when we should be looking to encourage people to use public transport at all times.

Weinidog, mae fy nghwestiwn atodol i hyn mewn gwirionedd yn ymwneud â'r hyn y gorffennodd Darren Millar ag ef, ac mae a wnelo â'r gallu i wneud y gorau o'r cysylltiadau hynny rhwng y gogledd-orllewin a gogledd Cymru er mwyn yr economi. Rwy'n gwybod eich bod wedi ymrwymo i wella'r economi yng ngogledd Cymru ac unwaith eto, diolch i chi am brynu hen safle Hotpoint, sy'n agos at yr A55, ac sy'n rhan annatod iawn o ran o'r drafndiaeth honno. Rwyf am bwysleisio'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd—y gogledd-orllewin, gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd Cymru—i gael y gorau ar gyfer ein hetholwyr a hefyd i atal pobl rhag gorfod defnyddio eu ceir. Mae prinder gwasanaethau rheilffordd mynych i Lerpwl yn golygu na allwch gyrraedd yno'n uniongyrchol, felly mae hynny'n annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth breifat pan ddylem fod yn ceisio annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus bob amser.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say, because we've had the agreement of funding for rail electrification in south Wales, it is now more important than ever to make sure that there's equality of treatment, et cetera, in terms of the north Wales discussion regarding rail infrastructure?

A gaf fi ddweud, oherwydd ein bod wedi cael y cytundeb cyllido ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd yn ne Cymru, mae bellach yn bwysicach nag erioed i wneud yn siŵr fod yna driniaeth gyfartal ac ati o ran y drafodaeth ar seilwaith rheilffyrdd gogledd Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In my answer to Darren Millar, I alluded to some discussions that we've had. We've also had discussions on the HS2 scheme as well, because that was actually important in terms of connectivity to Crewe. Can I assure Members that we will be taking up all of these issues and that what I will do is issue a statement to the Chamber on the further discussions that we're having and how we're taking forward the valuable work done by the north Wales report in this regard?

Yn fy ateb i Darren Millar, cyfeiriais at rai trafodaethau rydym wedi eu cael. Rydym hefyd wedi cael trafodaethau ar gynllun HS2 hefyd, oherwydd roedd hynny'n bwysig mewn gwirionedd o ran cysylltiad â Crewe. A gaf fi sicrhau'r Aelodau y byddwn yn ymdrin â'r holl faterion hyn ac mai'r hyn a wnaiff fydd cyhoeddi datganiad i'r Siambr am y trafodaethau pellach rydym yn eu cael a sut rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith gwerthfawr a wnaed gan adroddiad gogledd Cymru yn hyn o beth?

14:44

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, whilst you consider the task group's report, and whilst they're involved in these further discussions and consultation with regard to the national transport plan, OpenTrainTimes website this week has published details of the May 2015 timetable, which includes the deletion of the Wrexham to Birmingham 07:47 service, which is the most heavily used service from Wrexham. Can I ask that you intervene as far as Arriva Trains Wales is concerned because OpenTrainTimes are telling us that that information is based on information that they've received from Network Rail via Arriva Trains Wales?

Weinidog, er eich bod yn ystyried adroddiad y grŵp gorchwyl ac er eu bod yn rhan o'r trafodaethau pellach a'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol, yr wythnos hon mae gwefan OpenTrainTimes wedi cyhoeddi manylion amserlen Mai 2015, sy'n cynnwys dileu gwasanaeth 07:47 o Wrecsam i Birmingham, sef y gwasanaeth sy'n cael y mwyaf o ddefnydd o Wrecsam. A gaf fi ofyn i chi ymyrryd mewn perthynas â Trenau Arriva Cymru am fod OpenTrainTimes yn dweud wrthym fod y wybodaeth honno'n seiliedig ar wybodaeth a gawsant gan Network Rail drwy Trenau Arriva Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. That was not one of the issues that Arriva raised with me in a meeting with me recently, this week. It is certainly a matter that I will take up. I think that it's important that we recognise the importance of some of these routes and the timing of these trains in terms of people's ability to do business, et cetera.

Diolch i chi. Nid oedd hynny'n un o'r materion a gododd Arriva gyda mi mewn cyfarfod rhyngom yn ddiweddar, yr wythnos hon. Mae'n fater y byddaf yn rhoi sylw iddo yn bendant. Credaf ei bod yn bwysig i ni gydnabod pwysigrwydd rhai o'r llwybrau hyn ac amseriad y trenau o ran gallu pobl i redeg busnesau, ac ati.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llwybrau Rheilffordd Cymru a'r Gororau

Wales and Borders Rail Routes

14:45	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ryddfrefinio llwybrau rheilffordd Cymru a'r Gororau? OAQ(4)0510(EST)</p>	<p>6. Will the Minister make a statement on the franchising of the Wales and Borders rail routes? OAQ(4)0510(EST)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:45	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes. I'll shortly announce the new strategic advisory board, which will guide our work on the next Wales and Borders franchise. This is an opportunity to design rail services to better support our wider economic and social ambition. As I indicated in my response to your spokesperson, we will certainly be involving Assembly Members and spokespeople for early discussions on these matters.</p>	<p>Gwnaf. Cyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi sefydlu'r bwrdd cynghori strategol newydd a fydd yn arwain ein gwaith ar fasnachfrait nesaf Cymru a'r Gororau. Mae'n gyfle i lunio gwasanaethau rheilffordd i gefnogi ein huchelgais economaidd a chymdeithasol ehangach yn well. Fel y nodais yn fy ymateb i'ch llefarydd, byddwn yn sicr yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad a llefarywyr mewn trafodaethau cynnar ar y materion hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:45	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. I ask the question as a frequent rail user, but also on behalf of the many constituents of mine who are now finding greater difficulty, shall we say, with the rolling stock and various other issues. Really, the questions I've been asked are, in terms of franchise agreements, how transparent the process is, how wide the consultation goes with stakeholders and service users and, you know, how members of the public can actually access that kind of detail.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Gofynnaf y cwestiwn fel rhywun sy'n defnyddio'r rheilffordd yn aml, ond hefyd ar ran fy etholwyr niferus sydd bellach yn cael anhawster cynyddol, ddywedwn ni, gyda'r cerbydau ac amryw o faterion eraill. Mewn gwirionedd, mae'r cwestiynau a ofynnwyd i mi o ran cytundebau'r fasnachfrait yn ymwneud â pha mor dryloyw yw'r broses, pa mor eang yw'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau a sut, wyddoch chi, y gall aelodau o'r cyhoedd ddod o hyd i'r math hwn o fanylder mewn gwirionedd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, I think I'll have to give some consideration, when we're looking at this, about whether I have a website that members of the public can look at to see where progress is and where they can place comments, and I'll certainly come back on that matter—a very helpful suggestion, Janet.</p>	<p>Ie, wrth edrych ar hyn, rwy'n meddwl y bydd yn rhaid i mi ystyried a oes gen i wefan y gall aelodau o'r cyhoedd edrych arni i weld lle y mae cynnydd yn digwydd a ble y gallant roi sylwadau, a byddaf yn sicr yn adrodd yn ôl ar y mater hwnnw—awgrym defnyddiol iawn, Janet.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Ann Jones.</p>	<p>Ann Jones.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>No, mine's been covered, thank you, Presiding Officer.</p>	<p>Na, mae fy mater i wedi cael sylw, diolch i chi, Lywydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>No. Leanne Wood.</p>	<p>Na. Leanne Wood.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:46	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, a consistent feature of the current franchise is overcrowding, particularly on the Valleys lines services, which I know that you are aware of. Now, you've said in this Chamber that you want this to be addressed for the next franchise and that you are looking at options with regard to rolling stock. Can you outline to us whether operating the franchise on a not-for-dividend basis would make a difference in terms of rolling stock, or whether the Government itself is considering becoming an owner of rolling stock?</p>	<p>Weinidog, nodweddiadol gyson o'r fasnachfrait bresennol yw gorlenwi, yn enwedig ar wasanaethau rheilffordd y Cymoedd, a gwn eich bod yn ymwybodol o hynny. Yn awr, rydych wedi dweud yn y Siambr hon eich bod eisiau i rywun fynd i'r afael â hyn ar gyfer y fasnachfrait nesaf a'ch bod yn edrych ar yr opsiynau o ran cerbydau. A allwch amlinellu i ni a fyddai gweithredu'r fasnachfrait ar sail ddi-ddifidend yn gwneud gwahaniaeth o ran cerbydau, neu a yw'r Llywodraeth ei hun yn ystyried dod yn berchennog cerbydau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:46	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think all options are now on the table in terms of rolling stock. I think there should be consideration given to whether we purchase rolling stock and I'm meeting quite a nice lot of companies now that could provide rolling stock. Do I use that as an opportunity, if we go down that route, to encourage them to bring their manufacture and put it together in Wales? So, there are a lot of options here and, when I'm able to share more with the Chamber, I will, of course, undertake to do so.</p>	<p>Rwy'n credu bod yr holl opsiynau yn awr ar y bwrdd o ran cerbydau. Rwy'n credu y dylid ystyried a ydym am brynu cerbydau ac rwy'n cyfarfod â chryn dipyn o gwmnïau erbyn hyn a allai ddarparu cerbydau. A ydw i'n defnyddio hynny fel cyfle, os awn i lawr y llwybr hwnnw, i'w hannog i ddod â'u gweithgynhyrchiant a'i roi at ei gilydd yng Nghymru? Felly, mae llawer o opsiynau yma a phan fyddaf yn gallu rhannu mwy gyda'r Siambr, byddaf yn gwneud hynny, wrth gwrs.</p>
14:47	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, you mentioned Merseyrail in an earlier answer. Of course, the Wrexham-Bidston line would probably be more integrated with the Merseyrail system than the current system operated by Arriva Trains Wales. Is there the opportunity to discuss those matters with Merseyrail before you formulate any decisions with regard to how the franchise proceeds?</p>	<p>Weinidog, fe sonioch am Merseyrail mewn ateb cynharach. Wrth gwrs, byddai rheilffordd Wrecsam-Bidston yn ôl pob tebyg yn cael ei hintegreiddio'n fwy gyda system Merseyrail na'r system bresennol a weithredir gan Drenau Arriva Cymru. A oes cyfle i drafod y materion hynny gyda Merseyrail cyn i chi lunio unrhyw benderfyniadau o ran sut y mae symud ymlaen ar y fasnachfaint?</p>
14:47	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I think if those are the comments that you want to be taken as part of any discussions, I'm happy to take comments like yours on board for the further discussions.</p>	<p>Wel, rwy'n meddwl os mai dyna'r sylwadau rydych am iddynt gael eu cynnwys yn rhan o unrhyw drafodaethau, rwy'n hapus i gyflwyno sylwadau fel eich rhai chi mewn trafodaethau pellach.</p>
	Ynni Rhatach	Cheaper Energy
14:47	Julie Morgan Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>7. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith ynni rhatach ar ddiwydiant yng Nghymru? OAQ(4)0507(EST)</i></p>	<p><i>7. What assessment has the Minister made of the impact of cheaper energy on industry in Wales? OAQ(4)0507(EST)</i></p>
14:47	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The regulation of energy prices is a matter for the UK Government. However, we consistently raise concerns about the impact of high energy prices on energy-intensive businesses.</p>	<p>Mae rheoleiddio prisiau ynni yn fater i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, rydym yn mynegi pryderon yn gyson ynghylch effaith prisiau ynni uchel ar fusnesau ynni-ddwys.</p>
14:48	Julie Morgan Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank the Minister for that response. In the light of the many complaints from industry and consumers about the much higher energy costs, particularly in south Wales compared to the rest of the UK, what consultations has she had with producers and users as to when lower prices will filter down to everyone in Wales?</p>	<p>Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb. O ystyried y cwynion niferus o'r diwydiant a chan ddefnyddwyr ynghylch costau ynni llawer uwch, yn enwedig yn ne Cymru o gymharu â gweddill y DU, pa ymgynghoriadau mae hi wedi eu cael gyda chynhyrchwyr a defnyddwyr o ran pryd y bydd prisiau is yn treiddio i lawr i bawb yn Gymru?</p>
14:48	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>In terms of energy in general and high intensive energy users, if I can deal with that first, we convened a meeting of the members of the Council for Economic Renewal with the Secretary of State for Wales ahead of the autumn statement in 2014 to make that case. Obviously, there is also concern generally with consumers about when things are coming down in price as well, but, obviously, we are keen to see lower prices reach business individuals as soon as possible.</p>	<p>O ran ynni yn gyffredinol a defnyddwyr ynni-ddwys, os caf fi ddelio â hynny yn gyntaf, cynhaliwyd cyfarfod o aelodau'r Cyngor Adnewyddu'r Economi gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru cyn datganiad yr hydref yn 2014 i gyflwyno'r achos hwnnw. Yn amlwg, mae yna bryder yn gyffredinol hefyd ymhlith defnyddwyr ynghylch pa bryd y daw prisiau pethau i lawr yn ogystal, ond yn amlwg, rydym yn awyddus i weld prisiau is yn cyrraedd pobl fusnes cyn gynted â phosibl.</p>

14:48	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, Minister, I'm sure you'll be glad that there's no price freeze in force at the moment and that prices are now falling as a result of the change in global pricing, but one of the problems around high energy costs in Wales is because National Grid doesn't look at Wales as an entity and it looks only at the transmission networks east-west. I do think that it is important. Representations have been made now for a number of years and I know that I've certainly made representations to the UK Government about the unfairness that that approach causes in Wales, so I would welcome you pursuing that agenda to make sure we are looked at nationally in the way that our electricity is exported, rather than, as it were, on a north and a south basis.</p>	<p>Wel, Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn falch nad oes cynllun i rewi prisiau mewn grym ar hyn o bryd a bod y prisiau yn awr yn disgyn o ganlyniad i'r newid yn y prisiau'n fyd-eang, ond un o'r problemau sy'n ymwneud â chostau ynni uchel yng Nghymru yw'r ffaith nad yw'r Grid Cenedlaethol yn edrych ar Gymru fel endid gan edrych yn unig ar y rhwydweithiau trosglwyddo o'r dwyrain i'r gorllewin. Rwy'n meddwl fod hynny'n bwysig. Tynnwyd sylw at hyn dros nifer o flynyddoedd bellach a gwn fy mod i'n sicr wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch yr annhegwch y mae'r agwedd hon yn ei hachosi yng Nghymru, felly byddwn yn falch o'ch gweld yn mynd ar drywydd yr agenda honno i wneud yn siŵr ein bod yn cael ein gweld yn genedlaethol yn y ffordd y caiff ein trydan ei allforio, yn hytrach nag ar sail gogledd a de, fel petai.</p>
14:49	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think it's important that we have equity across the piece in issues. There are several issues that are currently ongoing in my discussions with the National Grid.</p>	<p>Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni gael tegwch yn y materion hyn yn gyffredinol. Mae yna nifer o faterion sydd ar hyn o bryd ar y gweill yn fy nhrafodaethau gyda'r Grid Cenedlaethol.</p>
14:49	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Alun Ffred Jones.</p>	<p>Alun Ffred Jones.</p>
14:50	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Sorry, no.</p>	<p>Mae'n ddrwg gen i, na.</p>
	Cefnffyrdd (Cynnal a Chadw, a Gwella)	Trunk Roads (Maintenance and Improvement)
14:50	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen cynnal a chadw a gwella ar gyfer cefnffyrdd? OAQ(4)0495(EST)</i></p>	<p><i>8. Will the Minister make a statement on the trunk road maintenance and improvement programme? OAQ(4)0495(EST)</i></p>
14:50	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yes, we continue to deliver our programme of improvements and maintenance on the trunk road network across all parts of Wales.</p>	<p>Gwnaf, rydym yn parhau i gyflawni ein rhaglen o welliannau a gwaith cynnal a chadw ar y rhwydwaith cefnffyrdd ym mhob rhan o Gymru.</p>

14:50	Darren Millar Bywgraffiad Biography	<p>Thank you very much for your response, Minister. As you will know, there has been significant disruption along the A55 trunk road as a result of some of the improvements that are being made to manage traffic along that important part of our highways network. However, many residents have faced significant and lengthy inconveniences as a result of the poor management of that maintenance programme and some of the capital investment that has been put to use. So, for example, there have on occasions been closures that have been much longer than necessary in order to undertake the work, and indeed there are more that are planned in the future, according to your letter, which was distributed to Assembly Members yesterday. What assurances can you give to members of the public that road closures are for absolute minimum periods and not unnecessarily lengthy as a result of the disruption that has been caused?</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am eich ymateb, Weinidog. Fel y gwyddoch, bu tarfu sylweddol ar gefnffordd yr A55 o ganlyniad i rai o'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud i reoli traffig ar hyd y rhan bwysig hon o'n rhwydwaith prifffyrdd. Fodd bynnag, mae llawer o drigolion wedi wynebu anghyfleustra sylweddol ac estynedig o ganlyniad i'r ffaith fod y rhaglen gynnal a chadw honno a pheth o'r buddsoddiad cyfalaf a ddefnyddiwyd wedi'u rheoli'n wael. Felly, er enghraifft, ar adegau caewyd lonydd am lawer mwy o amser nag a oedd ei angen i wneud y gwaith, ac yn wir mae mwy o waith wedi ei gynllunio ar gyfer y dyfodol yn ôl eich llythyr a ddosbarthwyd i Aelodau'r Cynulliad ddoe. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i aelodau'r cyhoedd fod cau lonydd yn digwydd am y cyfnodau lleiaf posibl a heb fod yn ddiangen o hir yn sgil y tarfu a achoswyd?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:51	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>Can I say that I have some great reservations about some of the issues that have happened with roadworks? Obviously, I have asked my officials to look at what's going on in terms of information to the public, which Members raised with me after the statement I made last year, which I am actually looking at. I think that I need to have more reassurances as a Minister, and if there is a reason that something is delayed we also need to get that information more clearly into the public domain. So, I am cognisant as to the points that you are raising, and discussing with officials.</p>	<p>A gaf fi ddweud bod gennyf rai amheuan mawr ynghylch rhai o'r problemau sydd wedi codi gyda gwaith ar y ffyrdd? Yn amlwg, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych ar yr hyn sy'n digwydd o ran gwybodaeth i'r cyhoedd, wedi i'r Aelodau ddwyn hyn i fy sylw ar ôl y datganiad a wnes i'r llynedd, ac rwy'n edrych arno mewn gwirionedd. Credaf fod angen i mi gael mwy o sicrwydd fel Gweinidog, ac os oes rheswm pam fod oedi'n digwydd, mae angen i ni hefyd gwneud y wybodaeth honno'n fwy eglur i'r cyhoedd. Felly, rwy'n ymwybodol o'r pwyntiau rydych yn eu codi, ac yn trafod gyda swyddogion.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:51	Ann Jones Bywgraffiad Biography	<p>Minister, I share the concerns that Darren Millar has just raised with you on behalf of his constituents along the A55, but I wanted to raise particularly the introduction of the crawler lane on Rhualt Hill going—if I can get my bearings—eastbound, which has been quite a significant achievement in reducing the number of accidents. The problem is now going westbound and coming down Rhualt Hill, which hits quite a severe bend at the bottom. I was wondering whether there was any way in which you would undertake to look at a piece of work around perhaps the maintenance or introducing of a crawler lane going westbound as well.</p>	<p>Weinidog, rwy'n rhannu'r un pryderon ag y mae Darren Millar newydd eu mynegi wrthych ar ran ei etholwyr ar hyd yr A55, ond roeddwn am dynnu sylw arbennig at gyflwyno'r lôn ymlusgo ar Allt Rhualt yn mynd—os gallaf gael y cyfeiriad yn iawn—i'r dwyrain, a gyflawnodd gryn dipyn o ran lleihau nifer y damweiniau. Mae'r broblem yn awr tua'r gorllewin a dod i lawr Allt Rhualt, sy'n taro tro eithaf difrifol ar y gwaelod. Roeddwn i'n meddwl tybed a oedd unrhyw ffordd y byddech chi'n ymrwymo i edrych ar waith yn ymwneud â chynnal a chadw, efallai, neu gyflwyno lôn ymlusgo yn mynd i'r gorllewin hefyd.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>The crawler lane is uphill, isn't it, on the hill there?</p>	<p>Mae'r lôn ymlusgo i fyny'r allt onid yw, ar y bryn yno?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Ann Jones Bywgraffiad Biography	<p>Yes, going eastbound.</p>	<p>Ydy, i gyfeiriad y dwyrain.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>It was introduced probably to do, I think, with HGVs, for the progress there. The traffic flow, I understand from my officials, is not the same in the other direction but I will certainly take up the points and drop the Member a line to see whether there is anything that we can do to assist.</p>	<p>Rwy'n credu iddi gael ei chyflwyno mewn perthynas â cherbydau nwyddau trwm ar gyfer symud ymlaen yno. Rwy'n deall gan fy swyddogion nad yw llif y traffig yr un fath i'r cyfeiriad arall, ond byddaf yn sicr yn ystyried y pwyntiau ac yn ysgrifennu at yr Aelod i weld a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i helpu.</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, with the junction 41 closures ongoing, we are now seeing more and more roads off the M4 around Port Talbot, including other trunk roads, being affected by this move. One example is the old Baglan road—an A-road—where lorries over 7.5 tonnes are now being prevented from accessing because of, among other things, greater wear and tear along the road. Can you tell me what the Government is doing to ensure that maintenance and repairs on trunk routes around the M4 in Port Talbot aren't being increased as a result of this particular junction closure?

Weinidog, gyda chyffordd 41 yn parhau ar gau, rydym bellach yn gweld mwy a mwy o ffordd oddi ar yr M4 o amgylch Port Talbot, gan gynnwys cefnffyrdd eraill, yn cael eu heffeithio gan hyn. Un enghraifft yw hen ffordd Baglan—ffordd A—lle y mae lorïau dros 7.5 tonnelli bellach yn cael eu hatal rhag mynd ar hyd-ddi oherwydd y draul gynyddol sydd ar y ffordd, ymysg pethau eraill. A allwch chi ddweud wrthyf beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau nad yw gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio ar gefnffyrdd o amgylch yr M4 ym Mhort Talbot yn cael ei gynyddu o ganlyniad i gau'r gyffordd benodol hon?

14:53 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, obviously, in terms of trunk roads we do what we can in terms of ensuring the proper maintenance up to proper standards, and that applies to whether it is in the Port Talbot area or whether, of course, it is elsewhere in Wales. All issues around traffic flow and issues around junction 41 will be examined during the period of this trial.

Wel, o ran cefnffyrdd, yn amlwg rydym yn gwneud yr hyn a allwn o ran sicrhau bod y gwaith cynnal a chadw'n cyrraedd safonau priodol, ac mae hynny'n wir yn ardal Port Talbot neu mewn mannau eraill yng Nghymru, wrth gwrs. Bydd yr holl faterion sy'n ymwneud â llif traffig a phroblemau sy'n gysylltiedig â chyffordd 41 yn cael eu harchwilio dros gyfnod y treial hwn.

14:53 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, could I thank you very much for your positive announcement with regard to speed limits on the trunk roads on the A470 and the A483 outside Newbridge school and Llanelwedd school? They have been widely welcomed by those communities. One of the ways in which communities are also anxious to improve trunk roads in Brecon and Radnor is the provision of a network of public conveniences. I know that your officials have been looking at this. Could you give us an update, please, because community councils are also looking at whether they need to step into the breach to provide these services on trunk roads, and, of course, they need to make decisions shortly about budgets for the new financial year?

Weinidog, a gaf fi ddiolch yn fawr iawn am eich cyhoeddiad cadarnhaol ar derfynau cyflymder ar y cefnffyrdd ar yr A470 a'r A483 y tu allan i ysgol y Bontnewydd ar Wy ac ysgol Llanelwedd? Maent wedi cael croeso mawr gan y cymunedau hynny. Un o'r ffordd y mae cymunedau hefyd yn awyddus i wella cefnffyrdd ym Mrycheiniog a Maesyfed yw darparu rhwydwaith o gyfleusterau cyhoeddus. Gwn fod eich swyddogion wedi bod yn edrych ar hyn. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, os gwelwch yn dda, gan fod cynghorau cymuned hefyd yn edrych i weld a oes angen iddynt gamu i'r adwy i ddarparu'r gwasanaethau hyn ar gefnffyrdd, ac wrth gwrs, mae angen iddynt wneud penderfyniadau yn fuan ynghylch cyllidebau ar gyfer y fwyddyn ariannol newydd?

14:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I was expecting to have a submission this week or next week about the issues that I have asked officials to look at in terms of costs of giving the provision, and also the very helpful suggestion that you made previously about whether I could direct people into towns to conveniences that will actually be maintained by community councils. That work is almost there. As soon as it is, I will issue a written statement.

Roeddwn yn disgwyl cael cyflwyniad yr wythnos hon neu'r wythnos nesaf ynglŷn â'r materion rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych arnynt o ran costau'r ddarpariaeth, a hefyd yr awgrym defnyddiol iawn a wnaethoch yn flaenorol ynglŷn ag a allwn gyfeirio pobl i mewn i drefi i gyfleusterau a fyddai mewn gwirionedd yn cael eu cynnal gan gynghorau cymuned. Mae'r gwaith hwnnw bron yn barod. Cyn gynted ag y bydd yn barod, byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig.

Polisi Gwyddoniaeth

14:54 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

9. Beth fydd debygol y fframwaith rhagoriaeth ymchwil a gyhoeddwyd fis diwethaf ar bolisi gwyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(4)0505(EST)

9. What is the likely outcome for science policy in Wales as a result of the research excellence framework published last month? OAQ(4)0505(EST)

- 14:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I think that we are all absolutely delighted with the results that show that researchers in Wales are amongst the best in the UK and the world. We continue to build on that with programmes such as Sêr Cymru to deliver long-term sustainable economic and social benefits for Wales.
- Wel, rwy'n meddwl ein bod i gyd wrth ein bodd gyda'r canlyniadau sy'n dangos bod ymchwilwyr yng Nghymru ymhlith y gorau yn y DU a'r byd. Rydym yn parhau i adeiladu ar hynny gyda rhaglenni fel Sêr Cymru i sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol cynaliadwy hirdymor i Gymru.
- 14:54 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Minister for that response and echo her comments about what brilliant results these were in Wales. In view of the fact that Cardiff and Swansea universities in particular have gone up the league tables, what plans does she have through the Welsh Government and through the Sêr Cymru programme to increase the contribution that Welsh science can make to the Welsh economy?
- Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb ac rwy'n adleisio'i sylwadau ynglŷn â pha mor wych oedd y canlyniadau hyn yng Nghymru. Yn wyneb y ffaith fod prifysgolion Caerdydd ac Abertawe yn arbennig wedi mynd i fyny yn y tablau cynghair, pa gynlluniau sydd ganddi drwy Lywodraeth Cymru a thrwy raglen Sêr Cymru i gynyddu'r cyfraniad y gall gwyddoniaeth yng Nghymru ei wneud i economi Cymru?
- 14:55 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I think our next programme in terms of delivering on the back of Sêr Cymru will extend the programme to support universities, which will help us in attracting and nurturing a pipeline of excellent research talent at mid-career stage. Then, of course, when these people come in with their talents, there is a question then of turning that into business as well somewhere along the line, which Cardiff has been very successful in some areas in doing. That's where the life science fund and the way we're operate life science is also very important in that area, but I think it's good news all round, particularly where everybody is in terms of our expertise. I think the long-term vision will help us to exploit our future opportunities.
- Ie, o ran cyflawni yn sgil Sêr Cymru rwy'n meddwl y bydd ein rhaglen nesaf yn ymestyn y rhaglen i gefnogi prifysgolion, a fydd yn ein helpu i ddenu a meithrin cyflenwad o dalent ymchwil rhagorol ar y cam canol gyrfa. Yna, wrth gwrs, pan fydd y bobl hyn yn ymddangos gyda'u doniau, mae cwestiwn wedyn ynghylch troi hynny'n fusnes hefyd rywle ar hyd y daith, ac mae Caerdydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn gwneud hyn mewn rhai meysydd. Dyna lle y mae'r gronfa gwyddorau bywyd a'r ffordd rydym yn gweithredu gwyddorau bywyd hefyd yn bwysig iawn yn y maes hwnnw, ond rwy'n credu ei fod yn newyddion da i bawb, yn enwedig o ran lle y mae pawb mewn perthynas â'n harbenigedd. Rwy'n credu y bydd y weledigaeth hirdymor yn ein helpu i fanteisio ar ein cyfleoedd yn y dyfodol.
- 14:56 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, it is indeed very welcome news that the research of some of our universities, in particular Cardiff University, has now been both nationally and internationally recognised as being of the highest quality. There is a real issue, though, obviously, about attracting additional moneys into universities to increase the research base, in particular at all Welsh universities. It is a very competitive field. The public sector finances, obviously, as we know, are very constrained. What work are your officials undertaking with the universities to try and market the positive story that we have for the Welsh university research base in attracting this private sector money and, indeed, the foundation money as well that is out there to come into Wales?
- Weinidog, mae'n newyddion da iawn yn wir fod ymchwil rhai o'n prifysgolion, yn enwedig Prifysgol Caerdydd, bellach wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel gwaith o'r ansawdd uchaf. Yn amlwg fodd bynnag, mae yna broblem wirioneddol o ran denu arian ychwanegol i brifysgolion i ymestyn y sylfaen ymchwil, yn enwedig yn holl brifysgolion Cymru. Mae'n faes cystadleuol iawn. Yn amlwg, mae'r cyllid sector cyhoeddus, fel y gwyddom, yn gyfyngedig iawn. Pa waith y mae eich swyddogion yn ei wneud gyda'r prifysgolion i geisio marchnata'r stori gadarnhaol sydd gennym ar gyfer sylfaen ymchwil prifysgol yng Nghymru o ran denu arian sector preifat, ac yn wir yr arian sylfaen sydd allan yno hefyd, i Gymru?
- 14:56 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, there are obviously issues across portfolios here. In terms of the issues that we undertake, we try to encourage business links, because business is good then in giving support. You've only got to look, I think, at the new campus in Swansea University with the involvement of Rolls Royce and Tata. That indicates the type of support. So, I think there is obviously work going on in that area. We have a close relationship—my department—with higher education, with a close relationship on the innovation, and I think that's the work we've got to continue to undertake.
- Wel, mae'n amlwg fod materion yn croesi ar draws portffolios yma. O ran y materion rydym ni'n ymgymryd â hwy, rydym yn ceisio annog cysylltiadau busnes, gan fod busnes yn dda am roi cefnogaeth. Nid oes ond angen i chi edrych ar gampws newydd Prifysgol Abertawe, rwy'n credu, ac ymwneud Rolls Royce a Tata. Mae hynny'n arwydd o'r math hwn o gefnogaeth. Felly, rwy'n meddwl bod gwaith ar y gweill yn y maes, yn amlwg. Mae gennym berthynas agos—fy adran—ag addysg uwch, gyda chysylltiad agos ar arloesedd, ac rwy'n credu mai dyna'r gwaith sy'n rhaid i ni barhau i'w wneud.

- 14:57 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rydym ninnau'n croesawu'n fawr, wrth gwrs, ganlyniadau gwych y fframwaith rhagoriaeth ymchwil ac yn gyffrous ynglŷn â beth mae hynny'n mynd i'w olygu ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol. Mi fues i'n cyfarfod y bore yma â chynrychiolwyr o'r diwydiant 'pharmaceutical' yng Nghymru, a oedd yn egluro bod gwerth y diwydiant hwnnw i economi Cymru yn mynd i ddeillio yn uniongyrchol allan o waith ymchwil. Rŵan, er mai cyfrifoldeb Gweinidog arall ydy hwn, pa mor bwysig ydyw i chi fel Gweinidog economi fod capasiti ymchwil prifysgolion Cymru rŵan yn cynyddu oddi ar gefn y canlyniadau gwych yma?
- We, of course, warmly welcome the excellent outcomes of the research excellence framework and are excited as to what that will mean for the Welsh economy in future. I, this morning, met with representatives of the pharmaceutical industry in Wales, who explained that the value of that industry to the Welsh economy is going to emerge directly from research work undertaken. Now, although it's the responsibility of another Minister, how important is it for you, as the Minister for the economy, that research capacity within Welsh universities should increase as a result of these excellent results?
- 14:57 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I know that the education Minister hopes very much that will occur as well, but, also as well, my colleague on my left has an interest particularly in the pharmaceutical industry and science. We all work very closely together in these developments because they're good for the economy.
- Wel, gwn fod y Gweinidog addysg yn gobeithio'n fawr iawn y bydd hynny'n digwydd yn ogystal, ond hefyd, mae fy nghydweithiwr ar fy llaw chwith â diddordeb arbennig yn y diwydiant fferyllol a gwyddoniaeth. Rydym i gyd yn gweithio'n agos iawn gyda'n gilydd yn y datblygiadau hyn am eu bod yn dda i'r economi.
- 14:58 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, Cardiff University has already been mentioned, but I'll go back to Swansea University. Will you join me in congratulating it on its excellent REF results? It has been moved up to 26 within the UK and has been recognised as being the most improved research intensive university in the UK. Together with, as you mentioned, the new science and engineering campus, do you agree that opportunities for developing research and development are excellent in Wales? How, therefore, will the Welsh Government support the approach, such as using specific taking of things to market from that R&D, so we can actually not just do the R&D but we can then manufacture as well?
- Weinidog, mae Prifysgol Caerdydd eisoes wedi cael ei chrybwyll, ond rwyf am ddychwelyd at Brifysgol Abertawe. A wnewch chi ymuno â mi i'w llongyfarch ar ei chanlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ardderchog? Mae wedi cael ei chodi i safle 26 yn y DU a'i chydabod fel y brifysgol ymchwil dwys sydd wedi gwella fwyaf yn y DU. Ynghyd â'r campws gwyddoniaeth a pheirianneg newydd, fel y crybwylloch, a ydych yn cytuno bod y cyfleoedd ar gyfer datblygu ymchwil a datblygu yn ardderchog yng Nghymru? Sut, felly, fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull o weithredu, megis defnydd penodol o gyflwyno pethau i'r farchnad o waith ymchwil a datblygu o'r fath, fel y gallwn wneud y gwaith ymchwil a datblygu, a'r gwaith o gynhyrchu hefyd?
- 14:58 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I think that's an absolutely important point and I think, in some areas, we've been better than others. In looking at what we've done in R&D, we are producing products, but then we're not taking advantage. I think that's why it's so important there are close links between higher education, further education and my department to include that good work about developing the potential for us.
- Ie, rwy'n credu bod hynny'n hollol bwysig ac rwy'n meddwl ein bod wedi bod yn well mewn rhai meysydd nag eraill. Wrth edrych ar yr hyn rydym wedi ei wneud ym maes ymchwil a datblygu, rydym yn cynhyrchu cynnyrch, ond nid ydym yn manteisio ar hynny wedyn. Rwy'n meddwl mai dyna pam y mae mor bwysig cael cysylltiadau agos rhwng addysg uwch, addysg bellach a fy adran i gynnwys y gwaith da ar ddatblygu potensial ar ein cyfer.
- Cynllun Parcio Bathodyn Glas** **The Blue Badge Parking Scheme**
- 14:59 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y diwygiad diweddar o'r cynllun parcio bathodyn glas yng Nghymru? OAQ(4)0502(EST)*
- 10. Will the Minister provide an update on the recent reform of the blue badge parking scheme in Wales? OAQ(4)0502(EST)*

14:59 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. My officials are conducting a review of the scheme's current delivery methods, informed by practice in other parts of the UK. I will provide an update on the outcome of this work by the spring. I have to assure Members that I am increasingly concerned by the level of correspondence about this, and the concerns that have been expressed about the way these matters are dealt with by local authorities. I'll be absolutely frank: if I don't have the results I want in terms of my review and I'm not seeing improvements, I think I might decide to open it all up again and have another look.

Gwnaf. Mae fy swyddogion yn cynnal adolygiad o ddulliau o gyflwyno'r cynllun ar hyn o bryd ar sail ymarfer mewn rhannau eraill o'r DU. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y gwaith erbyn y gwanwyn. Mae'n rhaid i mi sicrhau'r Aelodau fy mod yn gynyddol bryderus ynghylch lefel yr ohebiaeth ar hyn, a'r pryderon a fynegwyd ynghylch y ffordd yr ymdrinnir â'r materion dan sylw gan awdurdodau lleol. Byddaf yn hollol onest: os na chaf y canlyniadau rwyf eu heisiau o safbwynt fy adolygiad ac os na welaf welliannau, rwy'n meddwl efallai y gallwn benderfynu agor y cyfan eto a chael golwg arall.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:59 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I'm very appreciative of that candid answer that you've given, because there certainly is considerable concern across Wales in terms of the way that the scheme is operating, and particularly around how the most recent changes have been communicated. Particularly, there are concerns in certain sectors, including those who have autistic spectrum disorder within Wales, as to their particular needs. Your colleague, the Minister for health attended CPAG today, the cross-party group on that topic, and the issue was also flagged in the margins of that meeting. I'd be very grateful if you could maintain your focus on this and bring the outcomes back to this house.

Weinidog, rwy'n gwerthfawrogi eich ateb gonest yn fawr gan fod yna gryn bryder yn sicr ar draws Cymru o ran y ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu, ac yn enwedig ynglŷn â sut y cafodd y newidiadau diweddaraf eu cyfleu. Yn arbennig, ceir pryderon mewn rhai sectorau, gan gynnwys rhai sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig yng Nghymru, o ran eu hanghenion penodol. Roedd eich cydweithiwr, y Gweinidog Iechyd, yn bresennol yn y grŵp gweithredu trawsbleidiol ar y cyfryw bwnc heddiw, a chafodd y mater sylw hefyd ar gyrion y cyfarfod hwnnw. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech ddal i ganolbwyntio ar hyn a dod â'r canlyniadau yn ôl i'r tŷ hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:00 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will certainly be maintaining my focus on it, and I'm sure all the Members in here will be, judging by the level of correspondence I receive from you all. It's quite clear that something is not going right in some areas about this, and I am concerned, with the extent of the very important move we've made on cognitive impairment, that that all works correctly as well. You have my assurance that, when I have my statement, I will be open and transparent on this matter, because we have to get this right.

Iawn, byddaf yn sicr yn dal i ganolbwyntio arno ac rwy'n siŵr y bydd yr holl Aelodau yma'n gwneud hynny, a barnu wrth lefel yr ohebiaeth rwy'n ei chael gennych i gyd. Mae'n eithaf clir fod rhywbeth yn mynd o'i le mewn rhai meysydd mewn perthynas â hyn, ac o ran maint y cam pwysig iawn ymlaen rydym wedi ei wneud ar namau gwybyddol rwy'n awyddus i weld hynny i gyd yn gweithio'n iawn hefyd. Rwy'n eich sicrhau, pan fydd gen i fy natganiad, byddaf yn agored ac yn dryloyw ar y mater hwn, gan fod yn rhaid i ni gael hyn yn iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:00 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, Minister, you have an understanding of where the problem lies here, and I welcome the opportunity to raise it. I want to put on record my belief that the system for allocating these blue badges is broken, in fact, in terms of the way it's interpreted. I want to give you the example of Mr David Dewis, who sadly suffered polio as a small child, and this has left him with only the use of his right arm. He is therefore particularly challenged when having to park his car, in terms of getting in and out of his vehicle and, above all, the distress and inconvenience in struggling to convey a shopping trolley any great distance to his car, and then loading his car. Mr Dewis is not eligible for a blue badge, as advised by Swansea City Council whilst interpreting the current strict guidance, Minister. I'd like you to take the case up, and ensure that such obvious cases, in my opinion, are given the support of a blue badge, which they so desperately need in order to live a sort of reasonably normal life.

Yn amlwg, Weinidog, mae gennych ddealltwriaeth ynglŷn â lle y mae'r broblem yn hyn o beth, a chroesawaf y cyfle i godi'r mater. Rwyf am gofnodi fy marn fod y system ar gyfer dyrannu'r bathodynau glas wedi torri, mewn gwirionedd, o ran y ffordd y caiff ei dehongli. Rwyf am roi esiampl Mr David Dewis, a oedd yn anffodus wedi cael polio yn blentyn bach, sy'n golygu mai dim ond ei fraich dde y mae'n gallu ei defnyddio. Felly, mae parcio ei gar yn her arbennig iddo o ran mynd i mewn ac allan o'l gerbyd ac yn anad dim, y gofid a'r anghyfleustra y mae ymdrechu i symud troli siopa dros bellter mawr at ei gar, a llwytho ei gar wedyn. Nid yw Mr Dewis yn gymwys i gael bathodyn glas yn ôl dehongliad Cyngor Dinas Abertawe o'r canllawiau llym ar hyn o bryd, Weinidog. Hoffwn i chi edrych ar yr achos a sicrhau bod achosion o'r fath sydd, yn fy marn i, yn amlwg, yn cael cymorth y bathodyn glas y mae cymaint o'l angen arnynt er mwyn byw rhyw fath o fywyd cymharol normal.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think what's important to recognise is there's been a lot of abuses on blue badges historically, and we did try to look at those particular issues. We've certainly got to improve it, but I think we are all judging, by the number of people approaching us, that there are people we cannot understand why they haven't had a blue badge renewed in any shape or form, in view of the difficulties that they have. So, this is why we are looking at what's going on. There are differences along county boundaries that are also being brought to our attention. One deals with it significantly differently to another—people are asked to come in and then not interviewed, and people are invited to come in and they have sat down and have gone through everything all nicely. We can't tolerate this type of way of doing it across the piece, and we've got to get to the bottom of it, to have a fair and equitable system.

Rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig i'w nodi yw bod llawer o gamddefnyddio wedi bod ar fathodynau glas yn y gorffennol, ac fe geision ni edrych ar y materion penodol hyn. Yn sicr, mae'n rhaid i ni ei wella, ond rwy'n meddwl ein bod i gyd yn barnu, yn ôl nifer y bobl sy'n cysylltu â ni, fod yna bobl na allwn ddeall pam nad ydynt wedi cael bathodyn glas newydd mewn unrhyw siâp neu ffurf o ystyried yr anawsterau sydd ganddynt. Felly, dyma pam ein bod yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd. Mae gwahaniaethau ar hyd ffiniau sirol sydd hefyd yn cael eu dwyn i'n sylw. Mae un yn ymdrin â'r mater yn wahanol iawn i'r llall—gofynnir i bobl ddod i mewn ac yna ni roddir cyfweiliad iddynt, a gwahoddir pobl i ddod i mewn ac maent wedi eistedd a mynd drwy bob dim yn ddidrafferth. Ni allwn oddef ei weld yn cael ei wneud yn y ffordd hon, a rhaid i ni fynd at wraidd y mater er mwyn sicrhau bod y system yn deg a chyfartal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a gaf i hefyd groesawu'ch ymateb chi i hyn, a'r ffaith eich bod chi yn edrych yn fanwl iawn ar y prosesau yma—nid yn unig yr anghysondebau, er mae hynny'n bwysig, ac rwy'n falch eich bod yn edrych ar hynny? Mae gen i, fel Aelod etholaeth, enghreifftiau o bobl sydd wedi cael eu gwrthod, lle'n amlwg y dylen nhw fod wedi cael eu caniatáu. Hefyd, mae diffyg sensitifwydd gan gyrrff cyhoeddus wrth ymdrin â phobl, yn enwedig y bobl fwyaf bregus—ac nid yw hyn yn gyfyngedig i awdurdodau lleol. Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n rhannu'ch casgliadau â'ch cyd-Weinidogion, fel y gallwn edrych o'r newydd ar y ffordd y mae cyrrff cyhoeddus yn cyfathrebu â phobl yng Nghymru, ac eu bod nhw'n cymryd i ystyriaeth anghenion arbennig y bobl hynny.

Minister, may I also welcome your response to this, and the fact that you're looking very closely at these processes—not only the inconsistencies, although that is important, and I'm glad that you're looking at that? As a constituency Member, I know of examples of people who have been refused, where clearly they ought to have been given permission. Also, there is a lack of sensitivity on the part of public bodies in dealing with people, especially the most vulnerable—and this is not limited to local authorities. I hope that you will share your findings with your ministerial colleagues, so that we can take a fresh look at the way public bodies communicate with people in Wales, and ensure that they're taking into account the special needs of those people.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:03

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What's brought it home to me is the one letter that I received when someone said to me, 'If I didn't have my family to look out for me and articulate for me, what would've happened to me?' There are a lot of people out there who are going through this process who don't have anybody to advocate for them, and that is my concern. It's a question about having respect and understanding on these matters, which, sometimes, I think, are sorely lacking in the way individuals have been dealt with.

Yr hyn sydd wedi crisialu'r mater i mi yw un llythyr a gefais pan ddywedodd rhywun wrthyf, 'Pe na bai gennyf fy nheulu i ofalu amdanaf a chodi llais ar fy rhan, beth fyddai wedi digwydd i mi?' Mae llawer o bobl sy'n mynd drwy'r broses hon heb neb i eiriol ar eu rhan, a dyna fy mhryder. Mae'n fater o gael parch a dealltwriaeth ynghylch y pethau hyn, sydd weithiau'n eithriadol o brin yn fy marn i, o ran y ffordd y mae unigolion wedi cael eu trin.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:03

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the new guidance you've issued says at the beginning that it's been issued because of inconsistencies of approach in most local authorities, which you've confirmed today. You will know that Swansea council have refused three times as many as any comparable council in Wales, and yet they tell me that they are the only council that are actually doing things properly, according to your guidance. Can you confirm that is the case and what you're doing to monitor how this consistency is playing out across Wales?

Weinidog, mae'r canllawiau newydd rydych wedi eu cyhoeddi yn dweud ar eu dechrau eu bod wedi cael eu cyhoeddi oherwydd anghysondebau yn ymagwedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ac rydych wedi cadarnhau hynny heddiw. Fe wyddoch fod cyngor Abertawe wedi gwrthod dair gwaith cymaint ag unrhyw gyngor tebyg yng Nghymru, ac eto maent yn dweud wrthyf mai hwy yw'r unig gyngor sydd mewn gwirionedd yn gwneud pethau'n iawn yn ôl eich cyfarwyddyd. A allwch gadarnhau bod hynny'n wir a beth rydych chi'n ei wneud i fonitro sut y mae cysondeb yn cael ei sicrhau ledled Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:03	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>Well, I think this is why we are undertaking the review, to be frank. It's about the level of letters we've had in respect of certain local authorities. I cannot believe that every other local authority in Wales is doing it all differently. You know what I'm getting at here. So, when I have the report, and I report back, I think we'll have an opportunity, as Members. I better put this, I think, as an oral statement, so we can have a full and frank discussion about the outcome of my report on this matter.</p>	<p>Wel, a bod yn onest rwy'n credu mai dyma pam rydym yn cynnal yr adolygiad. Mae'n ymwneud â lefel y llythyrau rydym wedi eu cael mewn perthynas â rhai awdurdodau lleol. Ni allaf gredu bod pob awdurdod lleol arall yng Nghymru yn ei wneud yn hollol wahanol. Rydych yn gwybod beth rwy'n ei olygu fan hyn. Felly, pan fyddaf wedi cael yr adroddiad ac wedi adrodd yn ôl, rwy'n meddwl y cawn gyfle, fel Aelodau. Byddai'n well i mi ei roi fel datganiad ar lafar, rwy'n meddwl, er mwyn i ni gael trafodaeth lawn ac agored ynghylch canlyniad fy adroddiad ar y mater hwn.</p>	Senedd.tv Fideo Video
15:04	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Thank you, Minister.	Diolch i chi, Weinidog.	Senedd.tv Fideo Video
15:04	Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau	Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Motion to Elect Members to Committees	Y Senedd.tv Fideo Video
	We now move to elect Members to committees. I call on a member of the Business Committee to move formally.	Cynnig NDM5666 Rosemary Butler	Rydym yn awr yn symud i ethol Aelodau i bwyllgorau. Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig yn ffurfiol.	
	Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Alun Ffred Jones (Plaid Cymru).	<i>Cynigiwyd y cynnig.</i>	Motion NDM5666 Rosemary Butler	To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Jocelyn Davies (Plaid Cymru) as a Member of the Public Accounts Committee in place of Alun Ffred Jones (Plaid Cymru).
			<i>Motion moved.</i>	
15:04	Paul Davies Bywgraffiad Biography	Formally.	Yn ffurfiol.	Senedd.tv Fideo Video
15:04	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Thank you.	Diolch yn fawr.	Senedd.tv Fideo Video
	The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, the motion is agreed, in accordance with Standing Order 12.36.	<i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.	<i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
15:04	Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyflogau Uwch-reolwyr	Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Debate on the Public Accounts Committee Report on Senior Management Pay	Y Senedd.tv Fideo Video
	We now move on to item 3, which is the debate on the Public Accounts Committee's report on senior management pay. I call on the Chair of the committee, Darren Millar, to move the motion. Darren Millar.	Cynnig NDM5664 Darren Millar	Rydym yn awr yn symud ymlaen at eitem 3, sef y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyflog uwch-reolwyr. Rwy'n galw ar Gadeirydd y pwyllgor, Darren Millar, i gynnig y cynnig. Darren Millar	
	Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:		Motion NDM5648 Darren Millar	
			The National Assembly for Wales:	

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyflog Uwch Reolwyr, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2014.

Cynigiwyd y cynnig.

Notes the Report of the Public Accounts Committee—Senior Management Pay, which was laid in the Table Office on 6 November 2014.

Motion moved.

15:04

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I move the motion on the order paper.

During this Assembly, the Public Accounts Committee has sought to improve its working practices. One of the changes we have introduced has been to embark upon Member-initiated inquiries, looking at pertinent value-for-money issues affecting Wales, and issues that are in the public interest. The first inquiry we agreed to undertake was into senior management pay. The committee considered this such an important issue as senior management pay levels are often perceived as being excessive in comparison with many other posts both in the public sector and, indeed, in the private sector. To support our work, the Wales Audit Office produced a memorandum, and some of its findings were staggering, with a number of Wales's top civil servants earning more than the First Minister, and some local authority chief executives being paid at a rate of more than twice that of their peers. It was issues like these, along with a number of public interest reports on pay and controversial pay-offs for former chief executives, that prompted us to consider the pay arrangements for senior managers—not to pass judgment on the salaries of individuals, but instead to ensure that the decisions made in this field were accountable and transparent.

The committee took evidence during the first half of 2014. It explored the disclosure requirements and the decision-making processes regarding senior managers' pay, and considered a broad range of taxpayer-funded organisations in order to build a comprehensive picture of pay arrangements across the public sector.

So, what did we find? Well, it was something of a mixed bag. There were very different disclosure requirements across the public sector. We saw some examples of good practice in terms of disclosure, which went beyond minimum obligations, yet we also found that some organisations failed to comply with the minimum requirements, or indeed within the spirit of what was required. It was sometimes difficult to make comparisons between pay arrangements between similar organisations, and there were inconsistencies across the public sector as a whole. We were concerned about these findings, as we believe that it is vital that the information on senior pay levels in the public sector is clear and accessible to allow for effective scrutiny and an informed public debate about senior management pay.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigïaf y cynnig ar y papur trefn.

Yn ystod y Cynulliad hwn, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi ceisio gwella ei arferion gwaith. Un o'r newidiadau rydym wedi eu cyflwyno oedd dechrau ar ymchwiliadau wedi'u cychwyn gan Aelodau, i edrych ar faterion gwerth am arian perthnasol sy'n effeithio ar Gymru, a materion sydd er budd y cyhoedd. Edrychodd yr ymchwiliad cyntaf y cytunwyd i'w gynnal ar gyflogau uwch-reolwyr. Roedd y Pwyllgor yn ystyried y mater yn un mor bwysig am fod lefelau cyflogau uwch-reolwyr yn aml yn cael eu hystyried yn ormodol o gymharu â llawer o swyddi eraill yn y sector cyhoeddus ac yn wir, yn y sector preifat. Er mwyn cefnogi ein gwaith, lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru femorandwm, ac roedd rhai o'i ganfyddiadau yn syfrdanol, gyda nifer o weision sifil gorau Cymru yn ennill mwy na'r Prif Weinidog, a rhai prif weithredwyr awdurdodau lleol yn cael eu talu ar gyfradd o fwy na dwywaith yr hyn a delir i'w cymheiriaid. Materion fel y rhain, ynghyd â nifer o adroddiadau budd cyhoeddus ar gyflogau a thaliadau ymadael i gyn brif weithredwyr, sydd wedi peri i ni ystyried trefniadau talu uwch-reolwyr—nid er mwyn rhoi barn ar gyflogau unigolion, ond yn hytrach i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn y maes yn atebol ac yn dryloyw.

Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth yn ystod hanner cyntaf 2014. Archwiliodd y gofynion datgelu a'r prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau uwch-reolwyr, ac ystyriodd ystod eang o sefydliadau a gyllidir gan y trethdalwr er mwyn creu darlun cynhwysfawr o drefniadau cyflog ar draws y sector cyhoeddus.

Felly, beth welsom ni? Wel, roedd y darlun yn eithaf cymysg. Roedd gofynion datgelu gwahanol iawn i'w gweld ar draws y sector cyhoeddus. Gwelsom rai enghreifftiau o arfer da o ran datgelu, a oedd yn mynd y tu hwnt i rwymedigaethau sylfaenol, ac eto gwelsom hefyd fod rhai sefydliadau wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion sylfaenol, neu'n wir o fewn ysbryd yr hyn a oedd yn ofynnol. Weithiau, roedd hi'n anodd cymharu rhwng trefniadau cyflog sefydliadau tebyg ac roedd anghysondebau i'w cael ar draws y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Roeddem yn pryderu am y canfyddiadau hyn gan ein bod o'r farn fod yn rhaid i'r wybodaeth ar lefelau cyflog uwch yn y sector cyhoeddus fod yn glir ac yn hygyrch er mwyn caniatáu ar gyfer gwaith craffu effeithiol a thrafodaeth gyhoeddus ddeallus am gyflogau uwch-reolwyr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

To address our concerns, we proposed a suite of recommendations aimed at eradicating these inconsistencies in reporting, and ensuring accountability to taxpayers. In particular, we want to see the following senior pay information included in all information and remuneration reports: salary; pension; benefits in kind; non-taxable benefits; severance packages; returning officer fees and any additional fees and allowance income; the pay ratio between the highest and the lowest-paid officer in an organisation; and indeed the gender make-up of the senior management team.

We were keen not to place any significant additional burden on organisations, but instead wanted to bring consistency to reporting arrangements on senior management pay, to make more information more accessible to the public, and to provide greater levels of transparency regarding organisational decision-making processes across the whole of the public sector. All of this, of course, was with the aim of making the information of use to as wide an audience as possible and to allow for thorough scrutiny by those with an interest in this area.

I am very pleased to report to the Assembly that the Welsh Government accepted all of the recommendations contained in the report, and have undertaken to incorporate these into their ongoing work to develop a Welsh public sector pay policy. I believe that it is crucial that this policy reflects the recommendations made by the committee, to guarantee the much-needed transparency and clarity in this area, and we look forward to receiving an update from the Welsh Government on the scope of this work, and indeed the outcome of the consultation on the 'Devolution, Democracy and Delivery' White Paper on a public services staff commission, which closed yesterday.

I do, however, have some concerns that this work could be subject to delay due to pressure on resources within the Welsh Government, and I would urge the Government to make this a priority issue to ensure that the potential savings that might be derived from improved scrutiny in this area are maximised, so that resources can be freed up to address other areas of need.

I'd like to also urge the Welsh Government to pursue an active and frank dialogue with all areas of the public sector about their pay policies and practices, whilst the work to develop the policy is ongoing. It is essential that transparency is achieved as soon as possible, and that those receiving significant and substantial amounts of public funding are also held to account for decisions made on their senior pay, which often makes up a significant part of their budget.

There's more than one way to skin a cat, and the potential of grant conditions as well as regulatory reporting requirements, to deliver against the committee's recommendations we believe should not be overlooked.

I fynd i'r afael â'n pryderon, fe gynigion ni gyfres o argymhellion gyda'r nod o ddileu'r anghysondebau o ran adrodd, a sicrhau atebolrwydd i drethdalwyr. Yn benodol, rydym am weld y wybodaeth ganlynol ar gyflogau swyddi uwch yn cael ei chynnwys yn yr holl wybodaeth ac adroddiadau ar daliadau: cyflog; pensiwn; buddion mewn nwyddau; buddion nad ydynt yn drethadwy; pecynnau diswyddo; ffioedd swyddogion canlyniadau ac unrhyw ffioedd ychwanegol ac incwm lwfans; y gymhareb gyflogau rhwng y swyddog sy'n cael ei dalu fwyaf a'r swyddog sy'n cael ei dalu leiaf mewn sefydliad; ac yn wir, faint o ddyinion a menywod sy'n rhan o'r uwch dim rheoli.

Roeddem yn awyddus i beidio â gosod unrhyw faich ychwanegol sylweddol ar sefydliadau, ond yn hytrach, roeddem yn awyddus i sicrhau cysondeb yn y trefniadau adrodd ar gyflogau uwch-reolwyr, er mwyn gwneud rhagor o wybodaeth yn fwy hygyrch i'r cyhoedd, ac i ddarparu lefelau uwch o dryloywder mewn perthynas â phrosesau gwneud penderfyniadau sefydliadol ar draws y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Nod hyn i gyd, wrth gwrs, oedd gwneud y wybodaeth yn ddefnyddiol i gynulleidfa mor eang â phosibl ac i ganiatáu ar gyfer craffu trylwyr gan rai sydd â diddordeb yn y maes.

Rwy'n falch iawn o adrodd wrth y Cynulliad fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r argymhellion yn yr adroddiad, ac maent wedi ymrwmo i ymgorffori'r rhain yn eu gwaith parhaus i ddatblygu polisi taliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Credaf fod yn rhaid i'r polisi hwn adlewyrchu'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor, er mwyn gwarantu tryloywder ac eglurder mawr ei angen yn y maes, ac edrychwn ymlaen at dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar gwmpas y gwaith, ac yn wir at ganlyniad yr ymgyngoriad ar y Papur Gwyn, 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni' ar gomisiwn staff gwasanaethau cyhoeddus, a ddaeth i ben ddoe.

Fodd bynnag, mae gen i rai pryderon y gallai'r gwaith hwn wynebu oedi oherwydd pwysau ar adnoddau yn Llywodraeth Cymru, a byddwn yn annog y Llywodraeth i roi blaenoriaeth i'r mater er mwyn sicrhau bod modd manteisio i'r eithaf ar yr arbedion posibl a allai ddeillio o wella craffu yn y maes, i allu rhyddhau adnoddau i fynd i'r afael â meysydd eraill o angen.

Hefyd, hoffwn annog Llywodraeth Cymru i gychwyn deialog fywiog a gonest gyda phob rhan o'r sector cyhoeddus am eu polisiau a'u harferion mewn perthynas â chyflogau tra bod y gwaith ar ddatblygu'r polisi yn parhau. Mae'n rhaid cael tryloywder cyn gynted ag y bo modd, a bod y rhai sy'n derbyn symiau arwyddocaol a sylweddol o gyllid cyhoeddus hefyd yn cael eu dwyn i gyfrif am benderfyniadau a wneir ynglŷn â'u cyflogau uwch, sy'n aml yn rhan sylweddol o'u cyllideb.

Mae mwy nag un ffordd o gael Wil i'w wely, a chredwn na ddylid anwybyddu potensial amodau grant yn ogystal â gofynion adrodd rheoleiddiol, er mwyn cyflawni argymhellion y pwyllgor.

I'd like to thank all of those who took time to contribute to the development of this report—witnesses to our committee, those in the oral evidence sessions as well, and, indeed, the members of the committee, and the clerks of the committee who helped to compile our report. I trust that this afternoon's debate proves a very useful platform to discuss these issues further. Thank you.

Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd amser i gyfrannu at ddatblygiad yr adroddiad—tystion i'n pwyllgor, rhai a gymerodd ran yn y sesiynau tystiolaeth lafar hefyd, ac yn wir, aelodau'r pwyllgor, a chlercod y pwyllgor a helpodd i lunio'r adroddiad. Hyderaf y bydd y ddadl y prynhawn yma yn llwyfan defnyddiol iawn ar gyfer trafod y materion hyn ymhellach. Diolch yn fawr.

15:10

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

Senior managers' pay in the public sector cannot be looked at in isolation from the private sector. Senior managers in the private sector are paid substantially more than those in the public sector. This includes the former publicly owned utilities, which have moved into the private sector. Some, such as water, have remained monopoly suppliers, including Welsh Water or Dŵr Cymru. The energy industry has moved from what were, effectively, two monopolies—one for gas and one for electricity—to an oligopoly. This means that, according to game theory, the decision of one firm is influenced by the decisions of other firms in the industry, which means that senior salaries tend to follow one another.

The investigation by the Public Accounts Committee included both public authorities and those who receive the bulk of their money from the public purse. On recommendation 2—senior management pay and local government—it used to be easy: depending on the type and size of an authority, a salary band existed for the chief executive. Following that, the other senior staff were paid a percentage of the chief executive's salary. This covered directors and assistant directors, with staff below that paid on the administrative, professional, and technical scale. Like most things that have gone wrong, the change can be traced back to the 1979-97 Tory Government. The Government wanted to remove the salary restraint and to bring market forces to bear on local authorities to attract chief executives from the private sector. What we have seen, certainly in Wales, is almost all the chief executive posts going to people already in local government and, often, working for the same authority.

Salary levels have risen substantially above the joint negotiating committee levels. In England, over 25 chief executives earn over £200,000 per year. With different councils run by different political parties, it is not a political point—this is the reality of what chief executives end up with in England. One of the ways that salaries have increased is by the use of consultants, who produce comparisons based on the average. Whilst those chief executives above the average generally are happy and do not seek a review, those below often do. What happens is the lower-paid chief executives increase their salary, the average moves up, and the chief executives of the larger authorities then seek to restore their differentials; thus, there is an ever-increasing average, which we have seen throughout Wales, and we have seen the salaries rocket.

Ni ellir edrych ar dâl uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus yn annibynnol oddi ar y sector preifat. Mae uwch-reolwyr yn y sector preifat yn cael eu talu lawer yn fwy na'r rhai yn y sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y cyfleustodau a arferai fod yn eiddo cyhoeddus sydd wedi symud i mewn i'r sector preifat. Mae rhai, megis dŵr, wedi parhau'n gyflenwyr monopolistaidd, gan gynnwys Dŵr Cymru. Mae'r diwydiant ynni wedi newid o'r hyn a oedd, i bob pwrpas, yn ddau fonopoli—un ar gyfer nwy ac un ar gyfer trydan—i fod yn oligopoli. Yn ôl damcaniaeth gemau, golyga hyn fod penderfyniad un cwmni yn cael ei ddylanwadu gan benderfyniadau cwmnïau eraill yn y diwydiant, sy'n golygu bod cyflogau uwch yn tueddu i ddilyn ei gilydd.

Roedd ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n derbyn y rhan fwyaf o'u harian o'r pwrw cyhoeddus. O ran argymhelliad 2-cyflogau uwch-reolwyr a llywodraeth leol arferai fod yn hawdd: yn dibynnu ar fath a maint yr awdurdod, roedd band cyflog yn bodoli ar gyfer y prif weithredwr. Yn dilyn hynny, câi aelodau eraill o staff uwch eu talu yn ôl canran o gyflog y prif weithredwr. Roedd hyn yn cynnwys cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr cynorthwyol, gyda staff is na hynny yn cael eu talu ar y raddfa weinyddol, broffesiynol, a thechnegol. Fel y rhan fwyaf o bethau sydd wedi mynd o'u lle, gellir olrhain y newid yn ôl i Lywodraeth Dori'aid 1979-1997. Roedd y Llywodraeth yn awyddus i gael gwared ar ffrwyno cyflog a dod â grymoedd y farchnad i bwysu ar awdurdodau lleol i ddenu prif weithredwyr o'r sector preifat. Yr hyn a welsom, yn sicr yng Nghymru, oedd bod bron bob swydd prif weithredwr wedi mynd i bobl sydd eisoes yn gweithio o fewn llywodraeth leol, ac yn aml yn gweithio i'r un awdurdod.

Mae lefelau cyflog wedi codi gryn dipyn yn uwch na lefelau'r cydbwyllgor negodi. Yn Lloegr, mae dros 25 o brif weithredwyr yn ennill dros £200,000 y flwyddyn. Gyda gwahanol gynghorau yn cael eu rhedeg gan wahanol bleidiau gwleidyddol, nid yw'n bwynt gwleidyddol-dyma realiti'r hyn y mae prif weithredwyr yn ei gael yn Lloegr. Un o'r ffyrdd y mae cyflogau wedi cynyddu yw drwy ddefnyddio ymgynghorwyr sy'n cynhyrchu cymariaethau'n seiliedig ar y cyfartaledd. Er bod y prif weithredwyr sy'n cael mwy na'r cyfartaledd yn hapus ar y cyfan ac er nad ydynt yn gofyn am adolygiad, mae'r rhai sy'n cael llai na'r cyfartaledd yn aml yn gwneud hynny. Yr hyn sy'n digwydd yw bod y prif weithredwyr sy'n cael cyflogau is yn cynyddu eu cyflogau, mae'r cyfartaledd yn codi ac mae prif weithredwyr yr awdurdodau mwy o faint wedyn yn ceisio adfer y gwahaniaethau; felly, mae'r cyfartaledd yn codi drwy'r amser. Gwelsom hynny ledled Cymru, ac rydym wedi gweld cyflogau'n saethu i fyny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

These increases are compounded by the advice of consultants on salaries needed to recruit the best, which, again, moves the average. I, whilst I accept I'm in a small minority, would like to see a reversion back to the JNC scale for chief officers, which worked well for almost 100 years.

The other way chief executives of local authorities have to increase their pay is by payment for additional duties, such as those of a returning officer. Can I commend Swansea council for including all the chief executive's payments within the basic salary? As people are well aware, that is not the case in every local authority in Wales.

Turning to senior pay in the education sector, again, headteachers used to be paid graded on the size of school. Another one of the Tories' reforms, alongside local management of schools, was the ability to raise a headteacher who reached the top of one grade to the next in order to keep outstanding headteachers at a school, and that more than one increment could be given each year for outstanding performance. It is amazing how many outstanding headteachers we have in Wales. It doesn't seem to agree with an awful lot of the things that the Minister for Education and Skills and some of his predecessors have said, but school governing bodies, who are advised by people who, perhaps, have an interest, have given in to this suggestion.

Further education principals, following another Tory folly of moving them out of local authority control, have seen their salaries soar. Again, the twin methods of comparison with others and the need for a high salary, again to attract the best, who often currently or used to work for the organisation, and almost exclusively worked in further education, have led to soaring salaries.

I am not sure pay committees—and I have served on several—however well informed or well meaning, will stop the continuing ratcheting up of salaries. If senior public sector salaries are to be stopped rising, and, in the future, reduced, I suggest, as an absolute minimum, that recommended salaries for each wholly funded public sector organisation are produced. It is strange how things have moved: 25 years ago, local authority chief executives' and councillors' allowances were strictly controlled. Then, councillors' pay went to local determination, and then returned to be strictly controlled by a remuneration panel. Senior officer and chief executive salaries are now dealt with via local determination, but I believe that they need to be dealt with via a review board; otherwise, they are going to keep on going up.

Caiiff y codiadau hyn eu gwaethygu gan gyngor ymgynghorwyr ynglŷn â'r cyflogau sy'n angenrheidiol ar gyfer recriwtio'r goreuon, ac mae hyn unwaith eto'n newid y cyfartaledd. Er fy mod yn derbyn fy mod mewn lleiafrif bach, hoffwn ddychwelyd at raddfa'r Cydgyngor Trafod Telerau (JNC) ar gyfer prif swyddogion a fu'n gweithio'n iawn am bron i 100 mlynedd.

Y ffordd arall sydd gan brif weithredwyr awdurdodau lleol o gynyddu eu cyflogau yw trwy daliadau am ddyletswyddau ychwanegol, megis rhai swyddog canlyniadau. A gaf fi ganmol cyngor Abertawe am gynnwys holl daliadau'r prif weithredwr yn y cyflog sylfaenol? Fel y gŵyr pobl yn iawn, nid yw hynny'n wir ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Gan droi at gyflogau uwch yn y sector addysg, unwaith eto, arferai penaethiaid gael cyflog wedi'i raddio yn ôl maint yr ysgol. Un arall o ddiwygiadau'r Torïaid, ochr yn ochr â rheoli ysgolion yn lleol, oedd y gallu i godi pennaeth a gyrhaeddodd frig un raddfa i'r raddfa nesaf er mwyn cadw penaethiaid rhagorol mewn ysgol, a'r gallu i roi mwy nag un gynyddran bob blwyddyn am berfformiad rhagorol. Mae'n anhygoel sawl pennaeth rhagorol sydd gennym yng Nghymru. Nid yw hynny i'w weld yn cyd-fynd â llawer iawn o'r pethau y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a rhai o'i ragflaenwyr wedi'u dweud, ond mae cyrrff llywodraethu ysgolion, sy'n cael eu cynghori gan bobl â buddiant o bosibl, wedi ildio i'r awgrym.

Mae cyflogau penaethiaid addysg bellach, yn dilyn ffolineb Torïaidd arall yn eu symud o reolaeth awdurdodau lleol, wedi codi i'r entrychion. Unwaith eto, mae'r dull deublyg o gymharu ag eraill a'r angen am gyflog uchel, unwaith eto er mwyn denu'r goreuon, sy'n aml yn gweithio i'r sefydliad ar hyn o bryd neu'n arfer gweithio i'r sefydliad, ac a fu'n gweithio ym maes addysg bellach bron yn ddieithriad, wedi arwain at godi cyflogau i'r entrychion.

Waeth faint o wybodaeth neu fwriad da sydd gan bwyllgorau cyflogau—ac rwyf wedi bod yn aelod o sawl un—nid wyf yn siŵr a allant atal y cynnydd cyson a pharhaus mewn cyflogau. Os oes angen atal cyflogau'r sector cyhoeddus rhag codi, a'u gostwng yn y dyfodol, rwy'n awgrymu, fan lleiaf oll, y dylid cynhyrchu cyflogau argymelledig ar gyfer pob sefydliad a ariennir yn gyfan gwbl gan arian cyhoeddus. Mae'n rhyfedd sut y mae pethau wedi newid: 25 mlynedd yn ôl, câi lwfansau prif weithredwyr a chynghorwyr awdurdodau lleol eu rheoli'n llym. Bryd hynny, câi taliadau cynghorwyr eu penderfynu'n lleol, cyn cael eu dychwelyd i'w rheoli'n llym gan banel taliadau ariannol. Caiiff cyflogau uwch-swyddogion a phrif weithredwyr eu penderfynu'n lleol bellach, ond rwy'n credu bod angen iddynt gael eu trin drwy gyfrwng bwrdd adolygu; fel arall, maent yn mynd i barhau i godi.

15:14

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

A gaf i groesawu yn fawr iawn adroddiad y pwyllgor a chroesawu, hefyd, yr argymhellion?

May I very warmly welcome the committee's report and also welcome the recommendations?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n mawr obeithio y bydd y Gweinidog yn ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion yma, oherwydd rwy'n credu eu bod nhw i raddau helaeth iawn yn creu tryloywder yn y system, ac rwy'n gobeithio hefyd y byddant yn dwyn elfen o gysondeb i'r sefyllfa o ran taliadau nid yn unig i brif weithredwyr, ond i uwch-swyddogion mewn awdurdodau lleol. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn disgwyl i fi sylwi yn arbennig ar argymhelliad 2, ac rwyf wedi codi'r mater yma ar nifer o achlysuron gydag e a gyda'i ragflaenwyr e hefyd yn y swydd, ond dyma yw y cyfle: os yw'r Gweinidog ac os yw'r Llywodraeth yma yn mynd i symud ymlaen gydag ad-drefnu llywodraeth leol, dyma yw y cyfle i sicrhau bod y cyflogau yma yn cael eu gosod ar lefel sydd yn realistig ac yn gredadwy a bod yna gysondeb yn y broses. Rwy'n cytuno gyda Mike Hedges—rwy'n credu mai'r ffordd i wneud hyn yw creu system lle mae'r prif weithredwyr a'r uwch-swyddogion yn cael eu talu yn ôl maint yr awdurdod y maen nhw'n gweithio ynddo fe a'r cyfrifoldebau sy'n cael eu gosod arny'n nhw.

Cymerwch, er enghraifft, y sefyllfa sy'n bodoli yn ne-orllewin Cymru, lle'r oedd gennym ni brif weithredwr yn sir Benfro a oedd yn ennill bron £200,000 y flwyddyn, ac ychwanegiadau ar ben hynny-rhai ohonyn nhw'n gyfreithlon, rhai ohonyn nhw'n anghyfreithlon fel mae'n digwydd bod-ac yna gymharu hynny gydag awdurdod y mae'r adroddiad Williams yn awgrymu y dylen nhw uno ag ef, sef Ceredigion, lle mae cyflog y prif weithredwr—y prif weithredwraig yn y cyd-destun hynny—wedi cael ei rewi, ac mae e tua hanner y tâl yr oedd y prif weithredwr yn sir Benfro yn ei dderbyn. Eto i gyd, pan edrychwch chi ar yr adroddiadau ar berfformiad yr awdurdodau hynny, mae Ceredigion yn perfformio lawer iawn yn well mewn nifer helaeth o feysydd na sir Benfro. Felly, nid gwobrwyo prif weithredwyr rydyn ni ar eu perfformiad a pherfformiad yr awdurdod y maen nhw'n gyfrifol amdano fe, ond, yn syml, rydyn ni'n wynebu sefyllfa lle mae cynghorwyr wedi cytuno i gyflogau sydd yn llawer iawn iawn rhy uchel.

A gaf i nodi hefyd fod yn rhaid i ni nid yn unig edrych ar gyflogau y prif swyddogion, ond ar y cyflogau y mae awdurdodau lleol yn eu talu i'r gweithlu yn ei gyfanrwydd, ac mae'n bwysig i ni edrych ar y sefyllfa rhwng y rhai sydd yn derbyn y tâl uchaf a'r rhai sydd yn derbyn y tâl isaf yn y gweithlu. A gaf i gyfeirio yn arbennig yn y fan hyn, unwaith eto, at Geredigion? Pan fyddwch chi'n edrych ar y cysondeb rhwng y taliadau isaf a'r rhai uchaf, Ceredigion sydd yn gwneud orau yn hynny o beth, Conwy sydd yn ail a Gwynedd sydd yn bedwerydd. Fel mae'n digwydd bod, Plaid Cymru sydd yn arwain yr holl awdurdodau hynny, ond nid wyf yn gwneud y pwynt gwleidyddol hynny ar hyn o bryd. Ond, mae modd sicrhau cysondeb yn yr holl broses o ran taliadau i'r gweithlu, a byddwn i'n gofyn i'r Gweinidog i edrych ar hynny hefyd. Allwn ni ddim â derbyn sefyllfa lle mae cyflogau uwch-swyddogion a'r prif weithredwyr yn cael eu hadolygu a'n bod ni'n anwybyddu y bobl hynny sydd yn derbyn y lleiaf, ac mae'n bwysig bod awdurdodau ledled Cymru yn gweithio ar yr angen i godi cyflogau ar y lefel isaf a'u cwtogi nhw ar y lefel uchaf.

I very much hope that the Minister will respond positively to these recommendations, because I believe that they do, to a great extent, create transparency within the system. I also hope that they will bring an element of consistency to the situation from the point of view of payments to not only chief executives, but senior officers in local authorities. I am sure that the Minister will expect me to note recommendation 2 in particular. I have raised this matter on a number of occasions with him and his predecessors, but this is the opportunity: if the Minister and this Government are going to proceed with the reorganisation of local government here, this is the opportunity to ensure that these salaries are set on a level that is realistic and credible and that there is consistency in the process. I agree with Mike Hedges—I believe that the way to do this is to create a system where the chief executives and senior officials are paid according to the size of the authority that they work within and the responsibilities placed upon them.

Take, for example, the situation that exists in south-west Wales, where we used to have a chief executive in Pembrokeshire who earned almost £200,000 per annum, with bonuses on top of that—some were lawful and others unlawful, as it happens—and compare that with the authority that the Williams report suggests it should amalgamate with, namely Ceredigion, where the salary of the chief executive is frozen and is approximately half the remuneration that the chief executive in Pembrokeshire received. Yet again, when you look at the reports on the performance of those authorities, Ceredigion outperforms Pembrokeshire in a great number of fields. So, we are not actually rewarding chief executives on their performance and their authority's performance, but, quite simply, we are facing a situation where councillors have consented to salaries that are excessive.

May I also note that we must look not only at chief officers' pay, but at the salaries that local authorities pay the workforce in its entirety? It is important that we should look at the situation or the differential between those receiving the highest salary and those receiving the lowest salary within the workforce. I refer in particular, once again, to Ceredigion. When you look at the consistency between the lowest and highest salaries, Ceredigion does best in this context, with Conwy second and Gwynedd fourth. As it happens, Plaid Cymru leads all those authorities, but I am not making that political point at present. But, it is possible to secure consistency in the whole process from the point of view of payments made to the workforce, and I would ask the Minister to look at this as well. We cannot accept a situation where the salaries of chief officers and chief executives are reviewed and then ignore those people in receipt of the lowest salaries. It is important that authorities throughout Wales work on the need to increase salaries on the lowest levels and to cut them back on the highest levels.

Rwy'n anghytuno gyda'r pwyllgor a'i argymhellion mewn un man, ac un man yn unig, a hynny yng nghyd-destun y taliadau ar gyfer prif weithredwyr sydd hefyd yn gweithredu fel swyddogion etholiadol. Mae'r pwyllgor yn galw ar i'r taliadau ychwanegol hynny gael eu gosod yn glir i'r cyhoedd. Fy marn i—a, gobeithio, barn y rhan fwyaf o bobl—yw y dylai'r taliadau hynny gael eu dileu yn gyfan gwbl. Cyfrifoldeb prif weithredwyr awdurdodau lleol yw bod yn swyddogion etholiadol, ac maen nhw'n derbyn cydnabyddiaeth am ystod cyfan eu cyfrifoldebau, felly ddylen nhw ddim derbyn arian ychwanegol am gyflawni swyddogaeth sydd yn rhan naturiol o'u gwaith nhw. Rwy'n gobeithio hefyd fod y Gweinidog yn mynd i edrych ar hynny. Rydym yn disgwyl, Weinidog, eich bod yn mynd i weithredu yn egniol, yn gryf ac yn gadarn, fel rydych chi bob amser, yn y materion hyn.

I disagree with the committee and its recommendations in one place, and one place solely, and that is in the context of the payments for chief executives who also act as returning officers. The committee asks that those additional payments be set out clearly for the public. My view—and, I would hope, the view of most people—is that those payments should be waived altogether. It is the responsibility of chief executives to be returning officers, and they receive remuneration for the whole range of duties that they undertake, so they should not receive any additional remuneration for a task that is a natural part of their role. I also hope that the Minister will look at that. We expect, Minister, that you will act robustly and with energy, as you always do in these issues.

15:20

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n meddwl bod y ddaul y prynhawn yma yn dangos gwerth y gyfundrefn newydd yma—bod materion sydd o ddiddordeb i Aelodau yn ffurfio rhan o raglen waith y pwyllgorau. Nid wyf yn meddwl bod neb yn anghytuno â'r ffaith bod y sefyllfa bresennol yn annerbiniol. Mae'n rhaid i mi ddweud bod y sefyllfa hon wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd. Rwy'n cofio, pan oeddwn yn arweinydd yn Wrecsam—ac rwy'n siŵr y bydd Lindsay Whittle yn cofio'r un math o beth—yr anghysondeb, hyd yn oed degawd yn ôl, ynglŷn â'r sefyllfa. Rwy'n cofio bod y de-orllewin yn hael iawn yn ei gyflogau bryd hynny i uwch-swyddogion a bod hynny yn destun rhyw fath o dyndra ymysg awdurdodau eraill, achos, wrth gwrs, os ydych yn brif weithredwr mewn un awdurdod a'ch bod yn gweld eich bod yn gwneud gwaith da ond yn gweld bod rhywun 100 milltir i ffwrdd yn cael eu talu 30% yn fwy na chi, mae hynny'n creu tyndra. Felly, rwy'n diolch i'r Gweinidog am y ffaith ei fod wedi ymateb mor gyflym i'r adroddiad hwn ac wedi ymateb mor gadarnhaol. Rwy'n meddwl ei bod hi'n ein bodloni ni fel pwyllgor bod y Gweinidog yn gweld gwerth yn ein gwaith ni fel pwyllgor.

Rwy'n meddwl, fodd bynnag, fod materion ynglŷn ag amserlen o ran gweithredu rhai o'r argymhellion hyn. Cawsom drafodaeth fer ddydd Mawrth yn ystod y pwyllgor, lle gwnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru ddwyn ein sylw at rai o'r problemau ynglŷn â'r amserlen, ac rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi gweld y llythyr sydd wedi cael ei ddanfôn at y pwyllgor. Rwy'n meddwl ein bod ni fel pwyllgor yn derbyn bod yna broblemau wrth weithredu rhai o'r argymhellion. Mae'n rhaid newid Deddfau mewn rhai achosion, a hefyd mae'n rhaid, wrth gwrs, ymgynghori â'r awdurdodau hynny. Ond, a gaf i ofyn i'r Gweinidog, wrth iddo ateb—? Mae argymhelliad 6 yn sôn am newid rhai o'r cyfarwyddiadau o ran cyfrifon. Mae'ch ymateb chi yn sôn am wneud hynny ar gyfer hydref 2015, ond, wrth gwrs, mi fydd hynny'n creu sefyllfa lle nad yw cyfrifon 2014-15 o dan y drefn newydd. Hefyd, rydych yn sôn bod rhai sectorau, yn cynnwys addysg uwch, addysg bellach a'r cymdeithasau tai, lle rydych yn gweld hwyrach y bydd hi'n anoddach i wneud hynny yn yr achosion hynny. Felly, a ydych yn barod i greu neu edrych ar sefyllfa lle rydym yn gofyn i rai o'r cyrff yma i weithredu o dan gyfundrefn newydd, hyd yn oed cyn i'r achosion yma gael eu cyflwyno?

I think that this afternoon's debate shows the value of the new regime—that issues that are of interest to Members do form part of the committee's work programme. I don't think that anyone would disagree that the current situation is unacceptable. I have to say that this situation has existed over a number of years. I recall, when I became leader in Wrexham—and I am sure that Lindsay Whittle will have the same kinds of recollections—the inconsistency, even a decade ago, of the situation. I recall that the south-west was very generous in those days with chief officer salaries and that that caused some tension among other authorities, because, of course, if you are a chief executive in one authority and you see that you are carrying out work effectively, and you see someone 100 miles away being paid 30% more than you, then that will create tension. Therefore, I do thank the Minister for the fact that he has responded so swiftly to this report and has responded so positively. I think that it gratifies us as a committee that the Minister sees value in our work as a committee.

I believe, however, that there are issues in terms of the timetable for the implementation of some of these recommendations. We had a brief discussion in committee on Tuesday, where the Auditor General for Wales drew our attention to some of the issues in terms of the timetable, and I am sure that the Minister will have had sight of the letter that has been sent to the committee. I think that we, as a committee, accept that there are problems in implementing some of the recommendations. We will have to amend legislation in certain cases, and we will, of course, need to consult with those authorities. But, may I ask the Minister, when he responds—? Recommendation 6 mentions changing some of the directions in terms of accounts. Your response mentions doing that for the autumn of 2015, but, of course, that will create a situation where the 2014-15 accounts will not be subject to the new regime. You also mention that there are some sectors, including higher education, further education and the housing associations, where you anticipate that it will be more difficult perhaps to act in those particular cases. Therefore, are you prepared to create or look at a situation where we would request that some of these bodies would work under a new regime, even before these cases are dealt with in full?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A gaf i hefyd ofyn i chi—? Yn amlwg, mae nifer fawr o'r argymhellion hefyd yn dod yn rhan o'ch gwaith chi o ran y gwaith ymgynghori a orffennodd ddoe ar greu gweithlu sector gyhoeddus newydd yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad hwnnw wedi cau, felly pryd ydych yn meddwl y bydd y Llywodraeth yn ymateb i'r 'public services staff commission'?

Wrth gau, rwy'n cytuno â'r hyn a ddywedodd Rhodri Glyn Thomas ynglŷn â thaliadau swyddog etholiadol. Rwy'n meddwl mai'r rheswm aethon ni ddim cyn belled â chi oedd bod problemau ynglŷn â thelerau ac amodau a oedd yn creu helynt i ni. Felly, rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf ohonom ni'n gweld ei bod yn rhan o waith naturiol prif weithredwr. Wrth gwrs, maen nhw'n cael eu talu am y gwaith, ond mae swyddogion etholiadol yn eistedd oddi tanynt, sy'n gwneud y gwaith o ddydd i ddydd. Felly, buaswn i wedi mynd llawer iawn ym mhellach a hwyrach wedi credu y dylid dileu'r gost, ond nid oedd hynny'n bosibl yn ôl y cyngor a gawson ni ar y pryd. Felly, rydym yn meddwl mai'r ffordd orau i ddwyn pwysau a pherswâd o ran y sefyllfa ydy bod pobl yn gwybod. Ar hyn o bryd, gyda nifer fawr o'r swyddogion yma, nid oes tryloywder o gwbl ynglŷn â faint maent yn ei gael ar dop cyflog eithaf sylweddol.

May I also ask you—? Clearly, many of the recommendations will become relevant to your work in relation to the consultation that concluded yesterday on the creation of a new public sector workforce in Wales. That consultation has closed, so when do you believe that the Government will respond to the public services staff commission?

In conclusion, I agree with what Rhodri Glyn Thomas had to say in terms of payment for returning officers. I think that the reason we did not go as far as you were suggesting was that there were problems as regards terms and conditions that caused us difficulties. Therefore, I think that most of us would see that it is a part of the natural work of a chief executive. Of course, they are paid for this, but there are electoral officers working at a lower level on a daily basis. So, I would have gone a lot further and would perhaps have done away with that additional cost, but that wasn't possible in terms of the advice that we received. Therefore, we think that the best way to bring pressure to bear in this case is to make sure that everyone is aware of these payments. At the moment, in relation to many of these officers, there is no transparency at all in terms of how much they receive on top of what is generous remuneration anyway.

15:24 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn i Aled Roberts am dderbyn y sylw sydd gen i. Rwy'n derbyn yn llwyr yr hyn y mae'n ei ddweud. Yn anffodus, mae'r argymhellion yn rhoi'r argraff ei bod yn dderbyniol iddyn nhw dderbyn y taliadau yma dim ond iddo fe gael ei wneud yn gyhoeddus. Y pwynt roeddwn i'n ei wneud ydy ei fod e'n rhan annatod o'u swyddogaeth, fel sy'n cael ei gydnabod gan Abertawe, ac fe ddylai hynny fod yn gyson trwy Gymru.

I thank Aled Roberts for accepting my comments. I completely accept what he is saying. Unfortunately, the recommendations give the impression that it is acceptable for them to accept these payments as long as they are made public. The point that I was making was that it is an integral part of their function, as is recognised by Swansea, and that should be consistent throughout Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:25 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ac rwy'n barod i dderbyn hynny. Wrth gloi, yr unig beth arall y buaswn i'n gofyn i'r Gweinidog edrych arno fo ydy swyddogion monitro. Nid wyf yn meddwl eich bod chi wedi delio yn eich ymateb â'r ffaith bod rhai awdurdodau lle nad yw lefel y swydd ddim yn ddigon da. Maen nhw'n cael eu rhoi mewn sefyllfa lle mae yna gymaint o 'gap' rhyngddyn nhw a'r uwch-swyddogion fel ei bod hi'n anodd iawn, yn naturiol felly, iddyn nhw geisio cwestiynu rhai o'r pethau sydd o'u blaenau nhw.

And I'm happy to accept that. In conclusion, the only other thing that I would ask the Minister to look at is monitoring officers. I don't think that you, in your response, have dealt with the fact that there are some authorities where the level of the post isn't sufficiently high. This places people in a position where there is so much disparity between them and senior officers that it is very difficult for them to question some of the actions taken.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:25 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly welcome the opportunity to speak in this debate. I'd like to thank Darren Millar, as Chair of the committee, committee members and all those involved in this report for actually looking into this issue that has caused quite a lot of alarm at the eye-watering salaries across Wales of some senior postholders—it is not good.

Rwy'n sicr yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl hon. Hoffwn ddiolch i Darren Millar, fel Cadeirydd y pwyllgor, aelodau'r pwyllgor a phawb sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn am fynd ati i edrych ar fater sydd wedi achosi cryn dipyn o fraw wrth weld cyflogau rhai swyddi uwch ledled Cymru sy'n dod â dŵr i'r llygaid—nid yw'n dda.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Welsh Conservatives have long believed—and we've raised many concerns in this regard—that some senior salaries in Wales are unjustifiable, unfair and quite unacceptable. No-one can deny that senior postholders of responsible public bodies in Wales obviously do require expertise, the experience, the ability and that many do an exceptional job. The issues are, though, the inconsistency in pay levels across Wales, and how the pay of senior managers of some public bodies is so far removed from the pay of the very front-line workers of the same organisation. The auditor general highlighted significant inconsistencies between top public sector manager salaries in Wales. Pembrokeshire County Council's chief executive: £194,000—shocking when compared with the salaries of Conwy County Borough Council, receiving almost half. Pembrokeshire Coast National Park's chief executive: £76,000. And, in relation to the range in chief executive salaries, the Welsh Local Government Association's director of resources told the committee that when you have a range of salaries like that, it has to be explained. Even with eye-watering salaries like these, they don't actually—

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi credu ers amser—ac rydym wedi tynnu sylw at nifer o bryderon yn y cyswllt hwn—fod rhai o'r cyflogau uwch yng Nghymru yn anghyfiawn, yn annheg ac yn gwbl annerbyniol. Yn amlwg, ni all neb wadu bod angen arbenigedd, profiad a gallu ar ddeiliaid swyddi uwch cyrff cyhoeddus cyfrifol yng Nghymru a bod llawer ohonynt yn gwneud gwaith eithriadol. Ond y drafferth yw'r anghysondeb o ran lefelau cyflogau ar draws Cymru, a sut y mae cyflogau uwch-reolwyr rhai cyrff cyhoeddus mor bell o gyflogau gweithwyr y rheng flaen yn yr un sefydliad. Amlygodd yr archwilydd cyffredinol anghysondebau sylweddol rhwng cyflogau rheolwyr ar frig y sector cyhoeddus yng Nghymru. Prif weithredwr Cyngor Sir Penfro: £194,000—arswydus o'i gymharu â chyflogau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n cael bron i hanner hynny. Prif weithredwr Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: £76,000. Ac mewn perthynas ag ystod cyflogau prif weithredwyr, dywedodd cyfarwyddwr adnoddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y pwyllgor fod yn rhaid egluro'r fath ystod o gyflogau. Hyd yn oed gyda chyflogau sy'n dod â dŵr i'r llygaid fel y rhain, nid ydynt mewn gwirionedd yn—

15:27 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you accept that the Conservative Government was wrong to do away with the joint negotiating committee payment for all chief officers?

A ydych yn derbyn bod y Llywodraeth Geidwadol yn anghywir i gael gwared â chyflogau'r cydbwyllgor negodi i bob prif swyddog?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:27 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do accept that the Welsh Conservatives were right to put amendments in the Local Democracy (Wales) Bill that would include all senior managers, not just chief executives, and, sadly, no other party in this Chamber supported us.

Rwy'n derbyn bod y Ceidwadwyr Cymreig yn iawn i gynnwys gwelliannau yn y Bil Democratiaeth Leol (Cymru) a fyddai'n cynnwys yr holl uwch-reolwyr, nid prif weithredwyr yn unig, ac yn anffodus, ni chawsom gefnogaeth unrhyw blaid arall yn y Siambr hon.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Even eye-watering salaries like these do not actually stop those who feel that they're entitled to more. I think recent examples of this again include the actions of Carmarthenshire County Council's chief executive. A recent 'Week In, Week Out' programme highlighted the £200,000 salary of Betsi Cadwaladr University Local Health Board's chief executive, and then the severance payment of £470,000. Salaries of this scale are shocking at a time when we see our A&E nurses describing their own work as undervalued, underpaid and as worse than being in a war zone. Following two police investigations and a vote of no confidence, Pembrokeshire's chief executive walked away with a severance package of £280,000. Again, Mark James of Carmarthenshire County Council, who was found to have unlawfully authorised a tax avoidance scheme, could now potentially receive a severance deal worth £446,000. I certainly hope that the councillors, predominantly Labour, will vote against that move.

Nid yw hyd yn oed cyflogau sy'n dod â dŵr i'r llygaid fel y rhain mewn gwirionedd yn atal y rhai sy'n teimlo bod ganddynt hawl i fwy. Rwy'n credu bod enghreifftiau diweddar o hyn eto gan gynnwys gweithredoedd prif weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin. Amlygodd rhaglen 'Week In, Week Out' yn ddiweddar fod prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyflog o £200,000 ac wedi cael taliad diswyddo o £470,000. Mae cyflogau ar y raddfa hon yn frawychus ar adeg pan glywn ein nyrsys Damweiniau ac Achosion Brys yn disgrifio'r modd nad ydynt yn cael parch na thâl digonol am eu gwaith, a'i fod yn waeth na gweithio dan amgylchiadau rhyfel. Yn dilyn dau ymchwiliad ar ran yr heddlu a phleidlais o ddiffyg hyder, llwyddodd prif weithredwr Sir Benfro i gael pecyn diswyddo gwerth £280,000. Unwaithe eto, mae'n bosibl y bydd Mark James o Gyngor Sir Caerfyrddin, y gwelwyd ei fod wedi awdurdodi cynllun osgoi trethi yn anghyfreithlon, yn cael taliad diswyddo gwerth £446,000. Rwy'n sicr yn gobeithio y bydd y cynghorwyr, Llafur yn bennaf, yn pleidleisio yn erbyn cam o'r fath.

Salaries of this scale are demoralising to those workers delivering our vital services across Wales, and we've seen walkouts of hundreds of people. Patchy job evaluation processes often result in some higher salaried officials receiving more, and those in lower paid jobs receiving less. These are challenging times with very tight public expenditure. We've seen the local government settlement reducing budgets by an average of 3.4%. This kind of pay-off is not acceptable. Wales and the Welsh Government must play its part in paying back the deficit of the previous Labour Government. Allowing individuals to earn more than the First Minister of Wales and the Prime Minister is a no-no. Aided by a lack of Welsh Labour Government leadership, examples of over-inflated payments to senior managers have had a demoralising effect on our public services. I'm really jolly proud that Welsh Conservatives were the first party in this Chamber in this term to really get to grips with the issue and force the hand of the Labour Government in the local democracy Bill. Now, we thought about all senior management pay and the work of the remuneration board, but again, I would say that that work needs to be closely monitored. I agree with the committee's report that decisions over pay should be open and transparent and accountable. Far too often, decisions have been taken away, above those who they actually affect. Having accepted the recommendations made by the committee, I ask the Welsh Government today to tell me how you will deliver real change. When will a clear rationale be set out to detail how pay should be set in any new structure that is introduced, and, also, any existing structures?

All information on organisational pay must be published together in an easily accessible part of websites. Having carried out work into the publication of pay statements, which are, sort of, mentioned, I can tell you that there is gross inconsistency across Wales. Many of these recommendations are obvious and, actually, shouldn't have to be written down. Thank you again for the report. Please, Minister, take note.

15:31

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf hefyd yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'n gywir, mewn rhai ardaloedd, bod cyflogau uwch-reolwyr wedi denu lot o gyhoeddusrwydd fel pwnc trafod yn y cyfryngau. Beth weles i yn ddefnyddiol iawn oedd agwedd cychwyn o'r cychwyn y pwyllgor, gydag ymholiad ymchwiliadol agored o'r dechrau a thrawsffurfio'r canfyddiadau i fewn i argymhellion cryno ac ymarferol. Nodaf â diddordeb ymateb Llywodraeth Cymru, sy'n parhau â'r thema agored a chydweithredol wrth dderbyn y 23 argymhelliad.

Mae cyflogau ar y raddfa hon yn lladd ysbryd y gweithwyr sy'n darparu ein gwasanaethau hanfodol ledled Cymru, ac rydym wedi gweld cannoedd o bobl yn cerdded allan. Mae prosesau tameidiog ar gyfer gwerthuso swyddi yn aml yn arwain at rai swyddogion ar gyflogau uwch yn cael mwy, a rhai mewn swyddi ar gyflogau is yn cael llai. Mae hwn yn gyfnod heriol gyda gwariant cyhoeddus tynn iawn. Rydym wedi gweld y setliad i lywodraeth leol yn torri 3.4% ar gyfartaledd oddi ar gyllidebau. Nid yw'r math hwn o daliad ymadael yn dderbyniol. Rhaid i Gymru a Llywodraeth Cymru chwarae eu rhan yn ad-dalu diffyg y Llywodraeth Lafur flaenorol. Ni ddylid caniatáu i unigolion ennill mwy na Phrif Weinidog Cymru a'r Prif Weinidog ar unrhyw gyfrif. Oherwydd diffyg arweinyddiaeth Llywodraeth Lafur Cymru, mae enghreifftiau o daliadau gormodol i uwch-reolwyr wedi cael effaith ddigalon ar ein gwasanaethau cyhoeddus. Rwy'n hynod o falch mai'r Ceidwadwyr Cymreig oedd y blaidd gyntaf yn y Siambr hon y tymor hwn i fynd i'r afael go iawn â'r mater a gwrthio llaw'r Llywodraeth Lafur gyda'r Bil democratiaeth leol. Yn awr, fe ystyron ni gyflogau uwch-reolwyr a gwaith y bwrdd taliadau ariannol, ond unwaith eto, byddwn yn dweud bod angen monitro'r gwaith yn ofalus. Rwy'n cytuno ag adroddiad y pwyllgor y dylai penderfyniadau ynghylch cyflogau fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol. Yn rhy aml o lawer, mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud ymhell uwchben y rhai y maent yn effeithio arnynt mewn gwirionedd. Ar ôl derbyn yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor, rwy'n gofyn heddiw i Lywodraeth Cymru ddweud wrthyf sut y byddwch yn sicrhau newid go iawn. Pryd y gosodir sail resymegol eglur ar gyfer manylu ar y modd y dylid gosod cyflogau mewn unrhyw strwythur newydd a gyflwynir, a hefyd, unrhyw strwythurau sy'n bodoli'n barod?

Rhaid i'r holl wybodaeth am gyflog sefydliadol gael ei chyhoeddi gyda'i gilydd ar wefannau hygyrch. Ar ôl gwneud gwaith ar gyhoeddi datganiadau talu, sy'n cael rhyw fath o sylw, gallaf ddweud wrthyfch fod anghysondeb mawr ledled Cymru. Mae llawer o'r argymhellion hyn yn amlwg ac mewn gwirionedd, ni ddylai fod yn rhaid eu nodi ar glawr. Diolch i chi unwaith eto am yr adroddiad. Os gwelwch yn dda, Weinidog, cymerwch sylw o hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I also welcome the Public Accounts Committee's report. It is right to say that, in some areas, the salaries of senior managers have attracted a great deal of coverage in the media. What I saw as very useful was the new-start approach by the committee, with an open inquiry from the very outset and transforming the findings into concise and practical recommendations. I note with interest the Welsh Government response, which continues with the theme of clarity and collaboration by accepting the 23 recommendations.

Yn y gorllewin yn benodol mae'r pwnc wedi bod yn y newyddion yn gyson. Mae gadawiad prif weithredwr sir Benfro yn un enghraifft, a'r gwahaniaethau a ddaeth i'r golwg dros dâl ac amodau rhwng swyddogion ar y lefel hon o lywodraeth—enghraifft a ddylai ffocysu ein meddyliau ar gyfer y dyfodol. Mae Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r TUC, yn ddatblygiad strwythurol positif. Hefyd, mae'r drafodaeth polisi ar uno llywodraeth leol yn agor y drws at fframwaith newydd i ystyried y materion uchaf a datblygu strwythurol newydd ar gyfer y dyfodol. Gwelaf hwn fel cyfle dilys, yn erbyn cefndir cenedlaethol, i ofyn cwestiynau o'r fath, bob tro yn sicrhau bod tryloywder, tegwch ac atebolrwydd yn cael eu cynnal.

Mae barn y pwyllgor yn dweud yn glir y gall cyflogau uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus fod yn bwnc sy'n ennyn teimladau cryf. Roedd y pwyllgor yn awyddus i sicrhau nad oedd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar y symiau a delir i unigolion, ond, yn hytrach, ar y prosesau sy'n ymwneud â phennu cyflogau uwch-reolwyr. Y ddadl gyhoeddus sydd ei hangen yw nid gwybodaeth i'r cyhoedd yn seiliedig ar gyflogau uwch-reolwyr, ond yn hytrach lle y gallant ddarganfod yn hawdd yr hyn a gyflawnwyd gan yr unigolion a dod ar draws gwybodaeth ar dimau rheolwyr uwch. Gwnaeth Aled a Rhodri sôn am swyddogaeth etholiadol yn gynharach, ac rwy'n gwybod am un enghraifft lle y cafodd y prif weithredwr ei dalu ym mis Mawrth oherwydd bod arian ar ôl gan y cyngor ond nid oedd yr etholiadau tan fis Mai. Mae'n rhaid edrych ar hynny yn ofalus.

Wrth gwrs, mae'n ddigon hawdd dweud beth gallwn ni ei wneud, ond sut ydym ni'n mynd i gyrraedd y pethau hyn? Os na cychwynnir ar hynny, sut y gallwn obeithio mesur cyflogau yn erbyn gwerth am arian ac arbenigedd? Nid yw sir Gâr wedi cadw allan o benawdau ar gyflogau uwch-reolwyr chwaith. Ar hyn o bryd, mae trafodaethau dros becyn 'severance' i'r prif weithredwr. Mae 29.6% o weithlu Cymru yn y sector cyhoeddus, a'r canran yn uwch yn y gorllewin. Mae'r toriadau a welwyd yn barod, a'r toriadau pellach sydd ar y gweill os caiff y Toriaid eu hail-ethol ym mis Mai, yn bygwth traddodiad balch Cymreig—cydraddoldeb a thegwch.

Y diweddgllo naturiol y byddai trigolion yn ei gyrraedd fyddai neidio at gymharu tâl uwch-swyddogion yn erbyn penderfyniadau cyllideb anodd a lleihau gwasanaethau. Rwy'n croesawu mynegiant gan y grŵp Llafur yn y cyngor na fyddent yn cefnogi unrhyw fath o 'golden handshake' i'r prif weithredwr. Maent wedi datgan mai trethdalwyr a'r holl weithwyr yw eu blaenoriaeth, a dylai'r prif weithredwr gael ei drin fel unrhyw un arall—barn rwy'n ei chefnogi'n hollol. Yn yr un modd, yn y gorffennol, rwyf wedi mynegi pryder am allu prif swyddogion i ymddeol gyda'r holl fanteision a ddaw gyda'r rôl, ac yna i gychwyn gwaith eto mewn swydd gymharol uchel, fel a ddigwyddodd yng Ngwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn yr un swydd: roedd e'n gorffen un wythnos, a'r wythnos wedyn, roedd e'n ail-ddechrau yn yr un swydd, wedi cael taliadau.

In west Wales particularly, the issue has been consistently in the headlines. The departure of Pembrokeshire's chief executive is one example, and the differences that appeared in terms of the pay and conditions of officials at this level of government—this is an example that should focus all of our minds for the future. The Public Services Staff Commission, which was developed in partnership with the TUC, is a positive structural development. Also, the policy discussion on local government mergers opens the door on a new framework to consider these high-level issues and to develop new structures for the future. I see this as a valid opportunity, against a national backdrop, to ask these questions, always ensuring that transparency, fairness and accountability are maintained.

The committee's view states clearly that the high salaries of senior managers in the public sector can be an issue that engenders strong feelings. The committee was eager to ensure that this inquiry did not concentrate on the sums paid to individuals, but rather on the processes that relate to actually setting salaries for managers. The public debate that needs to be had is not information for the public based on the salaries of senior managers, but rather where they can find out easily what has been achieved by those individuals and access information on senior management teams. Aled and Rhodri mentioned the returning officer role earlier, and I know of one example where the chief executive was paid in March because there was money available in the council, but the elections weren't to take place until May. So, we need to look at that carefully.

Of course, it is easy to say what we should do, but how can we achieve that? Unless we actually start to take action, how can we hope to measure salaries against value for money and expertise? Carmarthenshire has not been able to stay out of the headlines in terms of senior manager remuneration. There was a great deal of discussion on the severance package for the chief executive. 29.6% of the Welsh workforce work in the public sector, and the percentage is higher in west Wales. The cuts already seen, and the further cuts that are in the pipeline if the Tories are re-elected in May, threaten the proud Welsh tradition of equality and fairness.

The natural conclusion would be that people would compare the salaries of senior officers against difficult budgetary decisions and cuts in services. I welcome the Labour group's statement in the council that they would not support any sort of golden handshake for the chief executive. They have stated clearly that it is the taxpayers and the workforce that is their priority, and that the chief executive should be treated the same as anyone else—a view that I agree with 100%. Likewise, in the past, I have expressed concern about the ability of senior officers to retire with all the benefits that come with the role, and then to start work again in a relatively high-level post, as happened in the Mid and West Wales Fire Service, in the same job: an individual finished in post one week and restarted in the same post, having received payments.

Tra'n ymchwilio strwythur rheoli Hywel Dda, gwelais fod sawl cyfarwyddwr o dan y COs mewn sawl adran, a chynnydd yn nifer y staff â 'rheolwyr' yn eu teitl. Nid yw cyfrifoldeb uwch bob tro yn golygu termau ac amodau rheolwyr. Rhaid inni gofio bod posib i weithwyr rheng-flaen ddod yn uwch-nyrs, er enghraifft, a derbyn y cyfrifoldeb uwch heb orfod dod yn rhan o'r strwythur rheolwyr traddodiadol. Ni all fod yn syndod fy mod yn clywed cleifion yn cwestiynu strwythurau staffio yn y gwasanaeth iechyd—bod yn well ganddynt weld cynnydd eto yn y doctoriaid a'r nyrsus ar y rheng flaen, yn hytrach na thîm rheoli mwy.

Nid wyf â disgrifiadau swyddi rheolwyr o'm blaen, ac nid gor-graffu yw'r bwriad heddiw. Nid dyna'r pwynt rwy'n ei wneud. Fy marn yw bod yn rhaid cyrraedd pwynt lle mae tryloywder gweladwy yn yr hyn sydd yn rhaid i'r swyddi hyn i gyd ei gyflawni. Diolch.

While looking at the management structure of Hywel Dda, I saw that there were a number of directors under the COs in many departments, and an increase in the number of staff with the word 'manager' in their titles. Higher responsibility does not always mean management terms and conditions. We must bear in mind that front-line workers can become senior nurses, for example, and receive those responsibilities without having to become part of the traditional management structure. It can be no surprise that I hear patients questioning the staffing structures in the health service—that they prefer to see increases in the number of doctors and nurses on the front line, rather than a larger management team.

I don't have managers' job descriptions before me, and over-scrutiny isn't the intention today. That is not the point that I am making. My view is that we must reach a point where transparency is in place in terms of what all of these posts are required to achieve. Thank you.

15:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call the Minister for Public Services to speak on behalf of the Government, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i siarad ar ran y Llywodraeth, Leighton Andrews.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:36 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Diolch, Lywydd. On behalf of the Welsh Government, can I start by thanking the Chair and members of the Public Accounts Committee for their report on senior management pay in Wales? We were grateful that we were given an opportunity to provide evidence to the committee on its deliberations, and we are happy to support the motion tabled by the Chair of the committee today.

Diolch, Lywydd. Ar ran Llywodraeth Cymru, a gaf fi ddechrau drwy ddiolch i Gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am eu hadroddiad ar gyflogau uwch-reolwyr yng Nghymru? Roeddem yn ddiolchgar ein bod wedi cael cyfle i roi tystiolaeth i'r pwyllgor ar ei drafodaethau, ac rydym yn fodlon cefnogi'r cynnig a gyflwynwyd gan Gadeirydd y pwyllgor heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The committee's report is timely. We face the challenge of meeting public expectations in delivering vital services, whilst, at the same time, of course, facing severe and increasing financial constraints, as a result of the budgetary cuts imposed by the UK Government. So, in a sense, public sector senior management pay levels are even more in the spotlight, and how they are determined, the ability to demonstrate good stewardship of limited resources, open and transparent processes, and consistent and robust scrutiny, are matters of great importance to the people of Wales.

Mae adroddiad y pwyllgor yn amserol. Rydym yn wynebu'r her o gwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd o ran darparu gwasanaethau hanfodol, ac ar yr un pryd, wrth gwrs, yn wynebu cyfyngiadau ariannol difrifol a chynnyddol o ganlyniad i'r toriadau cyllidebol a orfodwyd gan Lywodraeth y DU. Ar un ystyr felly, mae lefelau cyflog uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus fwyfwy o dan y chwyddwyd, ac mae sut y penderfynir arnynt, y gallu i ddangos stiwardiaeth dda o adnoddau cyfyngedig, prosesau agored a thryloyw, a chraffu cyson a chadarn, yn faterion o bwysigrwydd mawr i bobl Cymru.

We are, therefore, pleased to accept and endorse all of the report's 23 recommendations, and will work with the committee, and with others in the Welsh public sector, to take them forward. The report sets a challenging agenda, on a number of fronts, and we will take its recommendations forward in conjunction with the delivery of our programme for government.

Rydym yn falch felly o dderbyn a chymeradwyo pob un o 23 argymhelliad yr adroddiad, a byddwn yn gweithio gyda'r pwyllgor ac eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn eu symud ymlaen. Mae'r adroddiad yn gosod agenda sy'n heriol mewn sawl modd a byddwn yn datblygu ei argymhellion ar y cyd â'r gwaith o gyflawni ein rhaglen lywodraethu.

Key to the implementation of the majority of the recommendations is our proposal to develop a Welsh public sector pay policy that will embrace the key recommendations, and be supported by good guidance, best practice and robust governance arrangements. Our aim is to draw together a single set of pay principles for the Welsh Government and its sponsored bodies.

Yn allweddol i weithrediad y rhan fwyaf o'r argymhellion, bydd ein cynnig i ddatblygu polisi taliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ymgorffori'r argymhellion allweddol, a chaiff ei gefnogi gan ganllawiau da, arfer gorau a threfniadau llywodraethu cadarn. Ein nod yw casglu un set o egwyddorion cyflog ynghyd ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi.

I think Members will also be aware of the work of the independent remuneration board. If I can respond to some of the comments of the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas—which I pretty much agreed with—he will recall that, in the case of Pembrokeshire, where the former chief executive was paid a salary of £195,000, the local authority wanted to set a pay scale for the new chief executive of £145,000, and the independent remuneration board suggested that it should, in fact, be lower than that, at £130,000. So, I think that the mechanisms that we've put in place are having an effect.

My colleague Keith Davies, the Member for Llanelli, referred to the public sector pay commission, and other Members also—including the Chair of the committee—referred to that as well. Members will be aware that the consultation on the staff commission closed only yesterday, and we are now working our way through the responses to the consultation that we received, and I will be making a further statement, in response to that, in due course.

My colleague the Member for Swansea East raised the abolition by the previous Conservative Government, at a UK level, of the JMC arrangements, which, as he said, had worked well for 100 years. We are grateful to him for his sharing with the Chamber his experience of the operation of the JMC arrangements. I don't think he had the benefit of the full 100 years' experience of the way in which those arrangements work, but I think he was right to bring them to the attention of the Chamber. And can I say to him that our local government White Paper, when it is published, will have things to say about the appointment of senior staff within local authorities, which, I think, he will welcome?

The Liberal Democrats' spokesperson, Aled Roberts, referred to the situation of higher education and further education institutions. I think he understands that these are more difficult issues and he will have engaged in the discussions around the HE and FE governance arrangements in the Chamber in the past and, indeed, in respect of the Bill that went through in the past. He will understand some of the issues there around the legal status of those institutions. So, it is fair to say that, at the present time, we do not have the powers to require all public sector organisations in Wales to conform to the desired vision of the committee and the vision that we endorse, but this issue will form part of our early consideration of the Welsh public sector pay principles, which we set out in response to the PAC report.

So, can I conclude by reiterating our support and our acceptance of the committee's recommendations and our commitment to work with the wider public sector to encourage their implementation? Can I say that it is our objective to reduce the cost of management in local government, which currently runs at around £25.7 million, if I recall the figure correctly? Again, that will be an issue that is addressed in our local government White Paper. But I also think that one of the most important elements here is the issue of transparency and the ability of members of the public to have a very clear view of what is being spent on their behalf.

Rwy'n credu y bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol o waith y bwrdd taliadau annibynnol. Os gallaf ymateb i rai o sylwadau llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas—y cytunaf â hwy i raddau helaeth—fe fydd yn cofio, yn achos Sir Benfro lle y talwyd cyflog o £195,000 i'r cyn brif weithredwr, fod yr awdurdod lleol yn awyddus i osod graddfa gyflog o £145,000 ar gyfer y prif weithredwr newydd ac awgrymodd y bwrdd taliadau annibynnol y dylai, mewn gwirionedd, fod yn is na hynny, ar £130,000. Felly, rwy'n meddwl bod y mecanweithiau a roddwyd ar waith gennym yn cael effaith.

Cyfeiriodd fy nghydweithiwr Keith Davies, yr Aelod dros Lanelli, at gomisiwn cyflogau'r sector cyhoeddus, a chyfeiriodd Aelodau eraill at hynny hefyd, gan gynnwys Cadeirydd y pwyllgor. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol mai ddoe ddiwethaf y daeth yr ymgynghoriad ar y comisiwn staff i ben ac rydym bellach yn gweithio drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law. Byddaf yn gwneud datganiad pellach mewn ymateb i hynny maes o law.

Cyfeiriodd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, at ddiddymu trefniadau'r Cyd-gyngor Trafod Telerau (JNC) ar lefel y DU gan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol a oedd, fel y dywedodd, wedi gweithio'n iawn ers 100 mlynedd. Rydym yn ddiolchgar iddo am rannu ei brofiad o weithredu trefniadau'r JNC â'r Siambr. Nid wyf yn credu ei fod wedi cael budd y 100 mlynedd llawn o brofiad o'r modd roedd y trefniadau hynny'n gweithio, ond rwy'n credu ei fod yn iawn i'w dwyn i sylw'r Siambr. Ac a gaf fi ddweud wrtho fod ein Papur Gwyn llywodraeth leol, pan gaiff ei gyhoeddi, â phethau i'w dweud ynglŷn â phenodi staff uwch mewn awdurdodau lleol, a fydd, rwy'n meddwl, yn cael croeso ganddo?

Cyfeiriodd Llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Aled Roberts, at sefyllfa sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Rwy'n credu ei fod yn deall bod y rhain yn faterion anos a bydd wedi cymryd rhan yn y trafodaethau ynghylch trefniadau llywodraethu AU ac AB yn y Siambr hon yn y gorffennol ac yn wir mewn perthynas â'r Bil a basiwyd yn y gorffennol. Bydd yn deall rhai o'r problemau ynghylch statws cyfreithiol y sefydliadau hynny. Felly, mae'n deg dweud ar hyn o bryd nad oes gennym y pwerau i fynnu bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cydymffurfio â'r weledigaeth y mae'r pwyllgor yn ei dymuno a'r weledigaeth rydym yn ei chymeradwyo, ond bydd y mater hwn yn rhan o'n hystyriaeth gynnar o egwyddorion cyflog y sector cyhoeddus yng Nghymru a nodwyd gennym mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Felly, a gaf fi gloi drwy ailadrodd ein bod yn cefnogi ac yn derbyn argymhellion y pwyllgor, a'n hymrwymiad i weithio gyda'r sector cyhoeddus ehangach i annog eu gweithrediad? A gaf fi ddweud mai ein hamcan yw lleihau cost rheoli i lywodraeth leol, sydd ar hyn o bryd oddeutu £25.7 miliwn, os wyf yn cofio'r ffigur yn iawn? Eto, bydd hynny'n fater sy'n cael sylw yn ein Papur Gwyn llywodraeth leol. Ond rwy'n meddwl hefyd mai un o'r elfennau pwysicaf yma yw tryloywder a gallu aelodau o'r cyhoedd i gael golwg glir iawn ar yr hyn sy'n cael ei wario ar eu rhan.

15:41

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Chair of the committee to reply to the debate, Darren Millar.

Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i ymateb i'r ddadl, Darren Millar.

15:41

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer, and thank you, Minister, for your response in this debate. I think that one thing that is very clear is that, in spite of some of the comments in the Chamber today, there is actually a cross-party agenda here that we can all subscribe to, which is that we need to see more pay restraint in senior management pay across the public sector here in Wales, and there has to be more transparency in reporting so that people can be accountable for the money that is being spent. As Mike Hedges said in his contribution, this is not something that we should see having an impact—or the recommendations should not just be—for the public sector specifically; they also need to be for those parts of the independent sector and the third sector that receive a significant proportion of their funding from the public purse. Whilst the Minister has indicated that there are some challenges, and the committee accepts that, in terms of being able to regulate for the disclosure requirements that the committee has set out in its report for HE and FE institutions and, perhaps, parts of the third sector, there are also, of course, other tools in the Minister's bag, such as grant conditions, which can be attached to financial support to be received from the public sector that we feel could also have been used.

Diolch i chi, Lywydd, a diolch i chi, Weinidog, am eich ymateb yn y ddadl hon. Rwy'n credu mai un peth sy'n glir iawn, er gwaethaf rhai o'r sylwadau yn y Siambr heddiw, yw bod yna agenda drawsbleidiol yma mewn gwirionedd y gallwn ni i gyd ei chefnogi, sef ein bod angen gweld mwy o gyfyngu ar gyflogau uwch-reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yma yng Nghymru, ac mae'n rhaid cael mwy o dryloywder wrth adrodd fel y gall pobl fod yn atebol am yr arian sy'n cael ei wario. Fel y dywedodd Mike Hedges yn ei gyfraniad, nid yw hyn yn rhywbeth y dylem ei weld yn cael effaith ar y sector cyhoeddus yn benodol, neu ni ddylai'r argymhellion fod ar gyfer y sector cyhoeddus yn unig; mae angen iddynt fod ar gyfer y rhannau o'r sector annibynnol a'r trydydd sector sy'n cael cyfran sylweddol o'u harian o'r pwrw cyhoeddus hefyd. Er bod y Gweinidog wedi nodi bod rhai heriau, ac mae'r pwyllgor yn derbyn hynny, o ran gallu rheoleiddio'r gofynion datgelu y mae'r pwyllgor wedi'u nodi yn ei adroddiad ar gyfer sefydliadau AU ac AB a rhannau o'r trydydd sector efallai, mae yna hefyd, wrth gwrs, arfau eraill ym mag y Gweinidog, megis amodau grant, y gellir eu cysylltu â chymorth ariannol i'w dderbyn gan y sector cyhoeddus y teimlwn y gellid bod wedi cael eu defnyddio hefyd.

There was also reference from Mike Hedges to the use of consultants by the public sector and we were very alarmed as a committee to see a very small pool of consultants that were being engaged by different parts of the public sector in terms of their senior officer pay arrangements. Mike was quite right to point to the use of the moving average, which inevitably was going upwards every time pay arrangements were being looked at, giving rise to unnecessary pay inflation.

Cyfeiriodd Mike Hedges hefyd at ddefnydd y sector cyhoeddus o ymgynghorwyr a chawsom ein dychryn yn fawr fel pwyllgor wrth weld cronfa fach iawn o ymgynghorwyr yn cael eu defnyddio gan wahanol rannau o'r sector cyhoeddus mewn perthynas â'u trefniadau cyflog i uwch-swyddogion. Roedd Mike yn hollol iawn i dynnu sylw at y defnydd o'r cyfartaledd symudol, a oedd yn codi'n anochel bob tro yr edrychid ar drefniadau cyflog, gan arwain at chwyddo cyflogau'n ddiangen.

A number of Members—Rhodri Glyn Thomas was the first, or Rhodri Glyn Thomas in particular—emphasised the returning officer fees issue. We did not specifically discuss whether there ought to be a recommendation to incorporate the returning officer fees into people's salaries, but I am sure that there would not be a single Member of this Assembly, let alone of the committee, who would disagree with the point that you made that many people will see returning officer duties as being those of any chief executive and, therefore, ought to be included within their salary arrangements and not considered separately.

Pwysleisiodd nifer o'r Aelodau—Rhodri Glyn Thomas oedd y cyntaf i wneud hynny, neu Rhodri Glyn Thomas a wnaeth hynny'n benodol—y broblem gyda ffioedd swyddogion canlyniadau. Ni fuom yn trafod yn benodol a ddylai fod argymhelliad i gynnwys ffioedd swyddogion canlyniadau yng nghyflogau pobl, ond rwy'n siŵr na fyddai unrhyw Aelod o'r Cynulliad hwn, heb sôn am aelod o'r pwyllgor, yn anghytuno â'r pwynt a wnaethoch y bydd llawer o bobl yn gweld dyletswyddau swyddogion canlyniadau yn rhan o ddyletswyddau unrhyw brif weithredwr a dylid eu cynnwys, gan hynny, yn eu trefniadau cyflog yn hytrach na chael eu hystyried ar wahân.

A number of Members also—Aled in particular—talked about the need for consistency in arrangements and I think that it is important that we have that consistency in all parts of the public sector and, indeed, within individual parts of the public sector. So, it is quite wrong that there are different approaches, you know, from one local authority to the next as to how pay arrangements are arrived at. Of course, we do need to look at that all-important issue of the pay ratios between the lowest paid members of staff and, indeed, the highest paid members of staff in an organisation.

Hefyd, siaradodd nifer o'r Aelodau—Aled yn benodol—am yr angen i sicrhau cysondeb o ran y trefniadau a chredaf ei bod yn bwysig i ni gael yr un cysondeb ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus ac yn wir, mewn rhannau unigol o'r sector cyhoeddus. Felly, mae'n gwbl anghywir fod gwahanol ddulliau o weithredu, wyddoch chi, rhwng un awdurdod lleol a'r llall o ran sut y penderfynir ar drefniadau cyflog. Wrth gwrs, mae angen i ni edrych ar fater hollbwysig cymarebau cyflog rhwng yr aelodau o staff ar y cyflogau isaf, ac yn wir, yr aelodau o staff ar y cyflogau uchaf mewn sefydliad.

The role of the monitoring officer was something that Aled Roberts also brought into this debate and, of course, during the evidence that we received, it was very clear that some local authorities had very strong positions for their monitoring officer, where challenges could be brought forward and two councillors, in order for them to challenge recommendations of senior officers, but others, in other local authorities, the status of the monitoring officer perhaps wasn't emphasised sufficiently well. I do hope, Minister, that in taking this issue forward you can underscore the importance of the role of the monitoring officer, particularly in local authorities, and indeed board secretaries in other parts of the public sector, in terms of bringing a challenge when it is necessary.

Roedd rôl y swyddog monitro yn rhywbeth y tynnodd Aled Roberts sylw ato yn y ddadl hon ac wrth gwrs, yn ystod y dystiolaeth a ddaeth i law, roedd yn amlwg iawn fod statws y swyddog monitro yn gryf iawn mewn rhai awdurdodau lleol, lle gellid cyflwyno heriau a dau gynghorydd, er mwyn iddynt herio argymhellion uwch-swyddogion, ond mewn awdurdodau lleol eraill, efallai nad oedd statws y swyddog monitro wedi'i bwysleisio'n ddigon da. Wrth fwrw ymlaen â'r mater, Weinidog, rwy'n gobeithio y gallwch danlinellu pwysigrwydd rôl y swyddog monitro, yn enwedig mewn awdurdodau lleol, ac yn wir ysgrifenyddion byrddau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, o ran cyflwyno her pan fydd angen gwneud hynny.

15:45 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The thing is the monitoring officer needs to be a member of the senior management team. If the monitoring officer is a second, third or fourth-tier officer, they will be responsible to too many people who'll be trying to tell them what to do.

Y peth yw, mae angen i'r swyddog monitro fod yn aelod o'r uwch dim rheoli. Os yw'r swyddog monitro yn swyddog ar yr ail, y drydedd neu'r bedwaredd haen, byddant yn atebol i ormod o bobl a fydd yn ceisio dweud wrthynt beth i'w wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:45 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I accept that, but it is important that advice is impartial, that they don't feel as though they're being sat upon by those people who they regard as their boss.

Rwy'n derbyn hynny, ond mae'n bwysig bod cyngor yn ddiudedd, nad ydynt yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwasgu gan y bobl y maent yn ystyried yn benaethiaid arnynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Janet Finch-Saunders quite rightly pointed out the need for transparency in reporting arrangements and drew attention to our recommendation around the need to publish on the website of each organisation the information that we had set out in terms of the different elements of senior management pay. You know, it is quite wrong that it takes members of the public freedom of information requests to obtain this information. It is quite wrong that, very often, it's difficult to navigate around a public sector organisation's website, and you have to do a lot of digging in order to get to some of the figures. Even when there are published pieces of information around senior management pay, very often, it is difficult for those to be deciphered. So, hopefully, with this consistency in terms of reporting, those things will be improved.

Tynnodd Janet Finch-Saunders sylw yn gwbl briodol at yr angen am dryloywder yn y trefniadau adrodd a thynnodd sylw at ein hargymhelliad ynghylch yr angen i gyhoeddi ar wefan pob sefydliad y wybodaeth a nodwyd gennym mewn perthynas â gwahanol elfennau o gyflog uwch-reolwyr. Wyddoch chi, mae'n gwbl anghywir fod gofyn cael ceisiadau rhyddid gwybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd i gael gafael ar y wybodaeth hon. Mae'n gwbl anghywir ei bod yn aml iawn yn anodd dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas gwefan sefydliad yn y sector cyhoeddus, ac mae'n rhaid i chi wneud llawer o balu cyn dod o hyd i rai o'r ffigurau. Hyd yn oed pan fo darnau o wybodaeth wedi'u cyhoeddi ynghylch cyflogau uwch-reolwyr, yn aml iawn maent yn anodd eu dehongli. Felly, gyda chysondeb o ran y drefn adrodd, gobeithio y bydd y pethau hynny'n cael eu gwella.

Keith Davies alluded to the mergers that are going on, or potentially may arise in local government in the future, and one of our very clear recommendations was the need for some urgent guidance on joint posts between local authorities to be developed by the Welsh Government. We all know, for example, in my own area, that there are very active discussions that are taking place between Conwy and Denbighshire, and many people will want to see, you know, that not being used as an excuse to ratchet up senior management pay levels within those organisations. So, Minister, we will be looking at the way that you seek to implement these recommendations in a timely fashion, so that they can be of use to local authorities when they're looking at their arrangements going forward.

Cyfeiriodd Keith Davies at yr uno sy'n digwydd, neu a allai godi mewn llywodraeth leol yn y dyfodol, ac un o'n hargymhellion clir iawn oedd yr angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu arweiniad ar frys ar swyddi ar y cyd rhwng awdurdodau lleol. Rydym i gyd yn gwybod, er enghraifft, yn fy ardal fy hun, fod trafodaethau bywiog iawn ar y gweill rhwng Conwy a Sir Ddinbych, a bydd llawer o bobl eisiau gweld, wyddoch chi, nad yw hynny'n cael ei ddefnyddio fel esgus i wthio lefelau cyflogau uwch-reolwyr i fyny yn y sefydliadau hynny. Felly, Weinidog, byddwn yn edrych ar y ffordd rydych yn ceisio gweithredu'r argymhellion hyn mewn modd amserol, fel y gallant fod o ddefnydd i awdurdodau lleol pan fyddant yn edrych ar eu trefniadau yn y dyfodol.

I am grateful, as I said earlier, to the Minister, for the fact that the Welsh Government has accepted all 23 of the recommendations. We look forward to returning to this as a committee in the autumn, when we hope to receive an update. Diolch yn fawr iawn.

Fel y dywedais yn gynharach, rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r 23 argymhelliad. Rydym yn edrych ymlaen at ddychweilyd at hyn fel pwyllgor yn yr hydref, pan fyddwn yn gobeithio cael y newyddion diweddaraf. Diolch yn fawr iawn.

15:47	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to note the Public Accounts Committee's report. Does any Member object? No objections. Therefore, it is agreed in accordance with Standing Order 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36</i></p> <p><i>Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:48.</i></p>	<p>Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'n cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</p> <p><i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36</i></p> <p><i>The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:48.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:48	<p>Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Menywod</p> <p>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Item 4 is a debate by individual Members under Standing Order 11.21. I call on Antoinette Sandbach to move the motion.</p> <p>Cynnig NNDM5630 Antoinette Sandbach, Bethan Jenkins, Jenny Rathbone</p> <p>Cynnig bod Cynlliad Cenedlaethol Cymru:</p> <p>1. Yn nodi:</p> <p>a) bod menywod wedi gwneud cyfraniad enfawr i fywyd gwaith Cymru ac yn parhau i fod yn rhan hanfodol o economi Cymru;</p> <p>b) ei bod bron i 100 mlynedd ers i fenywod gael y bleidlais a bron i 40 mlynedd ers y Ddeddf Cyflog Cyfartal;</p> <p>c) bod gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau nad oes gwahaniaethu sefydliadol yn digwydd yn y gweithle.</p> <p>2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â dyfarnu contractau caffael neu arian grant Llywodraeth Cymru i gwmnïau nad oes ganddynt unrhyw gyfarwyddwyr benywaidd ar eu byrddau.</p> <p><i>Cynigiwyd y cynnig.</i></p>	<p>Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Women</p> <p>Dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21 yw Eitem 4. Rwy'n galw ar Antoinette Sandbach i gynnis y cynnig.</p> <p>Motion NNDM5630 Antoinette Sandbach, Bethan Jenkins, Jenny Rathbone</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales:</p> <p>1. Notes that:</p> <p>a) women have made a huge contribution to the working life of Wales and continue to be a vital part of the Welsh economy;</p> <p>b) it is nearly 100 years since women got the vote and nearly 40 years since the Equal Pay Act;</p> <p>c) the Welsh Government has an important part to play in ensuring that there is not institutional discrimination present in the workplace.</p> <p>2. Calls on the Welsh Government not to award any procurement contracts or Welsh Government grant monies to any company that does not have any female directors on their board.</p> <p><i>Motion moved.</i></p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
15:48	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>I'm very grateful, Deputy Presiding Officer, and I'm pleased to have the opportunity to open today's debate, which has been tabled in conjunction with Jenny Rathbone and Bethan Jenkins. I doubt that there's anyone in this Chamber who would dispute the vital role that a strong economy plays in taking Wales forward, and particularly women's role within it. However, we do have a way to go. One area that it's vital that we concentrate on is maximising the massive opportunities to bring more women into the workplace, especially at the higher levels of senior management and running businesses.</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar iawn, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n falch o gael y cyfle i agor y ddadl heddiw, a gyflwynwyd ar y cyd â Jenny Rathbone a Bethan Jenkins. Rwy'n amau a oes neb yn y Siambr hon a fyddai'n gwadu'r rôl allweddol y mae economi gref yn ei chwarae yn symud Cymru yn ei blaen, ac yn arbennig rôl menywod yn hynny. Fodd bynnag, mae gennym ffordd bell i fynd. Un maes sy'n hanfodol i ni ganolbwyntio arno yw gwneud y gorau o'r cyfleoedd enfawr i ddod â mwy o fenywod i'r gweithle, yn enwedig ar lefelau uwch-reolwyr a rhedeg busnesau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

In this Assembly itself, the Assembly in 2003 achieved a 50:50 gender split in the Chamber, but that has fallen in recent elections. I'm very grateful to the Presiding Officer's Women in Public Life scheme, which was set up in 2012, to increase the engagement with a wide range of professional women in Wales, and help highlight to them the role that they not only can take in public life, but the contribution that they do make to public life, and to explore the opportunities to increase the representation of women, both in public life and outside public life.

We've tabled this debate today as we believe that the modern workplace benefits from having women at all levels of a company or business, and that we are half the consumers in the country. We would hope that this debate helps to encourage more debate outside the Chamber and to learn lessons from what our European neighbours are doing when it comes to gender equality in business. Recently, just last year, the EU Parliament voted 489 to 148, with only 81 abstentions, to introduce compulsory quotas. Now, that was before the May elections, and we don't know where that's going, but it's definitely on the horizon there, and it demonstrates the change in attitudes that there are towards the lack of female representation in the higher echelons of business. Welsh Government say that they have a commitment to equality, and I want to make sure that Welsh Government, when they're spending taxpayers' money, are doing it in a way that promotes equality rather than undermines it. I hope that this debate encourages the Welsh Government to look at their procurement processes and also encourages companies to ensure that they have female representation on their boards.

Our motion calls on the Welsh Government not to award any procurement contracts or grant Government money to companies that do not have female directors on their boards. If there are issues about EU procurement practices, then I suspect the recent vote in the EU Parliament highlights the position of the EU on this issue. According to figures from August last year, the Welsh public sector spends £4.3 billion per annum on external goods and services, and if those companies bidding for Welsh Government contracts are not recruiting women with the appropriate talent to rise to board level or senior management level with the company, then this is a serious failing on their behalf. Colleagues have expressed concern to me that it could have a severe impact on small and medium-sized businesses, so I would be inclined to encourage Welsh Government to look at what level they could set the bar, as it were—[Interruption.]

So, for example, to look at companies that may have a turnover, for example, of over £150,000 a year or that have three or more directors. Longer term, this could be revisited, but I accept it would not be sensible to put further barriers in the way of start-ups or very small businesses that are the lifeblood of our economy. But I would hope that, as companies grow, they would be mindful of the need to bring more women into the boardroom. And you only have to look at recent articles in the 'Financial Times' to see that, where women are at the top in companies and where they are strongly represented, those companies are the most successful companies. They are in the top 15% of all companies.

Yn y Cynulliad hwn ei hun, yn 2003 gwelwyd rhaniad 50:50 rhwng y ddau ryw yn y Siambr, ond mae hynny wedi gostwng mewn etholiadau diweddar. Rwy'n ddiolchgar iawn i gynllun Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus y Llywydd, a sefydlwyd yn 2012, i gynyddu ymgysylltiad ag ystod eang o fenywod proffesiynol yng Nghymru, ac i helpu i ddangos iddynt y rôl y gallent ei chwarae mewn bywyd cyhoeddus yn ogystal â'r cyfraniad y maent eisoes yn ei wneud i fywyd cyhoeddus, ac i archwilio'r cyfleoedd i gynyddu cynrychiolaeth i fenywod mewn bywyd cyhoeddus, ac oddi allan i fywyd cyhoeddus.

Rydym wedi cyflwyno'r ddatl hon heddiw am ein bod yn credu bod manteision i'r gweithle modern o gael menywod ar bob lefel o'r cwmni neu fusnes, a'n bod yn hanner y nifer o ddefnyddwyr yn y wlad. Byddem yn gobeithio bod y ddatl hon yn helpu i annog mwy o drafodaeth y tu allan i'r Siambr ac i ddysgu gwersi o'r hyn y mae ein cymdogaion Ewropeaidd yn ei wneud ynghylch cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn busnes. Yn ddiweddar, y llynedd yn wir, pleidleisiodd Senedd yr Undeb Ewropeaidd 489 i 148, gyda dim ond 81 yn ymatal, dros gyflwyno cwotâu gorfodol. Yn awr, roedd hynny cyn etholiadau mis Mai ac nid ydym yn gwybod lle y mae pethau'n mynd ar hynny, ond mae'n bendant ar y gorwel yno, ac mae'n dangos y newid agweddau sydd yna tuag at ddiffyg cynrychiolaeth i fenywod yn haenau uwch byd busnes. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod wedi ymrwmo i gydraddoldeb, ac rwyf am wneud yn siŵr fod Llywodraeth Cymru, wrth wario arian trethdalwyr, yn ei wneud mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb yn hytrach na'i danseilio. Gobeithio y bydd y ddatl hon yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar ei phrosesau caffael a hefyd yn annog cwmnïau i sicrhau eu bod yn rhoi cynrychiolaeth i fenywod ar eu byrddau.

Mae ein cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â dyfarnu contractau caffael neu arian grant y Llywodraeth i gwmnïau heb gyfarwyddwyr benywaidd ar eu byrddau. Os oes problemau gydag arferion caffael yr UE, yna rwy'n amau bod y bleidlais ddiweddar yn Senedd yr Undeb Ewropeaidd yn tynnu sylw at safbwynt yr UE ar y mater hwn. Yn ôl ffigurau ym mis Awst y llynedd, mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario £4.3 biliwn y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau allanol, ac os nad yw'r cwmnïau hynny sy'n ceisio am contractau Llywodraeth Cymru yn recriwtio menywod gyda'r ddawn briodol i godi i lefel y bwrdd neu lefel uwch-reolwyr gyda'r cwmni, yna mae'n fethiant difrifol ar eu rhan. Mae cydweithwyr wedi mynegi pryder wrthyf y gallai gael effaith ddirifol ar fusnesau bach a chanolig eu maint, felly byddwn yn tuedd i annog Llywodraeth Cymru i edrych ar ba lefel y gallent osod y bar, gan ei fod, fel petai yn—[Torri ar draws.]

Felly, er enghraifft, edrychwn ar gwmnïau a allai fod â throsiant, er enghraifft, o dros £150,000 y flwyddyn neu sydd â thri neu fwy o gyfarwyddwyr. Yn y tymor hwy, gellid ailystyried hyn, ond rwy'n derbyn na fyddai'n synhwyrol rhoi rhwystrau pellach yn ffordd busnesau newydd neu fusnesau bach iawn sy'n greiddiol i'n heconomi. Ond byddwn yn gobeithio, wrth i gwmnïau dyfu, y byddent yn ymwybodol o'r angen i ddod â mwy o fenywod i mewn i ystafell y bwrdd. Ac nid oes ond angen i chi edrych ar ethyglau diweddar yn y 'Financial Times' i weld, lle y mae menywod ar y brig mewn cwmnïau a lle y maent ganddynt gynrychiolaeth gref, mai'r cwmnïau hynny yw'r cwmnïau mwyaf llwyddiannus. Maent yn y 15% uchaf o'r holl gwmnïau.

Millions are paid out each year in grants to private companies by the Welsh Government, and the companies receiving these should also play their part in helping to improve a more representative business environment. I would propose that any business or organisation receiving a grant of over £250,000 from the public purse should also be expected to have female representation at their senior manager level. That allows small grants to start-ups and the smaller companies, but if you're getting £0.25 million of taxpayers' money, then I would hope that you would be a company that is looking at making the very best of all levels of your team, both male and female.

I know that my co-sponsors will want to talk in more detail about the background and equal pay, but it is clear that the UK coalition Government has set a target of 25% of non-exec directors to be made up of women, and since 2011, the proportion of women on certainly FTSE 100 boards has increased from 12.5% to 23%. But there is a clear move and a campaign to go further. Organisations such as Women on Boards have set up the 40:40 by 2020 campaign, and I for one support that. I'm speaking in a personal capacity. More than 1,000 women responded to a survey by Women on Boards UK in October 2014, and 80% agreed that the UK Government should bring in gender targets for public sector boards and committees, and I would extend that, Minister, to Welsh Government. A further 75% said the issue was important enough for them to consider changing their vote at the 2015 general election. In the EU, it is clear that there are number of countries with legally binding quotas. Germany has just imposed them at 30%, and a number of other countries have, including Belgium and the Netherlands. According to 'The Economist' last year, the reason why these quotas are becoming more commonplace is,

'the growing impatience with the glacial pace of voluntary change: women are the majority of all graduates almost everywhere in the developed world, but make up a smaller share of the workforce the further up the corporate ladder they go.'

Now, I know I've got much to say. Chwarae Teg have been doing very important work in this area. They've got a lot of evidence as to why we should be looking at increasing female representation on boards, and, indeed, on public sector bodies and they've said that there's a growing and persuasive body of evidence that ensuring gender balance on boards and decision-making bodies is not only the right thing to do ethically, but is also good for business.

There are many other quotes that I could give to you, Minister, and if you want to talk to me afterwards, I could very happily highlight them, but I'm conscious that Jenny Rathbone will be concluding this debate. It is vital, Minister, that we look forward and that we are, perhaps, ahead of the game from what's happening in Europe. I feel that it is important for this Assembly to send out a message that it wants to live in a fair and equal society and that, hopefully, if this motion is adopted today, we can look at using public spending power to increase and promote gender equality issues. Thank you.

Mae Llywodraeth Cymru yn talu miliynau bob blwyddyn mewn grantiau i gwmnïau preifat, a dylai'r cwmnïau sy'n derbyn grantiau o'r fath chwarae eu rhan hefyd i helpu i wella amgylchedd busnes mwy cynrychioliadol. Byddwn cynnig bod disgwyl hefyd i unrhyw fusnes neu sefydliad sy'n derbyn grant o dros £250,000 o'r pwrw cyhoeddus gael cynrychiolaeth i fenywod ar lefel uwch-reolwyr. Mae hynny'n caniatáu grantiau bach i fusnesau newydd a'r cwmnïau llai, ond os ydych yn cael £0.25 miliwn o arian trethdalwyr, yna byddwn yn gobeithio y byddech yn gwmmni sy'n ceisio gwneud y gorau o bob lefel o'ch tîm, yn ddyinion a menywod.

Gwn y bydd fy nghyd-noddwyr am siarad yn fanylach am y cefndir a chyflog cyfartal, ond mae'n amlwg fod Llywodraeth glymblaid y DU wedi gosod targed y dylai 25% o gyfarwyddwyr anweithredol fod yn fenywod, ac ers 2011, mae cyfran y menywod ar rai o fyrddau can cwmni'r FTSE wedi cynyddu o 12.5% i 23%. Ond mae yna ysgogiad clir ac ymgyrch i fynd ymhellach. Mae sefydliadau fel Menywod ar Fyrddau wedi sefydlu ymgyrch 40:40 erbyn 2020, ac rwyf i'n bersonol yn cefnogi honno. Ymatebodd dros 1,000 o fenywod i arolwg gan Women on Boards UK ym mis Hydref 2014, a chytunodd 80% y dylai Llywodraeth y DU gyflwyno targedau rhyw ar gyfer byrddau a phwyllgorau yn y sector cyhoeddus, a byddwn yn ymestyn hynny, Weinidog, i Lywodraeth Cymru. Dywedodd 75% arall fod y mater yn ddigon pwysig iddynt ystyried newid eu pleidlais yn etholiad cyffredinol 2015. Yn yr UE, mae'n amlwg fod yna nifer o wledydd â chwtâu sy'n rhwymo mewn cyfraith. Mae'r Almaen newydd eu rhoi mewn grym ar lefel o 30%, ac mae nifer o wledydd eraill, gan gynnwys Gwlad Belg a'r Iseldiroedd, wedi gwneud hynny. Yn ôl 'The Economist' y llynedd, y rheswm pam y mae'r cwtâu hyn yn dod yn fwy cyffredin yw'r

'...diffyg amynedd cynyddol ynghylch chyflymder rhewlifol newid gwirfoddol: menywod yw'r rhan fwyaf o'r holl raddedigion bron ym mhob man yn y byd datblygedig, ond maent yn ffurfio cyfran lai o'r gweithlu po uchaf i fyny'r ysgol gorfforaethol yr ânt.'

Yn awr, rwy'n gwybod fod gen i lawer i'w ddweud. Mae Chwarae Teg wedi bod yn gwneud gwaith pwysig iawn yn y maes hwn. Mae ganddynt lawer o dystiolaeth ynghylch pam y dylem fod yn ystyried cynyddu cynrychiolaeth i fenywod ar fyrddau, ac yn wir, ar gyrrff y sector cyhoeddus ac maent wedi dweud bod corff cynyddol ac argyhoeddiadol o dystiolaeth sy'n honni bod sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar fyrddau a chyrrff nid yn unig y peth iawn i'w wneud yn foeseogol, ond ei fod hefyd yn dda i fusnes.

Mae llawer o ddyfyniadau eraill y gallwn eu rhoi i chi, Weinidog, ac os ydych am siarad â mi wedyn, byddwn yn ddigon hapus i dynnu sylw atynt, ond rwy'n ymwybodol y bydd Jenny Rathbone yn cloi'r ddadl hon. Mae'n hanfodol, Weinidog, ein bod yn edrych ymlaen a'n bod, efallai, yn achub y blaen ar yr hyn sy'n digwydd yn Ewrop. Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig i'r Cynulliad hwn anfon neges ei fod am fyw mewn cymdeithas deg a chyfartal, a gobeithio, os caiff y cynnig hwn ei fabwysiadu heddiw, y gallwn geisio defnyddio grym gwariant cyhoeddus i gynyddu a hybu materion cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Diolch yn fawr.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I call the other speakers, and I don't want to cause particular embarrassment to any particular Member here, including the leader of the opposition, but the Presiding Officer did send us an e-mail earlier today saying that we recommend that you don't bring mobile phones into the Chamber and if you do, make sure they're switched off. Christine Chapman.

Cyn i mi alw ar y siaradwyr eraill, ac nid oes arnaf eisiau achosi embaras penodol i unrhyw Aelod penodol yma, gan gynnwys arweinydd yr wrthblaid, ond fe anfonodd y Llywydd e-bost atom yn gynharach heddiw yn dweud ein bod yn argymhell na ddylech ddod â ffonau symudol i mewn i'r Siambr ac os ydych yn gwneud hynny, y dylech wneud yn siŵr eu bod wedi eu diffodd. Christine Chapman.

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I just want to start off by saying that I do support this motion today and I want to pay tribute to the Members who've put this forward and I also want to thank Chwarae Teg for their good work in this field. I do chair the women in economy group, so I know there's some tremendous work being done.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf am ddechrau drwy ddweud fy mod yn cefnogi'r cynnig hwn heddiw ac rwyf am roi teyrnged i'r Aelodau a'i cyflwynodd, ac rwyf innau hefyd am ddiolch i Chwarae Teg am eu gwaith da yn y maes. Rwy'n cadeirio'r grŵp menywod yn yr economi, felly rwy'n gwybod bod gwaith gwych yn cael ei wneud.

I want to focus immediately on the big, troubling question for many Members, and that is whether there's an issue about the legality—I've heard Antoinette Sandbach's comments, so there may be the answer there—and, you know, whether it is legal to preclude the involvement in the procurement of suppliers whose boards don't comprise women members.

Rwyf am ganolbwyntio ar unwaith ar y cwestiwn mawr ac anodd i lawer o Aelodau, sef a oes problem ynghylch cyfreithlondeb hyn—rwyf i wedi clywed sylwadau Antoinette Sandbach, felly efallai bod yr ateb yno—, wyddoch chi, pa un a yw'n gyfreithiol i atal cyflenwyr nad yw eu byrddau'n cynnwys aelodau benywaidd rhag cymryd rhan yn y broses gaffael.

As I said, I'm not too sure about this, but I think, that said, what I wanted to say is that it is right and proper that we do explore this. If there does need to be a change in the law, I think we do need—. It's the right place to flag up the need for change and, as I said, explore it if we think that it is right. So, I just wanted to make that clear.

Fel y dywedais, nid wyf yn rhy siŵr ynglŷn â hyn, ond wedi dweud hynny, rwy'n meddwl mai'r hyn roeddwn am ei ddweud yw ei bod yn iawn ac yn briodol ein bod yn edrych ar hyn. Os oes angen newid yn y gyfraith, rwy'n credu bod angen i ni—. Dyna'r lle iawn i dynnu sylw at yr angen am newid ac fel y dywedais, ei archwilio os ydym yn credu bod hynny'n iawn. Felly, roeddwn i ond eisiau gwneud hynny'n glir.

For me, the question should not be whether we should put in place measures to get more women on boards, rather, the question should be: can we afford not to? Wales certainly needs sustainable companies; we need to weather the economic storm—we've seen enough of that recently. But, there is great evidence out there to show the absolute necessity for women to be on boards. Historically, we've tended to use the argument of gender equality for increasing the number of women on boards. That's an absolutely good argument: it's about fairness and justice. Women are equal to men and if they have the right qualifications, then they should have the same opportunities to make their influence felt. However, for me, there is the argument that it is a fundamental necessity for a healthy economy to have more women, not just for them as individuals. You know, we do know that there's a host of peer-reviewed evidence that strongly suggests that companies that have women on their boards are more effective, more independent and perform better than those that do not.

I mi, nid a ddylem roi mesurau ar waith i gael rhagor o fenywod ar fyrddau ddylai'r cwestiwn fod, ond yn hytrach, a allwn fforddio peidio â gwneud hynny? Yn bendant, mae Cymru angen cwmnïau cynaliadwy; mae angen i ni oesoedd i'r storm economaidd—gwelsom ddigon o hynny'n ddiweddar. Ond mae tystiolaeth gref i'w chael i ddangos pa mor wirioneddol angenrheidiol yw cael menywod ar fyrddau. Yn hanesyddol, rydym wedi tueddu i ddefnyddio dadl cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar gyfer cynyddu nifer y menywod ar fyrddau. Mae'n ddadl hollol iawn: mae'n ymwneud â thegwch a chyfiawnder. Mae menywod a dynion yn gyfartal ac os oes ganddynt y cymwysterau cywir, yna dylent gael yr un cyfleoedd i arfer eu dylanwad. Fodd bynnag, i mi, mae yna ddadl fod cael mwy o fenywod yn rheidrwydd sylfaenol ar gyfer economi iach, nid yn unig iddynt hwy fel unigolion. Wyddoch chi, rydym yn gwybod bod toreth o dystiolaeth wedi'i hadolygu gan gymheiriaid sy'n awgrymu'n gryf fod cwmnïau sydd â menywod ar eu byrddau yn fwy effeithiol, yn fwy annibynnol ac yn perfformio'n well na chwmnïau heb fenywod ar eu byrddau.

Some recent report was a very interesting one and I just wanted to share with you this one—just for a couple of minutes. This is from the 'International Journal of Business Governance and Ethics'. What this report says is that women simply have the capacity to make better directors, and their presence on corporate boards has been linked to higher organisational performance. So, they've taken it one step further. They talk about boards with more women represented experience a 53% higher return on equity, a 66% higher return on invested capital and a 42% higher return on sales. Having one female director on the board cuts the risk of bankruptcy by 20% and when women directors are appointed, boards adopt new governance practices earlier, such as director training, board evaluations, director succession planning structures. They also become more civilised and sensitive to other perspectives. They reduce game-playing and ask more questions rather than nodding through decisions. So, again, you know, there is some clear evidence out there of why it is a necessity.

Of course, there will be resistance to change. There always will be, but that doesn't mean that we shouldn't try. We know that in Germany, like other European countries, including Norway, Italy and Netherlands, they are looking to introduce reforms to get more women in the board room, and some of them have done it already. I know that, in the case of Germany, the German business leaders criticised this new legislation, but they would of course, but, as Angela Merkel said—. She was initially against this law change, but she said that this law is an important step for equality because it will initiate cultural change in the workplace. So, in conclusion, I do want to support this and I look forward to hearing the rest of the debate.

16:01

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank Antoinette Sandbach, Jenny Rathbone and Bethan Jenkins for bringing this forward. It's a very timely debate. Antoinette earlier mentioned the FT. In fact, in today's FT, a census by Catalyst shows categorically that targets do boost women's share of board seats. I think that that is something that we need to do.

Cafwyd adroddiad diddorol iawn yn ddiweddar a hoffwn rannu hyn gyda chi—am gwpl o funudau'n unig. Daw o'r 'International Journal of Business Governance and Ethics'. Yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud yn syml yw bod menywod â'r gallu i fod yn gyfarwyddwyr gwell, ac mae eu presenoldeb ar fyrddau corfforaethol wedi cael ei gysylltu â pherfformiad sefydliadol gwell. Felly, maent wedi mynd â'r peth gam ymhellach. Maent yn siarad am fyrddau gyda mwy o gynrychiolaeth i fenywod sy'n gweld elw 53% yn uwch ar ecwiti, enillion 66% yn uwch ar gyfalaf a fuddsoddiwyd ac elw 42% yn uwch ar werthiannau. Mae cael un cyfarwyddwr benywaidd ar y bwrdd yn lleihau'r risg o fethdaliad 20% a phan benodir cyfarwyddwyr benywaidd, mae byrddau'n mabwysiadu arferion llywodraethu newydd yn gynharach, megis hyfforddiant i gyfarwyddwyr, gwerthusiadau bwrdd, strwythurau cynllunio olyniaeth cyfarwyddwyr. Maent hefyd yn dod yn fwy gwar a sensitif i safbwyntiau eraill. Maent yn lleihau chwarae gemau ac yn gofyn mwy o gwestiynau yn hytrach na phasio penderfyniadau'n awtomatig. Felly, unwaith eto, wyddoch chi, mae tystiolaeth glir i'w chael dros yr angen i wneud hyn.

Wrth gwrs, bydd yna wrthwynebiad i newid. Bydd yna bob amser wrthwynebiad, ond nid yw hynny'n golygu na ddylem ymdrechu. Gwyddom fod yr Almaen, fel gwledydd Ewropeaidd eraill, gan gynnwys Norwy, yr Eidal a'r Iseldiroedd, yn ceisio cyflwyno diwygiadau i gael rhagor o fenywod yn ystafell y bwrdd, ac mae rhai ohonynt wedi gwneud hynny'n barod. Yn achos yr Almaen, gwn fod arweinwyr busnes yr Almaen wedi beirniadu'r ddeddfwriaeth newydd hon, ond fe fyddent yn gwneud hynny wrth gwrs. Ond fel y dywedodd Angela Merkel—. Ar y cychwyn roedd hi yn erbyn newid y gyfraith, ond dywedodd fod y gyfraith hon yn gam pwysig tuag at gydraddoldeb gan y bydd yn ysgogi newid diwylliannol yn y gweithle. Felly, i gloi, rwyf am gefnogi hyn ac edrychaf ymlaen at glywed gweddill y ddadl.

Hoffwn ddiolch i Antoinette Sandbach, Jenny Rathbone a Bethan Jenkins am gyflwyno hyn. Mae'n ddadl amserol iawn. Crybwyllodd Antoinette yr FT yn gynharach. Yn wir, yn yr FT heddiw, mae cyfrifiad gan Catalyst yn dangos yn bendant fod targedau yn rhoi hwb i'r gyfran o fenywod sy'n aelodau o fyrddau. Credaf fod hynny'n rhywbeth y mae angen i ni ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There are two key areas that I'd like to address. The first is that of role models. Now, I was very lucky in my business life, when I thought that I was vaguely thrusting somewhere—my role model was an outstanding woman called Marjorie Scardino. She was the first woman to ever be elected onto a FTSE 100 board. She was the chairwoman of the Pearson group and was a woman playing tough games in a tough man's world. But I do want to say that you don't have to be like that any more to be a successful person in business and to be a board member of either an enormous company or indeed a much smaller company. You can look at Karren Brady, who has made it in a very male-dominated way: she's the CEO of Birmingham City Football Club, she's the vice-chairman of West Ham United Football Club, board member of Arcadia Group, working with Philip Green—Top Shop, Top Man, top job. Hayley Parsons, you know—one of our own, grown in Wales—CEO of Gocompare.com, describes herself, and these are her words, not mine, as 'a girl from the Valleys': six GCSEs, and she has built up a multi-million pound business. There's Jacqueline Gold, CEO of Ann Summers. You don't have to follow the traditional way. You can think out of the box. You can follow your destiny, and you can work your way up. What all three of those women have in common, though, is that they actually started their own empires, rose to the top, and then other people came knocking at the door. What about all those amazing women who work inside corporations, middle-sized and large, today—those senior engineers, those senior academics, those senior people in health board trusts, wherever they are, the people who struggle to get onto that director level? A lot of women are now non-executive directors—a vitally important role, but, if they're good enough to be non-exec directors, I ask you why they're not good enough to be executive directors. Role models are incredibly important. I don't wish to give offence with this next comment, but, you know, our society does teach little girls that they are either Cinderellas or kittens and that there's not much in between. Well, there is much in between, and I think that pushing forward a target where we try to say to women that you are able to play the business game your way, to your skills, reflecting your style, and be just as successful as any man out there, is vitally important.

Mae dau faes allweddol y byddwn i'n hoffi mynd i'r afael â hwy. Y cyntaf yw modelau rôl. Yn awr, roeddwn yn ffodus iawn yn fy mywyd busnes, pan oeddwn yn meddwl fy mod yn gwthio yn fy mlaen i rywle—fy model rôl oedd menyw ragorol o'r enw Marjorie Scardino. Hi oedd y ferch gyntaf erioed i gael ei hethol ar fwrdd un o gan cwmni'r FTSE. Hi oedd cadeirydd grŵp Pearson ac roedd yn fenyw a chwaraeai gemau caled mewn byd gwrywaidd anodd. Ond rwyf am ddweud nad oes rhaid i chi fod felly rhagor er mwyn bod yn berson llwyddiannus ym myd busnes ac i fod yn aelod o fwrdd cwmni enfawr neu gwmni llawer llai yn wir. Gallwch edrych ar Karren Brady, sydd wedi llwyddo mewn modd gwrywaidd iawn: hi yw Prif Swyddog Gweithredol Clwb Pêl-droed Dinas Birmingham, hi yw is-gadeirydd Clwb Pêl-droed West Ham United, mae'n aelod o fwrdd Grŵp Arcadia, yn gweithio gyda Philip Green—Top Shop, Top Man, swydd dop. Mae Hayley Parsons, wyddoch chi—un o'n pobl ni ein hunain yng Nghymru—Prif Swyddog Gweithredol Gocompare.com, yn disgrifio ei hun, a dyma'i geiriau hi, nid fy rhai i, fel 'merch o'r Cymoedd': chwech TGAU, ac mae hi wedi creu busnes gwerth llawer o filiynau o bunnoedd. Dyna i chi Jacqueline Gold, Prif Swyddog Gweithredol Ann Summers. Nid oes rhaid i chi ddilyn y ffordd draddodiadol. Gallwch feddwl y tu allan i'r bocs. Gallwch ddilyn eich tynged, a gallwch weithio eich ffordd i fyny. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng y tair, fodd bynnag, yw eu bod wedi dechrau eu hymerodraethau eu hunain, wedi codi i'r brig, ac yna daeth pobl eraill i gnocio ar y drws. Beth am yr holl fenywod rhyfeddol sy'n gweithio mewn corfforaethau canolig a mawr eu maint heddiw—yr uwch-beirianwyr uwch-academyddion, pobl mewn swyddi uwch mewn ymddiriedolaethau byrddau ieched, lle bynnag y maent, y bobl sy'n ymdrechu i gyrraedd lefel cyfarwyddwr? Mae llawer o fenywod yn awr yn gyfarwyddwyr anweithredol—rôl hanfodol bwysig, ond os ydynt yn ddigon da i fod yn gyfarwyddwyr anweithredol, rhaid i mi ofyn pam nad ydynt yn ddigon da i fod yn gyfarwyddwyr gweithredol. Mae modelau rôl yn hynod o bwysig. Nid wyf yn dymuno tramgwyddo neb â'r sylw nesaf, ond wyddoch chi, mae ein cymdeithas yn dysgu merched bach eu bod naill ai'n Sinderelas neu'n gathod bach ac nad oes fawr o ddim yn y canol rhyngddynt. Wel, mae llawer yn y canol, a chredaf fod gwthio targed lle rydym yn ceisio dweud wrth fenywod y gallwch chwarae gêm busnes yn eich ffordd chi, yn ôl eich sgiliau chi, gan adlewyrchu eich arddull chi, a bod yr un mor llwyddiannus ag unrhyw ddyn, yn hanfodol bwysig.

The second area that I'd like to just very briefly touch on is the area of education, and I would like to see vocational courses that attract girls having much more of an element of business in them, so that you understand that you can take your business skills as well as your vocational skills and really move forward. I had a very distressing conversation not so very long ago, if I'm honest, about one of my children. Somebody made a comment about, 'Oh, well, she could do this', and I said, 'No, she could do this and end up running that'. They just didn't get it. Sadly to say, that conversation was with a woman. So, I think that it's very important that we address those two areas and we get the young women of Wales, and the young women of the UK, to really buy into the fact that they can be successful in business. I was in business for most of my adult life and I loved every single moment of it. I would go back. If you guys no longer wanted me and my constituents no longer wanted me, I would go back in a flash. It's a great, great thing to do to help generate an economy and make things and create things and I would like to see more women in it.

Having said all that, I'm going to struggle to support today's debate, and I will be abstaining. Why? Because of the very last comment about the use of Welsh Government moneys. I would like to see the targets come through, and I would like us to discuss this and move forward and come up with a solution as to how we can use Welsh Government money. It's not the procurement—I think that's an excellent idea—but the grant funding, because I have created businesses myself from scratch, I've put my house on the line, and one of the things I totally understand is that the dynamics of a new business are critical, and you can't just plonk in a third person because of their sex, simply in order to be able to go out there and get a grant that you desperately need to grow. So, because of that one and one reason only, I will abstain on today's debate, but I will have an absolute commitment in my heart to see more women sitting on the boards of Welsh and UK businesses, and I will do everything within my power to help them, because it's an interesting and fascinating life.

16:06

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased to support this debate, and I congratulate the Members on putting it forward, because I think it is very important that we discuss the position of women in the workforce. The problems of getting women on an equal platform in the workforce have persisted continuously, and this is something that we don't seem to be able to actually break. That is despite the fact, as this motion says, women have had the vote for 100 years, and despite the equal pay Act.

Yr ail faes yr hoffwn gyfeirio ato'n fyr iawn yw addysg, a hoffwn weld cyrsiau galwedigaethol sy'n denu merched yn cynnwys llawer mwy o elfen fusnes, er mwyn i chi ddeall y gallwch symud ymlaen o ddifrif gyda'ch sgiliau busnes yn ogystal â'ch sgiliau galwedigaethol. Cefais sgwrs drist iawn heb fod yn hir iawn yn ôl, a bod yn onest, ynghylch un o fy mhlant. Gwnaeth rhywun y sylw, 'O, wel, fe allai hi wneud hyn', a dywedais, 'Na, fe allai wneud hyn a dod i'w redeg yn y pen draw'. Nid oeddent yn deall o gwbl. Mae'n drist dweud mai sgwrs gyda menyw oedd honno. Felly, credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn mynd i'r afael â'r ddau faes a chael menywod ifanc Cymru, a menywod ifanc y DU, i gredu o ddifrif y gallent fod yn llwyddiannus mewn busnes. Roeddwn i yn y byd busnes am y rhan fwyaf o fy mywyd fel oedolyn ac roeddwn wrth fy modd â phob eiliad ohono. Fe awn yn fy ôl. Pe na baech chi bobl fy eisiau i rhagor a phe na bai fy etholwyr fy eisiau rhagor, awn yn ôl fel melltlen. Mae'n beth gwych gwych i'w wneud, i helpu i greu economi a gwneud pethau a chreu pethau a hoffwn weld mwy o fenywod yn y byd hwnnw.

Wedi dweud hynny, rwy'n mynd i gael trafferth cefnogi'r ddadl heddiw, a byddaf yn ymatal. Pam? Oherwydd y sylw olaf un am y defnydd o arian Llywodraeth Cymru. Hoffwn weld y targedau'n cael eu cyflwyno, a hoffwn i ni drafod hyn a symud ymlaen a dod o hyd i ateb o ran sut y gallwn ddefnyddio arian Llywodraeth Cymru. Nid y caffael rwy'n ei wrthwynebu—rwy'n credu bod hwnnw'n syniad rhagorol—ond yr arian grant, oherwydd fy mod wedi creu busnesau fy hun o'r newydd, rwyf wedi rhoi fy nhŷ yn y fantol, ac un o'r pethau rwy'n llwyr ddeall yw bod deinameg busnes newydd yn hollbwysig, ac na allwch luchio trydydd person i mewn o achos ei rhyw, yn syml er mwyn gallu hawlio grant y mae ei wir angen arnoch i dyfu. Felly, am y rheswm hwnnw a'r rheswm hwnnw'n unig, byddaf yn ymatal yn y ddadl heddiw, ond byddaf yn ymrwymo'n llwyr yn fy nghalon i weld mwy o fenywod ar fyrddau busnes Cymru a'r DU, a byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i'w helpu, am ei fod yn fywyd diddorol a rhyfeddol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n falch iawn o gefnogi'r ddadl hon, ac rwy'n llongyfarch yr Aelodau am ei chyflwyno, oherwydd credaf ei bod yn bwysig iawn i ni drafod sefyllfa menywod yn y gweithlu. Mae problemau cael menywod ar lwyfan cyfartal yn y gweithlu wedi parhau, ac mae hyn yn rhywbeth nad ydym i'w weld wedi gallu ei oresgyn mewn gwirionedd. Mae hynny er gwaethaf y ffaith, fel y mae'r cynnig hwn yn ei ddweud, fod menywod wedi cael y bleidlais ers 100 mlynedd, ac er gwaethaf y Ddeddf cyflog cyfartal.

It was interesting: I was thinking during the previous debate, which was about high pay in the public sector, and I thought, 'Oh, I think we're mainly talking about men here', and I think the statistics actually show that as well. Women do still suffer discrimination in the workforce, and I think all of the statistics show that young women suffer discrimination, and older women in particular suffer discrimination. We know that pregnancy discrimination is still widely practised in the workforce. Many young women have talked about their experiences, how they seem to reach a block when they actually become pregnant. I think recent research shows that six out of 10 women report facing discrimination as a result of pregnancy. A recent poll showed that three quarters said their employers were less interested in their careers after they became mothers, and two thirds said that they felt their bosses had a negative perception of working mothers. So, that is a huge thing to get over, and we still haven't got over that.

Roedd yn ddiddorol: roeddwn yn meddwl yn ystod y ddadl flaenorol am gyflogau uchel yn y sector cyhoeddus, a meddyliais, 'O, rwy'n credu ein bod yn siarad yn bennaf am ddynion', ac rwy'n meddwl bod yr ystadegau yn dangos hynny hefyd, yn wir. Mae menywod yn dal i ddiodeff gwahaniaethu yn y gweithlu, ac rwy'n credu bod yr holl ystadegau'n dangos bod menywod ifanc yn diodeff gwahaniaethu, a bod menywod hŷn yn arbennig yn diodeff gwahaniaethu. Rydym yn gwybod bod gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd yn dal i fod yn arfer cyffredin yn y gweithlu. Mae llawer o fenywod ifanc wedi siarad am eu profiadau, sut y mae'n ymddangos mewn gwirionedd eu bod yn cyrraedd rhwystr wrth iddynt fynd yn feichiog. Rwy'n credu bod gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod chwech o bob 10 o fenywod yn dweud eu bod wedi wynebu gwahaniaethu o ganlyniad i feichiogrwydd. Dangosodd arolwg diweddar fod tri chwarter wedi dweud bod eu cyflogwyr â llai o ddiddordeb yn eu gyrfaedd ar ôl iddynt ddod yn famau, a dywedodd dwy o bob tair eu bod yn teimlo bod eu penaethiaid â chanfyddiad negyddol o famau sy'n gweithio. Felly, mae hynny'n beth enfawr i'w oresgyn ac rydym yn dal heb ei oresgyn.

16:08 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to the Member for taking the intervention. Would you accept that men are never seen in that way? They are never categorised. They have children, too, but it's never perceived that it's affecting their careers.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am gymryd yr ymyriad. A fydddech yn derbyn nad yw dynion byth yn cael eu gweld yn y ffordd honno? Nid ydynt yn cael eu categorio. Mae ganddynt blant hefyd, ond nid yw hynny erioed wedi cael ei weld fel rhywbeth sy'n effeithio ar eu gyrfaedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:08 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, absolutely. I don't think men are often asked, 'Who's going to look after your children? How are you going to manage to balance work-life balance?' It's always in terms of women. I'm sad in a way that it's not in terms of men, because it does take away men's role in the family a bit as well, so I think it would be really good if we could move to seeing work-life balance as being equally important for women and men.

Na, yn hollol. Nid wyf yn credu bod neb yn gofyn yn aml i ddynion, 'Pwy sy'n mynd i ofalu am eich plant? Sut ydych chi'n mynd i lwyddo i gydbwysu gwaith a bywyd?' Mae'n digwydd bob amser mewn perthynas â menywod. Rwy'n drist mewn ffordd nad yw'n digwydd mewn perthynas â dynion, gan ei fod yn gwadu rôl dynion yn y teulu ychydig hefyd, felly rwy'n credu y byddai'n dda iawn pe gallem symud at weld bod cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd yr un mor bwysig i fenywod a dynion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Another important statistic, I think, is that there were more than 9,000 pregnancy discrimination claims against employers since 2007, and that, I'm sure, is just a small number compared with the vast amount of discrimination that's gone on.

Ystadegyn pwysig arall, rwy'n meddwl, yw bod yna fwy na 9,000 o hawliadau gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd yn erbyn cyflogwyr ers 2007, ac rwy'n siŵr, mai nifer fach yn unig yw honno o gymharu â'r holl wahaniaethu sy'n digwydd.

We also know that there is discrimination against older workers. I've been part of an older women's commission that was set up by the Labour Party, which did do quite a bit of investigation into what was the position for older women. In fact, unemployment for women aged 50 to 64 has risen by 20% since May 2010, and, of course, pay for older women is an issue. Women in their 50s working full time earn 18% less than men, which is bigger than the gap. The majority of women over 50 working part-time earn less than £10,000 per year, which means that they haven't been able to gain at all from the tax exemptions of the Government. Zero-hours contracts are prevalent in the sectors that employ many women, the three Cs—caring, cooking and cleaning—so those really affect women.

Rydym hefyd yn gwybod bod gwahaniaethu'n digwydd yn erbyn gweithwyr hŷn. Rwyf wedi bod yn rhan o gomisiwn menywod hŷn a sefydlwyd gan y Blaid Lafur, a wnaeth gryn dipyn o waith ymchwil ar sefyllfa menywod hŷn. Yn wir, mae diweithdra ymhlith menywod rhwng 50 a 64 oed wedi codi 20% ers mis Mai 2010, ac wrth gwrs, mae cyflogau menywod hŷn yn broblem. Mae menywod yn eu 50au sy'n gweithio'n llawn amser yn ennill 18% yn llai na dynion, sy'n fwy na'r bwlch cyflog. Mae'r rhan fwyaf o fenywod dros 50 sy'n gweithio'n rhan-amser yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn, sy'n golygu nad ydynt wedi gallu elwa o gwbl ar esemptiadau treth y Llywodraeth. Mae contractau dim oriau yn gyffredin yn y sectorau sy'n cyflogi llawer o fenywod—gofal, coginio a glanhau—felly mae'r rheini'n effeithio'n fawr ar fenywod.

I particularly want to draw attention to the position of black and minority ethnic women in the workforce, because they are often doubly discriminated against. Some employers are exemplary. The Assembly Commission here is an exemplary employer and has been listed as one of 'The Times' top 50 employers for women, but we know that some are not, and we know that some employers do not look at really important issues like work-life balance.

I think I want to conclude, really, with the issue of role models that Angela Burns mentioned, because I think that is vital. It's important to have the role models in politics, and we've made some steps towards that here in this Assembly, but it's also, I think, very, very important that we have good representation of women journalists—women on the television—because that is what often influences the way that we think about gender stereotyping. I'm sure all of you remember Miriam O'Reilly, who won a case against the BBC because she was taken off because of her being an older woman. What she said was that:

'By not doing more broadcasters are making it possible for discrimination to thrive. Since television has the power to shape prejudice they really—particularly the BBC as state broadcaster—should take a long hard look at the implications for our society.'

So, I think the broadcasters have a case to answer. I'm very pleased to support this motion and will be voting for it today.

16:11 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad Biography](#)

I'm pleased to co-sponsor this particular debate. Angela Burns mentioned the fact that you could be a kitten or a Cinderella; well, I pride myself on being called a terrier. So, there we are. [Laughter.]

Wales reflects the rest of the UK when it comes to the proportion of women in our population: UK-wide, it's 51%, while in Wales there are 1.559 million women to 1.504 million men, and in no avenue of working life, public or private, do women exceed that 51% figure. The only institution, as mentioned earlier, that has achieved that figure is this, reaching it during the last Assembly. So, in other words, we are well placed to lead the way on this agenda.

Rwy'n arbennig o awyddus i dynnu sylw at sefyllfa menywod duon a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu, am eu bod yn aml yn agored i wahaniaethu o ddau fath. Mae rhai cyflogwyr i'w canmol. Mae Comisiwn y Cynulliad yma yn gyflogwr rhagorol ac wedi ei restru fel un o 50 cyflogwr gorau 'The Times' ar gyfer menywod, ond gwyddom nad yw rhai ohonynt gystal, a gwyddom nad yw rhai cyflogwyr yn edrych ar faterion gwirioneddol bwysig fel y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Rwy'n credu fy mod eisiau gorffen, mewn gwirionedd, gyda mater modelau rôl a grybwyllodd Angela Burns, oherwydd credaf ei fod yn hanfodol. Mae'n bwysig cael modelau rôl mewn gwleidyddiaeth, ac rydym wedi gwneud rhai camau tuag at hynny yma yn y Cynulliad hwn, ond mae hefyd, rwy'n meddwl, yn bwysig iawn iawn ein bod yn cael cynrychiolaeth dda o blith menywod sy'n newyddiadurwr-menywod ar y teledu-oherwydd dyna'r hyn sy'n aml yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn meddwl am stereoteipio ar sail rhyw. Rwy'n siŵr fod pob un ohonoch yn cofio Miriam O'Reilly, a enillodd achos yn erbyn y BBC am ei thynnu oddi ar y sgrin am ei bod yn fenyw hŷn. Yr hyn a ddywedodd oedd hyn:

'Trwy beidio â gwneud mwy, mae darlledwyr yn ei gwneud yn bosibl i wahaniaethu ffynnu. Gan fod pŵer gan deledu i lunio rhagfarn, mewn gwirionedd dylai edrych yn hir ar y goblygiadau i'n cymdeithas, yn enwedig y BBC fel darlledwr gwladol.'

Felly, rwy'n meddwl bod gan ddarlledwyr achos i'w ateb. Rwy'n falch iawn o gefnogi'r cynnig hwn a byddaf yn pleidleisio drosto heddiw.

Rwy'n falch i gyd-noddi'r ddadl benodol hon. Crybwyllodd Angela Burns y ffaith y gallech fod yn gath fach neu'n Sinderela; wel, rwy'n ymhyfydu ar gael fy ngalw'n ddaeargi. Felly, dyna ni. [Chwerthin.]

Mae Cymru'n adlewyrchu gweddill y DU pan ddaw i gyfran y menywod yn ein poblogaeth: ar draws y DU, mae'n 51%, ac yng Nghymru, mae 1.559 miliwn o fenywod ac 1.504 miliwn o ddynion, ac nid yw menywod yn croesi'r ffigur hwnnw o 51% mewn unrhyw faes gwaith, cyhoeddus neu breifat. Yr unig sefydliad, fel y crybwyllwyd yn gynharach, lle y cyrhaeddwyd y ffigur hwnnw yw hwn, gan i ni ei gyrraedd yn ystod y Cynulliad diwethaf. Felly, mewn geiriau eraill, rydym mewn sefyllfa dda i arwain y ffordd ar yr agenda hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Why should we lead on this? Because, at the moment, it is unfair to women, because things are not changing quickly enough, and because it has been demonstrated, time and time again, that companies flourish when women are properly represented at senior levels. In February 2011, the Department for Business, Innovation and Skills published its independent review into female representation on UK corporate boards. The review recommended that FTSE 100 companies should be aiming for a minimum of 25% female board member representation by 2015. It also said that quoted companies should disclose annually the proportion of women on their boards, in senior executive positions and in the whole organisation, and that the UK corporate governance code should be amended to require listed companies to establish boardroom diversity policies. So, this idea we are putting forward isn't entirely alien to the discussion.

The third annual report on the review was published last year and found that women accounted for 20.7% of board members of FTSE 100 companies, a significant step forward from 12.5% in 2011. However, women make up just up to 15.6% of the members of the corporate boards of FTSE 250 companies, and, although that figure has doubled since the time of the review, what worries me is that, as companies get smaller, representation of women dwindles. That's one of the reasons I back this proposal that we've put before you today.

Lord Davies of Abersoch, who oversaw the review, says:

'Gender balance makes good business sense. Women... outperform men educationally and...are as successful as their male counterparts at university and in their early careers.... The under-representation of women in senior roles and at board level impacts the performance, governance and reputation of companies, as they fail to attract and retain the widest possible range of talent.'

He concludes

'we are now moving to a place where the business case is no longer in question and it is unacceptable for the voice of women to be absent from the boardroom.'

Pam y dylem arwain ar hyn? Oherwydd ar hyn o bryd, mae'n annheg i fenywod, am nad yw pethau'n newid yn ddigon cyflym, ac am y dangoswyd, dro ar ôl tro, fod cwmnïau'n ffynnu pan fydd menywod yn cael eu cynrychioli'n briodol ar lefelau uwch. Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd yr adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau ei hadolygiad annibynnol ar gynrychiolaeth i fenywod ar fyrddau corfforaethol y DU. Argymhellodd yr adolygiad y dylai can cwmni'r FTSE anelu i sicrhau bod o leiaf 25% o aelodau eu byrddau'n fenywod erbyn 2015. Dywedai hefyd y dylai cwmnïau a ddyfynnwyd ddatgelu'n flynyddol pa gyfran o aelodau eu byrddau sy'n fenywod, faint o fenywod sydd mewn swyddi gweithredol uwch ac yn y sefydliad cyfan, ac y dylai cod llywodraethu corfforaethol y DU gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau rhestredig sefydlu polisiau amrywiaeth yn ystafell y bwrdd. Felly, nid yw'r syniad hwn a gyflwynwn yn gwbl estron i'r drafodaeth.

Cyhoeddwyd y trydydd adroddiad blynyddol ar yr adolygiad y llynedd a gwelodd mai menywod oedd 20.7% o aelodau byrddau can cwmni'r FTSE, cam sylweddol ymlaen o 12.5% yn 2011. Fodd bynnag, dim ond hyd at 15.6% o aelodau byrddau corfforaethol cwmnïau FTSE 250 sy'n fenywod ac er bod y ffigur hwnnw wedi dyblu ers yr adolygiad, yr hyn sy'n fy mhoeni yw bod nifer y menywod yn crebachu wrth i gwmnïau fynd yn llai o faint. Dyna un o'r rhesymau pam rwy'n cefnogi'r cynnig hwn rydym wedi'i gyflwyno ger eich bron heddiw.

Mae'r Arglwydd Davies o Abersoch, a oruchwyliodd yr adolygiad yn dweud:

'Mae cydbwysedd rhwng y rhywiau yn gwneud synnwyr busnes da. Mae menywod... yn cyflawni'n well na dynion yn addysgol ac... maent yr un mor llwyddiannus â'u cymheiriaid gwrywaidd yn y brifysgol ac ar ddechrau eu gyrfaedd.... Mae diffyg cynrychiolaeth ddigonol i fenywod mewn swyddi uwch ac ar lefel bwrdd yn effeithio ar berfformiad, llywodraethu ac enw da cwmnïau, wrth iddynt fethu â denu a chadw'r ystod ehangaf posibl o dalent.'

Daw i'r casgliad

'Rydym yn symud i fan lle nad oes amheuaeth bellach ynghylch yr achos busnes ac mae'n annerbyniol fod llais menywod yn absennol o ystafell y bwrdd.'

So, while we are seeing increasing numbers of chairmen supporting the promotion of women to senior roles, a whole new industry aimed at supporting senior women through their career progression, and strengthened pipelines for promotion, problems still do exist. Research by the 30% Club last year found there was no statistical difference in the number of career promotions between women with children and women without children. Rather, it was that corporate decision-makers fail to recognise when senior female executives are ready for promotion. In a recent seminar that we had in the women in the economy cross-party group, many women failed to see in themselves the skills that they can utilise to put themselves forward for higher positions within their own companies, or finding the confidence within themselves to say, 'Actually, I'm as good as that man who's going for that position, if not better'. That is why we are seeing fewer women come forward—not because of some of the e-mails that I've had today from constituents who are saying that, 'Actually, you're in denial, and some of the women are not talented enough, and you should know that'. It is not that, I believe. I believe that women need to have that support to come through these mechanisms because people like myself—like me or loathe me—would not be in this position were it not for some of the actions that we took as a party, and were taken by the Labour Party in Wales.

So, if we want to make key changes to our democracy, to businesses in Wales and beyond, surely we should be able to help people along the way—and there isn't any discrimination in being helped. It isn't as if you are being patronising to those women, because, actually, once they get on to those steps, you don't have to keep those actions in place forever. Even if they are in place for, say, five, six, 10 or 15 years, it makes those cultural changes real, and it makes it so that you know no different in the future. Where it is working well, it is part of their everyday lives now. I think that's something that we have to encourage the business community to try to understand here in Wales and beyond. I hope that we can all support this motion today.

Felly, er ein bod yn gweld nifer cynyddol o gadeiryddion yn cefnogi hyrwyddo menywod i rolau uwch, diwydiant cwbl newydd â'r nod o gefnogi menywod mewn swyddi uwch i gamu ymlaen yn eu gyrfaeodd, a chryfhau'r llwybrau ar gyfer dyrchafiad, mae problemau yn dal i fodoli. Canfu ymchwil gan y 30% Club y llynedd nad oedd gwahaniaeth ystadegol yn nifer y dyrchafiadau gyrfael rhwng menywod â phlant a menywod heb blant. Yn hytrach, roedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau corfforaethol yn methu â sylweddoli pryd y mae uwch swyddogion gweithredol benywaidd yn barod i gael dyrchafiad. Mewn seminar a gawsom yn ddiweddar yn y grŵp trawsbleidiol ar fenywod yn yr economi, roedd llawer o fenywod yn methu gweld eu bod yn meddu ar y sgiliau y gallant eu defnyddio i geisio am swyddi uwch yn eu cwmnïau eu hunain, neu ddod o hyd i hyder ynddynt eu hunain i ddweud, 'A dweud y gwir, rwyf i gystal â'r dyn sy'n ceisio am y swydd yna, os nad yn well'. Dyna pam ein bod yn gweld llai o fenywod yn dod ymlaen—nid oherwydd rhai o'r negeseuon e-bost rwyf wedi eu cael heddiw gan etholwyr sy'n dweud, 'A dweud y gwir, rydych yn gwadu'r gwir, ac nid yw rhai o'r menywod yn ddigon talentog, a dylech wybod hynny'. Nid hynny ydyw, yn fy marn i. Credaf fod angen i fenywod gael y gefnogaeth i ddod drwy'r mecanweithiau hyn am na fyddai pobl fel fi—pa un a ydych yn fy hoffi neu'n fy nghasáu—yn y sefyllfa hon oni bai am rai o'r camau a gymerwyd gennym fel plaid, ac a gymerwyd gan y Blaid Lafur yng Nghymru.

Felly, os ydym am wneud newidiadau allweddol i'n democratiaeth, i fusnesau yng Nghymru a thu hwnt, yn sicr dylem allu helpu pobl ar hyd y ffordd—ac nid yw rhoi cymorth yn wahaniaethu. Nid yw'n golygu ein bod yn nawddoglyd tuag at y menywod hynny, oherwydd mewn gwirionedd, wedi iddynt gamu ar yr ysgol, nid oes rhaid i chi gadw'r camau gweithredu ar waith am byth. Hyd yn oed os ydynt ar waith am bump, chwech, 10 neu 15 mlynedd, dyweder, mae'n gwneud newidiadau diwylliannol yn real, fel na fydddech yn gwybod yn wahanol yn y dyfodol. Lle y mae'n gweithio'n dda, mae'n rhan o'u bywydau bob dydd bellach. Rwy'n credu bod hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni annog y gymuned fusnes i geisio ei ddeall yma yng Nghymru a thu hwnt. Gobeithio y gallwn oll gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'd like to thank the Members who have brought this very thoughtful, thought-provoking debate today. I think the fundamental principle of equality is a universal one, and isn't well served by forcing it into silos and imposing artificial distinctions. There's been a lot of attention in this Assembly term on encouraging women to enter public life. I'm sure that we're all very proud of this institution's history of equal or near-equal representation, and of course of the Presiding Officer's own campaign. As part of the Presiding Officer's caucus on women in public life, though, it became very clear to me that the under-representation of women in our field of work is, of course, absolutely interlinked with the under-representation of women in other areas of our society as well. So, as I say, I am very grateful to Members who have chosen to break through the silos and encourage us to think more broadly about how we can use our influence. I very firmly believe that we, as decision makers, not only have a platform to raise these issues, but we also have a duty to promote equality and fairness in all the spheres over which we have influence. Clearly, how we spend public money given to the Welsh Government through its budget is one of those spheres.

So, in agreeing with that very general principle, I then have to go forward and ask myself a few questions about the practicalities and how this works. Firstly, I ask myself: is the means suggested in today's motion an effective way of promoting equality? Secondly, are there any unintended consequences, or legal or technical barriers that might undermine either this or other policy priorities?

In terms of whether or not this is effective, I think it may be, but I would like this to be the start of a conversation, because I think there's so much more information that we need to know before we start to think about how we would develop this as policy. I think we also have to be very, very clear what we mean. In introducing this debate today, Antoinette Sandbach suggested that there might be a threshold to ensure that we only target organisations with a sufficient critical mass to be able to bear such a distinction. I think that that's very wise, because otherwise we might have unintended consequences, meaning that many small businesses that might only have one director might be excluded from contracts that they might otherwise be able to bid for.

We have to be aware of the structure of our local economy here in Wales. We do have a tension, I think, in things along these lines—in terms of procurement policy—between our desire for local businesses, Welsh businesses, to do well, and our desire to drive other policy agendas, for example to deliver training and community benefits, and to deliver things like equality measures through our procurement policy. There may be a tension, though, in that many of Wales's businesses are small. Statistically, our businesses are more likely to be small businesses. There is a tension here that we need to overcome and we need to understand.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau sydd wedi cyflwyno'r ddaol hynod o feddylgar ac ysgogol hon heddiw. Rwy'n credu bod egwyddor sylfaenol cydraddoldeb yn un gyffredinol, ac ni cheir mantais o'i gwthio i seilos a gosod gwahaniaethau artiffisial. Cafwyd llawer o sylw yn ystod tymor y Cynulliad hwn ar annog merched i mewn i fywyd cyhoeddus. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn falch iawn o hanes y sefydliad hwn o gynrychiolaeth gyfartal neu'n agos at gyfartal, ac wrth gwrs o ymgyrch y Llywydd ei hun. Yn rhan o gawcws y Llywydd ar fenywod mewn bywyd cyhoeddus, fodd bynnag, daeth yn amlwg iawn i mi fod diffyg cynrychiolaeth ddigonol i fenywod yn ein maes gwaith, wrth gwrs, yn gwbl gysylltiedig â diffyg cynrychiolaeth i fenywod mewn meysydd eraill yn ein cymdeithas hefyd. Felly, fel y dywedais, rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelodau sydd wedi dewis torri drwy'r seilos a'n hannog i feddwl yn ehangach sut y gallwn ddefnyddio ein dylanwad. Rwy'n credu'n gryf iawn ein bod ni, fel rhai sy'n gwneud penderfyniadau, nid yn unig â llwyfan i roi sylw i'r materion hyn, ond mae'n ddyletswydd arnom hefyd i hybu cydraddoldeb a thegwch yn yr holl gylchoedd y mae gennym ddylanwad drostynt. Yn amlwg, mae'r modd rydym yn gwario arian cyhoeddus a roddir i Lywodraeth Cymru drwy ei chyllideb yn un o'r cylchoedd hynny.

Felly, wrth gytuno â'r egwyddor gyffredinol iawn honno, rhaid i mi fynd ymlaen wedyn i ofyn ychydig o gwestiynau i mi fy hun am yr agweddau ymarferol a sut y mae hyn yn gweithio. Yn gyntaf, gofynnaf i mi fy hun: a yw'r dull a awgrymir yn y cynnig heddiw yn ffordd effeithiol o hyrwyddo cydraddoldeb? Yn ail, a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol, neu rwystrau cyfreithiol neu dechnegol a allai dansellio naill ai hyn neu flaenoriaethau polisi eraill?

O ran a yw hyn yn effeithiol, rwy'n meddwl y gallai fod, ond hoffwn iddo fod yn ddechrau trafodaeth, oherwydd credaf fod cymaint mwy o wybodaeth y mae angen i ni ei chael cyn i ni ddechrau meddwl sut y byddem yn datblygu hyn fel polisi. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni fod yn eglur iawn iawn hefyd ynglŷn â beth a olygwn. Wrth gyflwyno'r ddaol hon heddiw, awgrymodd Antoinette Sandbach y gallai fod trothwy er mwyn sicrhau nad ydym ond yn targedu sefydliadau sydd â màs critigol digonol i allu cynnal gwahaniaeth o'r fath. Credaf fod hynny'n ddoeth iawn, oherwydd fel arall efallai y gwelwn ganlyniadau anfwriadol, sy'n golygu y gallai llawer o fusnesau bach gydag un cyfarwyddwr yn unig o bosibl gael eu heithrio o gontractau y gallent fod yn gwneud cais amdanynt fel arall.

Mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol o strwythur ein heconomi leol yma yng Nghymru. Mae gennym densiwn, rwy'n meddwl, ar hyd y llinellau hyn—o ran polisi caffael—rhwng ein hawydd i fusnesau lleol, busnesau Cymru, wneud yn dda, a'n hawydd i ysgogi agendâu polisiâu eraill, er enghraifft darparu hyfforddiant a buddiannau cymunedol, a chyflwyno pethau fel mesurau cydraddoldeb drwy ein polisi caffael. Gallai fod tensiwn, fodd bynnag, yn yr ystyr bod llawer o fusnesau Cymru yn fach. Yn ystadegol, mae ein busnesau yn fwy tebygol o fod yn fusnesau bach. Mae tensiwn yma sy'n rhaid i ni ei oresgyn ac sy'n rhaid i ni ei ddeall.

We also need to be aware, of course, that we want to encourage a very diverse business community in Wales. We want to ensure that charity organisations, trust partnerships and the mutual sector can also thrive here. Partnerships and mutuals, they may not, actually, technically have directors, so it is little technicalities like this that we need to have this conversation about, to ask ourselves: 'Well, how do we overcome that? How do we make sure that it isn't burdensome, and how do we make sure that it doesn't act against other policy objectives that we have previously agreed are important to us?' As I say, I really, really welcome the opportunity to discuss these ideas.

Now I, like Angela Burns, had been concerned about supporting the motion for some of these technical reasons, but whilst, you know, as other Members have recognised, there has been big progress here, there is still so much more to be done. I am so, so proud that, whilst my own colleague in Cardiff, Jenny Willott, was at BIS, the Department for Business, Innovation and Skills, the representation of women at board level in the UK hit a record high. I am also incredibly proud that, whilst she was in charge of that equality portfolio in business, and it was her role to chase it, for the first time ever there was a woman at board level at every single one of our FTSE 100 companies. I am incredibly proud of that, but it still isn't enough. We've still got so much further to go. It's still only 23%—it isn't enough.

I want my daughter to grow up to be able to just assume that the world is open to her, not to have to have fought for it, like our generation did, or to have it shut in our faces like our mothers' generations did—that is not enough. I think this is the start of a conversation. I do have caveats about the specific wording here, but I will support it on the basis that I think that this is a conversation that we need to have.

Mae angen i ni hefyd fod yn ymwybodol, wrth gwrs, ein bod am annog cymuned fusnes amrywiol iawn yng Nghymru. Rydym am sicrhau y gall sefydliadau elusennol,artneriaethau ymddiriedolaethau a'r sector cydfuddiannol ffynnu yma hefyd. Mewn gwirionedd, efallai na fydd gan bartneriaethau a chwmnïau cydfuddiannol, gyfarwyddwyr yn dechnegol, felly mae angen i ni gael trafodaeth am fanylion bach technegol fel hyn er mwyn gofyn i ni ein hunain: 'Wel, sut mae goresgyn hynny? Sut rydym am wneud yn siŵr nad yw'n feichus, a sut mae gwneud yn siŵr nad yw'n gweithredu yn erbyn amcanion polisiau eraill a gytunwyd gennym o'r blaen ac sy'n bwysig i ni?' Fel y dywedais, rwy'n gwirioneddol groesawu'r cyfle i drafod y syniadau hyn.

Yn awr roeddwn i, fel Angela Burns, wedi bod yn bryderus ynghylch cefnogi'r cynnig am rai o'r rhesymau technegol hyn, ond fel y mae Aelodau eraill wedi cydnabod, wyddoch chi, bu cynnydd mawr yma, ac mae cymaint mwy i'w wneud o hyd. Tra oedd fy nghydweithiwr yng Nghaerdydd, Jenny Willott, yn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, rwyf mor mor falch fod cynrychiolaeth i fenywod ar lefel bwrdd yn y DU ar ei huchaf. Hefyd, tra oedd hi'n gyfrifol am y portffolio cydraddoldeb mewn busnes gyda'i rôl i sicrhau hynny, rwy'n hynod o falch fod menyw ar lefel y bwrdd ym mhob un o gan cwmni'r FTSE am y tro cyntaf erioed. Rwy'n hynod o falch o hynny, ond nid yw hynny'n ddigon o hyd. Mae gennym gymaint o ffordd i fynd. Nid yw ond 23% o hyd—nid yw'n ddigon.

Rwyf am i fy merch dyfu i fyny i allu cymryd yn ganiataol fod y byd yn agored iddi, i beidio â gorfod bod wedi ymladd amdano, fel y bu'n rhaid i'n cenhedlaeth ni wneud, neu ei gael wedi ei gau yn ein hwynebau fel cenedlaethau ein mamau—nid yw hynny'n ddigon. Rwy'n credu bod y drafodaeth yn dechrau yn y fan hon. Mae gen i gafeatau ynglŷn â'r geiriad penodol, ond byddaf yn ei gefnogi ar y sail fy mod yn credu bod hon yn drafodaeth y mae angen inni ei chael.

16:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I very much welcome the opportunity to take part in this debate today. As a Government, we agree women can and do make a valuable contribution to the success of the Welsh economy. We acknowledge maximising women's participation has the potential to boost the Welsh economy even further. To achieve this, we need to continue in our efforts to address the range of barriers preventing women from participating fully in the workplace and making full use of their skills.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a chroesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddaidl hon heddiw yn fawr iawn. Fel Llywodraeth, rydym yn cytuno y gall menywod wneud cyfraniad gwerthfawr i lwyddiant economi Cymru a'u bod yn gwneud hynny. Rydym uchafu cyfranogiad menywod â photensial i hybu economi Cymru hyd yn oed ymhellach. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni barhau yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o rwystrau sy'n atal menywod rhag cyfranogi'n llawn yn y gweithle a gwneud defnydd llawn o'u sgiliau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We want to ensure Wales is a country where we have a diverse workforce and where those in positions of power and influence are not predominantly men. Our programme for government supports this ambition with clear strategic goals to: increase the participation, progression and retention of women in the economy, focusing on key areas of need and impact; help create a robust Welsh economy based on modern, inclusive and sustainable working practices, including flexible working and work-life balance; increase the number of women starting and growing businesses; and improve access to high-quality and affordable childcare.

Our strategic equality plan also contains the actions we are taking to help women and girls to access, to achieve and to aspire within education, training and employment. It sets out what we are doing to tackle gender stereotyping, to enable women to access the careers of their choice, and to increase diversity in public life by challenging and changing the status quo. Improving access to high-quality affordable childcare is also a key priority of this Government. It enables parents to work or to access training, and supports our drive to increase economic growth, tackle poverty and reduce inequalities.

Part-time work can help to balance home and work responsibilities. However, all too often, where part-time work is available, it is in low-paid positions and can create a significant barrier to women's career progression. To add to this, gender segregation in the workforce persists, with women and men concentrated in different sectors. This segregation is often at the root of pay inequalities, with women concentrated in sectors and occupations over-associated with low pay and, often, low hours and casual or zero-hour contracts. We need to challenge at every opportunity gender stereotyping, which limits the range of education and employment opportunities most girls and women consider. We are committed to helping young people keep their options open, and inspiring them to know no career is off limits because of their gender, their race or background.

I was pleased to speak at our Girls Make a Difference conference in September last year, where girls from across south Wales had the opportunity to hear from many fantastic female role models. The aim of this conference was to showcase career paths that are considered less traditional for women, and to encourage girls to aspire to achieve in these areas. We will be holding a second conference in north Wales in May of this year.

Rydym am sicrhau bod Cymru yn wlad lle y mae gennym weithlu amrywiol a lle nad yw'r rhai sydd mewn safleoedd o bŵer a dylanwad yn ddyinion yn bennaf. Mae ein rhaglen ar gyfer y llywodraeth yn cefnogi'r uchelgais hwn gyda nodau strategol dir i: gynyddu cyfranogiad, datblygu a chadw menywod yn yr economi, gan ganolbwyntio ar feysydd allweddol o angen ac effaith; helpu i greu economi gadarn yng Nghymru yn seiliedig ar arferion gwaith modern, cynhwysol a chynaliadwy, gan gynnwys gweithio hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith; cynyddu nifer y menywod sy'n dechrau ac yn datblygu busnesau; a gwella mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel.

Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol hefyd yn cynnwys camau rydym yn eu cymryd i helpu menywod a merched i gael addysg, ac i gyflawni a chael uchelgeisiau mewn addysg a hyfforddiant ac yn eu gwaith. Mae'n nodi'r hyn rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw, er mwyn galluogi menywod ddilyn gyrfaedd o'u dewis, ac i gynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus drwy herio a newid y status quo. Mae gwella hygyrchedd gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel hefyd yn un o flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth hon. Mae'n galluogi rhieni i weithio neu i gael hyfforddiant, ac yn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau.

Gall gwaith rhan amser helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng y cartref a chyfrifoldebau gwaith. Fodd bynnag, yn rhy aml, lle y mae gwaith rhan-amser ar gael, tuedda i fod ar ffurf swyddi ar gyflog isel a gall greu rhwystr sylweddol i ddatblygiad gyrfaedd menywod. Yn ogystal â hyn, mae gwahanu ar sail rhyw o fewn y gweithlu yn parhau, gyda chrynodeiadau o fenywod a dynion mewn gwahanol sectorau. Arwahanu o'r fath sy'n aml wrth wraidd anghydraddoldebau cyflog, gyda chrynodeiadau o fenywod mewn sectorau a galwedigaethau a gysylltir yn ormodol â chyflogau isel ac yn aml, â phrinder oriau a chontractau achlysurol neu ddim oriau. Mae angen inni fanteisio ar bob cyfle i herio stereoteipio ar sail rhyw sy'n cyfyngu ar yr ystod o gyfleoedd addysgol a gwaith y mae'r rhan fwyaf o ferched a menywod yn eu hystyried. Rydym wedi ymrwymo i helpu pobl ifanc i gadw eu hopsiynau yn agored, a'u hysbrydoli i wybod nad oes unrhyw yrfa wedi'i chau iddynt oherwydd eu rhyw, eu hil neu eu cefndir.

Roeddwn yn falch o siarad yn ein cynhadledd 'Mae Merched yn Gwneud Gwahaniaeth' ym mis Medi y llynedd, lle y cafodd merched o bob rhan o dde Cymru gyfle i glywed gan lawer o fodolau rôl benywaidd gwych. Nod y gynhadledd oedd arddangos llwybrau gyrfa sy'n cael eu hystyried yn llai traddodiadol i fenywod, ac i annog merched i anelu i gyflawni yn y meysydd hyn. Byddwn yn cynnal ail gynhadledd yng ngogledd Cymru ym mis Mai eleni.

This Welsh Government is firmly committed to achieving gender equality in the workplace and to tackling the underlying issues that create pay inequality and institutional discrimination. We already have the most robust equal pay duty in the UK, introduced through our Wales-specific equality duties. We are building on this to ensure Welsh Government actions are focused on addressing the causes of pay differences, which will help to ensure a level playing field for all. We are pleased to support projects such as Women Adding Value to the Economy, funded by European social fund through the Welsh Government, which seeks to tackle the underlying issues that contribute to gender pay inequalities and institutional discrimination. We must continue to tackle the lack of gender balance at senior and decision-making levels, and support women into these roles. This is why we are supporting the 50/50 by 2020 campaign. The Welsh Government has pledged its support for the campaign, and aims to achieve a gender balance of 50% women in the senior civil service in the Welsh Government by the year 2020.

It is fair to say that we've seen improvements in Wales in terms of gender equality, but, as this debate has highlighted today, there is always more to be done, and we are committed to making a stand and to taking action.

The Welsh Government is supportive of the sentiments set out in the motion as tabled by Antoinette Sandbach, Bethan Jenkins and Jenny Rathbone. We recognise and value the contribution of women to Welsh working life and we'll continue to do all we can to ensure equal pay and to eradicate discrimination so women can achieve and prosper in Wales. We will continue to do all in our power to achieve gender balance in the workplace and on our public sector boards. We will continue to encourage funding recipients to take full responsibility for ensuring gender balance, and we will continue to support them in achieving this.

As a Government, we are working to tackle the reasons behind a lack of gender balance at senior and decision-making levels, and support women into better-paid careers and on to boards. Reluctantly, we cannot support the motion as worded, since it would be illegal to bar from the procurement process companies whose board membership does not include female representation. We have to recognise this legal constraint, but no-one should be in any doubt regarding our proven commitment to bringing women forward in all areas of public life. This Welsh Government is committed to ensuring equality in Wales. We want Wales to be a country where women are equally represented at all levels, where they receive equal pay, and where there is fairness and equality for all. Diolch.

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwmo'n gadarn i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle ac i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n creu anghydraddoldeb o ran cyflog a gwahaniaethu sefydliadol. Mae gennym eisoes y ddyletswydd cyflog cyfartal fwyaf trylwyr yn y DU, a gyflwynwyd drwy ein dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru. Rydym yn adeiladu ar hyn er mwyn sicrhau bod camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion gwahaniaethu cyflog, a fydd yn helpu i sicrhau chwarae teg i bawb. Rydym yn falch o gefnogi prosiectau megis Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi, a ariennir o gronfa gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, ac sy'n ceisio mynd i'r afael â'r problemau gwaelodol sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau cyflog rhwng y rhywiau a gwahaniaethu sefydliadol. Rhaid inni barhau i fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau ar lefelau uwch a lefelau gwneud penderfyniadau, a chynorthwyo menywod i ymgymryd â'r rolau hyn. Dyma pam rydym yn cefnogi'r ymgyrch 50/50 erbyn 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo ei chefnogaeth i'r ymgyrch, a'i nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau drwy sicrhau bod 50% o staff yr uwch wasanaeth sifil yn Llywodraeth Cymru yn fenywod erbyn y flwyddyn 2020.

Mae'n deg dweud ein bod wedi gweld gwelliannau yng Nghymru o ran cydraddoldeb rhywiol, ond fel yr amlygodd y ddadl hon heddiw, mae yna bob amser fwy i'w wneud, ac rydym wedi ymrwmo i wneud safiad ac i weithredu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r teimladau a nodir yn y cynnig fel y'i cyflwynwyd gan Antoinette Sandbach, Bethan Jenkins a Jenny Rathbone. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad menywod i fyd gwaith yng Nghymru a byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau cyflog cyfartal ac i ddileu gwahaniaethu fel y gall menywod gyflawni a ffynnu yng Nghymru. Byddwn yn parhau i wneud popeth yn ein gallu i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y gweithle ac ar ein byrddau yn y sector cyhoeddus. Byddwn yn parhau i annog rhai sy'n derbyn cyllid i gymryd cyfrifoldeb llawn dros sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau, a byddwn yn parhau i'w cynorthwyo i gyflawni hyn.

Fel Llywodraeth, rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhesymau y tu ôl i ddiffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau ar lefelau uwch a lefelau gwneud penderfyniadau, ac yn cynorthwyo menywod i fynd i mewn i yrfaeod sy'n talu'n well ac ar fyrddau. Yn anfoddog, ni allwn gefnogi'r cynnig fel y'i geiriwyd, gan y byddai'n anghyfreithlon i rwystro cwmnïau heb gynrychiolaeth i fenywod ymhlith eu haelodaeth o'r broses gaffael. Mae'n rhaid i ni gydnabod y cyfyngiad cyfreithiol hwn, ond ni ddylai neb gael unrhyw amheuaeth ynglŷn â'n hymrwymiad profedig i hybu menywod ym mhob maes o fywyd cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru. Rydym am i Gymru fod yn wlad lle y caiff menywod eu cynrychioli'n gyfartal ar bob lefel, lle y cânt gyflog cyfartal, a lle y mae tegwch a chydaddoldeb i bawb. Diolch.

16:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Jenny Rathbone to reply to the debate.

Galwaf ar Jenny Rathbone i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a privilege to have this debate on what is a very intractable issue. We've had 40 years, nearly, of the Equal Pay Act 1970 and yet women continue to earn 82p for men's £1. They work for nothing from 7 November until the end of the year. That is despite the fact that women are a very significant presence in the workforce now, and increasingly acknowledged as playing an important role. So, why is it that women continue to be paid a lot less? It has to link back to the fact of women's role as carer, particularly as child bearer, a task that men cannot do. That shouldn't be a reason for discrimination, but it is.

Julie Morgan mentioned that six out of 10 people, in a survey, report discrimination around pregnancy and that there are 9,000 cases against employers for unfair dismissal. Employers actively avoid appointing women of childbearing age to avoid having to deal with covering for maternity leave. It's illegal, but it happens. Even with an exemplary employer like the National Assembly, even in this building, I know women who make a point of mentioning that they don't plan to have children when they go for job interviews. So, there is absolutely no room for complacency on this matter. The central idea behind this motion is that, by ensuring women have a significant presence on company boards, it will eventually put a stop to this institutional discrimination.

Indeed, several Members have talked about the fact—Christine Chapman, Angela Burns and Bethan Jenkins—that it makes really good sense to employ women more effectively, because we need to use all our talents. We have to realise that things like bullying in the workplace, being made to feel uncomfortable or undervalued at work because of background, gender, ethnicity or any other protected characteristics is unacceptable and a waste of talent. Eddie Redmayne's award-winning portrayal of Stephen Hawking's momentous achievements in 'The Theory of Everything' illustrates what happens when talent is nurtured rather than written off.

Mae'n fraint cael y ddadl hon ar yr hyn sy'n fater anhydrin iawn. Rydym wedi cael 40 mlynedd, bron, o Ddeddf Cyflog Cyfartal 1970 ac eto mae menywod yn parhau i ennill 82c am bob £1 y bydd dynion yn ei ennill. Maent yn gweithio am ddim o 7 Tachwedd tan ddiwedd y flwyddyn. Mae hynny er gwaethaf y ffaith bod menywod yn bresenoldeb sylweddol iawn yn y gweithlu yn awr, a chydabyddir yn gynyddol eu bod yn chwarae rôl bwysig. Felly, pam y mae menywod yn parhau i gael eu talu lawer llai? Rhaid ei fod yn gysylltiedig â rôl menywod fel gofalwyr, neu fel rhai sy'n geni plant yn enwedig, tasg na all dynion ei gwneud. Ni ddylai hynny fod yn rheswm dros wahaniaethu, ond dyna fel y mae.

Crybwyllodd Julie Morgan fod chwech o bob 10 o bobl mewn arolwg yn adrodd am wahaniaethu ar sail beichiogrwydd a bod 9,000 o achosion yn erbyn cyflogwyr am ddiswyddo annheg. Mae cyflogwyr yn mynd ati i osgoi penodi menywod o oedran cael plant er mwyn osgoi gorfod trefnu darpariaeth gyflenwol dros seibiant mamolaeth. Mae'n anghyfreithlon, ond mae'n digwydd. Hyd yn oed gyda chyflogwr rhagorol fel y Cynulliad Cenedlaethol, hyd yn oed yn yr adeilad hwn, rwy'n gwybod am fenywod sy'n gwneud pwynt o sôn nad ydynt yn bwriadu cael plant pan fyddant yn mynd am gyfweiliadau am swyddi. Felly, nid oes lle o gwbl i fod yn hunanfodlon ynglŷn â'r mater hwn. Y syniad canolog wrth wraidd y cynnig hwn yw y bydd yn y pen draw, drwy sicrhau bod nifer sylweddol o fenywod yn aelodau o fyrddau cwmnïau, yn rhoi terfyn ar wahaniaethu sefydliadol o'r fath.

Yn wir, mae nifer o Aelodau—Christine Chapman, Angela Burns a Bethan Jenkins—wedi dweud bod cyflogi menywod yn fwy effeithiol yn gwneud synnwyr da iawn, oherwydd mae angen i ni ddefnyddio ein holl ddoniau. Rhaid i ni sylweddoli bod pethau fel bwlio yn y gweithle, cael eich gwneud i deimlo'n anghyfforddus neu gael eich tanbriso yn y gwaith oherwydd eich cefndir, rhyw, ethnigrwydd neu unrhyw nodweddion gwarchoddedig eraill yn annerbyniol ac yn wastraff talent. Mae portread Eddie Redmayne, sydd wedi ennill gwobrau, o gyflawniadau anhygoel Stephen Hawking yn 'The Theory of Everything' yn dangos beth sy'n digwydd pan fo talent yn cael ei feithrin yn hytrach na'i ddiystyru.

Now, I acknowledge absolutely that the Welsh Government has done plenty to try to rectify this problem, and the programme for government for this fourth Assembly includes the ambition for women to make up 40% of appointments to public boards. Lesley Griffiths spoke about many of the initiatives that the Government is carrying out to promote flexible working, to tackle stereotyping and obtain a better gender balance across the workforce as one of the ways in which we tackle equal pay. But the assumption that we're making progress is not necessarily the case. Ten years ago, nearly a third of NHS trust executives in Wales were women, but now it's only 10% of local health boards and trusts that are headed by women. None of the police commissioners are women. Ten years ago, 14% of council leaders were women. Today, the figure stands at 9%. So, we absolutely can't stand still and we have to continue to be terrier-like, as Bethan Jenkins said. We have to focus on what we can now do.

Lesley Griffiths mentioned the Government support for 50/50 by 2020, an important initiative not just because it's supported by a range of public sector bodies but also, significantly, by the Confederation of British Industry Wales, the Institute of Directors and Business in Focus. But, we have to realise that, of the 100 top companies operating in Wales, only 2% have women chief executives, so we are still a long way off target. Nevertheless, if Admiral, one of Wales's largest private companies and very successful as well, can have 60% women on its board, why can't other companies, and why indeed shouldn't they? As Christine Chapman and Angela Burns have focused on, it is the importance of the work that women can provide in terms of being much more reflective in their thinking, asking more questions rather than just leaping in.

Antoinette Sandbach mentioned that many other European countries have already tackled this idea of having quotas on boards. Indeed, this has been picked up by the new European Parliament as it was discussed last night in the European Parliament—the proposal to have 40% female non-executive board members for publically listed companies by 2020. So, this motion of ours is definitely moving with the grain. The European Commission, not known for its radicalism, gave as the reasons for supporting it that not only is progress too slow and that there are growing discrepancies between member states, but also that whilst member states have the legal possibility to act to counter underrepresentation of women, many of them do not show any willingness or face resistance from the business community.

Yn awr, rwy'n cydnabod yn llwyr fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i geisio cywiro'r broblem hon, ac mae'r rhaglen lywodraethu ar gyfer y pedwerydd Cynulliad hwn yn cynnwys yr uchelgais i sicrhau bod 40% o benodiadau i fyrddau cyhoeddus fod yn fenywod. Siaradodd Lesley Griffiths am lawer o'r mentrau y mae'r Llywodraeth yn eu cyflawni i hyrwyddo gweithio hyblyg, er mwyn mynd i'r afael â stereoteipio a chael gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws y gweithlu fel un o'r ffyrdd rydym yn mynd i'r afael â chyflog cyfartal. Ond nid yw'r rhagdybiaeth ein bod yn gwneud cynnydd o reidrydd yn wir. Ddeng mlynedd yn ôl, roedd bron i draean o aelodau gweithredol ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn fenywod, ond erbyn hyn 10% yn unig o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd lleol sy'n cael eu harwain gan fenywod. Nid oes yr un o'r comisiynwyr heddlu yn fenywod. Ddeng mlynedd yn ôl, roedd 14% o arweinwyr cyngorau yn fenywod. Heddiw, 9% yw'r ffigur. Felly, ni allwn aros yn ein hunfan o gwbl ac mae'n rhaid i ni barhau i fod fel daeargwn, fel y dywedodd Bethan Jenkins. Rhaid i ni ganolbwyntio yn awr ar yr hyn y gallwn ei wneud.

Crybwyllodd Lesley Griffiths gefnogaeth y Llywodraeth i ymgyrch 50/50 erbyn 2020, menter bwysig nid yn unig oherwydd ei bod yn cael ei chefnogi gan ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus, ond hefyd, yn arwyddocaol, gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru, Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Business mewn Ffocws. Ond o'r 100 o gwmnïau uchaf sy'n gweithredu yng Nghymru, mae'n rhaid i ni sylweddoli mai 2% yn unig sydd â menywod yn brif weithredwyr, felly rydym yn dal i fod yn bell iawn o'r targed o hyd. Serch hynny, os yw Admiral, un o gwmnïau preifat mwyaf Cymru ac un llwyddiannus iawn hefyd, yn gallu sicrhau mai menywod yw 60% o aelodau ei fwrdd, pam na all cwmnïau eraill wneud hynny, a pham yn wir na ddylent? Fel y soniodd Christine Chapman ac Angela Burns, mae'n fater o bwysigrwydd y gwaith y gall menywod ei ddarparu o ran bod yn llawer mwy myfyrgar yn y ffordd y maent yn meddwl, gan ofyn mwy o gwestiynau yn hytrach na neidio i mewn i bethau.

Crybwyllodd Antoinette Sandbach fod llawer o wledydd Ewropeaidd eraill eisoes wedi mynd i'r afael â'r syniad o gael cwtâu ar fyrddau. Yn wir, cafodd hyn ei godi gan y Senedd Ewropeaidd newydd gan iddo gael ei drafod neithiwr yn Senedd Ewrop—y cynnig i sicrhau bod 40% o aelodau anweithredol byrddau yn fenywod ar gyfer cwmnïau a restrwyd yn gyhoeddus erbyn 2020. Felly, mae'r cynnig hwn sydd gennym yn bendant yn symud gyda'r llif. Y rhesymau a roddodd y Comisiwn Ewropeaidd, nad yw'n enwog am ei radicaliaeth, dros ei gefnogi oedd bod y cynnydd yn rhy araf a bod anghysondebau cynyddol rhwng yr aelod-wladwriaethau, a hefyd, er ei bod yn bosibl yn gyfreithiol i aelod-wladwriaethau weithredu i atal sefyllfa lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol i fenywod, nid oes llawer ohonynt yn dangos unrhyw barodrydd i wneud hynny neu maent yn wynebu gwrthwynebiad gan y gymuned fusnes.

But I think that, as has already been mentioned, business is coming round to the idea. Businesses worldwide—45% of them—now want to see quotas introduced for women on boards, and that's gone up from 37% in 2013. So, I think we are beginning to win that argument. There is much research to show that an agenda-diverse board delivers better financial performance, retains a company's talent pool and increases innovation and thereby overall performance.

Now, I hear clearly the reservations expressed by Eluned Parrott and Angela Burns around using procurement and the grants system to engineer a change in the make-up of boards. I'd first just like to remind—. Obviously we don't want to inadvertently exclude or create false problems around small businesses, but we should be aware that, in 2007, Gordon Brown as Chancellor was seriously looking at including workforce race equality requirements in UK public procurement by using it at the pre-qualification stage, and that this could—should—be looked at very carefully as a way of introducing that into the Welsh Government's procurement processes, as well as bearing in mind that, of course, equalities and sustainable development are already part of the cross-cutting criteria for whether to award European structural funds, which I hope would address Angela Burns's reservations—because that is already a criterion of any European funding. So, I hope the Government will take this motion seriously and give it due consideration.

Ond fel y crybwyllwyd eisoes, rwy'n credu bod busnes yn dechrau cynhesu at y syniad. Mae busnesau ledled y byd—45% ohonynt—yn awr am weld cyflwyno cwotâu i gael menywod ar fyrddau, ac mae hynny wedi codi o 37% yn 2013. Felly, rwy'n meddwl ein bod yn dechrau ennill y ddadl honno. Mae llawer o ymchwil yn dangos bod bwrdd ag agenda amrywiol yn perfformio'n well yn ariannol, yn cadw cronfa dalent cwmni ac yn gwella arloesedd a thrwy hynny, y perfformiad cyffredinol.

Yn awr, rwy'n clywed yr amheuan a fynegodd Eluned Parrott ac Angela Burns ynghylch defnyddio caffael a'r system grantiau i greu newid yng nghyfansoddiad byrddau. Yn gyntaf, hoffwn atgoffa—. Yn amlwg nid ydym am eithrio busnesau bach yn anfwriadol neu greu broblemau ffug yn eu cylch, ond dylem fod yn ymwybodol fod Gordon Brown fel Canghellor yn 2007 yn edrych o ddirif ar gynnwys gofynion cydraddoldeb hiliol ar gyfer y gweithlu ym maes caffael cyhoeddus yn y DU drwy ei ddefnyddio ar y cam cyn-gymhwyso, ac y gallai hyn—y dylai hyn—gael ei ystyried yn ofalus iawn fel ffordd o gyflwyno hynny i brosesau caffael Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, dylem gofio bod cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy eisoes yn rhan o'r meini prawf trawsbynciol, wrth gwrs, o ran a ddylid dyfarnu cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Rwy'n gobeithio y byddai hynny'n ateb amheuan Angela Burns—oherwydd mae eisoes yn faen prawf ar gyfer unrhyw arian Ewropeaidd. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth o ddirif ynghylch y cynnig hwn ac yn rhoi ystyriaeth briodol iddo.

16:35

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any member object? [Objection]. I will defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad]. Gohiraf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Busnesau

Delholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3 a 6 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 4 a 5 yn enw Elin Jones.

Welsh Conservatives Debate: Businesses

The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3 and 6 in the name of Aled Roberts, and amendments 4 and 5 in the name of Elin Jones.

16:35

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Item 5: dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar fusnesau. Galwaf ar William Graham i wneud y cynnig.

Item 5: the Welsh Conservatives debate on businesses. I call on William Graham to move the motion.

Cynnig NDM5665 Paul Davies

Motion NDM5665 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes that:

a) bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad ardrethi busnesau bach tan fis Mawrth 2015;

a) the Welsh Government is providing small business rate relief until March 2015;

b) bod Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi yn natganiad yr Hydref ar 3 Rhagfyr 2014 y bydd gan Lywodraeth Cymru reolaeth lawn dros ardrethi busnes ym mis Mawrth 2015.

b) the Chancellor of the Exchequer announced in his Autumn Statement of 3 December 2014 that the Welsh Government will have full control of business rates in March 2015.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn cymorth drethi busnes i fusnesau bach.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch a'r gymuned fusnes i greu economi fwy dynamig.

Cynigiwyd y cynnig.

2. Calls on the Welsh Government to extend business rate support for small businesses.

3. Further calls on the Welsh Government to help strengthen ties between higher education institutions and the business community to create a more dynamic economy.

Motion moved.

16:35

William Graham [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. It is said that the main task of Government is to distribute the collective wealth of society amongst its members and that, in the matter of distribution the Government is uniquely competent. The fact that wealth can be distributed only when first created seems to have escaped notice. Sadly for many, the idea that economic life consists in the management of existing industries rather than a creation of new ones still has support. Welsh Conservatives believe the important person in a free economy is not the manager but the entrepreneur, one who takes risks and meets the cost. Many will claim that entrepreneurs create things while managers sadly entomb them. The idea of the state as the benign father figure who guides the collective assets of society in the place where they are needed and was always there to rescue us from poverty, ill health or unemployment has remained in the foreground of academic political science in the United Kingdom. Many of us believe strongly in our economic success as a country and, by recognising our institutions, we see them as the embodiment of social affection as nurtured and stored over centuries. Once clause 4—the commitment to a socialist economy—was dropped from the Labour party's constitution, it enabled Labour politicians to at last recognise that entrepreneurs create the wealth that sustains the state.

The United Kingdom Government announced last year that the Welsh Government is going to be given full power over non-domestic business rates. Welsh Conservatives welcomed this positive announcement and have urged the Welsh Government to address the burden of business rates and allow the Welsh economy to expand. This power being devolved will ensure that they are held to account for the economy. The devolution of business rates is a challenge to the Welsh Government to start using its newly upgraded measures to promote economic growth and create jobs.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Dywedir mai prif dasg Llywodraeth yw dosbarthu cyfoeth cyfunol cymdeithas ymysg ei haelodau, ac o ran dosbarthu, y Llywodraeth yn unig sy'n gymwys. Ymddengys nad oes neb wedi ystyried y ffaith na ellir dosbarthu cyfoeth oni bai ei fod wedi cael ei greu yn y lle cyntaf. Yn anffodus i lawer, mae cefnogaeth o hyd i'r syniad fod bywyd economaidd yn cynnwys rheoli diwydiannau presennol yn hytrach na chreu rhai newydd. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu nad y rheolwr ond yr entrepreneur yw'r person pwysig mewn economi rydd, un sy'n cymryd risgiau ac yn talu'r gost. Bydd llawer yn honni bod entrepreneuriaid yn creu pethau tra bod rheolwyr, yn anffodus, yn eu claddu. Mae'r syniad o'r wladwriaeth fel ffigwr tadol diniwed sy'n llywio asedau cyfunol cymdeithas i'r fan lle y mae eu hangen ac a oedd bob amser yno i'r hachub rhag tlodi, afiechyd neu ddiweithdra wedi parhau'n flaenllaw yn y wyddor wleidyddol academaidd yn y Unedig Deyrnas. Mae llawer ohonom yn credu'n gryf yn ein llwyddiant economaidd fel gwlad a thrwy gydnabod ein sefydliadau, rydym yn eu gweld fel ymgorfforiad o anwylddeb cymdeithasol wedi ei feithrin a'i storio dros y canrifoedd. Ar ôl i gymal 4—yr ymrwymiad i economi sosialaidd—gael ei ddileu o gyfansoddiad y blaid Lafur, galluogodd wleidyddion Llafur i gydnabod o'r diwedd mai entrepreneuriaid sy'n creu'r cyfoeth sy'n cynnal y wladwriaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y llynedd bod Llywodraeth Cymru yn mynd i gael grym llawn dros drethi busnes annomestig. Croesawodd y Ceidwadwyr Cymreig y cyhoeddiad cadarnhaol hwn ac maent wedi annog Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â baich drethi busnes a chaniatáu i economi Cymru ehangu. Bydd y pŵer hwn sy'n cael ei ddatganoli yn sicrhau eu bod yn cael eu dwyn i gyfrif am yr economi. Mae datganoli drethi busnes yn herio Llywodraeth Cymru i ddechrau defnyddio ei mesurau a uwchraddiwyd o'r newydd i hybu twf economaidd a chreu swyddi.

The entrepreneurial activity of a nation usually reflects its economic vitality. Certainly, a growing economy presents many opportunities for those wishing to be self-employed, and the creation of a whole new entrepreneurial venture can be the catalyst to driving forward economic growth. That is why the figures released earlier this week on the number of new businesses will have brought a measure of satisfaction. According to the latest data put forward by StartUp Britain, a record 580,000 new United Kingdom firms were registered with Companies House in 2014. This represents a growth of 8% in just 12 months and beats the previous high mark of 526,000 businesses recorded the previous year. It comes as no surprise that, since 2010, the UK Conservative Government have doubled business rate relief, meaning 360,000 small businesses are not paying rates at all.

I acknowledge the great news that, in Wales, over 14,000 businesses were created in 2014; this accounted for only 2.5% of the total of new firms for the United Kingdom as a whole. As the Welsh economy's share of all UK businesses is around 4%, this means we are underperforming as a nation. In addition, the 5% growth in the number of new businesses in 2014 was also considerably behind that of most other UK regions.

We simply cannot forget the importance of SMEs to the Welsh economy. Small and medium-sized enterprises account for 99% of the Welsh business stock. They provide employment for well over half the private sector workforce. SMEs are the lifeblood of the Welsh economy and require adequate support from the Welsh Government.

The United Kingdom Government announced a 2% cap on the increase in the non-domestic rate multiplier for 2015-16. The Minister gave assurances last month that Welsh Ministers propose to adopt the same approach to businesses so that Wales is not at a disadvantage in comparison with their counterparts in England, as, clearly, not to do so would have obvious consequences for the Welsh economy. The Conservative-led coalition took a bold lead in capping rate rises at 2%. Welsh Conservatives have long maintained a standing belief that the current levels of small business rate relief are not adequate and, to give this support, have pledged to abolish business rates for all businesses with a rateable value of under £12,000, and provide tapered relief for small businesses with a rateable value up to £15,000. The revaluation in 2017 will, of course, be based on rents payable in April of this year. This policy would allow much-needed capital for small businesses to hire new staff or explore new markets.

Mae gweithgaredd entrepreneuriaidd cenedl fel arfer yn adlewyrchu ei bywiogrwydd economaidd. Yn sicr, mae economi sy'n tyfu yn cyflwyno llawer o gyfleoedd i'r rhai sydd am fod yn hunangyflogedig, a gall y gwaith o greu menter entrepreneuriaidd newydd sbon fod yn gatalydd ar gyfer ysgogi twf economaidd. Dyna pam y bydd y ffigurau a ryddhawyd yn gynharach yr wythnos hon ar nifer busnesau newydd yn creu rhywfaint o foddhad. Yn ôl y data diweddaraf a gyflwynwyd gan StartUp Britain, roedd 580,000, nifer uwch nag erioed, o gwmnïau newydd yn y Deyrnas Unedig wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau yn 2014. Dyma gynnydd o 8% mewn 12 mis yn unig ac mae'n curo'r record flaenorol o 526,000 o fusnesau a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol. Nid oes unrhyw syndod fod Llywodraeth Geidwadol y DU wedi dyblu rhyddhad ardrethi busnes ers 2010, sy'n golygu nad yw 360,000 o fusnesau bach yn talu ardrethi o gwbl.

Rwy'n cydnabod y newyddion gwych fod dros 14,000 o fusnesau wedi eu creu yng Nghymru yn 2014; 2.5% yn unig o gyfanswm y cwmnïau newydd yn y Deyrnas Unedig yn gyfan yw hyn. Gan fod cyfran economi Cymru o holl fusnesau'r DU oddeutu 4%, mae hyn yn golygu ein bod yn tangyflawni fel cenedl. Hefyd, roedd y twf o 5% yn nifer y busnesau newydd yn 2014 gryn dipyn yn is na'r rhan fwyaf o ranbarthau eraill y DU.

Ni allwn anghofio pa mor bwysig yw busnesau bach a chanolig i economi Cymru. Busnesau bach a chanolig eu maint yw 99% o stoc busnes Cymru. Maent yn darparu gwaith i dros hanner y gweithlu yn y sector preifat. Busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru ac maent angen cefnogaeth ddigonol gan Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gap o 2% ar y cynnydd yn y lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2015-16. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd y mis diwethaf fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu mabwysiadu'r un ymagwedd tuag at fusnesau fel nad yw busnesau Cymru dan anfantis o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr, gan y byddai peidio â gwneud hynny, yn arwain at ganlyniadau eglur i economi Cymru. Dangosodd y glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr arweiniad cadarn drwy gapio cynnydd mewn ardrethi ar 2%. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi credu'n gadarn ers amser maith nad yw lefelau cyfredol o ryddhad ardrethi i fusnesau bach yn ddigonol ac er mwyn rhoi'r cymorth hwn, rydym wedi addo diddymu ardrethi busnes i bob busnes â gwerth ardrethol o dan £12,000, a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol ar gyfer busnesau bach â gwerth ardrethol o hyd at £15,000. Wrth gwrs, bydd yr ailbrisiad yn 2017 yn seiliedig ar renti sy'n daladwy ym mis Ebrill eleni. Byddai'r polisi hwn yn caniatáu cyfalaf mawr ei angen i fusnesau bach allu llogi staff newydd neu archwilio marchnadoedd newydd.

It is important to remember that the benefit will outweigh the cost, particularly when one considers the reduction in unemployment. If the Welsh Government would listen to our proposals, the private sector could grow, unemployment would be reduced, and Wales could become even more prosperous. Given that there is a desperate need in Wales to grow the private sector, Welsh Conservatives believe that the current levels of rate relief available are not adequate, and business rate relief is one of the strongest tools at the Welsh Labour Government's disposal to get the economy in Wales moving, and, with Wales's over-reliance on the public sector, Labour Ministers should be doing more to utilise this tool to encourage wealth creation and reduce unemployment.

To achieve growth, the Conservative-led United Kingdom Government has scrapped or amended over 3,000 regulations, saving businesses over £850 million every year; from April, cutting the jobs tax, saving every business up to £2,000; and again from April, abolishing the jobs tax for the under-21s so it's easier for businesses to take on young people. The Start Up Loans scheme has already helped 10,000 young entrepreneurs to start their own business, while our Funding for Lending programme is helping banks to lend more money to small businesses and, since 2010, helped create 1.5 million apprenticeships. All companies throughout Wales and the United Kingdom must be encouraged to realise the potential to grow their business. We have to remember that we have some impressive companies in Wales. In the north, Airbus are not only a leader in aviation design and technology; they sustain economic growth and give wonderful opportunities for supply and service industries. And, for example, in Bridgend, Ford are to build a new 1.5 litre engine factory, again sustaining economic growth in the surrounding region.

Last Thursday, the director of the South Wales Chamber of Commerce said:

'we are increasingly concerned about the number of businesses reporting that they are experiencing difficulties in recruiting staff. We have frequently raised the need to improve the skills of the future and current workforce, and called for better partnerships between the public, private and academic sectors, and, given that this has been a trend throughout the last year, this is clearly now an urgent problem that needs to be addressed.'

That is why the latest figures on the Seed Enterprise Investment Scheme, where investors such as business angels get considerable tax breaks to invest in new businesses, is of interest. Unfortunately, the data show that Wales is badly underperforming in attracting private funding for new businesses, with only 10 Welsh firms, out of a total of 1,200 across the United Kingdom, being given a total of £400,000 under SEIS in 2012-13, the lowest of any region. By contrast, 45 firms in Scotland received a total of £2.3 million via the same scheme.

Mae'n bwysig cofio y bydd y fantais yn gorbwysu'r gost, yn enwedig o ystyried y gostyngiad mewn diweithdra. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn gwrandao ar ein cynigion, gallai'r sector preifat dyfu, byddai diweithdra yn cael ei lleihau, a gallai Cymru ddod hyd yn oed yn fwy ffyniannus. O ystyried bod angen dybryd yng Nghymru i dyfu'r sector preifat, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu nad yw'r lefelau cyfredol o ryddhad ardrethi sydd ar gael yn ddigonol, a rhyddhad ardrethi busnes yw un o'r arfau cryfaf sydd ar gael i Lywodraeth Lafur Cymru gael yr economi i symud yng Nghymru, a chyda gorddibyniaeth Cymru ar y sector cyhoeddus, dylai Gweinidogion Llafur fod yn gwneud mwy i ddefnyddio'r arf hwn i annog creu cyfoeth a lleihau diweithdra.

Er mwyn sicrhau twf, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi diddymu neu ddiwygio dros 3,000 o reoliadau, gan arbed dros £850 miliwn i fusnesau bob blwyddyn; o fis Ebrill, bydd y dreth swyddi yn cael ei thorri, gan arbed hyd at £2,000 i bob busnes; ac unwaith eto o fis Ebrill, bydd y dreth swyddi ar gyfer rhai o dan 21 oed yn cael ei diddymu i'w gwneud yn haws i fusnesau gyflogi pobl ifanc. Mae'r cynllun Benthyciad i Gychwyn eisoes wedi helpu 10,000 o entrepreneuriaid ifanc i ddechrau eu busnes eu hunain, ac mae ein rhaglen Cyllid ar gyfer Benthycia yn helpu banciau i roi benthyc mwy o arian i fusnesau bach ac ers 2010, mae wedi helpu i greu 1.5 miliwn o brentisiaethau. Rhaid i bob cwmni ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig gael eu hannog i wireddu'r potensial i dyfu eu busnes. Mae'n rhaid inni gofio bod gennym rai cwmnïau nodedig yng Nghymru. Yn y gogledd, mae Airbus nid yn unig yn arwain ym maes dylunio a thechnoleg hedfan; maent yn cynnal twf economaidd ac yn rhoi cyfleoedd gwyb i ddiwydiannau cyflenwi a gwasanaeth. Ac ym Mhenybont ar Ogwr er enghraifft, mae Ford yn mynd i adeiladu ffatri injan 1.5 litr newydd, gan gynnal twf economaidd yn yr ardal gyfagos unwaith eto.

Ddydd Iau diwethaf, dywedodd cyfarwyddwr Siambwr Fasnach De Cymru:

'Rydym yn gynyddol bryderus am nifer y busnesau sy'n dweud eu bod yn cael anawsterau i recriwtio staff. Rydym wedi cyfeirio'n aml at yr angen i wella sgiliau'r dyfodol a'r gweithlu presennol, ac wedi galw am well partneriaethau rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector academaidd, ac o ystyried bod hon wedi bod yn duedd trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae'n amlwg bellach yn broblem enbyd sy'n galw am sylw.'

Dyna pam y mae'r ffigurau diweddaraf ar y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau, lle y mae buddsoddwyr megis angylion busnes yn cael gostyngiadau treth sylweddol i fuddsoddi mewn busnesau newydd, o ddiddordeb. Yn anffodus, mae'r data yn dangos bod Cymru yn tangyflawni'n arw o ran denu cyllid preifat ar gyfer busnesau newydd, gyda 10 o gwmnïau'n unig o Gymru, o gyfanswm o 1,200 ar draws y Deyrnas Unedig, yn cael cyfanswm o £400,000 o dan y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau yn 2012-13, yr isaf o blith yr holl ranbarthau. Ar y llaw arall, derbyniodd 45 o gwmnïau yn yr Alban gyfanswm o £2.3 miliwn drwy'r un cynllun.

We cannot stifle economic growth in Wales because our workforce is unable to deliver business's needs. The reality of the situation is that companies will look further afield, beyond the Welsh and even UK borders, to identify and attract the talent and skills base that they require. This cannot continue if we are to develop a truly sustainable Welsh economy. We need to bridge the gap between higher education and the business community. Once again, the South Wales Chamber of Commerce commented:

'We also want to see drastic improvements in Wales's ranking in the international PISA test results, as well as a thorough future workplace skills review so that the next generation of Wales's workforce are adequately equipped to support the business community.'

There is a great deal more that could be done to support those looking to enter the job market to ensure they are work-ready for employers. In their 'Campaign for Welsh Business' published at the end of last year, the SWCC called for a national workplace-based skills training programme that would be accessible to all adults to help improve language and numeracy skills for both the current and future workforces.

Helping small businesses survive and expand and making the option to become an entrepreneur a more realistic and achievable goal for people are critical to Wales's economic recovery. This needs to be actioned now. The Welsh Conservatives' proposal of more generous rate relief would help increase the rate of business start-ups in Wales, whilst helping existing businesses to thrive. As the FSB comments, if every SME in Wales could employ one additional member of staff, then every person in Wales who wanted a job would have one.

Ni allwn fygu twf economaidd yng Nghymru am na all ein gweithlu gyflawni anghenion busnes. Realiti'r sefyllfa yw y bydd cwmnïau yn edrych ymhellach i ffwrdd, y tu hwnt i ffiniau Cymru a hyd yn oed y DU, er mwyn nodi a denu'r sylfaen o dalent a sgiliau sydd ei hangen arnynt. Ni all hyn barhau os ydym am ddatblygu economi wirioneddol gynaliadwy yng Nghymru. Mae angen inni bontio'r bwlch rhwng addysg uwch a'r gymuned fusnes. Unwaith eto, dywedodd Siambr Fasnach De Cymru:

'Rydym hefyd yn awyddus i weld gwelliannau mawr o ran safle Cymru yn y canlyniadau profion PISA rhyngwladol, yn ogystal ag adolygiad trylwyr o sgiliau'r gweithle yn y dyfodol fel bod cenhedlaeth nesaf gweithlu Cymru yn cael ei pharatoi'n ddigonol i gefnogi'r gymuned fusnes.'

Mae llawer iawn mwy y gellid ei wneud i gefnogi'r rhai sydd am fynd i mewn i'r farchnad swyddi er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y gwaith i gyflogwyr. Yn 'Ymgrych dros Fusnesau Cymru' a gyhoeddwyd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, galwodd Siambr Fasnach De Cymru am raglen genedlaethol o hyfforddiant sgiliau'n seiliedig ar y gweithle a fyddai'n hygyrch i bob oedolyn er mwyn helpu i wella sgiliau iaith a rhifedd ar gyfer gweithluoedd y presennol a'r dyfodol.

Mae helpu busnesau bach i oroesi ac ehangu a gwneud yr opsiwn i ddod yn entrepreneur yn nod mwy realistig a chyraeddadwy ar gyfer pobl yn hanfodol i adferiad economaidd Cymru. Mae angen i hyn gael ei weithredu yn awr. Byddai cynnig y Ceidwadwyr Cymreig i sicrhau rhyddhad ardrethi mwy hael yn helpu i gynyddu'r gyfradd o fusnesau newydd yng Nghymru, gan helpu busnesau presennol i ffynnu ar yr un pryd. Fel y mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn ei ddweud, pe gallai pob BBaCh yng Nghymru gyflogi un aelod ychwanegol o staff, yna byddai pob person yng Nghymru sydd eisiau swydd yn gallu cael un.

16:44

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf wedi dethol y chwech gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 1, 2, 3 a 6 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the six amendments to the motion. I call on Eluned Parrott to move amendments 1, 2, 3 a 6 tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

Insert as new sub-point at the end of point 1:

y gall prifysgolion chwarae rhan hanfodol yn y broses o greu busnesau newydd gwerth uchel, er enghraifft drwy ychwanegu 261 o gwmnïau deilliedig newydd at economi Cymru yn 2012/13.

universities can play a vital role in creating high-value business start-ups such as by adding 261 new spin-off companies to the Welsh economy in 2012/13.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

Insert as new sub-point at the end of point 1:

mai Caerdydd yw'r unig ddinas yng Nghymru sydd ymhlith yr 20 o ddinasoedd gorau yn y DU ar gyfer dechrau busnesau newydd.

the only Welsh city in the UK's top 20 cities for business start-ups is Cardiff.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu opsiynau i sicrhau bod prisiadau ardrethi busnes yn olrhain y farchnad yn fwy cywir ac yn lliniaru ar gynnydd mawr mewn biliau ardrethi yn y dyfodol.

Calls on the Welsh Government to assess options to ensure that business rate valuations more accurately track the market and ameliorate future large increases in rate bills.

Gwelliant 6—Aled Roberts

Amendment 6—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu olynydd i'r cynllun POWIS i annog gweithio mewn partneriaeth a datblygu cwmnïau deillio yn sefydliadau addysg uwch Cymru.

Calls on the Welsh Government to establish a successor to the POWIS scheme to encourage partnership working and the development of spin-out companies in Welsh HEIs.

Cynigiwyd gwelliannau 1, 2, 3 a 6.

Amendments 1, 2, 3 and 6 moved.

16:44

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'd like to move amendments 1, 2, 3 and 6, tabled in the name of Aled Roberts. I'm grateful for the opportunity to debate business rates and so closely following after the announcement to devolve a much broader set of controls about business rates to this institution. I also welcome the opportunity to discuss the role of higher education in supporting entrepreneurship and creating wealth in our economy, because there is a very important role to play there. Beginning firstly though with business rates, clearly, they are a major lever for us, but we do have to be a little bit realistic about what we can do with them, and the impact of any major differentiation between the rate regime here in Wales and the rate regime in England. In evidence to the Enterprise and Business Committee over a period of many years now, many small businesses—and retailers, actually, in particular, high street retailers—have spoken about the detrimental impact of business rates on their ability to operate, let alone to thrive. They're a big fixed cost that doesn't change in response to troubles with their business or to changes in the economy, and, in particular, many businesses have raised the issue about revaluation as well, which is infrequent, and in some cases, because of a delay— [Interruption.] Sorry. My mike's gone, has it?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn gynnig gwelliannau 1, 2, 3 a 6, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i drafod ardrethi busnes ac yn dilyn mor agos ar ôl y cyhoeddiad i ddatganoli set lawer ehangach o reolaethau ynglŷn ag ardrethi busnes i'r sefydliad hwn. Rwyf hefyd yn croesawu'r cyfle i drafod rôl addysg uwch i gefnogi entrepreneuriaeth a chreu cyfoeth yn ein heconomi, oherwydd mae rôl bwysig iawn i'w chwarae yno. Ond gan ddechrau yn gyntaf gydag ardrethi busnes, mae'n amlwg eu bod yn ysgogiad mawr i ni, ond mae'n rhaid i ni fod ychydig yn realistig ynglŷn â'r hyn y gallwn ei wneud gyda hwy, ac effaith unrhyw wahaniaethu mawr rhwng trefniadau ardrethi yma yng Nghymru a threfniadau ardrethi yn Lloegr. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes dros gyfnod o nifer o flynyddoedd bellach, mae llawer o fusnesau bach—a manwerthwyr mewn gwirionedd, yn arbennig manwerthwyr y stryd fawr—wedi siarad am effaith niweidiol ardrethi busnes ar eu gallu i weithredu, heb sôn am ffynnu. Maent yn gost sefydlog fawr nad yw'n newid mewn ymateb i drafferthion gyda'u busnes neu i newidiadau yn yr economi, ac yn benodol, mae llawer o fusnesau wedi codi mater ailbriso hefyd, sy'n digwydd yn anaml, ac mewn rhai achosion, oherwydd oedi—[Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf. Mae fy wedi meic wedi torri, ydy?

16:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

[Inaudible.] The mike to your left is on. I'm afraid that's the best we can do.

[Anghlywadwy.] Mae'r meic i'r chwith i chi ymlaen. Rwy'n ofni mai dyna'r gorau y gallwn ei wneud.

16:45

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In which case, I'll stand across here. Apologies.

Os felly, fe safaf draw yn y fan hon. Ymddiheuriadau.

16:45

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ah, she moved to the right. [Laughter.]

A, fe symudodd i'r dde. [Chwerthin.]

16:46

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Please don't read anything into that. [Laughter.]

Peidiwch â darllen dim i mewn i hynny. [Chwerthin.]

As I say, business rates are a huge fixed cost that doesn't change when business conditions change, and particularly the issue of revaluation has been raised by many businesses. The revaluation regime is infrequent and, in some cases, because of significant differences in the market, businesses have seen their revaluations double their business rates bill overnight, and that's just not sustainable. So, in our amendment 3 today, we've asked the Welsh Government to look for a mechanism to ameliorate those sudden, big jumps, and perhaps find a way of ensuring that, in between major revaluations, perhaps there's a way of ensuring that the business rate valuations more accurately track the market. We have a situation now in Newport where some businesses are paying more in their business rates than they are in their rents and that situation's going to continue, obviously, until the major revaluation. We need to find a way of assisting those businesses, because, clearly, the cost of running their business is going to be too much to bear.

I'm personally in favour of far more radical reform of the business rate system than anything that's presented here today, perhaps moving to something like a turnover or a profit-based measure. However, we just can't do that unilaterally without it having a significant, detrimental impact. Money moves in a way that property doesn't, sadly—it's a fact—so small Welsh companies that aren't able to move their profits to an alternative site would end up subsidising, really, bigger companies that can move money. I think that, with more powers, we have an opportunity to be more radical in what we choose to do, but we have to be realistic about how that plays across the UK as a whole.

Turning to the role of higher education institutions in supporting entrepreneurship, I was absolutely thrilled that, at the end of last year, Cardiff University gained the ranking of fifth in the UK in terms of the quality of its research. Cardiff Metropolitan University is now top of the post-1992 group of universities in the latest set of results as well. Those are both extraordinary achievements for our capital city, and is reflected in the fact that Cardiff is the only Welsh city, I think, in the UK's top 20 cities for the number of start-ups. There were more than 6,000 start-ups in Cardiff last year—that was up on just short of that number the previous year. And the universities play a big part in that. I was particularly impressed, though, that Cardiff University was second in the whole of the UK in terms of the impact of its research work. The impact measure is incredibly important to us in terms of making sure that we're getting economic benefit out of our universities, because impact is a measure of what use that work has been put to, the number of businesses that have been engaged with, the ways in which they've influenced policy, and the ways in which they've educated society as a whole. That impact measure is incredibly important and we should be very proud of those.

Fel y dywedais, mae ardrethi busnes yn gost sefydlog enfawr nad yw'n newid pan fydd amgylchiadau busnes yn newid, a chodwyd mater ailbrisiu yn benodol gan lawer o fusnesau. Mae'r drefn ailbrisiu yn digwydd yn anaml ac mewn rhai achosion, oherwydd gwahaniaethau sylweddol yn y farchnad, mae busnesau wedi gweld eu hardrethi busnes yn dyblu dros nos oherwydd ailbrisiu, ac nid yw hynny'n gynaliadwy o gwbl. Felly, yn ein gwelliant 3 heddiw, rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i system i liniaru neidio mawr sydyn o'r fath a dod o hyd i ffordd efallai o sicrhau, rhwng ailbrisiadau mawr, bod y prisiadau ardrethi busnes yn tracio'r farchnad yn fwy cywir. Mae gennym sefyllfa erbyn hyn yng Nghasnewydd lle y mae rhai busnesau yn talu mwy o ardrethi busnes nag o renti ac mae'r sefyllfa honno'n mynd i barhau, yn amlwg, hyd nes yr ailbrisiad mawr. Mae angen inni ddod o hyd i ffordd o gynorthwyo'r busnesau hynny, oherwydd mae'n amlwg fod y gost o redeg eu busnes yn mynd i fod yn ormod i'w hysgwyo.

Yn bersonol rwyf o blaid diwygio llawer mwy radical ar y system ardrethi busnes nag unrhyw beth a gyflwynir yma heddiw, gan symud efallai i rywbeth fel mesur yn seiliedig ar drosiant neu elw. Fodd bynnag, nid oes modd inni wneud hynny'n unochrog heb iddo gael effaith sylweddol a niweidiol. Mae arian yn symud mewn ffordd wahanol i eiddo, yn anffodus—mae'n ffaith—felly byddai cwmnïau bach o Gymru nad ydynt yn gallu symud eu helw i safle arall yn y pen draw yn sybsideiddio cwmnïau mwy o faint sy'n gallu symud arian. Gyda mwy o bwerau, credaf fod cyfle gennym i fod yn fwy radical o ran yr hyn rydym yn dewis ei wneud, ond mae'n rhaid inni fod yn realistig ynglŷn â sut y mae hynny'n digwydd ar draws y DU yn gyfan.

Gan droi at rôl sefydliadau addysg uwch i gefnogi entrepreneuriaeth, roeddwn wrth fy modd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf fod Prifysgol Caerdydd wedi cyrraedd y pumed safle yn y DU o ran ansawdd ei hymchwil. Mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn awr ar frig y grŵp o brifysgolion ôl-1992 yn y set ddiweddaraf o ganlyniadau hefyd. Mae'r rheini'n gyflawniadau eithriadol gan ein prifddinas, a adlewyrchir yn y ffaith mai Caerdydd yw'r unig ddinas yng Nghymru, rwy'n meddwl, sydd ymlith yr 20 o ddinasoedd gorau yn y DU o ran nifer eu busnesau newydd. Roedd mwy na 6,000 o fusnesau newydd yng Nghaerdydd y flwyddyn diwethaf—a oedd ychydig bach yn fwy na'r nifer yn ystod y flwyddyn flaenorol. Ac mae'r prifysgolion yn chwarae rhan fawr yn hynny. Ffaith a wnaeth argraff arbennig arnaf, fodd bynnag, oedd bod Prifysgol Caerdydd yn ail yn y DU gyfan o ran effaith ei gwaith ymchwil. Mae'r mesur o effaith yn hynod o bwysig i ni o ran gwneud yn siŵr ein bod yn cael budd economaidd o'n prifysgolion, oherwydd mae effaith yn fesur o'r defnydd a wneir o'r gwaith, nifer y busnesau yr ymgysylltwyd â hwy, y ffyrdd y maent wedi dylanwadu ar bolisi a'r ffyrdd y maent wedi addysgu cymdeithas yn gyffredinol. Mae'r mesur o effaith yn hynod o bwysig a dylem fod yn falch iawn o'r rheini.

Our universities, each and every one of them, across the country, provide us with an opportunity to support businesses. So I'd like to ask the Welsh Government: there was an undertaking to look at a successor to the POWIS scheme to encourage young researchers to go and work with businesses and to create intellectual property that we can then use to start new businesses. Because those new businesses that are coming out of universities with an IP behind them, they are higher value than average, they are more robust than average and they are the kind of businesses that are going to see the Welsh economy thrive and succeed in the future. Thank you.

Mae ein prifysgolion, pob un ohonynt ar draws y wlad, yn rhoi cyfle inni gefnogi busnesau. Felly, hoffwn ofyn i Lywodraeth Cymru: roedd ymrwymiad i edrych ar olynydd i gynllun POWIS i annog ymchwilwyr ifanc i fynd i weithio gyda busnesau ac i greu eiddo deallusol y gallwn ei ddefnyddio wedyn i gychwyn busnesau newydd. Am fod y busnesau newydd hynny sy'n dod o brifysgolion ag eiddo deallusol y tu ôl iddynt, maent yn werth mwy na'r cyfartaledd, maent yn fwy cadarn na'r cyfartaledd ac maent y math o fusnesau sydd yn mynd i sicrhau bod economi Cymru yn ffynnu ac yn llwyddo yn y dyfodol. Diolch yn fawr.

16:49

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 4 and 5 tabled in the name of Elin Jones.

Gwelliant 4—Elin Jones

Amendment 4—Elin Jones

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Delete point 2 and replace with:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adnewyddu'r cynllun cyfredol ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach am flwyddyn arall.

Calls on the Welsh Government to renew the current small business rate relief scheme for another year.

Gwelliant 5—Elin Jones

Amendment 5—Elin Jones

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn y meini prawf cymhwyster ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach o fis Ebrill 2015 ymlaen i gyrraedd pob busnes sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai.

Calls on the Welsh Government to extend the eligibility criteria for the small business rate relief scheme from April 2015 onwards to reach all businesses with a rateable value of £15,000 or less.

Cynigiwyd gwelliannau 4 a 5.

Amendments 4 and 5 moved.

16:49

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o allu cyflwyno'r gwelliannau yma. Mae Plaid Cymru, wrth gwrs, wedi bod yn galw am newid i'r system ardrethi busnes ers cyn etholiad 2007. Roedd creu y cynllun yn rhan o fanifesto Plaid Cymru bryd hynny, ac mi ddaru ni lwyddo i'w gael o i mewn i gytundeb 'Cymru'n Un', ac wrth gwrs, Llywodraeth Cymru'n Un a wnaeth gyflwyno'r rhaglen cynllun rhyddhad rhag ardrethi i fusnesau bach.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am very pleased to be able to move these amendments. Plaid Cymru has, of course, been calling for a change to the business rates system since before the 2007 election. The creation of the scheme was part of the Plaid Cymru manifesto at that time, and we did succeed in getting it into the 'One Wales' agreement, and of course, the One Wales Government did introduce the rates relief scheme for small businesses.

Ond, mae'n amlwg rwan bod angen mwy o help ar fusnesau, ac o'r diwedd, wrth gwrs, ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu gan Plaid Cymru, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi penderfynu datganoli trethi busnes yn llawn, fel sy'n digwydd yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Felly, mi fydd gennym ni y cyfle i wneud newidiadau sylfaenol i'r system, sydd, ers amser maith bellach, wedi bod angen cael ei diwygio.

But, it is clear now that businesses need more help, and, of course, after years of campaigning by Plaid Cymru, the UK Government has decided to devolve business rates fully, as in Scotland and Northern Ireland. So, we will have the opportunity to make fundamental changes to the system, which, for a long time now, has needed to be reformed.

Yn gyffredinol, mae Plaid Cymru yn cytuno efo'r cynnig heddiw, ac yn falch bod y Ceidwadwyr wedi mabwysiadu polisiau Plaid Cymru, fel rydym wedi crybwyll nifer o weithiau yma yn y Siambr. Mae ein gwelliannau ni, serch hynny, yn ychwanegu manyldeb i'r cynnig ac yn ei gwneud hi'n hollol glir, rwy'n meddwl, beth ydy ein safbwynt ni a beth fyddai Lywodraeth Plaid Cymru yn ei wneud ar gyfer busnesau bach.

Yn syml, mae ein gwelliannau yn rhannu ail bwynt y cynnig i mewn i ddau, er mwyn eglurdeb. Yn gyntaf, mae angen i'r Llywodraeth ymestyn y rhaglen ryddhad am flwyddyn arall—mae angen ymrwymiad gan y Gweinidog cyn gynted â phosib ar hynny, er mwyn rhoi sicrwydd i fusnesau Cymru. Mi wna'i ychwanegu ar y pwynt yma, hyd yn oed os ydy'r Gweinidog yn cytuno i ymestyn y rhaglen, mae'r ansicrwydd mae busnesau'n gorfod delio â fo ar yr adeg yma bob blwyddyn yn rhwystr, nid dim ond i'r busnesau hynny eu hunain, ond i'r economi genedlaethol yn gyffredinol. Onid y peth synhwyrol i'w wneud ydy i'r Llywodraeth ymrwmo i ymestyn y rhaglen rhyddhad yma am fwy na dim ond blwyddyn? Mi fyddai'r sicrwydd y byddai hynny'n ei gynnis i fusnesau yn eu galluogi nhw i fuddsoddi yn eu busnesau, wrth fod yn hyderus nad ydyn nhw, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ar fin gweld cynnydd mawr yn eu trethi.

Mae'r ail welliant yn galw am ymrwymiad mwy cadarn a mwy manwl. Mae'n amlwg, bellach, bod trethi busnes yn rhwystro busnesau bach rhag tyfu ac, mewn nifer o achosion, yn eu rhwystro nhw rhag llwyddo, rhag goroesi o gwbl. Mae'n hen bryd i'r Llywodraeth weithredu i helpu busnesau bach a'r argraff rydym ni'n ei chael, o'r methiant i roi'r math o ymrwymiadau rydym yn chwilio amdany'n nhw, ydy bod Llafur yn erbyn galluogi busnesau i elwa, er y ffaith ein bod ni gyd yn gwbl ymwybodol mai cryfhau'r sector breifat sydd ei angen ar economi Cymru.

I'm sure the Minister accepts the fact that our economy needs successful, small private businesses. We need them to succeed in order to create the jobs that we so desperately need in all corners of the country, and the better jobs that we need.

Our call for the relief scheme to be extended to cover all businesses with a rateable value of £15,000 or less would benefit 83,000 businesses across the country—70,000 of those being taken out of rates altogether. We have not just plucked the figure of £15,000 out of the air; it's been done in consultation with businesses and wider civic society in Wales to make sure that as many small businesses as possible—but as many of the right small businesses as possible—are brought into the scheme.

Lessening the burden of business rates and reducing operating costs will allow those businesses—the lifeblood of our economy—to invest in their own futures, to grow their businesses, to reach new markets and to export to bigger markets. It will ultimately lead to a healthier economy for all of us. I urge you to support both of our amendments today. Diolch yn fawr.

In general, Plaid Cymru agrees with today's motion, and we are pleased that the Conservatives have adopted Plaid Cymru policies, as we have mentioned several times here in the Chamber. Our amendments, however, add detail to the motion and make it absolutely clear, I think, what our position is and what a Plaid Cymru Government would do for small businesses.

Basically, our amendments divide the second point of the motion into two, for the sake of clarity. First, the Government needs to extend the relief scheme for another year—we need a commitment from the Minister as soon as possible on that, in order to provide certainty for businesses in Wales. I'll add at this point, even if the Minister agrees to extend the programme, the uncertainty that businesses have to deal with at this time every year is a barrier, not only to those businesses themselves, but to the national economy in general. Isn't it the sensible thing for the Government to commit to extend the relief scheme for more than just a year? The certainty that that would offer businesses would enable them to invest in their businesses, confident that, at the end of the financial year, they would not see a big increase in their taxes.

The second amendment calls for a more robust and more detailed commitment. Evidently, business rates do prohibit small businesses from growing and, in many cases, prevent them from surviving at all. It is about time that the Government took action to help small businesses and the impression that we get from the failure to give this kind of commitment is that Labour is against allowing businesses to profit, despite the fact that we are all aware that strengthening the private sector is what is needed by the Welsh economy.

Rwy'n siŵr fod y Gweinidog yn derbyn y ffaith fod angen busnesau bach preifat llwyddiannus ar ein heconomi. Mae eu hangen arnom i lwyddo er mwyn creu swyddi y mae cymaint o'u hangen ym mhob cwr o'r wlad, a'r swyddi gwell sydd eu hangen arnom.

Byddai ein galwad i ymestyn y cynllun rhyddhad i gynnwys pob busnes sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai yn fuddiol i 83,000 o fusnesau ar draws y wlad—ac ni fyddai 70,000 o'r rheini yn gorfod talu ardrethi o gwbl. Nid glanio ar y ffigur £15,000 ar hap a wnaethom; fe'i gwnaed mewn ymgynghoriad â busnesau a chymdeithas ddinesig ehangach yng Nghymru i wneud yn siŵr fod cynifer o fusnesau bach â phosibl—ond cymaint o'r busnesau bach cywir â phosibl—yn cael eu cynnwys yn y cynllun.

Bydd lleihau baich ardrethi busnes a lleihau costau gweithredu yn caniatáu i fusnesau—asgwrn cefn ein heconomi—i fuddsoddi yn eu dyfodol eu hunain, i dyfu eu busnesau, i gyrraedd marchnadoedd newydd ac i allforio i farchnadoedd mwy. Yn y pen draw bydd yn arwain at economi iachach i bob un ohonom. Rwy'n eich annog i gefnogi ein gwelliannau heddiw. Diolch yn fawr.

I am grateful for the opportunity to speak this afternoon on businesses in Wales. The Government has a vital role to play in creating the conditions that will allow small and medium-sized businesses to grow and to thrive. Small and medium-sized enterprises are the lifeblood of the Welsh economy. According to the Federation of Small Businesses Wales, everyone in Wales looking for a job could be employed if every small and medium-sized enterprise recruited just one more person. It is clear, therefore, that the measures must be taken to expand the private sector to boost the economy and to create jobs.

The private sector in Wales is too small. Many businesses in Wales are, at present, suffering from tight cash flows. Business rates, rent and wages are the three largest outgoings for small businesses. In his autumn statement last year the Chancellor of the Exchequer announced that, in March this year, business rates would be fully devolved. This provides a great opportunity for Welsh Government to make a real difference for Welsh businesses, for reforming the system. I welcome the fact that small business rate relief has been provided until March this year. I hope that this vital support will be extended after this date, pending a thorough overhaul of the system.

The problem is that business rates do not reflect the ability of small businesses to pay. This problem was recently highlighted by the chief executive of the Arcadia retail group, Sir Philip Green. He suggested that smaller retailers should be removed from business rates and, instead, pay an appropriate percentage of their turnover, making the system more related to the ability to pay. I believe this suggestion is worthy of study, but we need to take action now, Minister. Abolishing rates for businesses with a rateable value of below £12,000, and providing tapered relief for those up to £15,000, would provide timely help to allow companies to focus on expanding their business and to take on new staff. It would also encourage the setting up of new businesses and reverse the blight of empty shops in our towns and cities. Wales has the highest national vacancy rate in mainland United Kingdom, and Newport has one of the highest vacancy rates in Wales. In February last year, the South Wales Chamber of Commerce said, in their words:

'The decline in retail in Newport has been on-going for several years with competition from Cardiff, Cwmbran and across the bridge, Cribbs Causeway.'

They went on to say,

'Work also needs to be undertaken to create a customer base for Newport's shops by increasing the number of people living in the city centre and the number [of] non-retail workplaces.'

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad y prynhawn yma ar fusnesau yng Nghymru. Mae gan y Llywodraeth rôl hanfodol i'w chwarae wrth greu'r amodau a fydd yn caniatáu i fusnesau bach a chanolig eu maint i dyfu ac i ffynnu. Busnesau bach a chanolig eu maint yw asgwrn cefn economi Cymru. Yn ôl Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, gallai pawb yng Nghymru sy'n chwilio am swydd gael ei gyflogi pe bai pob menter fach a chanolig ei maint yn recriwtio un person yn rhagor. Mae'n amlwg, felly, bod yn rhaid rhoi camau ar waith i ehangu'r sector preifat er mwyn hybu'r economi a chreu swyddi.

Mae'r sector preifat yng Nghymru yn rhy fach. Mae llawer o fusnesau yng Nghymru ar hyn o bryd yn dioddef am fod llif arian yn dynn. Ardrethi busnes, rhent a chyflogau yw'r tair traul fwyaf ar fusnesau bach. Yn ei ddatganiad yn yr hydref y llynedd cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y byddai ardrethi busnes yn cael eu datganoli'n llawn ym mis Mawrth eleni. Dyma gyfle gwych i Lywodraeth Cymru wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fusnesau Cymru drwy ddiwygio'r system. Croesawaf y ffaith fod rhyddhad ardrethi busnesau bach wedi cael ei ddarparu tan fis Mawrth eleni. Rwy'n gobeithio y bydd y cymorth hanfodol hwn yn cael ei ymestyn ar ôl y dyddiad hwnnw, wrth inni aros i'r system gael ei hailwampio'n drylwyr.

Y broblem yw nad yw ardrethi busnes yn adlewyrchu gallu busnesau bach i'w talu. Mae hon yn broblem a amlygwyd yn ddiweddar gan brif weithredwr grŵp manwerthu Arcadia, Syr Philip Green. Awgrymodd na ddylai manwerthwyr llai orfod talu ardrethi busnes ac yn lle hynny, dylent dalu canran briodol o'u trosiant, gan wneud y system yn fwy cysylltiedig â'r gallu i dalu. Credaf ei bod yn werth astudio'r awgrym, ond mae angen i ni weithredu yn awr, Weinidog. Byddai diddymu ardrethi i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o lai na £12,000 a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol ar gyfer busnesau sy'n werth hyd at £15,000, yn darparu cymorth amserol i ganiatáu i gwmnïau ganolbwyntio ar ehangu eu busnes a chyflogi staff newydd. Byddai hefyd yn annog sefydlu busnesau newydd a gwrthdroi malltod siopau gwag yn ein trefi a'n dinasoedd. Cymru sydd â'r cyfraddau gwacter cenedlaethol uchaf ar dir mawr y Deyrnas Unedig, a Chasnewydd sydd ag un o'r cyfraddau gwacter uchaf yng Nghymru. Ym mis Chwefror y llynedd, dywedodd Siambr Fasnach De Cymru hyn:

'Mae'r dirywiad mewn manwerthu yng Nghasnewydd wedi bod ar y gweill ers nifer o flynyddoedd gyda chystadleuaeth o Gaerdydd, Cwmbrân ac ar draws y bont, Cribbs Causeway.'

Aethant ymlaen i ddweud,

'Mae angen gwneud gwaith i greu sylfaen gwsmeriaid ar gyfer siopau Casnewydd drwy gynyddu nifer y bobl sy'n byw yng nghanol y ddinas a nifer y gweithleoedd nad dynt yn siopau.'

The new Friars Walk development is a welcome move in the right direction, and the opening of the new bus terminal will generate more footfall. But, we can go on further on this; by abolishing business rates for small companies we can revive our towns and cities. This act would encourage distinctive local traders to open for businesses, thereby promoting diversity and individuality so that each high street does not look the same as any other.

Deputy Presiding Officer, I call on the Welsh Government to seize this opportunity and to take the action required to unlock the potential of Welsh businesses. We cannot afford to miss the economic benefit that such action can deliver. I also live in the area where many, many shops are empty. We are not losing the economy here; we are also losing the professions. We haven't got local bakers, local butchers, local small traders, which were there for many centuries in our local towns and cities in South Wales East, whether it was Newport, Abertillery, Merthyr, Tredegar or Ebbw Vale—those areas, the deprived areas, Minister. We need to encourage small businesses to come forward and small professionals to come forward to set up business without paying rates. Rents are sometimes much higher than the rates, and the rates are sometimes even higher than the business rents. So, we have to work out intelligently and bring our economy much further prosperity in Wales. Thank you.

Mae datblygiad newydd Friars Walk yn gam i'w groesawu yn y cyfeiriad cywir, a bydd agor y derfynfa fysiau newydd yn denu mwy o gwsmeriaid. Ond gallwn fynd ymlaen ymhellach ar hyn; drwy ddileu ardrethi busnes ar gyfer cwmnïau bach gallwn adfer ein trefi a'n dinasoedd. Byddai'r ddeddf hon yn annog masnachwyr lleol nodedig i agor i fusnes, a thrwy hynny hyrwyddo amrywiaeth a hunaniaeth fel nad yw pob stryd fawr yn edrych yr un fath â'i gilydd.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i achub ar y cyfle hwn ac i roi'r camau gofynnol ar waith er mwyn datgloi potensial busnesau Cymru. Ni allwn fforddio colli'r budd economaidd y gall camau o'r fath ei gyflawni. Rwyf hefyd yn byw yn yr ardal lle y mae llawer iawn o siopau yn wag. Nid colli'r economi rydym yn ei wneud yma; rydym hefyd yn colli'r proffesiynau. Nid oes gennym bobyddion lleol, cigyddion lleol, masnachwyr lleol bach, a oedd yno dros ganrifoedd lawer yn ein trefi a'n dinasoedd lleol yn nwyrain de Cymru, boed yng Nghasnewydd, Abertyleri, Merthyr Tudful, Tredegar neu Lyn Ebwy—yr ardaloedd hynny, ardaloedd difreintiedig, Weinidog. Mae angen i ni annog busnesau bach a chwmnïau proffesiynol bach i sefydlu busnesau heb dalu ardrethi. Mae rhenti'n llawer uwch na'r ardrethi weithiau, ac mae'r ardrethi weithiau hyd yn oed yn uwch na'r rhenti busnes. Felly, mae'n rhaid inni ddadansoddi'n ddeallus a dod â llawer o ffyniant pellach i'n heconomi yng Nghymru. Diolch yn fawr.

16:59

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like others in this debate, I welcome the fact that the Conservatives brought forward this debate. I particularly welcome the speech by the Conservative spokesperson this afternoon. I read the motion on the order paper and I felt that it was a bit bare, but it has certainly been given some more flesh, if you like, this afternoon during the debate. I very much welcome the proposals that have been made, and also the contribution, I think, from Rhun ap Iorwerth, looking at how we can use business rates as an instrument of policy. All too often, we debate and discuss these matters in terms of how business rates can help individual businesses, but I hope that we can look at business rates in a creative way, as an instrument of policy, which will have very clear objectives for Government interventions in the economy. I probably err towards some of the contributions that were made by Eluned Parrott this afternoon, in terms of taking a more creative approach to the way in which we manage business rates.

The devolution of business rates does provide us with an opportunity to do things very differently. I think Members across the whole of the Chamber, and on all sides of the Chamber, have welcomed the very proactive work that the Minister has undertaken on business rates over the last three or four years. The work that has been commissioned, I think, from Professor Brian Morgan, has actually established a very clear foundation to take forward this debate. Whatever the criticisms made of individual policy elements, or elements of the approach taken by this Government, I don't think that any Member on any side of the Chamber can criticise the proactive approach that is being taken and the search for evidence, the search for solutions and the search for new approaches to policy.

Fel eraill yn y ddatl hon, rwy'n croesawu'r ffaith fod y Ceidwadwyr wedi cyflwyno'r ddatl hon. Croesawaf yn arbennig yr araith gan lefarydd y Ceidwadwyr y prynhawn yma. Darllenais y cynnig ar y papur trefn ac roeddwn yn teimlo ei fod yn ychydig yn wan, ond mae'n sicr wedi magu rhywfaint mwy o gnawd, os mynnwch, yn ystod y ddatl y prynhawn yma. Rwy'n croesawu'n fawr y cynigion a wnaed, a hefyd cyfraniad Rhun ap Iorwerth, rwy'n meddwl, a edrychai i weld sut y gallwn ddefnyddio ardrethi busnes fel offeryn polisi. Yn rhy aml, rydym yn dadlau ac yn trafod y materion hyn o ran sut y gall ardrethi busnes helpu busnesau unigol, ond gobeithio y gallwn edrych ar ardrethi busnes mewn ffordd greadigol, fel offeryn polisi, gydag amcanion clir iawn ar gyfer ymyriadau'r Llywodraeth yn yr economi. Mae'n debyg fy mod tueddu tuag at rai o'r cyfraniadau a wnaed gan Eluned Parrott y prynhawn yma, o ran mabwysiadu agwedd fwy creadigol yn y ffordd rydym yn rheoli ardrethi busnes.

Mae datganoli ardrethi busnes yn rhoi cyfle i wneud pethau'n wahanol iawn. Rwy'n credu bod Aelodau ar draws y Siambr gyfan, ac ar bob ochr iddi, wedi croesawu'r gwaith rhagweithiol iawn a wnaeth y Gweinidog ar ardrethi busnes dros y tair neu bedair blynedd diwethaf. Rwy'n meddwl bod y gwaith a gomisiynwyd gan yr Athro Brian Morgan wedi sefydlu sylfaen glir iawn mewn gwirionedd ar gyfer symud y ddatl hon yn ei blaen. Beth bynnag yw'r feirniadaeth a gafwyd ynghylch elfennau polisi unigol, neu elfennau o ddull o weithredu'r Llywodraeth hon, nid wyf yn meddwl y gall unrhyw Aelod ar unrhyw ochr i'r Siambr feirniadu'r dull rhagweithiol a ddefnyddir, y chwilio am dystiolaeth, y chwilio am atebion a'r chwilio am ddulliau newydd o weithredu polisi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Can I say in this debate I'm very clear that I have two objectives, I believe, that we can use for business rates? First of all is the point that has already been made about our town centres. I think all of us who represent town centres in different parts of the country, whether that be a rural market town or a Valleys community like the one that I represent, will recognise the importance of that town centre to the community it serves in social, economic and almost psychological ways. It is not only the shop front for that community, it is also where people will socialise and where people will visit on a regular, weekly basis.

It is essential that, as a Government, we help to support the future of town centres. Business rates can play a very critical role in doing that. I welcome that the Government has already put in place instruments that will and have provided support for small businesses in town centres up and down Wales. We now need to look at how we can use the devolution of business rates and the greater flexibility and freedoms that we have in order to take a more creative and more profound look at that, and I hope we do that. So, the future of town centres, I think, is an absolutely fundamental objective of policy that we need to use business rates to support and to sustain.

The second objective of our policy is that of supporting small businesses. Points have already been made that businesses are treated in a very similar way. It appears to me that we might be able to treat businesses, some of the larger multi-national businesses and the smaller, indigenous businesses, if you like, in a slightly different way. I'd be interested to see if the Government is able to come forward with proposals on that, on how that may be achieved.

But, certainly, if we are looking at creating small businesses and creating the conditions whereby entrepreneurs can create new businesses in our communities, then the way in which business rates are used as instruments of policy to sustain that sort of sustainable economic growth is absolutely critical to what we're able to do in the future. I think and I believe there will be much wider agreement in different parts of the Chamber than some people might believe. I hope the Government will be supporting the motion this afternoon, and supporting the motion in a positive way that will enable us to look proactively, positively and creatively at how the future of business rates policy can be used as a key element to sustain and to support economic growth in our communities up and down the country. Thank you.

A gaf fi ddweud yn y ddadl hon fy mod yn glir iawn fod gen i ddau amcan, rwy'n credu, y gallwn eu defnyddio ar gyfer ardrethi busnes? Yn gyntaf oll, mae'r pwynt a wnaed eisoes am ganol ein trefi. Rwy'n meddwl fod pob un ohonom sy'n cynrychioli canol trefi mewn gwahanol rannau o'r wlad, boed yn dref farchnad wledig neu'n gymuned yn y Cymoedd fel yr un rwy'n ei chynrychioli, yn cydnabod pwysigrwydd canol y dref i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu mewn ffyrdd cymdeithasol, economaidd a seicolegol bron. Nid ffenest siop yn unig ar gyfer y gymuned honno yw canol y dref, dyna hefyd lle y bydd pobl yn cymdeithasu a lle y bydd pobl yn mynd yn rheolaidd bob wythnos.

Fel Llywodraeth, mae'n hanfodol ein bod yn helpu i gefnogi dyfodol canol trefi. Gall ardrethi busnes chwarae rhan hanfodol iawn wrth wneud hynny. Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Llywodraeth eisoes wedi rhoi offerynnau ar waith sy'n mynd i, ac sydd wedi rhoi cymorth i fusnesau bach canol y dref ar hyd a lled Cymru. Mae angen i ni edrych yn awr ar sut y gallwn ddefnyddio datganoli ardrethi busnes a'r hyblygrwydd pellach a'r rhyddid sydd gennym er mwyn edrych yn fwy creadigol ac yn fwy manwl ar hynny, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gwneud hynny. Felly, mae dyfodol canol y dref, rwy'n meddwl, yn amcan polisi hollol sylfaenol sydd ei angen arnom er mwyn defnyddio ardrethi busnes i gefnogi ac i gynnal.

Ail amcan ein polisi yw cefnogi busnesau bach. Gwnaed pwyntiau eisoes fod busnesau yn cael eu trin mewn ffordd debyg iawn. Mae'n ymddangos i mi y gallm drin busnesau, rhai o'r busnesau rhyngwladol mawr a busnesau cynhenid llai o faint mewn ffordd ychydig yn wahanol, os mynnwch. Byddai gennyf ddiddordeb mewn gweld a yw'r Llywodraeth yn gallu cyflwyno argymhellion ar hyn, ynghylch sut y gellid cyflawni hynny.

Ond yn sicr, os ydym yn edrych ar greu busnesau bach a chreu'r amodau lle y gall entrepreneuriaid greu busnesau newydd yn ein cymunedau, yna bydd y ffordd y caiff ardrethi busnes eu defnyddio fel offerynnau polisi i gynnal y math yna o dwf economaidd cynaliadwy yn hollol hanfodol i'r hyn y gallwn ei wneud yn y dyfodol. Rwy'n meddwl ac yn credu y bydd cytundeb llawer ehangach mewn gwahanol rannau o'r Siambr nag y byddai rhai pobl ei gredu. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma ac yn cefnogi'r cynnig mewn modd cadarnhaol a fydd yn ein galluogi i edrych yn rhagweithiol, yn gadarnhaol ac yn greadigol ar sut y gellid defnyddio dyfodol polisi ardrethi busnes yn elfen allweddol i gynnal ac i gefnogi twf economaidd yn ein cymunedau ar hyd a lled y wlad. Diolch yn fawr.

We are all aware of the incredible impact that the private sector has on our communities and the wider economy. Business rates in general brought £982 million into the economy in Wales in 2011. I was very pleased that the Minister has now announced that the Welsh Government intends to introduce a cap of 2% on the increase in the NNDR multiplier. As a previous business person myself, I can assure you that there is nothing more demoralising than when those NNDR bills hit the doormat. It really can be quite significant for businesses. Of course, this is all in line with the Conservative-led coalition's plans for England, ensuring that Welsh business is able to compete on an equal footing.

Small and medium-sized businesses are the lifeblood of Welsh communities. When I say 'small', I would like to include the microbusinesses and the sole traders. In 2013, there were 219,410 businesses in Wales; 94.6% of these were microbusinesses, including sole traders. Clearly, small business employers are critical to the success of our Welsh economy, and the fact remains that if each small business in Wales took on just one extra employee, we could significantly almost wipe out the unemployment levels. In 2003-14, the number of active businesses in Wales grew by 36%. However, the five-year survival rate for enterprises born in 2007 and then still active in 2012, for Wales, was way below the UK.

In Wales, we do have a serious problem with our increasingly deserted high streets. The 2014 vacancy rate was the highest in the UK, at 14.2%, and the prediction, which is a really sad prediction, of the disappearance of the Welsh high street within 20 years if current shop closure levels remain the same, is very worrying indeed. The clock is ticking. These statistics are hard evidence based on fact, and the Welsh Government—. You know, I have to give credit to the Minister. I know that there is a will there and that you do listen to Members, but you must now, as a Government, take immediate measures to concentrate minds, energy and resources to overcome these issues.

The start-up, growth and sustainability of our business and private sector requires and deserves whatever it actually takes, in addition to business rate support, to make that difference. The Welsh Conservatives, of course, have long pledged to abolish business rates for all businesses with a rateable value of under £12,000 and provide tapered relief for those with a rateable value of up to £15,000. That move alone would see 73% of businesses taken out of business rates altogether, and a further 5% actually benefiting from the tapered relief.

Rydym i gyd yn ymwybodol o effaith anhygoel y sector preifat ar ein cymunedau a'r economi ehangach. Daeth ardrethi busnes yn gyffredinol â £982 miliwn i mewn i'r economi yng Nghymru yn 2011. Roeddwn yn falch iawn bod y Gweinidog yn awr wedi cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cap o 2% ar y cynnydd yn lluosydd yr Ardreth Annomestig Genedlaethol. Roeddwn i'n arfer bod yn berson busnes fy hun, a gallaf eich sicrhau nad oes dim yn fwy digalon na phan fydd y biliau Ardeth Annomestig Genedlaethol yn dod drwy'r drws. Gall fod yn bur sylweddol i fusnesau yn wir. Wrth gwrs, mae hyn i gyd yn cyd-fynd â chynlluniau'r glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr ar gyfer Lloegr, gan sicrhau bod busnesau Cymru yn gallu cystadlu ar sail gyfartal.

Busnesau bach a chanolig eu maint yw asgwrn cefn cymunedau Cymru. Pan fyddaf yn dweud 'bach', hoffwn gynnwys y microfusnesau a'r unig fasnachwyr. Yn 2013, roedd 219,410 o fusnesau yng Nghymru; roedd 94.6% o'r rhain yn microfusnesau, gan gynnwys unig fasnachwyr. Yn amlwg, mae cyflogwyr busnesau bach yn hanfodol i lwyddiant ein heconomi yng Nghymru, ac erys y ffaith pe bai pob busnes bach yng Nghymru yn cyflogi un gweithiwr ychwanegol yn unig, yn arwyddocaol, galem ddileu lefelau diweithdra, bron iawn. Yn 2003-14, gwelwyd cynnydd o 36% yn nifer y busnesau sy'n weithredol yng Nghymru. Fodd bynnag, ar ôl pum mlynedd, roedd cyfradd y mentrau yng Nghymru a sefydlwyd yn 2007 ac a oedd yn dal i fod yn weithgar yn 2012 ymhell o dan gyfradd y Deyrnas Unedig.

Yng Nghymru, mae gennym broblem ddifrifol gyda'r stryd fawr, sy'n mynd yn gynyddol anghyfannedd. Cyfradd wacter 2014 oedd yr uchaf yn y DU, ar 14.2%, ac mae'r rhagfynegiad gwirioneddol drist y bydd y stryd fawr yng Nghymru yn diflannu ymhen 20 mlynedd os yw lefelau presennol y siopau sy'n cau yn aros yr un fath, yn peri pryder mawr. Mae'r cloc yn tician. Mae'r ystadegau hyn yn dystiolaeth gadarn sy'n seiliedig ar ffeithiau, ac mae Llywodraeth Cymru—. Wyddoch chi, rhaid i mi roi dded i'r Gweinidog. Gwn fod yna ewyllys yno a'ch bod yn gwrandao ar yr Aelodau, ond mae'n rhaid i chi fel Llywodraeth roi camau ar waith ar unwaith i ganolbwyntio meddyliau, egni ac adnoddau er mwyn goresgyn y problemau hyn.

Mae cychwyn, twf a chynaliadwyedd ein sector busnes a sector preifat yn gofyn ac yn haeddu beth bynnag sydd ei angen mewn gwirionedd, yn ogystal â chymorth ardrethi busnes, i wneud gwahaniaeth o'r fath. Ers amser, mae Ceidwadwyr Cymru, wrth gwrs, wedi addo diddymu ardrethi busnes ar gyfer pob busnes â gwerth ardrethol o dan £12,000 a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol ar gyfer busnesau â gwerth ardrethol o hyd at £15,000. Byddai newid felly ar ei ben ei hun yn golygu bod 73% o fusnesau yn cael eu hepgor rhag gorfod talu ardrethi busnes yn gyfan gwbl, a byddai 5% pellach mewn gwirionedd yn elwa ar y rhyddhad sy'n lleihau'n raddol.

Now, following the 2014 autumn statement, I feel the Welsh Government has been given the perfect opportunity to make a real difference to Welsh businesses, as well as to ensure that it is held to account for the Welsh economy. Time is of the essence. A recent directive from Welsh Government has succeeded in creating a level of red tape and further expenditure. The reason I'm going to raise this is: as well as for business rate support, I think it's imperative that Welsh Government has to ensure that all departments, whenever they're bringing forward legislation, whenever they're sending out guidance or policies, actually ensure that this is not going to have a negative impact. I'm going to talk now about the waste transfer Act and how businesses now, only recently in the last few months, have approached me with the bureaucracy, form-filling, and expensive—. You know, businesses on the high street now, even if they only have two empty cartons of milk and a couple of empty tins of coke, are now charged with filling in forms and with providing some kind of receptacle. This is an added burden.

Over the past month, we've seen organisations—BT, electricity companies—actually making it more problematic for businesses and, again, as the Government in Wales, I would hope that you would work with these kinds of agencies and public bodies, and private companies as well, to ensure that there are not further obstacles put before our businesses.

Finally, Jobs Growth Wales. Lots of these schemes, apprenticeship schemes, are geared more towards small and medium-sized enterprises, and the sole trader and the microbusiness often lose out on that. Minister, you know I'm the chair of the cross-party group on small shops, and we have invited you—I think on three occasions now. I would ask you now, if you can, to come along, because as well as listening to us as Members, it's vital that you do get out into the business community. It's vital that you involve yourself—

Yn awr, yn dilyn datganiad yr hydref yn 2014, rwy'n teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi cael y cyfle perffaith i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fusnesau yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau ei bod yn cael ei dwyn i gyfrif am economi Cymru. Mae amser yn allweddol. Llwyddodd cyfarwydddeb ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i greu lefel o firocratiaeth a gwariant pellach. Dyma pam rwy'n crybwyll hyn: yn ogystal â chymorth ardrethi busnes, rwy'n credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob adran, pryd bynnag y byddant yn cyflwyno deddfwriaeth, pryd bynnag y byddant yn anfon canllawiau neu bolisiau, yn sicrhau'n bendant nad yw hyn yn mynd i gael effaith negyddol. Rwy'n mynd i siarad yn awr am y Ddeddf trosglwyddo gwastraff a sut y mae busnesau yn awr, yn ddiweddar, yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf yn unig, wedi dod ataf gyda'r fiwrocratiaeth, y ffurflenni i'w llenwi, a'r costau—. Wyddoch chi, hyd yn oed os mai dau garton llaeth gwag ac ambell dun 'coke' gwag yn unig sydd ganddynt, mae busnesau ar y stryd fawr yn gorfod llenwi ffurflenni a darparu rhyw fath o gynhwysydd. Mae hyn yn faich ychwanegol.

Dros y mis diwethaf, rydym wedi gweld sefydliadau—BT, cwmnïau trydan—yn ei gwneud hi'n fwy trafferthus byth i fusnesau ac unwaith eto, fel Llywodraeth Cymru, byddwn yn gobeithio y byddech yn gweithio gyda'r mathau hyn o asiantaethau a chyrrff cyhoeddus, a chwmnïau preifat yn ogystal, i sicrhau nad oes rhwystrau pellach yn cael eu rhoi yn ffordd ein busnesau.

Yn olaf, Twf Swyddi Cymru. Mae llawer o'r cynlluniau hyn, cynlluniau prentisiaethau, yn cael eu hanelu fwy tuag at fentrau bach a chanolig eu maint, ac yn aml, mae'r unig fasnachwr a'r microfusnesau yn methu â manteisio ar hynny. Weinidog, gwddoch fy mod yn gadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar siopau bach, ac rydym wedi eich gwahodd—ar dri achlysur yn awr, rwy'n meddwl. Hoffwn ofyn i chi yn awr i ddod atom, os gallwch, oherwydd yn ogystal â gwrando arnom fel Aelodau, mae'n hanfodol eich bod yn mynd allan at y gymuned fusnes. Mae'n hanfodol eich bod yn cymryd rhan—

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish now, quickly, with this.

Gorffennwch yn awr, yn gyflym, gyda hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:09 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—in many forums, to talk through good ideas that will bring practical support for our businesses.

[Yn parhau.]—mewn llawer o fforymau, i drafod syniadau da a fydd yn dod â chymorth ymarferol i'n busnesau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:09

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Conservatives talk and act as if Wales is frozen in time, as though the Government proceeds only by a ponderous step forward, followed by equally ponderous steps back. If, heaven forbid, we should have a Conservative-led Government in Wales, that, no doubt, is how we would be governed. Decisions would be slower, because anything proposed by the Conservatives in Wales would first need to be examined and then approved or amended, as appropriate, by their bosses in Whitehall. This motion invites us to note that the Welsh Government is providing small business rate relief until March 2015—not to 'welcome', but to 'note'. The impression given is that these events are decided on our behalf—not that the Welsh Government is, in fact, in the business of governing. The truth is that the Welsh Government has taken its decisions on Welsh businesses, and an increasingly devolved Wales will continue to take those decisions that are to the benefit of Wales.

Mae'r Ceidwadwyr yn siarad ac yn gweithredu fel pe bai Cymru wedi cael ei rhewi mewn amser, fel pe bai'r Llywodraeth ond yn symud ymlaen fesul cam pwylllog wedi'i ddilyn gan gamau yr un mor bwylllog am yn ôl. Pe byddem yn cael, Duw a'n gwaredo, Llywodraeth wedi'i harwain gan y Ceidwadwyr yng Nghymru, dyna'n ddi-os sut y byddem yn cael ein llywodraethu. Byddai penderfyniadau'n arafach, gan y byddai angen i unrhyw beth a gâi ei argymhell gan y Ceidwadwyr yng Nghymru gael ei archwilio'n gyntaf ac yna ei archwilio a'i gymeradwyo neu ei ddiwygio, fel y bo'n briodol, gan eu penaethiaid yn Whitehall. Mae'r cynnig hwn yn ein gwahodd i nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad ardrethi busnesau bach tan fis Mawrth 2015-nid i 'groesawu', ond i 'nodi'. Yr argraff a roddir yw bod y digwyddiadau hyn yn cael eu penderfynu ar ein rhannid bod Llywodraeth Cymru, mewn gwirionedd, wrthi'n gwneud y gwaith o lywodraethu. Y gwir yw bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei phenderfyniadau ar fusnesau yng Nghymru, a bydd Cymru gynyddol ddatganoledig yn parhau i wneud y penderfyniadau hynny sydd er budd Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:10

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Joyce, will you give way?

Joyce, a wnech chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:10

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In a minute. The motion goes on to call on the Welsh Government,

'to help strengthen ties between higher education institutions and the business community to create a more dynamic economy.'

Admirable. We all want to help strengthen the ties between higher education and the business community, but that there are strong ties to be strengthened is, any fair-minded observer would say, to the credit of what the Welsh Government has been doing.

Mewn munud. Mae'r cynnig yn mynd ymlaen i alw ar Lywodraeth Cymru,

'helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch a'r gymuned fusnes i greu economi fwy dynamig.'

Rhagorol. Rydym i gyd yn awyddus i helpu i gryfhau'r cysylltiadau rhwng addysg uwch a'r gymuned fusnes, ond byddai unrhyw sylwebydd teg yn dweud bod y ffaith fod cysylltiadau cryf yno i gael eu cryfhau yn glod i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:10

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thanks for giving way, Joyce. Can I put on record that the Welsh Conservatives are more than happy to welcome the business rate relief programme until March 2015, but I do have to point out that that is only a couple of months away, so we do need a little bit more support for businesses beyond that, don't we?

Diolch am ildio, Joyce. A gaf fi gofnodi bod y Ceidwadwyr Cymreig yn fwy na pharod i groesawu'r rhaglen rhyddhad ardrethi busnes tan fis Mawrth 2015, ond mae'n rhaid i mi nodi nad yw hynny ond cwpl o fisedd i fwrdd, felly rydym angen ychydig bach mwy o gefnogaeth i fusnesau y tu hwnt i hynny, onid ydym?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:11

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed, I'm sure the reply will come very soon as to what is happening after that. It is the case, however, that last autumn Professor Brian Morgan undertook an engagement exercise to ensure that a range of voices, including those of business and local authorities, were heard in the process of devolving business rates to Wales, and in developing policy to meet our needs. A number of initiatives have been deployed to enable the current system to support economic growth.

Yn wir, rwy'n siŵr y daw'r ateb yn fuan iawn ynglŷn â'r hyn sy'n mynd i ddigwydd ar ôl hynny. Mae'n wir, fodd bynnag, fod yr Athro Brian Morgan wedi cynnal ymarfer ymgysylltu yn yr hydref i sicrhau bod ystod o leisiau, gan gynnwys busnesau ac awdurdodau lleol, yn cael eu clywed yn ystod y broses o ddatganoli ardrethi busnes i Gymru, ac wrth ddatblygu polisi i ddiwallu ein hangenion. Mae nifer o fentrau wedi cael eu rhoi ar waith i alluogi'r system bresennol i gefnogi twf economaidd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wales Retail Relief was launched in April 2014 by the Welsh Labour Government, and it did offer a £1,000 discount on business rate bills to the retail food-and-drink premises that qualified. Local authorities have been provided with £3.5 million to support other businesses with their business rate bills for this financial year. The Open for Business scheme was launched on 1 October 2013, and the scheme does provide 50% relief on business rates, for up to 12 months, for businesses that are taking occupation of certain long-term vacant properties. There is a new development scheme that was also launched on 1 October 2013 and runs until 30 September 2016, and that will exempt new developments built between 1 October 2013 and 30 September 2016 from business rates for the first 18 months.

We are talking, of course, about work in progress, but the Conservatives put me in mind of the Anthony Newley musical, 'Stop the World—I Want to Get Off'. They are like a train maintenance crew who arrive at the station after the train has left for its next destination.

17:13

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's a great pleasure to speak today in this debate. It's worth noting the many arguments made for the full devolution for control of business rates, and the very welcome announcement by the Chancellor in his autumn statement, at the beginning of December, that the Welsh Government will have full control of business rates in March 2015. Minister, you've called for full control for so long that all eyes are on you to see what plans you have, to see how you are going to use these new powers to support businesses. I sincerely hope it will not be a case of just standing on the sidelines, having the powers but not putting them to good practical use.

I also want to highlight at the outset the need for this institution, and especially the Government here, to stop centralising and seeking to control every aspect of public policy. You will, again, have the power after March to empower city regions, or indeed current authorities, by passing down business rate control and finance to them. It's worth exploring, and I hope you will. The business rates review task and finish group recommended that business rates should be kept by the local authority that collects them. The review concluded that this is an issue because, and I quote:

'It breaks the link between the revenue raised by each local authority in Wales and the amount of income it receives.'

Lansiwyd Rhyddhad Manwerthu Cymru ym mis Ebrill 2014 gan Lywodraeth Lafur Cymru, ac roedd yn cynnig disgownt o £1,000 ar filiau ardrethi busnes i safleoedd manwerthu bwyd a diod cymwys. Mae awdurdodau lleol wedi derbyn £3.5 miliwn i gynorthwyo busnesau eraill gyda'u biliau ardrethi busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Lansiwyd y cynllun Ar Agor am Fusnes ar 1 Hydref 2013, ac mae'n darparu rhyddhad o 50% ar ardrethi busnes am hyd at 12 mis ar gyfer busnesau sy'n cymryd meddiant ar eiddo penodol a fu'n wag ers amser hir. Ceir cynllun datblygiadau newydd a lansiwyd ar 1 Hydref 2013 hefyd sy'n rhedeg hyd at 30 Medi 2016, ac a fydd yn eithrio datblygiadau newydd a adeiladwyd rhwng 1 Hydref 2013 a 30 Medi 2016 rhag ardrethi busnes am y 18 mis cyntaf.

Rydym yn sôn, wrth gwrs, am y gwaith sy'n mynd rhagddo, ond cefais fy atgoffa gan y Ceidwadwyr am sioe gerdd Anthony Newley, 'Stop the World—I Want to Get Off'. Maent yn debyg i griw cynnal a chadw trê'n sy'n cyrraedd yr orsaf ar ôl i'r trê'n adael am yr orsaf nesaf.

Mae'n bleser mawr gennyf siarad heddiw yn y ddatl hon. Mae'n werth nodi'r nifer o ddatleuon a wnaed dros ddatganiol'r broses o reoli ardrethi busnes yn llawn, a'r cyhoeddiad sydd i'w groesawu'n fawr gan y Canghellor yn ei ddatganiad yr hydref ar ddechrau mis Rhagfyr, y bydd Llywodraeth Cymru yn cael rheolaeth lawn ar ardrethi busnes ym mis Mawrth 2015. Weinidog, rydych wedi galw am reolaeth lawn ers cymaint o amser fel bod pob llygaid arnoch i weld pa gynlluniau sydd gennych, i weld sut rydych yn mynd i ddefnyddio'r pwerau newydd hyn i gefnogi busnesau. Rwy'n mawr obeithio na fydd yn golygu y byddwch yn sefyll ar y cyrion, gyda'r pwerau yn eich meddiant, ond eich bod yn methu â gwneud defnydd ymarferol da ohonynt.

Rwyf hefyd yn awyddus i dynnu sylw ar y dechrau at yr angen i'r sefydliad hwn, a'r Llywodraeth yma yn arbennig, i roi'r gorau i ganoli a cheisio rheoli pob agwedd ar bolisi cyhoeddus. Unwaith eto, byddwch yn cael y pŵer ar ôl mis Mawrth i rymuso dinas-ranbarthau, neu'n wir yr awdurdodau presennol, drwy drosglwyddo rheolaeth ar ardrethi busnes a chyllid iddynt. Mae'n werth archwilio hyn, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn gwneud hynny. Argymhellodd y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer adolygu ardrethi busnes y dylai'r awdurdodau lleol sy'n eu casglu gael cadw ardrethi busnes. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod hon yn broblem oherwydd:

'Mae'n torri'r cyswllt rhwng y refeniw a godir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru a faint o incwm y mae'n ei dderbyn.'

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I suspect the problem will be that this goes against the grain of a centralist Government, but I support the conclusion and urge you strongly to empower local authorities, which would be hugely incentivised by any devolution of business rates to them, with safeguards. Soon, cities like Bristol and Liverpool could have much stronger control over their business rates, with the Secretary of State for Communities and Local Government in England seeking to devolve power out to cities and regions—indeed, the revenue from much of it spent locally to encourage and support further growth in the local economies. They will be hugely incentivised to support business growth and, equally, growth in the moneys collected through business rates, while, at the same time, we will still debate what to do.

Members, I also want to take this opportunity to reaffirm the Welsh Conservatives' long-standing belief—it's been mentioned here already a couple of times from this side of the Chamber—that the current levels of small business rates relief are not adequate, and that this Government should abolish business rates for all businesses with a rateable value of under £12,000 per annum and provide tapered relief for small businesses with a rateable value of up to £15,000. It's an issue that goes down well with businesses when I speak to them, and, only just in the last week, I was speaking to businesses—Minister, you will know the people that I've been speaking to recently in the Mumbles area—talking about the need to raise the threshold and reduce the burden on their already stretched margins.

I hope, and I am sure, that Members on the Labour benches realise that business rates relief is one of the strongest tools at the Welsh Labour Government's disposal to get the economy in Wales moving. Given Wales's overreliance on the public sector, Labour Ministers should be doing more, I believe, to utilise this tool to encourage wealth creation and reduce unemployment.

So, in closing, it would be remiss, as a Conservative representative here of South Wales West, not to mention the Swansea business improvement district, and I know that there are several Members that represent the Swansea area that have an association with the Swansea BID. It works as a not-for-profit organisation together with the local authority and over 800 businesses in the city centre area. They work to raise the profile of the city and represent business needs and ideas to public sector leaders, and, with the ideas and enthusiasm from business leaders demonstrated through the Swansea BID and—due shortly—full power for the Welsh Government here in Cardiff bay, I believe it's time for a clear vision and delivery on it. Thank you.

Rwy'n amau mai'r broblem fydd ei fod yn mynd yn groes i'r graen i Lywodraeth ganoliaethol, ond rwy'n cefnogi'r casgliad ac yn eich annog yn gryf i rymuso awdurdodau lleol a fyddai'n cael eu cymell yn fawr gan unrhyw gamau i ddatganoli ardrethi busnes iddynt, gyda mesurau diogelwch. Cyn bo hir, gallai dinasoedd fel Bryste a Lerpwl gael rheolaeth lawer cryfach dros eu hardrethi busnes, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr yn ceisio datganoli pŵer i ddinasoedd a rhanbarthau—yn wir, gyda'r referniw o lawer ohono yn cael ei wario'n lleol er mwyn annog a chefnogi twf pellach yn yr economïau lleol. Byddai'n gymhelliaid enfawr iddynt gefnogi twf busnesau ac yr un modd, y cynnydd yn yr arian a gesglir drwy ardrethi busnes, tra byddwn ni ar yr un pryd yn parhau i drafod beth i'w wneud.

Aelodau, rwyf hefyd yn awyddus i fanteisio ar y cyfle hwn i ailddatgan cred hirsefydlog y Ceidwadwyr Cymreig—mae wedi cael sylw eisoes gwpl o weithiau ar yr ochr hon i'r Siambr—nad yw'r lefelau cyfredol o ryddhad ardrethi i fusnesau bach yn ddigonol ac y dylai'r Llywodraeth hon ddiddymu ardrethi busnes i bob busnes â gwerth ardrethol o lai na £12,000 y flwyddyn a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i fusnesau bach â gwerth ardrethol o hyd at £15,000. Mae'n fater sy'n apelio at fusnesau pan fyddaf yn siarad â hwy, a'r wythnos diwethaf, roeddwn yn siarad â busnesau—Weinidog, fe fyddwch yn adnabod y bobl y bûm yn siarad â hwy'n ddiweddar yn ardal y Mwmbwls—am yr angen i godi'r trothwy a lleihau'r baich ar eu henillion sydd eisoes dan bwysau.

Rwy'n gobeithio, ac rwy'n sicr, bod Aelodau ar y meinciau Llafur yn sylweddoli bod rhyddhad ardrethi busnes yn un o'r arfau cryfaf sydd ar gael i Lywodraeth Lafur Cymru er mwyn gwella'r economi yng Nghymru. O ystyried gorddibyniaeth Cymru ar y sector cyhoeddus, dylai Gweinidogion Llafur fod yn gwneud mwy, yn fy marn i, i ddefnyddio'r offeryn hwn i annog creu cyfoeth a lleihau diweithdra.

Felly, wrth gloi, byddai'n esgeulus ohonof, fel cynrychiolydd Ceidwadol gorllewin de Cymru, i beidio â sôn am ardal gwella busnes Abertawe, a gwn fod sawl Aelod sy'n cynrychioli ardal Abertawe â chysylltiad ag ardal gwella busnes Abertawe. Mae'n gweithio fel sefydliad dielw gyda'r awdurdod lleol a thros 800 o fusnesau yn ardal canol y ddinas. Maent yn gweithio i godi proffil y ddinas a chynrychioli anghenion a syniadau busnes i arweinyr y sector cyhoeddus. Gyda'r syniadau a'r brwdfrydedd a ddangoswyd gan arweinyr busnes mewn perthynas ag ardal gwella busnes Abertawe, a phwerau llawn i ddod i Lywodraeth Cymru yma ym mae Caerdydd, credaf ei bod yn bryd cael gweledigaeth eglur a'i bod yn cael ei chyflawni. Diolch yn fawr.

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Can I say that I welcome this debate today, and I'm very pleased to be supporting the motion? I have listened to the views of Members today, and the strong representation about the importance of small businesses.

I've been particularly taken by some of the points made in the debate—when William Graham outlined the issues around business rates, he also touched on a number of other key areas, I felt, in terms of the issues around business angels, which are actually very important for us, because there is insufficient help in terms of the Welsh economy; the very important links between HE and business, where we need to see HE forging more links with businesses, and more projects from HE actually developing into businesses, which actually might provide manufacturing opportunities in Wales, and, of course, the important training and skills agenda, which I am already discussing with my colleague, the skills Minister, about skills fit for purpose for business to ensure development in the economy.

Can I say to Eluned Parrott that she made a lot of valid points? Both she and Alun Davies are now radicals, in terms of what they want to do on business rates. We would like to be radical, but we have a very porous border with England, and, in terms of what we must do, in terms of the reform of business rates, we mustn't do anything to upset the balance or give any advantage elsewhere, and that is something I'm keenly aware of, especially as the Chancellor has got a review of business rates policy going on in England currently.

I think that Mohammad Asghar is right—there is a vital role for engagement with Government to look at the business rates issue, just like his interventions into property are, in terms of being able to help and assist business, so I am sure that he will agree with what I'm doing on the property agenda as well.

As Alun Davies outlined, we are talking about a very complex issue in terms of business rates; that is why we've taken so long in terms of the advice that we're taking, and I'm eagerly looking forward to Chris Sutton's report, because, when Byron Davies spoke, he spoke about our being a centralist Government, and not wanting to give away power. I am very concerned, if local authorities keep their business rates, about what might happen across Wales. If Cardiff keeps them, then what happens to areas where less business rates are coming in? We have to get a real, proper balance on some of these particular issues.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddweud fy mod yn croesawu'r ddadl hon heddiw, ac rwy'n falch iawn o gefnogi'r cynnig? Rwyf wedi gwrandao ar farn Aelodau heddiw, a'r sylwadau cryf am bwysigrwydd busnesau bach.

Gwnaeth rhai o'r pwyntiau a wnaed yn ystod y ddadl argraff arbennig arnaf—pan amlinellodd William Graham y materion sy'n ymwneud ag ardrethi busnes, cyffyrddodd hefyd â nifer o feysydd allweddol eraill, rwy'n teimlo, o ran y materion sy'n gysylltiedig ag angylion busnes, sy'n yn bwysig iawn i ni mewn gwirionedd, gan nad oes digon o gymorth yn cael ei roi i economi Cymru; y cysylltiadau pwysig iawn rhwng AU a busnes, lle y mae angen i ni weld addysg uwch yn meithrin mwy o gysylltiadau gyda busnesau, a mwy o brosiectau AU yn datblygu'n fusnesau, a allai ddarparu cyfleoedd gweithgynhyrchu yng Nghymru, ac wrth gwrs, yr agenda hyfforddiant a sgiliau bwysig yr wyf eisoes yn ei thrafod gyda fy nghydwethiwr, y Gweinidog Sgiliau, ynglŷn â sgiliau addas at y diben ar gyfer busnes er mwyn sicrhau bod yr economi yn cael ei datblygu.

A gaf fi ddweud wrth Eluned Parrott ei bod wedi gwneud llawer o bwyntiau dilys? Mae hi ac Alun Davies yn radicaliaid yn awr, o ran yr hyn y maent am ei wneud ar ardrethi busnes. Hoffem fod yn radical, ond mae gennym ffin hydraid iawn â Lloegr, ac o ran yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud, o ran diwygio ardrethi busnes, ni ddylem wneud dim i darfu ar gydbwysedd neu roi mantais yn rhywle arall, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n ymwybodol iawn ohono, yn enwedig gan fod y Canghellor yn cynnal adolygiad o bolisi ardrethi busnes yn Lloegr ar hyn o bryd.

Credaf fod Mohammad Asghar yn iawn—mae yna rôl allweddol i ymgysylltu â'r Llywodraeth er mwyn edrych ar fater ardrethi busnes, yn union fel y mae ei ymyriadau i eiddo yn ei wneud, o ran gallu helpu a chynorthwyo busnesau, felly rwy'n siŵr y bydd yn cytuno â'r hyn rwy'n ei wneud ar yr agenda eiddo hefyd.

Fel yr amlinellodd Alun Davies, rydym yn sôn am fater cymhleth iawn wrth siarad am ardrethi busnes; dyna pam rydym wedi cymryd cymaint o amser gyda'r cyngor rydym yn ei gael, ac rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at weld adroddiad Chris Sutton, oherwydd pan siaradodd Byron Davies, dywedodd ein bod yn Llywodraeth ganoliaethol, nad yw am ildio ei phŵer. Os yw awdurdodau lleol yn cadw eu hardrethi busnes, rwy'n bryderus iawn ynghylch yr hyn a allai ddigwydd ar draws Cymru. Os yw Caerdydd yn eu cadw, yna beth sy'n digwydd i ardaloedd lle y daw llai o ardrethi busnes i mewn? Mae'n rhaid inni gael cydbwysedd go iawn ar rai o'r materion penodol hyn.

I appreciate what Janet Finch-Saunders said, particularly about small shops and individuals running businesses, and she has, yet again, invited me to her group. I can assure you that I am excellent on retail therapy, and I already know a lot of shop owners, particularly within my own constituency, to get their views on a wide range of issues. I think it's important for us to recognise, as Joyce Watson indicated, what we've done already and what was working, but can I say that I do want to use our powers wisely, and I want to try to get a consensus about the use of our powers in terms of business rates? Because I think that we've got to have one, because we've got this border, and we've got to think about what we're going to do that's going to be of benefit. Business rates are one of the areas where we can definitely assess and help. Chris Sutton is getting on well with the job, and we'll be able to make some recommendations shortly. The panel is having its final meeting at the moment and, as soon as I am able—as I think I have indicated in the business statement—I will be making a statement here.

I want to see a regime that supports growth and investment as part of any changes. So I was, naturally, delighted by the Minister for finance's announcement yesterday that £34.9 million from the autumn statement is being set aside for non-domestic rate relief schemes in Wales, including £4 million to cap the increase in non-domestic rates bills to 2%, which Janet Finch-Saunders warmly welcomed. Restricting the increase in the multiplier ensures that Welsh businesses are not placed at a disadvantage compared to their counterparts in England. We are also at a critical point in the devolution of non-domestic rates to Wales in April, and stability will be important when this happens. The finance Minister has led negotiations with the Treasury to devolve these business rates. Some of the fine detail of the devolution settlement is still being confirmed. Therefore, any decision making at this stage needs to be subject to the final devolution settlement. On this basis, and the fact that I am awaiting the business rates panel's advice, I am not able to support all of the amendments on business rates today. However, I have listened carefully to the important points raised.

Given the work of the panel, which includes consideration of the issue of valuation, I am happy to accept amendment 3. I'm able to support amendment 4 on small business rate relief, subject to the final devolution settlement, as I have explained above, and I will update Members shortly. I'm unable to support amendment 5, as the business panel is considering a range of options for business rates relief following the devolution of business rates.

Turning to the other topic of discussion in the debate, we are committed to supporting research and development collaboration by building stronger links between our businesses, anchor companies, and further and higher education institutions. Our universities are already engaged, I think, in truly world-class research, and we have to continue with this, and we've made targeted investments in the capacity of our research base through Sêr Cymru. Our policy has encouraged our higher education institutions to collaborate, merge, et cetera, and we are now looking at future initiatives.

Rwy'n gwerthfawrogi'r hyn a ddywedodd Janet Finch-Saunders, yn enwedig ynglŷn â siopau bach ac unigolion sy'n rhedeg busnesau, ac unwaith eto, mae hi wedi fy ngwahodd at ei grŵp. Gallaf eich sicrhau fy mod yn ardderchog ar therapi manwerthu, ac rwyf eisoes yn adnabod llawer o berchnogion siopau, yn enwedig yn fy etholaeth fy hun, i gael eu barn ar ystod eang o faterion. Fel y nododd Joyce Watson, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod yr hyn rydym wedi ei wneud eisoes a beth oedd yn gweithio, ond gallaf ddweud fy mod yn dymuno defnyddio ein pwerau yn ddoeth, ac rwyf am geisio cael consensws ar y defnydd o'n pwerau o ran ardrethi busnes. Oherwydd rwy'n credu bod rhaid i ni gael un, am fod gennym y ffin hon, ac mae'n rhaid i ni feddwl am yr hyn rydym yn mynd i wneud sy'n mynd i fod o fudd. Mae ardrethi busnes yn un o'r meysydd lle y gallwn yn bendant asesu a chynorthwyo. Mae Chris Sutton yn bwrw rhagddi'n dda gyda'r gwaith a byddwn yn gallu gwneud rhai argymhellion cyn bo hir. Mae'r panel yn cael ei gyfarfod olaf ar hyn o bryd a chyn gynted ag y gallaf—fel y dynodais yn y datganiad busnes, rwy'n meddwl—byddaf yn gwneud datganiad yma.

Rwyf am weld cyfundrefn sy'n cefnogi twf a buddsoddiad fel rhan o unrhyw newidiadau. Felly, yn naturiol roeddwn wrth fy modd gyda chyhoeddiad y Gweinidog cyllid ddoe fod £34.9 miliwn o ddatganiad yr hydref yn cael ei neilltuo ar gyfer cynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig yng Nghymru, gan gynnwys £4 miliwn er mwyn capio'r cynnydd mewn biliau ardrethi annomestig ar 2%, sydd wedi cael croeso cynnes gan Janet Finch-Saunders. Mae cyfyngu ar y cynnydd yn y lluosydd yn sicrhau nad yw busnesau Cymru yn cael eu rhoi dan anfantais o gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr. Rydym hefyd ar bwynt allweddol yn y broses o ddatganoli ardrethi annomestig i Gymru ym mis Ebrill, a bydd sefydlogrwydd yn bwysig pan fydd hyn yn digwydd. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi arwain trafodaethau gyda'r Trysorlys er mwyn datganoli'r ardrethi busnes hyn. Mae rhai o fanylion y setliad datganoli yn dal i gael eu cadarnhau. Felly, mae angen i unrhyw benderfyniadau ar hyn o bryd fod yn amodol ar y setliad datganoli terfynol. Ar y sail hon, a'r ffaith fy mod yn aros am gyngor y panel ardrethi busnes, nid wyf yn gallu cefnogi pob un o'r gwelliannau ar ardrethi busnes heddiw. Fodd bynnag, rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y pwyntiau pwysig a godwyd.

O ystyried gwaith y panel, sy'n cynnwys ystyriaeth o fater prisio, rwy'n hapus i dderbyn gwelliant 3. Rwy'n gallu cefnogi gwelliant 4 ar ryddhad ardrethi i fusnesau bach, yn amodol ar y setliad datganoli terfynol, fel yr eglurais uchod, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau cyn bo hir. Ni allaf gefnogi gwelliant 5, gan fod y panel busnes yn ystyried ystod o opsiynau ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes ar ôl datganoli ardrethi busnes.

Gan droi at y pwnc trafod arall yn y ddadl, rydym wedi ymrwymo i gefnogi cydweithredu ar ymchwil a datblygu drwy adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng ein busnesau, cwmnïau angori, a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Rwy'n credu bod ein prifysgolion eisoes yn rhan o waith ymchwil gwirioneddol flaengar, ac mae'n rhaid i ni barhau â hyn. Rydym wedi targedu buddsoddiadau yng nghapasiti ein sylfaen ymchwil drwy Sêr Cymru. Mae ein polisiau wedi annog ein sefydliadau addysg uwch i gydweithio, uno, ac ati, ac rydym yn awr yn edrych ar fentrau yn y dyfodol.

There remain three other amendments. I'm happy to accept amendments 1 and 2 on the role of universities and entrepreneurial success in Cardiff. We recognise what a vital role they play, and we had a discussion earlier in my questions about how well we have done in terms of research and how well universities have done. Cardiff is at No. 16 in the latest list in creating start-ups, and that is exceptionally encouraging. However, I am unable to accept amendment 6, because, after the withdrawal of the Prince of Wales Innovation Scholarships project, the Government and Innovate UK collaborated to introduce the enhanced knowledge transfer partnerships in Wales. This is not a direct successor to the POWIS project. It does operate at a doctoral and a post-doctoral level, as POWIS did previously, however, in light of the further comments from the Liberal Democrats, I will take this back to my officials to see whether there's any more work that can be done within that area, and I take that back in good faith.

I would very much like to have given an answer to Rhun, because I think he made a very positive contribution in this debate, about the £15,000, but I think that we will have to wait for the recommendations of Chris Sutton on those particular areas. Can I say that this has been an excellent, constructive debate, because I think that we have all supported the devolution of business rates in this Chamber? We were delighted by the Chancellor's announcement; we only now have the detail for the finance Minister to sort out and we will then be able to go forward, but I will caution you: I would like to be very radical, I might want to change the system, but I am very conscious that I've got a porous border with England, and I don't want to disadvantage us by anything we do. What we've got to do is enhance our opportunities. I thank all contributors for what I think today has been extremely constructive in terms of the dialogue.

Erys tri gwelliant arall. Rwy'n hapus i dderbyn gwelliannau 1 a 2 ar rôl prifysgolion a llwyddiant entrepreneuriaidd yng Nghaerdydd. Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae, a chawsom drafodaeth yn gynharach yn fy nghwestiynau ynglŷn â pha mor dda rydym wedi gwneud o ran ymchwil a pha mor dda y mae'r prifysgolion wedi gwneud. Caerdydd yw Rhif 16 yn y rhestr ddiweddaraf ar greu busnesau newydd, ac mae hynny'n eithriadol o galonogol. Fodd bynnag, ni allaf dderbyn gwelliant 6, oherwydd, ar ôl y tynnu prosiect Ysgoloriaethau Arloesi Tywysog Cymru yn ôl, cydweithiodd y Llywodraeth ac Innovate UK i ehangu'r partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth yng Nghymru. Nid yw'n olynydd uniongyrchol i brosiect POWIS. Mae'n gweithredu ar lefel ddoethurol ac ôl-ddoethurol, fel y gwnâi POWIS yn flaenorol, ond o ystyried y sylwadau pellach gan y Democratiaid Rhyddfrydol, byddaf yn mynd â hyn yn ôl at fy swyddogion i weld a oes mwy o waith y gellir ei wneud yn y maes, ac rwy'n ei gymryd yn ôl gyda phob ewyllys da.

Hoffwn yn fawr iawn fod wedi rhoi ateb i Rhun, oherwydd credaf ei fod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn yn y ddadl hon am y £15,000, ond credaf y bydd yn rhaid i ni aros am argymhellion Chris Sutton ar y meysydd penodol hynny. A gaf fi ddweud bod hon wedi bod yn ddadl ardderchog ac adeiladol, oherwydd credaf ein bod i gyd wedi cefnogi datganoli ardrethi busnes yn y Siambr hon? Roeddem wrth ein bodd gyda chyhoeddiad y Canghellor; nid oedd gennym y manylion i'r Gweinidog cyllid roi trefn arnynt tan yn awr, a byddwn yn gallu symud ymlaen wedyn, ond rwy'n eich rhybuddio: hoffwn fod yn radical iawn, efallai y byddaf eisiau newid y system, ond rwy'n ymwybodol iawn fod gennyf ffin hydraidd â Lloegr, ac nid wyf am greu anfantais i ni yn sgil dim a wnawn. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yw gwella ein cyfleoedd. Diolch i'r holl gyfranwyr am ddeialog hynod o adeiladol heddiw yn fy marn i.

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r dadl.

I call on Nick Ramsay to reply to the debate.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:23 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I take the opportunity to thank everyone who has taken part in today's debate—a timely debate, as a number of Members have mentioned, coming as it does in the wake of the Chancellor's autumn statement, a statement that has given the Welsh Government now full control over business rates, over the multiplier, as was welcomed by Rhun ap Iorwerth, among others.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw—dadl amserol, fel y soniodd nifer o Aelodau, yn dod fel y mae yn sgil datganiad yr hydref gan y Canghellor, datganiad sydd bellach wedi rhoi rheolaeth lawn i Lywodraeth Cymru dros ardrethi busnes, dros y lluosydd, fel y'i croesawyd gan Rhun ap Iorwerth, ymhlith eraill.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

William Graham kicked off today's debate by alluding to—and I think I wrote this down right—the state as 'the benign father figure'. You looked in Carl Sargeant's direction as you said that; I'm not sure whether that was an accident, or not. You reminded us of the Labour Party's great leap forward when they abandoned the clause IV commitment to nationalising the means of production and distribution—I am sure that Members on that side would remember the clause better than me. [Interruption.] There you go.

Dechreuodd William Graham y ddadl heddiw drwy gyfeirio at—ac rwy'n credu fy mod wedi ysgrifennu hyn i lawr yn gywir—y wladwriaeth fel 'ffigwr tadol diniwed'. Fe edrychoch chi i gyfeiriad Carl Sargeant wrth ei ddweud; nid wyf yn siŵr ai damwain oedd hynny ai beidio. Fe atgoffoch chi ni am naid fawr ymlaen y Blaid Lafur ar ôl iddynt droi cefn ar ymrwymiad cymal IV i wladoli cyfryngau cynhyrchiant a dosbarthu—rwy'n sicr y byddai'r Aelodau ar yr ochr yna yn cofio'r cymal yn well na fi. [Torri ar draws.] Dyna ni.

The well-worn statistic of 99% or thereabouts of business in Wales that fall into the small business category has been spoken about a lot today, and underlines the importance of supporting this sector more than it's been supported in the past. Let's face it—this is all about making Wales more competitive; that is the bottom line here.

Eluned Parrott, you focused on business rates—well, once you found a mite that worked. You reminded us of the countless calls on the Enterprise and Business Committee to put pressure on the Welsh Government to reduce business rates here in Wales. How many witnesses, how many inquiries did we fulfil where there was that call for a need to reduce business rates in Wales and to make our businesses and our regime here more competitive? And let's face it—although they are not called such, business rates—non-domestic rates—actually work in many ways like a tax. We have other taxes devolved here and we need to make sure that business rates are as low as they can be, with as much relief given there as possible. You also mentioned the way that businesses impact on society and vice versa, and you alluded to the Horizon 2020 programme and the need to grow links between businesses, industry and higher education, particularly with the need to access the next round of European funding in the run-up to 2020.

Rhun ap Iorwerth, you reminded us of the—well, you spoke with great sense, in fact, in calling for business rate relief to be extended for more than a year. It always seems to me that there is an echo in this Chamber at the moment when Rhun ap Iorwerth gets up to speak, and I hear a number of Welsh Conservatives policies over there. Imitation, as they say, is the greatest form of flattery, so we are more than happy to build bridges where we possibly can. There are enough differences—we know that—so, when we get a bridge, we take advantage of that. It always does worry me when a politician starts talking about what is commonsensical to do, but I take the spirit of what you said. You spoke of the need for the private sector to thrive and to take 70,000 businesses out of paying those high business rates.

Mohammad Asghar spoke about the tight cashflow affecting businesses at the moment, and the difficult economic situation that they face. We know at the moment that, although lower inflation is to be welcomed, very low inflation does of course pose its own issues for businesses, with less potential for growth in their prices to cover their costs. So, that is also an area that needs to be looked at, and the need to make sure that their business rates are as low and competitive as they can be. Oscar, you also spoke about the need to fill empty shops and said that we have a higher incidence than we need to of empty shops in our high streets. I agree with that; what a waste, what a missed opportunity. And it has actually been this January a full three years since the Enterprise and Business Committee published our report on the inquiry into the regeneration of town centres. How many of those recommendations have been fulfilled? We look to the Minister to update us on exactly where we are with that at the moment.

Mae'r ystadegyn treuliedig 99% neu oddeutu hynny o fusnesau yng Nghymru sy'n perthyn i gategori busnesau bach wedi cael llawer o sylw heddiw, ac mae'n tanlinellu pwysigrwydd cefnogi'r sector hwn yn well nag y cafodd ei gefnogi yn y gorffennol. Gadewch i ni wynebu'r peth—mae hyn i gyd yn ymwneud â gwneud Cymru'n fwy cystadleuol; dyna yw diwedd y gân yn y fan hon.

Eluned Parrott, fe ganolbwyntioch chi ar gyfraddau busnes—wel, ar ôl i chi ddod o hyd i feic oedd yn gweithio. Fe atgoffoch ni am y galwadau di-ri ar y Pwyllgor Menter a Busnes i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ostwng ardrethi busnes yma yng Nghymru. Faint o dystion, faint o ymholiadau a gafwyd yn galw am yr angen i ostwng ardrethi busnes yng Nghymru ac i wneud ein busnesau a'n cyfundrefn yma yn fwy cystadleuol? A gadewch i ni wynebu'r peth, mae ardrethi busnes—er nad ydynt yn cael eu galw'n hynny—ardrethi annomestig—yn gweithio mewn sawl ffordd fel treth mewn gwirionedd. Mae gennym ardrethi eraill wedi'u datganoli yma ac mae angen inni wneud yn siŵr bod ardrethi busnes mor isel ag y gallant fod, gan roi cymaint o ryddhad arnynt ag y bo modd. Fe sonioch hefyd am y ffordd y mae busnesau'n effeithio ar gymdeithas ac fel arall, ac fe gyfeirioch at raglen Horizon 2020 a'r angen i feithrin cysylltiadau rhwng busnesau, diwydiant ac addysg uwch, yn enwedig gyda'r angen i gael mynediad at y rownd nesaf o gyllid Ewropeaidd yn y cyfnod hyd at 2020.

Rhun ap Iorwerth, fe atgoffoch ni am—wel, fe siaradoch yn synhwyrol iawn, mewn gwirionedd, wrth alw am ymestyn rhyddhad ardrethi busnes am fwy na blwyddyn. Mae bob amser yn ymddangos i mi fod yna adlais yn y Siambr hon ar hyn o bryd pan fydd Rhun ap Iorwerth yn codi i siarad, ac rwy'n clywed nifer o bolisiau'r Ceidwadwyr Cymreig draw fan acw. Fel y dywed yr hen air, dynwared yw'r ganmoliaeth orau, felly rydym yn fwy na pharod i adeiladu pontydd lle y gallwn. Mae digon o wahaniaethau—gwyddom hynny—felly, pan fydd gennym bont, rydym yn manteisio ar hynny. Mae bob amser yn fy mhoeni pan fydd gwleidydd yn dechrau siarad am yr hyn sy'n synnwyr cyffredin i'w wneud, ond rwy'n derbyn ysbryd yr hyn a ddywedoch. Fe sonioch am yr angen i'r sector preifat ffynnu a sicrhau na fydd angen i 70,000 o fusnesau dalu'r ardrethi busnes uchel hynny.

Siaradodd Mohammad Asghar am y llif arian tynn sy'n effeithio ar fusnesau ar hyn o bryd, a'r sefyllfa economaidd anodd sy'n eu hwynebu. Ar hyn o bryd, er bod chwyddiant is i'w groesawu, gwyddom fod chwyddiant isel iawn yn creu ei broblemau ei hun i fusnesau wrth gwrs, gyda llai o botensial ar gyfer cynnydd yn eu prisiau i dalu eu costau. Felly, mae hynny hefyd yn faes y mae angen ei ystyried, a'r angen i wneud yn siŵr bod eu hardrethi busnes mor isel ac mor gystadleuol ag y gallant fod. Oscar, fe siaradoch chi hefyd am yr angen i lenwi siopau gwag a bod gennym nifer uwch na'r angen o siopau gwag ar y stryd fawr. Rwy'n cytuno; am wastraff, am gyfle a gollwyd. Ac yn wir, y mis Ionawr hwn mae'n dair blynedd gyfan ers i'r Pwyllgor Menter a Busnes gyhoeddi ein hadroddiad ar yr ymchwiliad i adfywio canol trefi. Faint o'r argymhellion hynny sydd wedi eu cyflawni? Disgwyliwn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynglŷn â ble yn union rydym ni ar hynny ar hyn o bryd.

Alun Davies—I have to mention Alun Davies's comment; he was described by the Minister as a 'radical', shortly before you said you'd like to be more of a radical as well. Well, I would say you could learn from a few examples, but that's probably not the best thing to say. Alun Davies, you are now freed from the Promethean shackles of Government. [Laughter.] How we have missed your comments from the backbenches, Alun. Clearly, the Welsh Government did as well. You are now able, as you said, to err towards the good ideas put forward by Members from all parties of the Chamber—what immense reason has entered the Minister emeritus's vocabulary as we listened to you today. We are more than willing to talk to you as well, Alun, and to have a good cross-party debate. You made a very interesting point about the psychological capital of town centres, which I don't think any other Members mentioned, actually. That psychological capital—the image of empty shops—is something that has its own effect on the lives of people in our towns, and it's very important that they are seen as community hubs and places to be cherished and supported, and not just places where we might shop.

Janet Finch-Saunders, the clock is ticking—one of your favourite phrases. You spoke from your own experience as someone who has run a number of businesses yourself. You spoke of the importance of the Welsh Government following the UK in terms of keeping business rates low, and not just having the power to vary business rates here in Wales, but actually to do that in practice. It is one thing to say it but it actually has to be done as well, and, of course, you mentioned bureaucracy and how that can go out of control.

Joyce Watson: the train maintenance crew is waiting for the train after the train has left. Well, I suppose at least, under the coalition Government in the UK, the train does at least go now. I'm not quite sure why there's a need for maintenance if the train is working, but there we go. I liked the comment anyway, and you made some other good points. Byron Davies spoke of the Swansea bid—music to Julie James's ears—definitely a model worth copying and developing, and spreading good practice there across Wales.

If I can finally turn to the Minister's comments, yes, we need to have greater links between universities and businesses, and, yes, we do have that benefit now of having business rates devolved to Wales, but that's just where it starts. We need to make sure, as Janet Finch-Saunders said, that now there is a will, there is also the way and the means to do that.

I hope everyone will support this debate today. We will be supporting all the amendments apart from amendment 4, which would, well, delete our motion so we can't support that. We support the spirit in which this debate has been had, and it's time now to get on with the job of helping businesses in Wales, because they are going to provide the jobs, they're going to provide the future for our people, and they're going to provide the economic growth that means that, in the future, Wales can be a better place than it has been in the past.

Alun Davies—rhaid i mi sôn am sylw Alun Davies; cafodd ei ddisgrifio gan y Gweinidog fel 'radical', yn fuan cyn i chi ddweud y byddech chi'n hoffi bod yn fwy o radical hefyd. Wel, fe fyddwn i'n dweud y gallech ddysgu o rai enghreifftiau, ond mae'n debyg nad dyna'r peth gorau i'w ddweud. Alun Davies, rydych yn awr yn rhydd o hualau Prometheidd y Llywodraeth. [Chwerthin.] Cymaint rydym wedi gweld colli eich sylwadau o'r meinciau cefn, Alun. Yn amlwg, fe welodd Llywodraeth Cymru eu colli hefyd. Fel y dywedoch, gallwch ogwyddo yn awr tuag at y syniadau da a gyflwynir gan Aelodau o bob plaid yn y Siamb—y fath resymeg sydd wedi dod yn rhan o eirfa'r Gweinidog emeritws wrth i ni wrando arnoch heddiw. Roeddem yn fy na pharod i siarad â chi hefyd, Alun, ac i gael trafodaeth drawsbleidiol dda. Fe wnaethoch bwynt diddorol iawn am gyfalaf seicolegol canol trefi, nad wyf yn credu bod unrhyw Aelod arall wedi ei grybwyll, mewn gwirionedd. Mae'r cyfalaf seicolegol hwn—delwedd y siopau gwag—yn rhywbeth sydd â'i effaith ei hun ar fywydau pobl yn ein trefi, ac mae'n bwysig iawn eu bod yn cael eu gweld fel canolfannau a mannau cymunedol i'w coleddu a'u cefnogi, ac nid lleoedd y gallem fod yn siopa ynddynt yn unig.

Janet Finch-Saunders, mae'r cloc yn tician—un o'ch hoff ymadroddion. Fe siaradoch o'ch profiad eich hun fel rhywun sydd wedi rhedeg nifer o fusnesau eich hun. Fe gyfeirioch at ba mor bwysig yw hi i Lywodraeth Cymru ddilyn y DU o ran cadw ardrethi busnes yn isel, ac nid yw cael y pŵer i amrywio ardrethi busnes yng Nghymru yn bwysig heb inni fynd ati i wneud hynny'n ymarferol. Un peth yw ei ddweud, ond mae'n rhaid ei wneud hefyd yn wir, ac wrth gwrs, fe sonioch am fiwrocratiaeth a sut y gellid colli rheolaeth ar hynny.

Joyce Watson: mae criw cynnal a chadw'r trêrn yn aros am y trêrn ar ôl iddo adael yr orsaf. Wel, o dan Lywodraeth glymblaid y DU, mae'r trêrn yn rhedeg bellach o leiaf. Nid wyf yn hollol siŵr pam y mae angen gwaith cynnal a chadw os yw'r trêrn yn gweithio, ond dyna ni. Roeddwn yn hoffi'r sylw beth bynnag, ac fe wnaethoch rai pwyntiau da eraill. Siaradodd Byron Davies am gais Abertawe—hyfrydych i glustiau Julie James—model sy'n werth ei gopio a'i ddatblygu yn bendant, ac sy'n lledaenu arfer da ledled Cymru.

Os caf fi droi i orffen at sylwadau'r Gweinidog, oes, mae angen i ni gael mwy o gysylltiadau rhwng prifysgolion a busnesau, ac oes, mae gennym y fantais bellach o gael ardrethi busnes wedi eu datganoli i Gymru, ond dechrau'n unig yw hynny. Fel y dywedodd Janet Finch-Saunders, mae angen i ni wneud yn siŵr, gan fod yr ewyllys yno bellach, fod yna hefyd ddull a modd o wneud hynny.

Rwy'n gobeithio y bydd pawb yn cefnogi'r ddatl hon heddiw. Byddwn yn cefnogi'r holl welliannau ar wahân i welliant 4, a fyddai, wel, yn dileu ein cynnig felly ni allwn ei gefnogi. Rydym yn cefnogi'r ysbryd y cynhaliwyd y ddatl hon ynddo, ac mae'n bryd yn awr i ni fwrw ymlaen â'r gwaith o helpu busnesau yng Nghymru, oherwydd maent yn mynd i ddarparu swyddi, maent yn mynd i ddarparu dyfodol ar gyfer ein pobl, ac maent yn mynd i ddarparu twf economaidd sy'n golygu y gall Cymru yn y dyfodol fod yn lle gwell nag y bu yn y gorffennol.

- 17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. The question is whether the motion should be agreed without amendment. Are there any objections? [Objection.] I defer the voting on this item until voting time.
- Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.* *Voting deferred until voting time.*
- Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Voting time now follows. Mae amser pleidleisio'n dilyn.
- 17:31 **Cyfnod Pleidleisio** **Voting Time** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we'll vote first on the debate by individual Members under Standing Order 11.21. I call for a vote on the motion tabled in the names of Antoinette Sandbach, Bethan Jenkins and Jenny Rathbone. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 21; there voted against 1; there were 32 abstentions. Therefore, the motion is agreed. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar y ddadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enwau Antoinette Sandbach, Bethan Jenkins a Jenny Rathbone. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 21 o blaid; pleidleisiodd 1 yn erbyn; roedd 32 yn ymatal. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.
- Derbyniwyd y cynnig: O blaid 21, Yn erbyn 1, Ymatal 32.* *Motion agreed: For 21, Against 1, Abstain 32.*
- [Canlyniad y bleidlais ar gynnis NNDM5630.](#) [Result of the vote on motion NNDM5630.](#)
- 17:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We will now vote on the Welsh Conservatives' debate. I call for a vote on the motion tabled in the names of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will then vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49; there were 5 votes against. Therefore, the motion without amendment is agreed. Pleidleisiwn yn awr ar y ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei gytuno, byddwn wedyn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid; pleidleisiodd 5 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig heb ei ddiwygio wedi ei dderbyn.
- Derbyniwyd y cynnig: O blaid 49, Yn erbyn 5, Ymatal 0.* *Motion agreed: For 49, Against 5, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5665.](#) [Result of the vote on motion NDM5665.](#)
- 17:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I would ask those Members who are going to leave the Chamber to do so quickly and quietly. Gofynnaf i'r Aelodau sy'n mynd i adael y Siambr i wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.
- 17:33 **Dadl Fer: Pris Glo—Effaith Glo Brig yn Farteg a'r Goblygiadau I Gymunedau y tu hwnt I'r Ardal** **Short Debate: The Price of Coal—The Impact of Opencast in Varteg and the Implications for Communities Beyond** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Item 7 is the short debate, and I call on Lynne Neagle to speak to the topic she has chosen. Eitem 7 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Lynne Neagle i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am delighted to have the opportunity to lead this opening short debate of 2015, to raise a hugely important issue affecting my constituents in Torfaen, and to contribute to a wider conversation under way in communities across south Wales and beyond. As the First Minister's recent intervention into the Celtic Energy situation served to underline, there are searching questions being asked about the viability of opencast in twenty-first century Wales, and about the balance between society's need for coal and the impact on the people and communities directly affected.

I've agreed to give William Graham, Bethan Jenkins and William Powell a minute each of my time this evening, and I'm sure they will help frame this debate within that important wider context.

For me, the main focus has always been the situation facing residents in Varteg, who've spent years fighting plans that would see 250,000 tonnes of coal removed from a site less than 100m from people's homes, and a Welsh-medium primary school with over 300 pupils on its roll.

There's also a widespread and justifiable concern that the development could jeopardise Blaenavon's hard-won UNESCO world heritage status, threatening all it's delivered in terms of tourism, regeneration and boosting the local economy. Of course, incredibly, it's only just over a year since the Minister responding to this debate decisively rejected a previous application to opencast at Varteg. Don't get me wrong: he deserves great credit for that, but it almost beggars belief that those same plans, albeit with a few cosmetic changes, are now back on the table, having been rejected locally by councillors in Torfaen and then by the Welsh Government following a full planning inquiry.

Not only do people in Varteg now face even longer in a state of limbo, but the developers, Glamorgan Power, submitted their latest application just weeks before a deadline passed that would have seen them liable for the considerable costs that complex and controversial planning applications like this inevitably generate for local authorities. It strikes me as plain wrong that tens of thousands of pounds are again being spent on this perpetual game of planning cat and mouse at a time when Torfaen services that people really care about are being scaled back or cut altogether because of Westminster-imposed austerity. Perhaps most frustrating of all, as an Assembly, we worked hard over several years to shape and develop MTAN 2, planning guidance, specifically designed to protect communities in this kind of situation by ensuring a 500m buffer zone exists between opencast sites and nearby settlements, planning guidance that received unanimous backing from AMs after a vigorous public and political debate. We've even seen the First Minister say on a number of occasions that the MTAN must be adhered to and, I quote, that

'Planning guidance is there to be followed.'

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wrth fy modd yn cael y cyfle i arwain y ddadl fer agoriadol hon yn 2015, er mwyn codi mater hynod o bwysig sy'n effeithio ar fy etholwyr yn Nhorfaen, ac i gyfrannu at drafodaeth ehangach sydd ar y gweill mewn cymunedau ar draws de Cymru a thu hwnt. Fel y tanlinellodd ymyrraeth ddiweddar y Prif Weinidog yn sefyllfa Celtic Energy, mae cwestiynau manwl yn cael eu holi am hyfywedd glo brig yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain, ac am y cydbwysedd rhwng angen cymdeithas am lo a'r effaith ar y bobl a'r cymunedau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.

Rwyf wedi cytuno i roi munud yr un o fy amser heno i William Graham, Bethan Jenkins a William Powell, ac rwy'n siŵr y byddant yn helpu i fframio'r ddadl hon o fewn y cyddestun ehangach pwysig hwnnw.

I mi, y prif ffocws bob amser yw'r sefyllfa sy'n wynebu trigolion yn y Farteg, a dreuliodd flynyddoedd yn ymladd cynlluniau a fyddai'n arwain at symud 250,000 o dunelli o lo oddi ar safle lai na 100m i ffwrdd o gartrefi pobl, ac ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda thros 300 o ddisgyblion ar ei chofrestr.

Hefyd, mae pryder cyffredin y gellir ei gyfiawnhau y gallai'r datblygiad beryglu statws treftadaeth y byd UNESCO Blaenafon yr ymdrechwyd mor galed i'w ennill, gan fygwth y cyfan y mae wedi ei gynnig o ran twristiaeth, adfywio a hwb i'r economi leol. Wrth gwrs, yn anhygoel, ychydig dros flwyddyn yn unig sydd ers i'r Gweinidog sy'n ymateb i'r ddadl hon ddweud yn bendant ei fod yn gwrthod cais blaenorol i godi glo brig yn y Farteg. Peidiwch â'm camddeall: mae'n haeddu clod mawr am hynny, ond mae bron yn amhosibl credu bod yr union gynlluniau hynny, gyda rhai newidiadau arwynebol, yn awr yn ôl ar y bwrdd, ar ôl cael eu gwrthod yn lleol gan gynghorwyr yn Nhorfaen ac yna gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ymchwiliad cynllunio llawn.

Mae pobl y Farteg nid yn unig yn wynebu mwy o amser eto mewn limbo, ond cyflwynodd y datblygwyr, Glamorgan Power, eu cais diweddaraf wythnosau'n unig cyn i ddyddiad cau basio a fyddai wedi eu gwneud yn atebol am y costau sylweddol y mae ceisiadau cynllunio cymhleth a dadleuol o'r fath yn anochel yn eu cynhyrchu ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'n fy nharo i'n gwbl amhriodol fod degau o filoedd o bunnoedd unwaith eto'n cael ei wario ar y gêm cynllunio 'cath a llygoden' ddiddiwedd hon ar adeg pan fo gwasanaethau Torfaen y mae pobl wir yn poeni amdanynt yn cael eu torri'n ôl neu eu diddymu'n gyfan gwbl oherwydd mesurau caledi wedi'u gosod gan San Steffan. Efallai'n fwy rhwystredig na dim, fel Cynulliad, rydym wedi gweithio'n galed dros nifer o flynyddoedd i lunio a datblygu MTAN 2, canllawiau cynllunio a luniwyd yn benodol i amddiffyn cymunedau mewn sefyllfa o'r fath drwy sicrhau bod clustogfa 500m yn bodoli rhwng safleoedd glo brig ac aneddiadau cyfagos, canllawiau cynllunio a gafodd gefnogaeth unfrydol gan Aelodau'r Cynulliad ar ôl dadl wleidyddol gyhoeddus rymus. Rydym hyd yn oed wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud ar sawl achlysur fod yn rhaid glynu at y MTAN, ac rwy'n dyfynnu,

'Mae'r canllawiau cynllunio yno i'w dilyn.'

Yet, despite that very clear policy intention, in Torfaen, we were faced with a situation where the council, having rightly rejected the original Varteg application on the basis that it clearly breached MTAN 2, found the Planning Inspectorate inquiry disregarded that same guidance in drawing its conclusions.

Some of you will be aware of my involvement with the community-led 'Make the MTAN Law' petition, work that included giving oral evidence to the Petitions Committee, which is due to publish a formal report in the coming months that will be debated in Plenary. One of the responses we've had to those calls is that planning guidance is best dealt with outside of primary legislation, so that laws don't need amending every time a change in the guidance is required, but enshrining the 500m buffer zone in legislation has only ever been a means to an end. At the end of the day, what really matters is that we are not allowing yet another implementation gap, whereby policy developed in Cardiff bay is simply not being adhered to on the ground. And there's clearly a real problem with accountability here, too, given that the Planning Inspectorate wouldn't appear in front of the committee so that they could be properly scrutinised on their failure to implement the MTAN in the case of Varteg, a case widely regarded as a test case. After all, it's not like this was a borderline case. We're talking about people's homes and a school not just with 500m but, in fact, less than 100m from the proposed site boundary, and the developer completely failed to make the case that there are anything like the kind of exceptional circumstances MTAN 2 says can justify coal extraction less than 500m from a settlement, never mind within the 200m zone within which the bar should be set even higher, according to the guidance.

Moreover, there is simply no overriding economic case for the development. Of course, jobs are important, but not at any cost, and in reality we're talking about the creation of a handful of new, highly specialised permanent posts, most of which will, in all likelihood, be filled by experienced contractors from outside the area. We haven't even seen the kind of lavish promises of benefits that would have been offered in the past to win community backing for unpopular developments, with just the bare minimum on offer in terms of money for local projects. Yet the sheer proximity of nearby houses will inevitably leave residents facing really considerable daily disturbance and disruption in terms of dust and noise, noise that the developers themselves concede will often exceed levels normally considered acceptable.

The hugely detrimental impact this development could have on nearby Ysgol Bryn Onnen should not be underestimated, although it's currently a thriving school that's performing well academically. Having received representations from governors in the past, I know that a number of parents have said they would move their children from the school should the opencast go ahead. It's obvious that it could seriously affect their ability to attract new pupils in the future.

Eto i gyd, er gwaethaf y bwriad polisi dir iawn hwnnw, yn Nhorfaen, roeddem yn wynebu sefyllfa lle y gwelodd y cyngor, ar ôl gwrthod cais gwreiddiol y Farteg yn briodol ddigon ar y sail ei fod yn amlwg yn torri amodau MTAN 2, fod ymchwiliad yr Arolygiaeth Gynllunio wedi diystyru'r union ganllawiau hynny wrth ddod i'w gasgliadau.

Bydd rhai ohonoch yn ymwybodol o fy ngwaith gyda'r ddeiseb 'Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn Ddeddf' dan arweiniad y gymuned, gwaith a oedd yn cynnwys rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Deisebau, sydd i fod i gyhoeddi adroddiad ffurfiol yn y misoedd nesaf i'w drafod yn Cyfarfod Llawn. Un o'r ymatebion a gawsom i'r galwadau hynny yw mai'r ffordd orau i ymdrin â chanllawiau cynllunio yw oddi allan i ddeddfwriaeth sylfaenol, fel nad oes angen diwygio deddfau bob tro y bydd angen newid y canllawiau, ond o'r cychwyn, modd o gyrraedd y nod yn unig oedd cynnwys y glustogfa 500m yn y ddeddfwriaeth. Yn y pen draw, yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw nad ydym yn caniatáu bwlch gweithredu arall fyth, lle na chydymffurfir o gwbl ar lawr gwlad â pholis a ddatblygwyd ym mae Caerdydd. Ac mae'n amlwg fod problem go iawn ynghylch atebolrwydd yn hyn o beth hefyd o gofio na wnâ'r Arolygiaeth Gynllunio ymddangos o flaen y pwyllgor er mwyn cael ei chraffu'n briodol ar ei methiant i weithredu'r MTAN yn achos y Farteg, achos sy'n cael ei ystyried yn eang fel achos prawf. Wedi'r cyfan, nid yw fel pe bai hwn yn achos ffiniol. Rydym yn sôn am gartrefi pobl ac ysgol nid yn unig o fewn 500m, ond lai na 100m mewn gwirionedd o ffin y safle arfaethedig. Methodd y datblygwr yn llwyr â gwneud yr achos fod unrhyw beth tebyg i'r math o amgylchiadau eithriadol y mae MTAN 2 yn dweud y gallent gyfiawnhau cloddio am lo o fewn 500m i anheddiad, heb sôn am o fewn y parth 200m lle y dylid gosod y bar hyd yn oed yn uwch ar ei gyfer, yn ôl y canllawiau.

Ar ben hynny, yn syml, nid oes unrhyw achos economaidd hollbwysig dros y datblygiad. Wrth gwrs, mae swyddi'n bwysig, ond nid ar unrhyw gost, ac mewn gwirionedd rydym yn sôn am lond dwrn o swyddi newydd parhaol, arbenigol iawn y byddai'r rhan fwyaf ohonynt, yn ôl pob tebyg, yn cael eu llenwi gan gontractwyr profiadol o'r tu allan i'r ardal. Nid ydym hyd yn oed wedi gweld y math o addewidion hael o'r buddion a fyddai'n cael eu cynnig yn y gorffennol i ennill cefnogaeth y gymuned i ddatblygiadau amhoblogaidd, gyda chyn lleied o arian â phosibl ar gael tuag at brosiectau lleol. Eto, bydd agosrwydd tai cyfagos yn anochel yn gadael trigolion i wynebu aflonyddwch dyddiol gwirioneddol sylweddol o ran llwch a sŵn, sŵn y mae'r datblygwyr eu hunain yn cyfaddef y bydd yn uwch na lefelau sy'n cael eu hystyried yn dderbyniol fel arfer.

Ni ddylid bychanu'r effaith hynod o andwyol y gallai'r datblygiad hwn ei gael ar Ysgol Bryn Onnen gerllaw, er ei bod ar hyn o bryd yn ysgol ffyniannus sy'n cyflawni'n dda yn academaidd. Ar ôl cael sylwadau gan lywodraethwyr yn y gorffennol, gwn fod nifer o rieni wedi dweud y byddent yn symud eu plant o'r ysgol pe bai'r gwaith glo brig yn mynd rhagddo. Mae'n amlwg y gallai effeithio'n ddifrifol ar eu gallu i ddenu disgyblion newydd yn y dyfodol.

Some governors even believe they would have to move or close the school altogether, which is worrying when we know there are long-term pressures on Welsh-medium education in the region, and at the same time, relocation seems a remote possibility, given the current restrictions on capital funding—and anyway, would mean the local authority, once again, footing the bill for mitigating the wider consequences of this totally unwanted development.

We should also listen carefully to the concerns that have been expressed by residents in Blaenavon, who raise the opencast issue on a regular basis. They're alarmed that Glamorgan Power's plans would see 24 HGVs a day passing through Blaenavon's narrow streets to and from the opencast at Varteg—very genuine concerns, given those streets are already regularly congested.

Underlying that, there is a deeper feeling that allowing this development would send out the wrong message, flying in the face of the concerted long-term effort to promote Blaenavon as a tourist destination, risking everything that went into securing the world heritage status local people rightly see as fundamental to the area's future.

Comments from Torfaen's conservation officer within the council's scoping report on the latest application were worrying, in that they seemed to suggest a rather laissez-faire attitude from the developer in relation to historically significant industrial archaeology that exists on the Varteg site—archaeology that they describe as of international significance, and would be lost to future generations. Underlying all of this is an ever-present fear, given what's happened in other parts of the country, that, in the end, the developers will cut and run from their obligations to restore the land once the coal has been removed.

Question marks over the adequacy of the bond in relation to Varteg were raised by Welsh Government previously, and although the developers were forced to sit down with the council and hammer out a bilateral agreement, one only has to look at the massive hole in the ground that's been left at Margam to see the consequences of developers abandoning sites before restoration work has completed.

Of course, every site is different, but all these individual pieces of the puzzle show an industry facing some really fundamental questions, particularly when opencast operators in Wales seem wholly reliant on a business model that constantly needs new sites developed, simply to fund existing restoration obligations—a point I've seen David Rees and others make powerfully in the media recently.

Mae rhai llywodraethwyr hyd yn oed yn credu y byddai'n rhaid iddynt symud neu gau'r ysgol yn gyfan gwbl, sy'n peri pryder a ninnau'n gwybod fod pwysau hirdymor ar addysg cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth, ac ar yr un pryd, nid yw adleoli'n ymddangos yn bosibilrwydd cryf o ystyried y cyfyngiadau presennol ar gyllid cyfalaf—a beth bynnag, byddai'n golygu bod yr awdurdod lleol, unwaith eto, yn talu am liniaru canlyniadau ehangach y datblygiad hollol ddiangen hwn.

Dylem hefyd wrando'n ofalus ar y pryderon a fynegwyd gan drigolion ym Mlaenafon, sy'n codi mater glo brig yn rheolaidd. Maent wedi eu brawychu y byddai cynlluniau Glamorgan Power yn golygu bod 24 o gerbydau nwyddau trwm y dydd yn teithio drwy strydoedd cul Blaenafon i ac o'r gwaith glo brig yn y Farteg—pryderon dilys iawn, o ystyried bod y strydoedd hynny eisoes yn dioddef tagfeydd yn rheolaidd.

Wrth wraidd hynny, mae yna deimlad dyfnach y byddai caniatáu'r datblygiad hwn yn anfon y neges anghywir allan, gan hedfan yn wyneb yr ymdrech gydunol hirdymor i hyrwyddo Blaenafon fel cyrchfan i dwristiaid, a pheryglu popeth a aeth i mewn i'r gwaith o sicrhau statws treftadaeth y byd y mae pobl leol yn briodol ddigon yn ei ystyried yn hanfodol i ddyfodol yr ardal.

Roedd sylwadau gan swyddog cadwraeth Torfaen yn adroddiad cwmpasu'r cyngor ar y cais diweddaraf yn peri pryder, gan eu bod i'w gweld yn awgrymu agwedd braidd yn laissez-faire ar ran y datblygwr mewn perthynas ag archaeoleg ddiwydiannol hanesyddol arwyddocaol sy'n bodoli ar safle'r Farteg—archaeoleg y maent yn eu disgrifio fel un o arwyddocâd rhyngwladol, a byddai'n cael ei golli i genedlaethau'r dyfodol. Yn sail i hyn oll, mae'r ofn hollbresennol, o ystyried yr hyn sydd wedi digwydd mewn rhannau eraill o'r wlad, y bydd y datblygwyr yn y pen draw yn esgeuluso'u rhwymedigaethau i adfer y tir wedi i'r glo gael ei godi.

Codwyd cwestiynau ynglŷn â pha mor ddigonol yw'r bond mewn perthynas â'r Farteg gan Lywodraeth Cymru yn flaenorol, ac er bod y datblygwyr wedi cael eu gorfodi i drafod gyda'r cyngor a llunio cytundeb dwyochrog, nid oes ond angen edrych ar y twll enfawr yn y ddaear a adawyd ym Margam i weld canlyniadau datblygwyr yn rhoi'r gorau i safleoedd cyn cwblhau'r gwaith adfer.

Wrth gwrs, mae pob safle'n wahanol, ond mae'r holl ddarnau unigol hyn o'r pos yn dangos diwydiant yn wynebu rhai cwestiynau gwirioneddol sylfaenol, yn enwedig pan fo gweithredwyr glo brig yng Nghymru i'w gweld yn hollol ddibynnol ar fodel busnes sydd angen datblygu safleoedd newydd yn gyson, yn syml er mwyn ariannu rhwymedigaethau adfer presennol—pwynt y clywais David Rees ac eraill yn ei wneud yn rymus yn y cyfryngau yn ddiweddar.

While I said at the outset of this debate that my main aim was to highlight the situation in Varteg—and I'm very grateful to have had time to explore those issues in depth—there is a final wider call I want to make in drawing my contribution to a conclusion, because I believe we're now at a crossroads when it comes to opencast in Wales. On the one hand, we clearly need planning guidance that's fit for purpose and is backed up by the Planning Inspectorate, which we must be able to scrutinise and hold properly to account in this Assembly when they're not adhering to policies that we've developed and voted for. At the same time, the holes in the ground and scarred landscapes left in the wake of abandoned developments show there are huge issues when it comes to trust and accountability within the industry itself.

Even more fundamentally, there's a debate to be had as to whether land restoration is as much of a priority for communities as it has been in the past, and whether people are as willing as they perhaps once were to tolerate the inevitable disturbance and the disruption that goes hand in hand with opencast. In terms of the Welsh Government, there's also an argument that opencast does not fit well with the mantra of sustainable development that is supposed to be its driving principle.

Clearly, this isn't something we should rush; there are really important issues at stake here, but with events on the ground currently moving far more quickly than the politics, I believe what's needed now is a moratorium on all new opencast developments, as well as a pause for applications currently in the planning system, so that the Welsh Government has the breathing space they need to lead a strategic and wide-ranging review of the entire industry, a review that finally maps out a clear strategy and future direction for opencast and land reclamation in modern Wales. Thank you.

Er fy mod wedi dweud ar ddechrau'r ddadl hon mai fy mhrif nod oedd tynnu sylw at y sefyllfa yn y Farteg—ac rwy'n ddiolchgar iawn o fod wedi cael amser i edrych ar y materion hynny yn fanwl—rwyf am wneud un alwad derfynol wrth gloi fy nghyfraniad, oherwydd credaf ein bod bellach ar groesffordd mewn perthynas â glo brig yng Nghymru. Ar y naill law, mae'n amlwg ein bod angen canllawiau sy'n addas at y diben ac wedi eu cefnogi gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Rhaid i ni allu craffu ar yr Arolygiaeth Gynllunio a'i dwyn i gyfrif yn briodol yn y Cynulliad hwn os nad yw'n glynu at bolisiau a gynlluniwyd gennym ac y pleidleisiwyd o'u plaid yma. Ar yr un pryd, mae'r tyllau yn y ddaear a chreithiau ar dirweddau yn sgil datblygiadau yn dangos bod problemau mawr yn bodoli o ran gallu ymddiried yn y diwydiant a'i atebolrwydd.

Yn fwy sylfaenol hyd yn oed, mae dadl i'w chael ynglŷn ag a yw adfer tir yn gymaint o flaenoriaeth i gymunedau ag y bu yn y gorffennol, ac a yw pobl mor barod ag y buont unwaith efallai i oddef y tarfu a'r aflonyddu anochel sy'n mynd law yn llaw â glo brig. O ran Llywodraeth Cymru, mae dadl hefyd nad yw glo brig yn cyd-fynd yn dda â mantra datblygu cynaliadwy sydd i fod yn egwyddor allweddol.

Yn amlwg, nid yw hyn yn rhywbeth y dylem ei ruthro; mae materion pwysig iawn yn y fantol yma, ond gyda digwyddiadau ar lawr gwlad ar hyn o bryd yn symud yn llawer cyflymach na'r wleidyddiaeth, rwy'n credu mai'r hyn sydd ei angen yn awr yw moratoriwm ar bob datblygiad glo brig newydd, yn ogystal ag oedi ceisiadau sydd yn y system gynllunio ar hyn o bryd, er mwyn i Lywodraeth Cymru gael lle i anadlu fel sydd ei angen arnynt i arwain adolygiad strategol ac eang o'r diwydiant cyfan, adolygiad a fydd o'r diwedd yn mapio strategaeth glir a chyfeiriad i'r dyfodol ar gyfer glo brig ac adfer tir yn y Gymru fodern. Diolch yn fawr.

17:44

William Graham [Bywgraffiad Biography](#)

May I thank Lynne for bringing this debate today? I must pay tribute to her in the way that, since 2004, when this first raised its ugly head, she has consistently been against this proposal. The points that she made today are exactly those that anybody would wish to make against a development of this kind. I strongly support her plea for a moratorium. We had perhaps hoped that this might have been a test case because, at the end of the day, it was thrown out, and yet again they come back. It also raises the possibility of a major development, which is not wanted in the area—with 256,000 tonnes of coal to be extracted. We know in Wales of spoliation of our landscape for probably the wrong reasons over a long and consistent period. This generation can prevent that happening again. I strongly commend what she says on a moratorium. I very much hope this development will not occur.

A gaf fi ddiolch i Lynne am gyflwyno'r ddadl heddiw? Mae'n rhaid i mi dalu teyrnged iddi am y ffordd y mae hi wedi sefyll yn erbyn y cynnig hwn yn gyson ers 2004 pan gododd ei ben hyll am y tro cyntaf. Mae'r pwyntiau a wnaeth heddiw yn union yr un rhai ag y byddai unrhyw un yn dymuno eu gwneud erbyn datblygiad o'r math hwn. Rwy'n cefnogi ei hapêl am foratoriwm yn gadarn. Roeddem wedi gobeithio efallai y gallai hwn fod wedi bod yn achos prawf oherwydd, yn y pen draw, cafodd ei daflu allan, ac unwaith eto maent yn dod yn ôl. Mae hefyd yn codi'r posibilrwydd o ddatblygiad mawr, nad oes mo'i eisiau yn yr ardal—gyda 256,000 tonn o lo i'w godi. Yng Nghymru, gwyddom am ysbeilio ein tirwedd am y rhesymau anghywir yn ôl pob tebyg dros gyfnod maith a pharhaus. Gall y genhedlaeth hon atal hynny rhag digwydd eto. Cymeradwyaf yn gryf yr hyn y mae'n dweud ynglŷn â moratoriwm. Rwy'n gobeithio'n fawr iawn na fydd y datblygiad hwn yn digwydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:45

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you to Lynne Neagle for bringing this debate. I would most certainly welcome her call for a moratorium. For too long local authorities have been on the back foot from litigious and conniving opencast operators who run rings around a planning system, completely ill designed to provide the protection to communities that it is supposed to be there for. This situation requires leadership, Minister, so let's have a year of action against opencast mining from the Welsh Government. Next month will mark two years since I wrote to the Minister's predecessor asking him to call in the so-called 'lakes application' at East Pit. In Margam, we have a big hole in the ground. It's now nine months since the Welsh Government published its report into restoring opencast sites. This clear inaction only emboldens the kind of unscrupulous and sharp practices that we've seen at these pits. If the First Minister says that they have a moral obligation to restore, then practice what you preach and make sure that we see action this year, Minister. You will not be hearing the end of this conversation from me and other Assembly Members, and I'm sure you will be happy to work with us instead of us always having to ask for questions and never seem to keep coming from the Welsh Government. Let's make sure that these communities do not have to live with the spectre of opencast in their communities in the future.

Diolch i Lynne Neagle am gyflwyno'r ddadl. Byddwn yn sicr yn croesawu ei galwad am foratoriwm. Ers yn rhy hir, mae awdurdodau lleol ar ei hôl hi yn wyneb gweithredwyr glo brig cyfreithgar a chynllwyngar sy'n drech na system gynllunio hollol anaddas ar gyfer darparu'r amddiffyniad y mae hi yno i'w darparu i gymunedau. Mae'r sefyllfa hon yn galw am arweiniad, Weinidog, felly gadewch i ni gael blwyddyn o weithredu yn erbyn cloddio glo brig gan Lywodraeth Cymru. Y mis nesaf, bydd hi'n ddwy flynedd ers i mi ysgrifennu at ragflaenydd y Gweinidog yn gofyn iddo alw'r hyn sy'n cael ei alw'n 'gais y llynnoedd' yn East Pit i mewn. Ym Margam, mae gennym dwll mawr yn y ddaear. Mae'n naw mis bellach ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hadroddiad ar adfer safleoedd glo brig. Mae'r diffyg gweithredu amlwg hwn yn cryfhau'r math o arferion diegwyddor a chyfrwys a welsom yn y pyllau hyn. Os yw'r Prif Weinidog yn dweud bod ganddynt ddyletswydd foesol i adfer tir, yna gwnewch yr hyn rydych yn ei bregethu a gwneud yn siŵr ein bod yn gweld camau'n cael eu rhoi ar waith eleni, Weinidog. Ni fyddwch yn clywed diwedd y drafodaeth hon gennyf fi ac Aelodau eraill o'r Cynulliad, ac rwy'n siŵr y byddwch yn hapus i weithio gyda ni yn hytrach na'n bod ni'n gorfod gofyn cwestiynau am bethau o hyd heb eu bod byth i'w gweld yn dod gan Lywodraeth Cymru. Gadewch inni wneud yn siŵr nad oes yn rhaid i'r cymunedau hyn fyw gyda bwgan glo brig yn eu cymunedau yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:47

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank Lynne very much for bringing forward this important debate today, and I also pay tribute to her and the lead petitioner, Dr John Cox, for all the efforts and the dedication that they've committed to this. I attended demonstrations, along with colleagues within this Chamber, on this topic at Ystrad Mynach, on the steps of the Senedd, and indeed, as Lynne has said, I played my part within the deliberations of the Petitions Committee on this important matter. It is really vital that we see a consistency of approach in planning terms, particularly when it comes to technical advice notes. If a 500m buffer zone is recommended by MTAN, any decision to allow coal working to take place within that zone has to be very carefully and transparently justified. Our communities deserve no less.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Lynne am gyflwyno'r ddadl bwysig hon heddiw, ac rwyf hefyd yn rhoi teyrnged iddi hi a'r prif ddeisebydd, Dr John Cox, am eu holl ymdrechion a'r ymroddiad y maent wedi ei roi i hyn. Mynychais brotestiadau gyda chydweithwyr o'r Siambr ar y pwnc hwn yn Ystrad Mynach, ar risiau'r Senedd, ac yn wir, fel y dywedodd Lynne, rwyf wedi chwarae fy rhan yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Deisebau ar y mater pwysig hwn. Mae'n wirioneddol hanfodol ein bod yn gweld cysondeb o ran ein hymagwedd mewn perthynas â chynllunio, yn enwedig o ran nodiadau cyngor technegol. Os yw MTAN yn argymhell clustogfa o 500m, rhaid gallu cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ganiatáu gwaith glo yn y parth hwnnw yn ofalus ac yn dryloyw iawn. Nid yw ein cymunedau yn haeddu llai na hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:48

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Natural Resources to reply to the debate. Carl Sargeant.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ymateb i'r ddadl. Carl Sargeant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:48

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Thank you, Deputy Presiding Officer. Thank you for the opportunity to reply to this debate. I'd like to take this opportunity to thank Lynne Neagle personally for raising this important issue again. I know that opencast coal mining and the proposal at Varteg are very close to her heart and many others, and I commend her on that and the diligence on the matter that she pursues.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ddadl hon. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Lynne Neagle yn bersonol am godi'r mater pwysig hwn unwaith eto. Gwn fod cloddio glo brig a'r cynnig yn y Farteg yn agos iawn at ei chalon a llawer o bobl eraill, ac rwy'n ei chymeradwyo'r ar hynny a'i diwydrwydd ynghylch y mater y mae'n ei drafod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As learned Members will be aware, the Varteg site has a long planning history and is subject to a live planning application currently before Torfaen County Borough Council, which I have been asked to call in. Consequently, you will appreciate that I cannot comment on the merits of that application, or otherwise on the specific proposals, as there is a possibility that it may be called in and I may be called upon to make a decision in due course. However, having said that, what I can do this afternoon, Deputy Presiding Officer, is re-state the Government's planning policy contained in 'Minerals Planning Policy Wales' and in 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal'. These documents provide a framework for local planning authorities to manage coal resources through their local development plan, directing works away from sensitive locations, and ensuring that any environmental or community impacts are mitigated against.

I expect local planning authorities, through their LDPs, to further identify areas where coal reserves should not be worked and include the buffer zones around existing and proposed areas to ensure safeguarding of resources and communities. It is essential, therefore, that all LPAs have in place an adopted local development plan, and I will continue to monitor the adoption of plans across Wales to keep the pressure on the more recalcitrant authorities.

Key to the approach is the expectation that the planning system keeps the potential environmental, amenity and health impacts arising from coal operations within the acceptable limits. Local planning authorities, therefore, have a pivotal role in ensuring that planning applications are judged against clear local criteria set out in their local development plans.

I do not need to remind Members about the environmental legacy of coal working, which Members have reiterated here today, and on many occasions, such as David Rees in further, previous debates. In Wales, it's still with us in places today, despite a massive public sector land reclamation and restoration programme. It is essential that the planning system makes provision for the effective restoration of current and future coal workings, and I would remind any people seeking to take advantage of coal reserves in Wales that this is, and has to be, a priority for them, too.

Last year, I published a research report into the issues surrounding the risks associated with possible failure to restore opencast sites in south Wales. This work looked at the best practice across the world in securing effective site restoration and financial bonding. We must now seek to build on this to ensure that current and future generations are spared the worst excesses of blight and environmental impacts, as Members have raised here today.

I'm very grateful, having listened carefully to the Members' contributions here this afternoon, Deputy Presiding Officer, and, of course, we'll keep a weather eye on the operations across Wales—

Fel y bydd yr Aelodau dysgedig yn ymwybodol, mae hanes cynllunio hir i safle'r Farteg ac mae'n destun cais cynllunio sydd ar y gweill ar hyn o bryd gerbron Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ac rwyf wedi cael cais i'w alw i mewn. O ganlyniad, fe fyddwch yn gwerthfawrogi na allaf roi sylwadau ar rinweddau'r cais hwnnw, neu fel arall ar y cynigion penodol, gan fod posibilrwydd y gellir ei alw i mewn ac efallai y bydd galw arnaf i wneud penderfyniad maes o law. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, yr hyn y gallaf ei wneud y prynhawn yma, Ddirprwy Lywydd, yw ailddatgan polisi cynllunio'r Llywodraeth sydd i'w weld ym 'Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru' ac yn 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo'. Mae'r dogfennau hyn yn darparu fframwaith i awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer rheoli adnoddau glo drwy eu cynllun datblygu lleol, gan gyfeirio gwaith i ffwrdd o leoliadau sensitif, a sicrhau bod unrhyw effeithiau amgylcheddol neu gymunedol yn cael eu lliniaru.

Rwy'n disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol, drwy eu Cynlluniau Datblygu Lleol, i nodi meysydd lle na ddylid gweithio cronfeydd glo wrth gefn a chynnwys parthau clustogi o amgylch ardaloedd presennol ac arfaethedig er mwyn sicrhau bod adnoddau a chymunedau yn cael eu diogelu. Mae'n hanfodol, felly, fod cynllun datblygu lleol wedi'i fabwysiadu ac ar waith gan yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol, a byddaf yn parhau i fonitro'r broses o fabwysiadu cynlluniau ledled Cymru i gadw'r pwysau ar yr awdurdodau mwy ystyfnig.

Yn allweddol i'r dull gweithredu, mae disgwyliad y bydd y system gynllunio'n cadw'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd, amwynder ac iechyd sy'n codi o weithfeydd glo o fewn y terfynau derbyniol. Felly mae gan awdurdodau cynllunio lleol rôl ganolog yn y broses o sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn cael eu barnu yn erbyn meini prawf lleol clir a nodwyd yn eu cynlluniau datblygu lleol.

Nid oes angen imi atgoffa'r Aelodau am etifeddiaeth amgylcheddol gweithfeydd glo, fel yr ailadroddodd Aelodau yma heddiw, ac ar sawl achlysur, megis David Rees mewn trafodaethau blaenorol eraill. Yng Nghymru, mae'n dal i fod gyda ni mewn mannau heddiw, er gwaethaf rhaglen enfawr i adfer tir y sector cyhoeddus. Mae'n hanfodol i'r system gynllunio ddarparu ar gyfer adfer gweithfeydd glo'r presennol a'r dyfodol yn effeithiol, a byddwn yn atgoffa unrhyw un sy'n ceisio manteisio ar gronfeydd glo wrth gefn yng Nghymru fod hon o reidrwydd yn flaenoriaeth iddynt hwy hefyd.

Y llynedd, cyhoeddais adroddiad ymchwil ar y materion sy'n ymwneud â'r risgiau sy'n gysylltiedig â methiant posibl i adfer safleoedd glo brig yn ne Cymru. Edrychodd y gwaith ar arferion gorau ar draws y byd ar gyfer sicrhau bod safleoedd yn cael eu hadfer yn effeithiol ac ar fondiau ariannol. Rhaid i ni yn awr geisio adeiladu ar hyn er mwyn sicrhau nad yw cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn gorfod dioddef eithafion gwaethaf y malltod a'r effeithiau amgylcheddol, fel y mae'r Aelodau wedi ei grybwyll yma heddiw.

Rwy'n ddiolchgar iawn, ar ôl gwranddo'n ofalus ar gyfraniadau'r Aelodau yma y prynhawn yma, Ddirprwy Lywydd, ac wrth gwrs, byddwn yn cadw llygad manwl ar weithfeydd ledled Cymru—

17:51	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>Will you give way, Minister?</p>	<p>A wnewch chi ildio, Weinidog?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:51	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>[Continues.]—and we'll seek to improve and work to improve the MTAN and 'Planning Policy Wales' approaches.</p>	<p>[Yn parhau.]—a byddwn yn ceisio gwella a gweithio i wella'r MTAN a dulliau o weithredu 'Polisi Cynllunio Cymru'.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:51	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Are you giving way?</p>	<p>A ydych yn ildio?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:51	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I will give way, finally. I was finishing, but I will give way.</p>	<p>Fe ildiaf, i gloi. Roeddwn i'n gorffen, ond fe ildiaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:51	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>I just wanted to understand what you're going to be doing with that particular report, because I've written to you a few times now with quite a lot of recommendations. So, it would be very useful to understand where you're taking that work.</p>	<p>Roeddwn i ond eisiau deall beth rydych yn mynd i'w wneud â'r adroddiad penodol hwnnw, gan fy mod wedi ysgrifennu atoch fwy nag unwaith yn awr gyda chryn dipyn o argymhellion. Felly, byddai'n ddefnyddiol iawn deall i ble rydych chi'n mynd â'r gwaith hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:52	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, we have given some consideration to the report that we commissioned, and what's really important is that we consider that in terms of the policy and planning policy that we have in place and future opportunities to amend that. I am looking, with my team, at MTAN 2 specifically to see what further work we can do, to give confidence to communities and Members across Wales that we are giving the right guidance out for local planning authorities to consider when applications come into their authorities. But, it's still high on our agenda to make sure that we can protect our communities as best we possibly can.</p>	<p>Wel, rydym wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r adroddiad a gomisiynwyd gennym, a'r hyn sydd wir yn bwysig yw ein bod yn ystyried hynny o ran y polisiau a'r polisi cynllunio sydd gennym ar waith a chyfleoedd yn y dyfodol i'w ddiwygio. Rwy'n edrych, gyda fy nhîm, ar MTAN 2 yn benodol i weld pa waith pellach y gallwn ei wneud, i roi hyder i gymunedau ac Aelodau ledled Cymru ein bod yn rhoi'r arweiniad cywir i'n hawdurdodau cynllunio lleol ei ystyried wrth i geisiadau gael eu cyflwyno iddynt. Ond mae'n dal i fod yn uchel ar ein hagenda i wneud yn siŵr ein bod yn gallu amddiffyn ein cymunedau hyd eithaf ein gallu.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:52	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.</p> <p><i>Daeth y cyfarfod i ben am 17:52.</i></p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.</p> <p><i>The meeting ended at 17:52.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>